CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

# Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*
Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

*Golygydd y Gyfres*
Ann Parry Owen, BA, PHD

*Cymrodyr Ymchwil*
R. Iestyn Daniel, BA, PHD
Dylan Foster Evans, BA
Rhiannon Ifans, BA, PHD

*Golygyddion Ymgynghorol*
Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,
MA, BD, DLITT, DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA
Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, FBA

*Bwrdd Golygyddol*
Gareth A. Bevan, MA
Dafydd H. Evans, BA, DPHIL
Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD
A. Cynfael Lake, MA, PHD
Peredur Lynch, BA, PHD

*Swyddog Golygyddol*
Glenys Howells, MA, ALA

# GWAITH
# LLYWELYN BRYDYDD HODDNANT, DAFYDD AP GWILYM, HILLYN AC ERAILL

golygwyd gan

ANN PARRY OWEN

ynghyd â dwy awdl gan Lywelyn Ddu ab y Pastard

golygwyd gan

DYLAN FOSTER EVANS

ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
1996

ⓗ Prifysgol Cymru ©, 1996.
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded CC BY-NC-SA 4.0.

Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 39 4

Diolchir i'r Academi Brydeinig, Ymddiriedolaeth Leverhulme ac Ymddiriedolaeth L.J. Skaggs a Mary C. Skaggs am bob cymorth i'r prosiect hwn.

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

# *Dull y golygu*

Prif ffynhonnell yr holl gerddi a argreffir isod, ac eithrio cerdd 19, yw Llawysgrif Hendregadredd, a dyma ffynhonnell yr holl gopïau diweddarach o'r cerddi hyn, ac felly ni ddangosir darlleniadau amrywiol ohonynt. Os diwygir darlleniad yn nhestun y llawysgrif honno, dangosir y darlleniad gwreiddiol ar waelod y testun. Mae testun cerddi 4, 12 ac 17 yn anghyflawn ac argreffir testun diplomatig mewn atodiad ar ddiwedd y cerddi priodol. Prif ffynhonnell cerdd 19 yw Llyfr Coch Hergest, ac unwaith eto, mae'r holl destunau eraill o'r gerdd yn tarddu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw, ac felly ni ddangosir darlleniadau amrywiol ohonynt.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG$^3$ xlvi); er enghraifft, diweddarwyd -*aw*-, -*aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac -*ei*-, -*ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd geiriau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no*(*g*), *gwedy*, *uddun* (sef 'iddynt'), *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Yn y Mynegai ar ddiwedd gwaith pob bardd rhestrir pob gair a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'); rhestrir yma hefyd rai geiriau dieithr, yn enwedig os nad ydynt yn ymddangos yn y *Geiriadur Mawr*, a hefyd eiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r ystyr a roddir ar eu cyfer yno. Rhoddir llythyren fechan i bob enw cyffredin, er bod rhai enwau â phriflythyren yn y testun pan fônt yn cyfeirio at Dduw, Crist neu'r Drindod. Mae cerddi 8–17 isod yn gerddi dienw, a rhoddir un Mynegai iddynt ar ddiwedd nodiadau cerdd 17.

# *Diolchiadau*

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygydd a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Adran y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; Yr Athro J. Beverley Smith a Dr Huw Meirion Edwards o Brifysgol Cymru Aberystwyth; Mr Daniel Huws, Dr N.G. Costigan (Bosco) a Dr R. Bromwich.

# *Cynnwys*


*Tud.*

DULL Y GOLYGU ........................................ v
DIOLCHIADAU ........................................ vi
BYRFODDAU
    Llyfryddol ........................................ ix
    Termau a geiriau ........................................ xvii
RHAGYMADRODD ........................................ 1

GWAITH LLYWELYN BRYDYDD HODDNANT
    RHAGYMADRODD ........................................ 19
    TESTUN AC ARALLEIRIAD
        1. Moliant Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron ........................................ 23
        2. Moliant Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron ........................................ 26
        3. Moliant Ellylw ferch Maredudd o Drefynor ........................................ 28
    NODIADAU ........................................ 33
    MYNEGAI ........................................ 45
    Enwau personol ........................................ 47
    Enwau lleoedd ........................................ 47

ENGLYNION DAFYDD AP GWILYM I'R GROG O GAER
    RHAGYMADRODD ........................................ 51
    TESTUN AC ARALLEIRIAD
        4. I'r grog o Gaer ........................................ 55
    NODIADAU ........................................ 67
    MYNEGAI ........................................ 79
    Enwau personol ........................................ 83
    Enwau lleoedd ........................................ 83
    ATODIAD (testun diplomatig) ........................................ 85

GWAITH HILLYN
    RHAGYMADRODD ........................................ 95
    TESTUN AC ARALLEIRIAD
        5. Moliant Ieuan Llwyd o Lyn Aeron ........................................ 101

6. Dathlu codi tŷ Ieuan Llwyd ....................104
7. Moliant Ieuan Llwyd o Lyn Aeron ....................105
NODIADAU ....................109
MYNEGAI ....................117
Enwau personol ....................119
Enwau lleoedd ....................119

CERDDI DIENW
TESTUN, ARALLEIRIAD A NODIADAU
8. Moliant Tomas ap Rhotbert ....................123
9. Moliant Rhys ap Gruffudd ....................134
10. Moliant tri mab ....................138
11. I Fair ....................141
12. Prydferthwch Gweirfyl a Gwenllïan ....................144
13. I Fefeddus ....................149
14. *Ban ymhoffwyf* … ....................152
15. Dau bos ....................154
16. Campau Ieuan ....................158
17. Cwyn mynach o fynachlog Cymer ....................160
MYNEGAI ....................164
Enwau personol ....................167
Enwau lleoedd ....................167

GWAITH LLYWELYN DDU AB Y PASTARD
RHAGYMADRODD ....................171
TESTUN AC ARALLEIRIAD
18. Marwnad teulu Trefynor ....................175
19. Dychan i Fadog ap Hywel a'i osgordd ....................178
NODIADAU ....................189
MYNEGAI ....................207
Enwau personol ....................212
Enwau lleoedd ....................212

LLAWYSGRIFAU ....................213
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF ....................215
MYNEGAI I'R BEIRDD ....................217
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU ....................219

# *Byrfoddau*

## *Llyfryddol*

| | |
|---|---|
| ACDC | G.J. Ballinger, 'Astudiaeth o waith Casnodyn, Dafydd y Coed ac eraill yng nghyd-destun barddoniaeth y 14ddeg ganrif' (M.Phil., Cymru [Aberystwyth], 1991) |
| Arch Camb | *Archaeologia Cambrensis*, 1846– |
| Arm P | *Armes Prydein o Lyfr Taliesin*, gyda rhagymadrodd a nodiadau gan Ifor Williams (Caerdydd, 1955) |
| B | *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–94 |
| P.C. Bartrum: WG1 | *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974) |
| BDe | *Buched Dewi*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1965) |
| BDG | *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, gol. Owen Jones a William Owen (Llundain, 1789) |
| Bedo Aerddrem, &c.: Gw | Robert Stephen, 'The poetical works of Bedo Aerddrem, Bedo Brwynllys and Bedo Phylip Bach' (M.A., Cymru, 1907) |
| Beirn | *Y Beirniad*, gol. J. Morris Jones, 1911–20 |
| BL Add | Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain |
| Bl BGCC | *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. M. Haycock (Llandybïe, 1994) |
| Bl B XIV | *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybïe, 1989) |
| BT | *Brut y Tywysogyon Peniarth Ms. 20*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1941) |
| ByCy | *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953) |

| | |
|---|---|
| CA | *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938) |
| CAMBM | *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum in the years 1841–1845* (London, 1850) |
| Card | Llawysgrif yn Llyfrgell Sir De Morgannwg, Caerdydd |
| CLlH | *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935) |
| CM | Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| CMCS | *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–1993; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993– |
| CO | *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans (Caerdydd, 1988) |
| $CO^2$ | *Culhwch and Olwen*, ed. Rachel Bromwich and D. Simon Evans (Cardiff, 1992) |
| CT | *Canu Taliesin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1960) |
| Cy | *Y Cymmrodor*, *The Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1877–1951 |
| Cylchg HC | *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1960– |
| Cylchg LlGC | *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939– |
| ChO | *Chwedleu Odo*, gol. Ifor Williams (Wrecsam, 1926) |
| Th.M. Chotzen: Rech | Th.M. Chotzen: *Recherches sur la poésie de Dafydd ab Gwilym* (Amsterdam, 1927) |
| D | *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632) |
| R.R. Davies: CCC | R.R. Davies, *Conquest, Coexistence, and Change*: *Wales 1063–1415* (Oxford and Cardiff, 1987) |
| DGG | *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a T. Roberts (Bangor, 1914) |

| | |
|---|---|
| DGG[2] | *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a T. Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935) |
| DrOC | *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (Caerdydd, 1986) |
| L. Dwnn: HV | *Heraldic Visitations of Wales*, gol. S.R. Meyrick (Llandovery, 1846) |
| EANC | R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938) |
| EEW | T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923) |
| Études | *Études celtiques*, 1936– |
| EWGP | *Early Welsh Gnomic Poems*, ed. K. Jackson (Cardiff, 1935) |
| EWGT | *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966) |
| EWSP | *Early Welsh Saga Poetry*, ed. Jenny Rowland (Cambridge, 1990) |
| G | *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63) |
| GBDd | *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994) |
| GBF | *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian Andrews *et al*. (Caerdydd, 1996) |
| GCBM i | *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991) |
| GCBM ii | *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995) |
| GDB | *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al*. (Caerdydd, 1995) |
| GDG | *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952) |

| | |
|---|---|
| GDG[2] | *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (ail arg., Caerdydd, 1963) |
| GDG[3] | *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979) |
| GGDT | *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur*, *Gwilym Ddu o Arfon*, *Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al*. (Aberystwyth, 1995) |
| GGH | *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990) |
| GGl[2] | *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961) |
| GHD | *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995) |
| GIG | *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988) |
| GLD | *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994) |
| GLGC | *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. D. Johnston (Caerdydd, 1995) |
| GLlF | *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. K.A. Bramley *et al*. (Caerdydd, 1994) |
| GLlLl | *Gwaith Llywarch ap Llywelyn* '*Prydydd y Moch*', gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989) |
| GMB | *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al*. (Caerdydd, 1994) |
| GMW | D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964) |
| GMWL | Timothy Lewis, *A Glossary of Mediaeval Welsh Law* (Manchester, 1913) |
| GO | *L'œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1) |
| GOLlM | *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*, gol. E. Rolant (Caerdydd, 1984) |

| | |
|---|---|
| GP | *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934) |
| GPC | *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950– ) |
| R.A. Griffiths: PW i | R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages*: *i. South Wales 1277-1536* (Cardiff, 1972) |
| GSOG | D.G. Williams, 'Testun beirniadol ac astudiaeth o gerddi Syr Owain ap Gwilym' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1962) |
| GSRh | *Gwaith Sefnyn*, *Rhisierdyn*, *Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995) |
| H | *Llawysgrif Hendregadredd*, gol. J. Morris-Jones a T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1933) |
| HG Cref | *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1931) |
| HGK | *Historia Gruffud vab Kenan*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1977) |
| HMNLW | *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943– ) |
| IGE[2] | *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. H. Lewis, T. Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937) |
| J | Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen |
| JWBS | *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 1910– |
| L&P | H. Lewis & H. Pedersen, *A Concise Comparative Celtic Grammar* (Göttingen, 1937) |
| LEIA | J. Vendryes *et al.*, *Lexiwue étymologiques de l'irlandais ancien* (Paris & Dublin, 1959– ) |
| LL | *The Text of the Book of Llan Dâv*, ed. J. Gwenogvryn Evans & John Rhys (Oxford, 1893) |
| LlCy | *Llên Cymru*, 1950– |

| | |
|---|---|
| LlDC | *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982) |
| LlGC | Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| J.E. Lloyd: HW[3] | J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939) |
| Llst | Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| MA[2] | *The Myvyrian Archaiology of Wales* (second ed., Denbigh, 1870) |
| MCF | Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (rhoddir y dyddiad y codwyd yr wybodaeth mewn cromfachau) |
| MED | *Middle English Dictionary* (Michigan, 1963– ) |
| J. Morris-Jones: CD | John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925) |
| Mos | Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| ODCC[2] | *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross (second ed., London, 1958) |
| OED[2] | *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989) |
| G. Owen: DP | *The Description of Penbrokshire by George Owen*, ed. Henry Owen (London, 1892–1936) |
| Pant | Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| PBA | *Proceedings of the British Academy*, 1903– |
| Pen | Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| PKM | *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930) |
| P Tal | *The Poems of Taliesin*, ed. Ifor Williams, English version by J.E. Caerwyn Williams (Dublin, 1968) |

R — *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)

RB — *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. J. Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)

RCAHM (Carmarthenshire) — *The Royal Commission on Ancient and Historical Monuments in Wales and Monmouthshire*: *Carmarthenshire* (1917)

RWM — *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910)

SC — *Studia Celtica*, 1966–

T — *The Book of Taliesin*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1910)

TA — *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)

THSC — *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–

TLlM — G.J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948)

Treigladau — T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)

TW — Geiriadur Syr Thomas Wiliems, *Thesaurus Linguæ Latinæ et Cambrobritannicæ* yn Pen 228

TYP² — *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)

WATU — Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)

WCD — P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary*: *People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)

WG — J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)

I. Williams: ELl — Ifor Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945)

WLW — *The Welsh Law of Women*, ed. Dafydd Jenkins and Morfydd E. Owen (Cardiff, 1980)

| | |
|---|---|
| WM | *The White Book Mabinogion*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Pwllheli, 1907; adarg. Caerdydd, 1973) |
| W Surnames | T.J. Morgan and Prys Morgan, *Welsh Surnames* (Cardiff, 1985) |
| YB | *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965– ) |
| YEPWC | *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal*, gol. G.A. Williams (Caerdydd, 1986) |
| YMTh | *Ymddiddan Myrddin a Thaliesin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1951) |
| ZCP | *Zeitschrift für celtische Philologie*, 1896– |

## *Termau a geiriau*

| | |
|---|---|
| a. | ansoddair, -eiriol |
| *a.* | *ante* |
| adf. | adferf |
| amhff. | amherffaith |
| amhrs. | amhersonol |
| anh. | anhysbys |
| ardd. | arddodiad, -iaid |
| arg. | argraffiad |
| *art.cit.* | *articulo citato* |
| b. | benywaidd |
| ba. | berf anghyflawn |
| be. | berfenw |
| bf. (f.) | berf, -au |
| *c.* | *circa* |
| c. (g.) | canrif |
| C. | Canol |
| cf. | cymharer |
| Clt. | Celteg, Celtaidd |
| Cym. | Cymraeg |
| cys. | cysylltair, cysylltiad |
| d.g. | dan y gair |
| dib. | dibynnol |
| dyf. | dyfodol |
| e. | enw |
| eb. | enw benywaidd |
| e.c. | enw cyffredin |
| ed. | *edited by*, *edition* |
| e.e. | er enghraifft |
| eg. | enw gwrywaidd |
| e.p. | enw priod |
| *ex inf.* | *ex informatione* |
| f. | ffolio |
| *fl.* | *floruit* |
| ff. | ffolios |
| g. | (c.) canrif |
| g. | gwrywaidd |
| gn. | geiryn |
| gol. | golygydd, golygwyd gan |
| grb. | gorberffaith |
| grch. | gorchmynnol |
| grff. | gorffennol |
| gthg. | gwrthgyferbynier, -iol |
| gw. | gweler |
| Gwydd. | Gwyddeleg |
| H. | Hen |
| *ib.* | *ibidem* |
| *id.* | *idem* |
| *l.c.* | *loco citato* |
| ll. | lluosog; llinell |
| Llad. | Lladin |
| llau. | llinellau |
| llsgr. | llawysgrif |
| llsgrau. | llawysgrifau |
| m. | mewnol |
| myn. | mynegol |
| n. | nodyn |
| neg. | negydd, -ol |
| *ob.* | *obiit* |
| *op.cit.* | *opere citato* |
| pres. | presennol |
| prff. | perffaith |
| prs. | person, -ol |
| pth. | perthynol |
| r | *recto* |
| rh. | rhagenw, -ol |
| S. | Saesneg |
| *sc.* | *scilicet* |
| *s.n.* | *sub nomine* |
| td. | tudalen |
| un. | unigol |
| v | *verso* |
| vols. | *volumes* |

# *Rhagymadrodd*

Llawysgrif Hendregadredd, LlGC 6680B, yn sicr ddigon, yw'r llawysgrif bwysicaf o safbwynt barddoniaeth Beirdd y Tywysogion; dyma lle ceir y casgliad cynnar cyflawnaf o'u gwaith sydd wedi goroesi. Mae'n llawysgrif gymhleth a cheir ynddi dair haen o weithgarwch, yn ôl dadansoddiad Mr Daniel Huws ohoni.[1] Perthyn yr haen gyntaf—y bwriadwyd iddi fod yn gasgliad trefnus o waith Beirdd y Tywysogion hyd 1282—i un llaw a elwir ganddo'n llaw *alpha*; credir mai ym mynachlog Ystrad-fflur, tua 1300, yr oedd y copïydd hwn yn gweithio. Yno hefyd, *c*. 1300–25, yr ychwanegodd pedair ar bymtheg o lawiau gwahanol gerddi pellach o gyfnod Beirdd y Tywysogion at y casgliad: dyma sylwedd yr ail haen. Gwahanol iawn yw sylwedd y drydedd haen a drafodir yn benodol yn y gyfrol hon, ac awgrymodd Mr Daniel Huws mai'r ddolen gyswllt amlwg rhwng nifer o'r cerddi ynddi yw Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffudd Foel a flodeuai yng Nglyn Aeron yng Ngheredigion yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg.[2] Ychwanegodd ymhellach: 'Y peth pwysig i'w nodi ynghylch y cerddi hyn i Ieuan a'i deulu ydyw eu bod wedi'u hychwanegu ar wahanol adegau gan amryw o lawiau. Dyma nodwedd ddigamsyniol "llyfr llys". Rhydd achos *prima facie* dros gredu mai "llyfr llys" Ieuan Llwyd ap Ieuan ap Gruffudd Foel oedd H[endregadredd]'.[3]

*Cynnwys haen III*

Atgynhyrchir isod y tabl a gyhoeddodd Mr Daniel Huws, sy'n dangos cynnyrch y drydedd haen hon—ychwanegais y golofn gyntaf ar gyfer y gyfrol hon.[4]

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | a | textura | 29ᵛ | [*O*]*ian aparchellan* ... | H 73–4 |
| 2 | | | 31 | [*U*]*n post prif* ... | H 80–1 |
| 3 | | | 88ᵛ | *Awdl i* [*T*]*homas vab rotbert* ... | H 350 |
| 4 | b | textura | 31ᵛ | *ny bore ban gyfodwch* ... | H 340 |
| 5 | c | rhedol | 31ᵛ | Gruffudd Gryg: englynion clerwraidd (dwy gyfres) | *Atodiad* |
| 6 | d | textura | 73 | Englyn: *Trunya6 trugara6c* ... | H 347 |

[1] D. Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LlGC xxii (1981–2), 1–26.
[2] *Ib*. 11–12.
[3] *Ib*. *l.c*.
[4] *Ib*. 11. Cyfeiria'r rhif yn y golofn gyntaf at y sylwadau a roddir isod, tt. 2–3; mae'r llythrennau yn yr ail golofn yn dynodi enw'r llaw; yn y bedwaredd golofn ceir rhif y ffolio yn y llsgr., ac yn y chweched golofn gyfeiriad at rif tudalen yn H neu at yr atodiad yn erthygl D. Huws.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 | | | 127–9 | Llywelyn Brydydd Hoddnant: awdl i Ieuan ap Gruffudd Foel; awdl i Elliw ei wraig | H 327–30 |
| 8 | e | rhedol | 73v | Dau englyn: *Nyt gloy6ach …* | *Atodiad* |
| 9 | f | rhedol | 76 | Mynach Cymer: tri englyn i Ieuan | *Atodiad* |
| 10 | g | rhedol | 76–7v | Englynion: *Goddic ywyr b6mp …* | H 348 |
| 11 | h | textura | 77v | Awdl i Ieuan Llwyd | H 193–4 |
| 12 | | | 78 | Englyn i Ieuan: *Costes kun …* | H 194 |
| 13 | | | 78 | Hillyn: englynion i Ieuan Llwyd | H 194–5 |
| 14 | i | textura | 90v | Llywelyn Ddu ab y Pastart: awdl farwnad | H 229–30 |
| 15 | j | rhedol | 91 | Gruffudd Gryg: awdl i Dduw | H 351–2 |
| 16 | k | rhedol | 95v | Englyn: *Gwladeid oed …* | H 353 |
| 17 | l | rhedol | 115 | *Lleven Ygharat* | *Atodiad* |
| 18 | m | textura | 120–1 | Dafydd Llwyd ap Gwilym: englynion i'r grog o Gaer | H 312–13, 357–8 |
| 19 | n | textura | 122v | Awdl i Dduw | H 358 |
| 20 | o–p | textura | 125v | Awdl i Dduw | H 322 |
| 21 | p | | 125v | Dau englyn i Fair Forwyn: *O arffet …* | H 323 |
| 22 | q | textura | 125v | Pedwar englyn i Rys: *Kadarn vyt …* | H 323 |
| 23 | r | rhedol | 126 | Yr Ustus Llwyd: englynion marwnad i Roser ap Llywelyn | H 359 |
| 24 | s | textura | 130 | Englyn: *Ban ymhofwyf …* | H 333 |
| 25 | t | rhedol | 130v | [Dafydd ap Gwilym]: Marwnad Angharad | GDG3 cerdd 16 |

1 [*O*]*ian a pharchellan* ... Gw. Manon B. Jenkins, 'Aspects of the Welsh Prophetic Verse Tradition in the Middle Ages' (Ph.D., Cantab., 1990), 491–6.

2 [*U*]*n post prif* ... Testun sêr-ddewinol anghyflawn mewn rhyddiaith sy'n rhestru deuddeng niwrnod o gylchdro'r lleuad. Fe'i cymherir yn H 340 â darn cyffelyb yn Pen 50, 182–3, sy'n rhestru deng niwrnod o gylchdro'r lleuad, ac â deunydd a geir yn I. Williams, 'Llyfr Ffortun Bangor', B iii (1925–7), 98–106.

3 Gw. cerdd 8 isod.

4 '*ny bore ban gyfodwch* … Testun crefyddol mewn rhyddiaith sy'n rhestru'r archangylion *Gabriel*, *Uriel*, *Rafael*, *Raguel*, *Baragyel* a *Pantasaronem*.

5 Gruffudd Gryg: englynion clerwraidd. Cyhoeddir golygiad yr Athro G.A. Williams o'r rhain gyda gwaith Gruffudd Gryg yn y gyfres hon.

6 Englyn: *Trunya6 trugara6c* ... Cyhoeddwyd yr englyn hwn yn GCBM ii, 11.13–16 gyda 'Marwnad y Mab Aillt o Lansadwrn'.

7 Llywelyn Brydydd Hoddnant. Gw. cerddi 1–3 isod.

8 Dau englyn: *Nyt gloy6ach* ... Gw. cerdd 12 isod.

9 Mynach Cymer: tri englyn i Ieuan. Gw. cerdd 17 isod.

10 Englynion: *Goddic ywyr b6mp mawr drwmp moch* ... Mae'r testun mor fylchog fel nad oes modd dilyn y synnwyr nac ychwaith wybod beth yw'r mesur, er bod y cofnodwr yn defnyddio arwydd paragraff i ddangos dechrau penillion (englynion efallai). Cyfeirir at ryw *gwiddon vab gwedd*[ ].

11 Awdl i Ieuan Llwyd. Gw. cerdd 5 isod.

12 Englyn i Ieuan: *Costes cun* … Gw. cerdd 6 isod.

13 Hillyn: englynion i Ieuan Llwyd. Gw. cerdd 7 isod.

14 Llywelyn Ddu ab y Pastard. Gw. cerddi 18–19.

15 Gruffudd Gryg: awdl i Dduw. Cyhoeddir golygiad yr Athro G.A. Williams o'r gerdd yn y gyfres hon.

16 Englyn proest anghyflawn: *Gwladeid oed yr lleidr6leid llwyt / gwlangach cadyr 6wbach coet / da*[ ]*feit m*[ ]*rnddel demyl waet / dena 6u gwr yne6eit*.

17 *Lleven Ygharat*. Gw. cerdd 15 isod.

18 Englynion Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam i'r grog o Gaer. Gw. cerdd 4 isod.

19 Awdl i Dduw. Gan fod tua thraean y tudalen wedi ei rwygo ymaith o'r brig i'r gwaelod, mae rhan helaeth o'r testun hwn yn eisiau. Molir Duw yn yr awdl fel *plaettwr amdiffyn her6r y g6r goreu*, a datgana'r bardd ei fwriad i barhau'n ffyddlon iddo, *ny hepcoraf naf nef gyghoreu* ... [*ny*] *hepkor6yf r6yf rinwedeu ma6ret or wlet didyhet* ...

20 Awdl i Dduw. Cyhoeddwyd yr awdl gyda gwaith Elidir Sais yn GMB cerdd 20.

21 Dau englyn i Fair Forwyn: *O arffet* ... Gw. cerdd 11 isod.

22 Pedwar englyn i Rys: *Kadarn 6yt* ... Gw. cerdd 9 isod.

23 Yr Ustus Llwyd: englynion marwnad i fardd o'r enw Roser ap Llywelyn. Go wahanol yw natur y gerdd hon i'r canu deifiol ddychanol ganddo a gedwir yn Llyfr Coch Hergest. Golygir ei waith yn y gyfres hon.

24 Englyn: *Ban ymhoffwyf* ... Gw. cerdd 14 isod.

25 Dafydd ap Gwilym: 'Marwnad Angharad'. Gw. GDG$^3$ 44 (cerdd 16).

At y cerddi hyn gellir ychwanegu cerddi 10 a 13 isod, sydd hwythau yn perthyn i haen III y llawysgrif.[5]

Ceir hefyd rai darnau eraill o ryddiaith neu o farddoniaeth yma a thraw trwy'r llawysgrif, nifer ohonynt yn aneglur iawn oherwydd ansawdd gwael yr inc a ddefnyddiwyd neu oherwydd traul ar y llawysgrif. Mae nifer o'r rhain yn perthyn i haen III, ond mae eraill yn sicr yn perthyn i gyfnodau diweddarach.[6] Nodaf rai cynnar a diddorol yn unig. (Rhoddir darlleniadau petrus mewn bachau petryal.)

Ar f. 73$^v$ yn dilyn cerdd 12 isod, mewn llaw gyfoes â thestunau eraill haen III y llawysgrif, ceir y geiriau *Awdyl y Rys ap Ien*$^a$ [= 'Ieuan'[7]] *lloyt Eynio*[*n*] *ap dd* a'u dilyn gan agoriad cerdd anodd ei darllen: *Llwyr* [ ]*enyt ennyt o ynni bareat llawered dr*[*w*]*sseat llawrod d*[..*s* ]. Daw'r testun i ben ac yna ceir hanner llinell annarllenadwy gan law arall. Tybed ai'r un yw'r Rhys ab Ieuan Llwyd hwn â Rhys Offeiriad, un o bymtheg o blant Ieuan Llwyd ac Angharad a restrir yn achau Bartrum?[8] Mae'n debyg mai enw bardd a geir yn ail hanner y teitl, ond ni chafwyd hyd i Einion ap Dafydd yn prydu yn y cyfnod hwn. Dilynir y testun yn syth gan ddarn o ryddiaith yn dechrau â'r geiriau *Paderav y gweryddon yw rrain* ... a ddyfynnir yn H 347.

Ar waelod f. 109$^v$, mewn llaw sy'n perthyn i haen III, ceir pedair llinell sydd unwaith eto yn anodd eu darllen. Cynigir yn betrus:

hywel ddivchel galon
vab rrys wenlli[9] glaỽyrgi gl[v]n
mae oth rrevyr maith arovyn
drwdw[10] vy ddall dred ved[11] all llan.

Yn dilyn y llinellau nodir *y llwyd tec a kant*. Cesglir mai englyn proest yn dychanu rhyw Hywel fab Rhys a geir yma, gan ei alw'n *glafrgi* 'ci cramennog'.[12]

[5] Cyhoeddir testun y llawysgrif gan D. Huws, *ib*. 24, 25–6.
[6] Hoffwn ddiolch yn arbennig i Mr Daniel Huws am wirio fy narlleniadau.
[7] Digwydd yr un talfyriad am Ieuan ar f. 127$^r$.
[8] Gw. P.C. Bartrum: WG 1 'Cydifor ap Gwaithfoed' 2.
[9] Tybed ai cyfeiriad yw hwn at Wenlli, Caerwenlli, ym mhlwyf Llandysiliogogo yn Is Aeron?
[10] Tybed ai amrywiad ar *drudw* yw *drwdw?* Gw. GPC 1087 am yr amryfal ffurfiau.
[11] Tybed a ddylid darllen *dr*[*o*]*edved*?
[12] Ar *clafr*, amrywiad ar *clawr*, gw. isod 13.6n.

Ar waelod f. 106ᵛ ceir un llinell, eto mewn llaw gyfoes â haen III, yn enwi Angharad, o bosibl Angharad wraig Ieuan Llwyd: *yngharat glodvydyr hyn lwys eil eigyr laes olygon yrl*.[13]

Ar f. 128ʳ, mewn llaw y cred Mr Daniel Huws ei bod yn perthyn i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg neu ddechrau'r bymthegfed ganrif, ceir yr englyn canlynol:

keisiaw diureiniaw duw vrenin—pabyl
a wnaeth pobyl gyfriskin
[ ]divreiniawd duw vrenin
y tylwyt ar lwyt ar llin.

Priodolir ef i *Grufud ap Rys Gwynonyd*, bardd na chadwyd dim rhagor o'i waith ond y mae ei enw o leiaf yn ei gysylltu â Gwynionydd, un o gymydau Is Aeron.[14] Mae'n fwy na thebygol mai ef yw'r cyntaf o'r beirdd a enwir gan Ruffudd Llwyd yng 'Nghywydd y Cwest' a ganwyd rhwng 1383 a 1387: *Gruffudd ap Rhys*, *gair Raffael*, */ Gwynionydd*, *hoyw brydydd hael*; *Gŵr er aur*, *nid garw o rôn*, */ Yn awdl ni thwng anudon*.[15] Dichon mai'r un ydyw hefyd â'r Gruffudd ap Rhys Gwynionydd a restrir yn achau Bartrum, a berthynai'n fras i ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg.[16] Ŵyr ydoedd i Rys ap Llywelyn ap Hoedlyw o Iscerdin (Llandysul), gŵr a farwnadwyd gan y Prydydd Bychan ac a ddisgrifiwyd ganddo fel *dreic Gwynnyonyt* ac fel distain *euruab Ywein*, sef Maredudd ab Owain.[17] Os cywir y cysylltiad, mae'r englyn hwn eto'n cysylltu gŵr sy'n hanfod o dde Ceredigion â'r llawysgrif; mae'r ffaith fod yr englyn wedi ei gopïo tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn awgrymu'n gryf fod y llawysgrif yn dal i fod yn yr ardal honno y pryd hwnnw, a hynny, mae'n debyg, ym meddiant Rhydderch neu Ieuan Llwyd ei fab.

Digwydd yr englyn (gyda mân amrywiadau) mewn pedair llawysgrif o'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg. Mae'n digwydd fel englyn unigol, dienw, mewn dwy o'r llawysgrifau,[18] ond yn Card 2.4 a Card 1.53, y naill yn cael ei dyddio'n ddiweddar yn yr unfed ganrif ar bymtheg (ceir y dyddiad 1560 ar bwys y gerdd), a'r llall yn un o lawysgrifau Iaco ab Dewi, fe'i ceir yn englyn cyntaf mewn cyfres o bedwar englyn wedi eu priodoli i Syr Owain ap Gwilym (*fl*. 1533–61), curad Tal-y-llyn.[19] Gan fod

[13] Gw. D. Huws, *art.cit*. 25. Ymhellach ar Angharad, gw. isod.
[14] Gw. WATU 85–6.
[15] Gw. IGE² xiii, 116 (llau. 25–8), 356.
[16] Gw. P.C. Bartrum: 'Llywelyn ap Hoedlyw' lle rhoddir iddo rif cenhedlaeth 10; rhoddir i Ieuan Llwyd rif cenhedlaeth 9.
[17] Gw. GBF 15.19, 23.
[18] Sef Llst 120, 4 (Jasper Gruffydd, *c*. 1607) a Pen 313, 199 (John Jones, Gellilyfdy).
[19] Cyhoeddwyd y gyfres yn GSOG 30; ymhellach ar y bardd, gw. D.G. Williams, 'Syr Owain ap Gwilym', LlCy vi (1960–1), 179–93.

yr englyn, yn ôl pob tebyg, wedi ei gofnodi yn Llawysgrif Hendregadredd tua chanrif a hanner cyn cyfnod blodeuo Owain ap Gwilym, mae'n debygol fod Owain wedi ei 'ddwyn', a hynny yn uniongyrchol o Lawysgrif Hendregadredd. Ceir enghraifft o lawysgrifen Owain ap Gwilym ar rai o ffolios y llawysgrif,[20] felly y tebyg yw iddi fod yn ei feddiant am gyfnod yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yng nghopi John Davies o Lawysgrif Hendregadredd, BL Add 14869, 237$^{v}$, dywedir iddo gopïo '… allan o hên lyfr ar femrwn … a fuasai yn eiddo Gruff. Dwnn, ac yn eiddo Huw llŷn,[21] ac yn eiddo Rys Cain, ac yr awrhon sy eiddo Robert vychan or wengraig ger llaw Dolgellau'. Gwyddys bod cysylltiad agos rhwng Gruffudd Dwnn o Ystrad Merthyr ac Owain ap Gwilym: canodd Owain nifer o gerddi mawl iddo ef a'i deulu, a'u cofnodi ei hun yma a thraw yn Llst 40, llyfr llys Gruffudd Dwnn. Derbyniodd Owain un o lawysgrifau Lewys Glyn Cothi, sef Pen 109, gan Ruffudd Dwn, a diddorol sylwi i'r llawysgrif honno gael ei throsglwyddo wedyn i Wiliam Llŷn ac yna i Rys Cain.[22] Tybed a dderbyniodd Owain Lawysgrif Hendregadredd yn yr un modd gan Ruffudd Dwnn?

Dilynir yr englyn hwn, mewn llaw wahanol, ond yn perthyn i'r un cyfnod yn fras, gan englyn anghyflawn:

Enwawc vun bob llin bybei llych—y gwr
a garaf yn vy[c]nych[23]
sioned la[n] leian lewych
…

*Teulu Glyn Aeron a'u cysylltiadau llenyddol*

Yr oedd teulu Ieuan Llwyd o Lyn Aeron yn deulu allweddol ym mywyd diwylliannol Ceredigion yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, fel y mae nifer o ysgolheigion wedi pwysleisio.[24] Yr oedd y rhan hon o'r sir hefyd, bid sicr, yn ferw o weithgarwch llenyddol, ac mae'n arwyddocaol, fel yr awgryma'r Athro Emeritws D.J. Bowen, fod tair llawysgrif Gymraeg bwysig yn tarddu o'r ardal yn y cyfnod hwn, sef Llawysgrif Hendregadredd, Llyfr Gwyn

[20] Cymharer y llawysgrifen a geir yn ysbeidiol ar waelod ff. 13$^{v}$–50$^{r}$ â cherdd yn llaw Owain ap Gwilym ei hun yn llyfr llys Gruffudd Dwnn, Llst 40, 41–3 *et passim*.

[21] Mae'n debyg mai brawd i Wiliam Llŷn ydoedd, gw. ByCy 378; ar f. 89$^{r}$ Llawysgrif Hendregadredd, nodir *llyma lyfr Wiliam Llyn*. Yr oedd Huw Llŷn yntau'n ymwelydd â llys Gruffudd Dwnn, a cheir cerddi wedi eu cofnodi yn ei law ef ei hun yn Llst 40, 149, 153 yn 1561 a 1563 a chyn hynny.

[22] Gw. E.D. Jones, 'A Welsh *Pencerdd*'s Manuscript', *Celtica*, v (1960), 18.

[23] Ai 'nychdod urddasol/anrhydeddus', o *myg* + *nych?*

[24] Gw., e.e., J.B. Smith, 'Einion Offeiriad', B xx (1962–4), 343–4; D. Hywel E. Roberts, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir Aberteifi', LlCy x (1968–70), 83–9; D. Huws, *art.cit*. 15–16 *et passim*; *id*., 'Llyfr Gwyn Rhydderch', CMCS xxi (Summer 1991), 19–22; Ll.B. Smith, 'Cannwyll Disbwyll a Dosbarth', *Ceredigion*, x (1985), 238; Gerald Morgan, *Cyfoeth y Cardi*: *Ysgrifau ar hanes Ceredigion* (Aberystwyth, 1995), 41–4.

Rhydderch a Llyfr yr Ancr.[25] Arwyddocaol hefyd yw'r ffaith fod i'r ddwy gyntaf gysylltiadau cryf â chartref Ieuan Llwyd a'i fab Rhydderch.

Yr oedd mynachlog Sistersaidd Ystrad-fflur, cwta ddeng milltir i'r gogledd o Lyn Aeron, yn ganolfan ddysg o gryn bwysigrwydd yn y cyfnod hwn, ac mae'n dra sicr y byddai yno lyfrgell sylweddol a sgriptoriwm o ryw fath.[26] Nid oes gennym bellach unrhyw dystiolaeth bendant i gysylltu'r un llawysgrif sydd wedi goroesi â'r fynachlog, ond mae'n dra thebygol mai dyma oedd tarddle Llawysgrif Hendregadredd a Llyfr Gwyn Rhydderch.[27] Anodd gwybod ai ar fenthyg yng nghartref Ieuan Llwyd yng Nglyn Aeron yr oedd y llawysgrifau, neu ynteu a drefnwyd iddynt gael eu cadw yno'n barhaol. Anodd hefyd yw gwybod beth oedd union berthynas Ieuan Llwyd â'r fynachlog. Gwyddys mai ei gyndaid ar ochr ei fam, yr Arglwydd Rhys ap Gruffudd, oedd sylfaenydd y fynachlog i bob pwrpas, ac er iddo ef gael ei gladdu yn Nhyddewi, Ystrad-fflur oedd prif fan claddu'r teulu hwn yn y drydedd ganrif ar ddeg ac o bosibl wedi hynny.[28] Os Ieuan Llwyd yw'r sawl y cyfeirir ato yn 'Cwyn mynach o fynachlog Cymer' (isod cerdd 17), yna gellir awgrymu bod y cysylltiad yn un cryf.

Y mae cysylltiad Dafydd ap Gwilym yntau â'r ardal hon bellach yn ddigwestiwn. Credir iddo dderbyn rhywfaint o addysg ym mynachlog Ystrad-fflur—segur iawn yn ystod y cyfnod hwn oedd Llanbadarn, y fynachlog agosaf at fan ei eni ym Mrogynin—ac os cywir mai ef a gofnododd ei englynion 'I'r grog o Gaer' yn Llawysgrif Hendregadredd (cerdd 4 isod), mae'n bur sicr mai yn Ystrad-fflur y dysgodd y grefft o ysgrifennu.[29] Byddai'r diddordeb llenyddol a diwylliannol ar aelwyd Glyn Aeron yn sicr yn atyniad iddo ac awgrymir yn gryf yn ei gerddi ei fod yn gyfaill agos i'r teulu ac i Angharad yn arbennig. Canodd gerdd farwnad iddi hi,[30] ffug-farwnad yn ôl pob tebyg,[31] y ceir y copi hynaf ohoni yn Llawysgrif Hendregadredd, a chredai Thomas Parry mai Angharad oedd y ferch y cyfeiriai Dafydd ati yn 'Caer Rhag Cenfigen';[32] mae'n bosibl hefyd mai hi yw'r ferch o Is Aeron a gyfarchwyd ganddo.[33] Gelwir y ferch yn y gerdd

[25] D.J. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg', LlCy xvii (1992–3), 62.

[26] Gw. D.H. Williams, *The Welsh Cistercians* (Caldey Island, 1984), i, 159–63 am ddiddordebau diwylliannol y Sistersiaid Cymreig.

[27] Gw. yn arbennig D. Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', CMCS xxi (Summer 1991), 22–3.

[28] Gw. D.H. Williams, *op.cit*. i, 184.

[29] Gw. D. Huws, *art.cit*. 18, sy'n awgrymu am ysgrifen yr englynion, '*Textura* yw hi. *Textura* y disgwyliem ei dysgu o hyd gan ddisgybl yn ysgol fynachlog Ystrad Fflur o gwmpas 1330, a barnu wrth lawiau haen II. Mae'r llaw yn un ofalus ac eglur, heb fod yn ystwyth nac yn rheolaidd iawn, nid llaw sgrifennwr cyson. Os oes enghraifft o'i law ar glawr, awgrymaf mai llaw Dafydd ap Gwilym yn ifanc yw hon'.

[30] GDG lxiv–lxv, 44 (cerdd 16).

[31] Cf. Pen 267, 48, lle nodir gan John Jones Gellilyfdy i Ddafydd gyfansoddi'r awdl *i Angharad hael o Uẹlt yn farụnad iḍi a hịtau yn vyụ.*

[32] GDG³ xxxviii–xxxix.

[33] *Ib.* 242–3 (cerdd 88). Sylwer mai fel gŵr o Is Aeron y molir ei gŵr, Ieuan Llwyd, isod cerdd 7.

honno yn *Gwawn Geredigiawn*, yn *gwenlloer Garawn*, yn ogystal ag yn *Euren deg o Aeron dir*.[34] Os Angharad ydyw, yr oedd yn wraig briod, wrth gwrs, a dyna fyddai byrdwn y llinellau canlynol:

Gwae a fwrw, gwiw oferedd,
Ei serch, maeronesferch medd,
Llary bryd, hi yw lloer ei bro,
Lluniaeth ocr, lle ni thycio.[35]

A chymryd bod Dafydd wedi canu'r math hwn o gerdd i Angharad, a hithau'n wraig briod, gellid deall sut y byddai rhai wedi 'bwrw athrod o ryw fath ar y bardd' oherwydd y cyfeillgarwch hwn.[36]

Nid anodd ychwaith yw rhoi cyfrif am gynnwys englynion Dafydd 'I'r grog o Gaer' yn y llawysgrif. A hithau'n ganolfan masnach a gweinyddiaeth, Caerfyrddin oedd tref bwysicaf y Deheubarth yn y cyfnod hwn, a byddai Dafydd, ac yntau'n uchelwr, yn sicr yn ymwelydd cyson â hi. Mae'r gyfres englynion yn tystio i'r ffaith fod yno grog enwog iawn yn ystod ei oes, o bosibl yn cynnwys darn o'r Grog Sanctaidd. Byddai hon yn sicr yn denu pererinion o ddalgylch eang, ac mae'n debygol y byddai Dafydd, ynghyd ag Ieuan ac Angharad o bosibl, yn teithio i Gaerfyrddin ar bererindod i ymweld â'r grog unwaith y flwyddyn. (Gw. y rhagymadrodd i gerdd 4 isod.) Disgrifiwyd Angharad gan Ddafydd yn ei farwnad iddi fel *Haelaf, digrifaf goreufun—yng nghaer / Oedd Angharad wenllun*.[37] Yn ei olygiad, tybiodd Thomas Parry mai enw cyffredin yn yr achos hwn oedd *caer*, ond tybed ai mynegi goruchafiaeth Angharad, o bosibl fel pererin, yng Nghaerfyrddin yr oedd y bardd? Mae'n bosibl hefyd i'r gerdd gael ei noddi gan Rys ap Gruffudd a oedd yn gwnstabl castell Caerfyrddin am gyfnod, yn ogystal ag yn ddirprwy ustus De Cymru.[38] Gwyddys bod Rhys, Ieuan a Dafydd yn troi yn yr un cylchoedd llenyddol ac mae'n bosibl i'r gerdd gael ei chanu ar aelwydydd y tri yn eu tro.

Credir hefyd bellach mai yn yr ardal hon y cyfansoddodd Einion Offeiriad ei Ramadeg, a hynny, yn ôl pob tebyg, ar gais Rhys ap Gruffudd yn nauddegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, os nad ynghynt.[39] Enwir Angharad bum gwaith mewn darnau enghreifftiol yn nhestun Llyfr Coch y Gramadeg, a chredir bellach mai Angharad wraig Ieuan Llwyd yw'r ferch hon.[40] Enwir Lleucu Llwyd hefyd, ac mae'n bosibl y dylid ei huniaethu hi â'r ferch a

[34] *Ib*. 242 (88.4, 24, 28); a chyda 88.4, cf. 46 (16.68).
[35] *Ib*. 242 (88.5–8).
[36] GDG lxv a D. Hywel E. Roberts, *art.cit*. 84–5.
[37] GDG$^3$ 45 (16.29–30).
[38] Gw. nodyn cefndir cerddi 4 a 9 isod.
[39] Gw. R.G. Gruffydd, 'Dafydd Ddu o Hiraddug', LlCy xviii (1994–5), 209.
[40] Gw. D.J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a Datblygiad y Cywydd', LlCy viii (1964–5), 13–14, a R. Bromwich yn YB x (1977), 160. (Tybed ai at Ruffudd Foel ac Annes, taid a nain Ieuan Llwyd, y cyfeirir mewn pennill a ddyfynnir yn fersiwn Pen 161 o'r Gramadeg, lle cyfosodir enwau Gruffudd ac Annes? Gw. GP 196.)

enwir gydag Angharad yn y penillion pos a geir yn Llawysgrif Hendregadredd (isod cerdd 15), yn hytrach na chyda'r ferch o Bennal ym Meirionnydd y canodd Llywelyn Goch ap Meurig Hen ei farwnad enwog iddi.[41]

*Achau*

Dengys ei achau pa mor aruchel oedd gwreiddiau'r teulu hwn o Lyn Aeron; gwelir hefyd fod y traddodiad o noddi llenyddiaeth, a noddi barddoniaeth yn benodol, yn un cryf.

Gwaithfoed
|
Cydifor
|
Iorwerth
|
Gruffudd
|
Gruffudd Foel = Annes ferch Robert (o Fuellt)
|
Ieuan = Ellylw ferch Maredudd (o Drefynor)
|
Ieuan Llwyd (*fl.* 1332–43) = Angharad ferch Rhisiart (o Fuellt)
|
Rhydderch (ganwyd *c.* 1325; bu farw cyn 1398/9[42])
|
Ieuan (y bardd, *fl.* 15g.[43])

Yr aelod cynharaf o'r teulu y golygir y canu mawl iddo isod yw Ieuan ap Gruffudd Foel. Canodd Llywelyn Brydydd Hoddnant un awdl ac un gyfres o englynion i'w foli, ac un awdl foliant i'w wraig Ellylw, o bosibl cyn iddynt briodi (cerddi 1–3 isod). Dyma'r unig gerddi a gadwyd i Ieuan ac Ellylw, a cherddi traddodiadol yn arddull Beirdd y Tywysogion ydynt. Canodd Hillyn dair cerdd o fawl i'w fab, Ieuan Llwyd, yn yr un traddodiad (cerddi 5–7), a

[41] Gw. *ib*. 168–70, isod cerdd 15, ac am farwnad Lleucu Llwyd, gw. R.G. Gruffydd yn YB i (1965), 126–37, ac yn arbennig td. 130.
[42] Gw. D. Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', CMCS xxi (Summer 1991), 19–22.
[43] Gw. IGE$^2$ xxiii–xxxviii.

chredir hefyd mai Ieuan Llwyd yw'r sawl a enwir mewn dryll o gerdd ddienw sy'n cyfeirio at ei gampau rhywiol (cerdd 16).

Ar ochr ei dad, yr oedd Ieuan ap Gruffudd Foel yn hanfod o linach frenhinol Ceredigion trwy gangen Cydifor ap Gwaithfoed, sef llinach a gysylltir â de Ceredigion.[44] Mae'n bosibl fod Phylip Brydydd—y Gogynfardd o Geredigion a ganodd i Rys Ieuanc (*ob.* 1222) a Rhys Gryg (*ob.* 1233), dau o feibion yr Arglwydd Rhys ap Gruffudd—yn hanfod o'r un llinach, yn ŵyr i Gydifor ap Gwaithfoed o Lanbadarn Odwyn yng nghwmwd Pennardd.[45] Yr oedd mam Ieuan, Annes ferch Robert, yn hanfod o linach Elystan Glodrydd, llinach frenhinol de Powys, ac yr oedd cyndaid iddi, Gruffudd Fele, yn frawd i Gadwallon ap Madog ab Idnerth (*ob.* 1179) a oedd yn noddwr i Gynddelw Brydydd Mawr yn y ddeuddegfed ganrif.[46] Priododd Ieuan ag Ellylw ferch Maredudd o Drefynor, merch o linach Cadwgan Fantach ar ochr ei thad, sef cangen arall o linach frenhinol Ceredigion.[47] Mam Ellylw oedd Gwenllïan ferch Maredudd ab Owain, gorwyr i'r Arglwydd Rhys ap Gruffudd.[48] Maredudd ab Owain oedd prif noddwr y Prydydd Bychan,[49] ac yr oedd ei blant yn gyfrifol am noddi cyfieithu chwedl Siarlymaen ymysg pethau eraill.[50] Ni wyddys beth oedd perthynas Ellylw â'r meibion o Drefynor a farwnedir gan Lywelyn Ddu ab y Pastard isod (cerdd 18). Yr oedd Angharad wraig Ieuan Llwyd, fel y gwelwyd eisoes, yn ferch a chanddi gysylltiadau llenyddol amlwg iawn, a tharddai hithau o linach frenhinol Elystan Glodrydd ym Mhowys.[51]

*Cartref y teulu*

Tystia'r cerddi fod Llywelyn Brydydd Hoddnant yn lleoli cartref Ieuan ap Gruffudd Foel yng Nglyn Aeron (1.14 *Coron glan Aeron*, *glyn a eurir*) ac ar bwys Afon Aeron (2.5). Fe'i gelwir ganddo yn *Corf Mebwyniawn* (2.19), sef cwmwd yn Is Aeron,[52] ac yn *walch Carawn* (1.19), ardal helaeth yng nghwmwd Pennardd. (Rhaid diystyru am y tro dystiolaeth yr awdl i Ellylw,

[44] Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Cydifor ap Gwaithfoed' 1, 2.

[45] Gw. y rhagymadrodd i waith Phylip Brydydd yn GDB.

[46] Gw. P.C. Bartrum: WG 1: 'Elystan Glodrydd' 33, 38; GCBM i, cerdd 21.

[47] Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Cydifor ap Gwaithfoed' 1, 'Cadwgan Fantach' a [49]. (Sylwer bod Bartrum yn cysylltu tad Ellylw â Threfaenor, ond bod ei ffynhonnell, sef Gruffudd Hiraethog yn Pen 132, 132 yn nodi mai *o dref vynor* yr hanoedd.)

[48] Gw. *ib*. 'Rhys ap Tewdwr' 6.

[49] GBF cerddi 8–13 a gw. yno'r rhagymadrodd i'w waith.

[50] Gw. J.E. Lloyd, *The Story of Ceredigion* (*400–1277*) (Cardiff, 1937), 102–3; D. Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LlGC xxii (1981–2), 15 a hefyd DrOC 223–5.

[51] P.C. Bartrum: WG1 'Cydifor ap Gwaithfoed' 2 ac 'Elystan Glodrydd' 3. Diddorol nodi bod Angharad, fel Annes wraig Gruffudd Foel, yn tarddu o linach 'Elystan Glodrydd' yn ne Powys, a bod tystiolaeth hanesyddol i gyswllt arbennig rhwng y ddwy ardal—e.e. rhoddwyd Buellt i Faredudd ab Owain gan Lywelyn ap Gruffudd yn 1257. Sylwer hefyd fod Cynddelw, wrth farwnadu Cadwallon ap Madog ab Idnerth, tywysog o Faelienydd yn y 12g., yn cyfeirio ato fel *udd Carawn*, GCBM i, 21.7.

[52] Gw. WATU 154.

gwraig Ieuan ap Gruffudd, oherwydd credir i'r awdl honno gael ei chanu cyn i Ellylw briodi, a bod y bardd felly yn canu iddi yn ei chartref genedigol; trafodir hyn ymhellach yn y nodyn ar gefndir cerdd 3 isod.) Cysyllta Hillyn Ieuan Llwyd yntau â Glyn Aeron (7.12 *nêr Glyn Aeron*), a chyfeiria ato fel *Llym rôn Is Aeron* (5.26, cf. 7.4, 8, 16). Ceir un englyn gan Hillyn i Ieuan Llwyd i ddathlu codi tŷ newydd o *naddfain a gwyngalch* (6.3), ond ni nodir enw'r cartref newydd hwnnw.

Cyfeirir mewn achau o'r unfed ganrif ar bymtheg at gartref y teulu yng Nglyn Aeron ym Mebwynion,[53] ac awgrymir gan E. Phillimore mai dyma yw Parcrhydderch 'just N[orth] of the Aeron, on the border of the parishes of Llangeitho and Nantcwnlle'.[54] Sonia Dwnn yntau am 'Bark Rydderch yn Glyn Aeron',[55] sy'n awgrymu ei fod ef yn ystyried Glyn Aeron yn gyfeiriad at ardal. Cysylltir y teulu yn ddiweddarach â Pharcrhydderch, tŷ a leolir ar ffin cymydau Pennardd a Mebwynion, gynt ym mhlwyf Llanbadarn Odwyn, ac ar lan ogleddol Afon Aeron, ryw filltir i'r de-orllewin o bentref Llangeitho.[56] Ni ddaethpwyd o hyd i gyfeiriadau cynharach nag ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg at Barcrhydderch ei hun: yng Nghasgliad Bronwydd yn y Llyfrgell Genedlaethol, cyfeirir at *Tythyn Parke Rydderch ar noyadd*, *parish of Llanbadarn Odyn* dan y flwyddyn 1556.[57] Fodd bynnag, gelwir mab i Ieuan Llwyd yn *Dafydd y Parc* yn achau Gruffudd Hiraethog, a gall hynny fod yn arwyddocaol.[58]

Fodd bynnag, mae'n debygol nad yr un yw Glyn Aeron a leolir yn y cerddi ar lan ddeheuol Afon Aeron, *is* Aeron,[59] â Pharcrhydderch sydd i'r gogledd o'r afon, fel yr esboniodd E.D. Jones:[60] '… Glyn Aeron was that part of the valley which lies between a point half a mile above the village of Llangeitho, and Talsarn. Nestling under the hill upon which stands the church of Llanbadarn Odwyn at the upper end of this section of the valley is the farmhouse of *Glyn Aeron*'.[61] Esbonia E.D. Jones ymhellach na welsai unrhyw gofnod cynnar yn cyfeirio at y fferm wrth yr enw hwn (ymddengys y'i gelwid wrth yr enw *Tythyn y Cydlys* mor ddiweddar â 1686), ond

[53] RWM i, 828.
[54] Gw. G. Owen: DP iv, 483.
[55] L. Dwnn: HV i, 15.
[56] Gw. E.D. Jones, 'Some Glimpses of Cardiganshire', JWBS vi (1943–9), 7–8.
[57] Gw. B.G. Charles, *A Schedule of the Bronwydd Deeds* (Aberystwyth, 1952), i, 100, a cf. tt. 106 (dan y flwyddyn 1558) a 109 (dan y flwyddyn 1562). Diolchir i Mr Tomos Roberts am yr wybodaeth hon.
[58] Gw. Pen 132, 132 *dd y park*.
[59] *Is Aeron* yn wreiddiol oedd yr ardal honno is Afon Aeron, sef ar yr un ochr i'r afon ag Aberteifi, gw. Melville Richards, 'The significance of *is* and *uwch* in Welsh commote and cantref names', Cylchg HC ii (1964–5), 14. Anodd gwybod a yw'r cyfeiriadau yn y cerddi isod i'w deall yn gyfeiriadau at ardal benodol (*Is Aeron*), neu ynteu'n gyfeiriadau cyffredinol at ardal islaw'r afon (*is* Aeron).
[60] Cofia Mr Daniel Huws i E.D. Jones ddweud wrtho na chredai mai'r un lle oedd Parcrhydderch a Glyn Aeron.
[61] *Ib*. 7n1.

awgryma fod y ffaith fod fferm arall o’r enw Glyn Isaf ychydig islaw Llangeitho yn arwyddocaol. Tystiodd S.M. Meyrick, yntau, yn nechrau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg i fodolaeth ffermdy o’r enw Glyn Aeron, gan esbonio: ‘Though now an insignificant farm-house, was formerly the residence of people of consequence in this county. Jevan ab Gruffydd was the first of Glyn Aëron …’.[62] Yn ôl Lewys Glyn Cothi, canodd Iolo Goch i Rydderch yng Nglyn Aeron, er na fedrir yma ychwaith fod yn sicr nad at ardal y cyfeirir yn hytrach nag at dŷ penodol:

> Iolo’n wir, yng Nglyn Aeron,
> a wnaeth wers yn y iaith hon;
> eithr y mab oedd athro mawr,
> ac i Rydderch yn gerddawr.[63]

Anodd yw bod yn sicr, felly, a yw Glyn Aeron i’w ddeall yn gyfeiriad cyffredinol at ardal lle yr oedd Parcrhydderch wedi ei leoli, neu a oedd, yn y cyfnod hwn, yn enw ar gartref arbennig y teulu ar safle gwahanol. Oherwydd y mynych gyfeiriadau at Lyn Aeron yn y cerddi, a’r cyfeiriadau penodol at ardal *is* Aeron, derbynnir awgrym E.D. Jones fod Glyn Aeron yn enw ar gartref y teulu a leolid ychydig uwchlaw Llangeitho, ac yng nghwmwd Pennardd.[64]

A dychwelyd at englyn Hillyn i ddathlu codi tŷ newydd i Ieuan, teg gofyn ai dyma’r tŷ y daethpwyd i’w enwi’n Barcrhydderch, o bosibl ar ôl Rhydderch ab Ieuan Llwyd, yn ddiweddarach? Ar y llaw arall, mae’n dra phosibl hefyd mai dathlu adnewyddu’r hen gartref yng Nglyn Aeron a wnaethpwyd, yn hytrach na dathlu codi cartref newydd sbon ar safle gwahanol.[65]

*Gyrfa Ieuan ap Gruffudd Foel ac Ieuan Llwyd ab Ieuan*

Nid oes llawer o wybodaeth ar glawr am yrfa Ieuan ap Gruffudd Foel na’i fab Ieuan Llwyd ab Ieuan, na dim byd penodol yn y cerddi iddynt a allai fod yn gymorth inni i’w dyddio, ac eithrio’r ffaith fod Llywelyn Brydydd Hoddnant a Hillyn yn cyfeirio at y ddau fel gwŷr ifainc (gw. 2.10, 20 a 5.10). Gwyddom i’r ddau dyngu llw o ffyddlondeb i’r Tywysog Du yn

[62] Gw. S.M. Meyrick, *The History and Antiquities of the County of Cardigan* (Brecon, 1907), 255.
[63] Gw. GLGC 135 (58.21–4); cysylltir Rhydderch ymhellach â Glyn Aeron *ib.* 90 (36.20–1).
[64] Cf. GDG lxiv a cf. *ib.* 44 (16.13) *Llawer bron am hon ym Mhennardd—a hyllt* (‘Marwnad Angharad’, gwraig Ieuan Llwyd). Am fap o Geredigion yn yr Oesoedd Canol, gw. W.J. Lewis, *Ceredigion*: *Atlas Hanesyddol* ([Aberystwyth], 1955), 14.
[65] Cf. sylwadau D.J. Bowen am awdl Dafydd ap Gwilym i’w ewythr Llywelyn ap Gwilym yn ‘Llywelyn ap Gwilym’, LlCy xviii (1994–5), 367.

1343/4,[66] ac i Ieuan Llwyd ddal swydd dan y Goron fel cwnstabl castell Anhuniog yn 1332.[67] Ar sail y ddwy ffaith hyn yn unig, teg yw credu i'r tad flodeuo yn chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg a diwedd y ganrif flaenorol ac i'w fab flodeuo yn ail chwarter y ganrif.

Arwyddocaol, efallai, o safbwynt eu dyddio, yw'r ffaith fod Angharad yn cael ei henwi yng Ngramadegau'r Penceirddiaid, a chymryd mai'r un yw hon ag Angharad wraig Ieuan Llwyd. Credir bellach i'r Gramadeg gael ei roi ynghyd yn nauddegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg os nad ynghynt.[68] Os oedd Angharad eisoes yn briod ag Ieuan pan ysgrifennwyd y Gramadeg—a gwelwyd uchod mai ym Muellt yr oedd ei chartref genedigol—gellir cymryd bod Ieuan Llwyd yn ŵr ifanc o oed priodi erbyn dauddegau'r ganrif.

Molir y ddau Ieuan am eu haelioni, eu doniau milwrol, eu gallu i arwain milwyr a hefyd yn benodol am eu cyfraith a'u trefn. Er mai prin, fel y gwelwyd, yw'r dystiolaeth, mae'n dra thebygol i'r ddau ddal swyddi dan y Goron mewn llywodraeth leol, a gelwir Ieuan Llwyd gan Hillyn yr *Haelaf ac euraf dan y Goron* (7.13), er bod y bardd yn cyfeirio hefyd, yn anghyson braidd, at ei elyniaeth tuag at y Saeson (trafodir hyn ymhellach yn y nodyn cefndir i gerdd 5 isod).

Yn ogystal â dal swyddi mewn llywodraeth leol, mae'n bosibl iawn fod Ieuan Llwyd a'i dad, Ieuan ap Gruffudd Foel, yn wŷr cyfraith, yn arbenigwyr ar gyfraith Hywel. Yr oedd Rhydderch, mab Ieuan Llwyd, yn un o gyfreithwyr amlycaf ei oes, a chan fod cyfreitha yn grefft a dueddai i gael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth, mae'n berffaith bosibl fod ei dad a'i daid hwythau'n gyfreithwyr. Mae'n bosibl, felly, fod gosodiad Llywelyn Brydydd Hoddnant am Ieuan ap Gruffudd Foel, *Cyfyd o'i blegyd ddeddf ni blygir* (1.20), yn cyfeirio at ei allu cyfreithiol, a'r ffaith ei fod yn cymryd rhan yn y proses cyfreithiol. Yr oedd barddoni hefyd yn grefft a dueddai i gael ei throsglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall, ac yr oedd mab Rhydderch, Ieuan, yn fardd nodedig a ganai yn y bymthegfed ganrif. Er y gellir bod yn sicr fod gan Rydderch, Ieuan Llwyd a'i dad ddiddordebau llenyddol amlwg, nid oes, hyd y gwyddys, unrhyw gerddi o'u heiddo wedi goroesi. Fodd bynnag, mewn awdl foliant i Ieuan Llwyd a gedwir yn Llyfr Coch Hergest, mae Casnodyn yn cyfarch Ieuan Llwyd fel athro iddo, *lly6 am dysga6d ha6d hodya6 gerd berffeith nyt ual sothachieith beird keith kaeaw*.[69] Awgrymir ymhellach fod Ieuan Llwyd ei hun yn fardd, *Bard 6yf i ym ri rif ll6yr ar ua6rgerd aryf aer gat estra6nff6yr. bard ynteu goreu ae g6yr. beird loewgerd b6rd oleug6yr.*[70]

[66] Gw. I. Williams, 'Dafydd ap Gwilym a'r Glêr', THSC, 1913–14, 104; J.B. Smith, 'Einion Offeiriad', B xx (1962–4), 344; GDG[3] xxxviii.

[67] R.A. Griffiths: PW i, 535.

[68] Gw. R.G. Gruffydd, 'Dafydd Ddu o Hiraddug', LlCy xviii (1994–5), 209.

[69] Gw. R 1246.6–7.

[70] Gw. *ib*. 1246.40–2.

*Cerddi eraill haen III*

Yn ogystal â'r canu ffurfiol i berthnasau agosaf Ieuan Llwyd, ceir cerddi mawl a marwnad traddodiadol i uchelwyr pwysig eraill o'r ardal yn haen III Llawysgrif Hendregadredd. Ceir awdl foliant ddienw ar fesur byr a thoddaid i Domas ap Rhotbert (*ob*. 1362), o bosibl y gŵr y cofnodir iddo fod yn *bedellus* ym Mefenydd yn 1361–2 (gw. cerdd 8); hefyd englynion mawl i Rys, sef yn ôl pob tebyg, Rhys ap Gruffudd, un o'r Cymry mwyaf grymus yn ne Cymru yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg (gw. cerdd 9). Ceir yma hefyd awdl farwnad gan Lywelyn Ddu ab y Pastard i'r teulu a drigai yn Nhrefynor, ryw bedair milltir i'r gorllewin o Lyn Aeron; er na lwyddwyd hyd sicrwydd i leoli'r teulu hwn yn yr achau, gellid mentro dweud bod aelodau ohono yn bobl o bwys yn yr ardal ac yn noddwyr beirdd. I'r ardal hon hefyd y perthyn yr englynion marwnad a ganodd yr Ustus Llwyd i fardd anhysbys, Roser ap Llywelyn.[71]

I fyd y canu ffurfiol hwn y perthyn y tair awdl grefyddol y mae Mr Daniel Huws yn eu gosod yn nhrydedd haen y llawysgrif. Awdl gan Ruffudd Gryg o ddefosiwn i Grist a'r Duwdod ar fesur rhupunt yw'r gyntaf; mae'r ail yn anghyflawn oherwydd rhwyg sylweddol yn y ddalen,[72] a chredir mai cynnyrch y Gogynfardd o Wynedd, Elidir Sais, yw'r drydedd.[73]

Yn ogystal â'r canu ffurfiol hwn, ceir nifer o gerddi dienw sy'n llawer mwy anffurfiol eu naws a'u cynnwys. Perthyn nifer o'r rhain i'r traddodiad teuluwraidd, mae'n debyg, sef traddodiad na chadwyd nemor ddim tystiolaeth iddo yn y llawysgrifau cyn hyn, ac eithrio nifer o ddarnau enghreifftiol yng Ngramadegau'r Penceirddiaid. Mae nifer o'r cerddi hyn yn enwi Ieuan neu Angharad, er na fedrwn fod yn sicr mai at Ieuan Llwyd ac Angharad ei wraig y cyfeirir bob tro. Ceir yma ddau englyn crefyddol yn ymhyfrydu ym Mair fel ffynhonnell goleuni i'r byd (cerdd 11) ac un englyn yn moli tri mab (?brodyr) anhysbys (cerdd 10). Gwelir hefyd gyfres o dri englyn, wedi eu canu gan fynach o fynachlog Cymer, yn cwyno am ddiffyg lletygarwch pan oedd rhyw Ieuan i ffwrdd (cerdd 17). Prin y gellir cael llawer o synnwyr o'r englyn a'r ychydig ryddiaith sy'n ymffrostio yng nghampau rhywiol Ieuan mewn ystafell yn yr ardd (cerdd 16); ond mae tystiolaeth y llawysgrif yn awgrymu bod yr englyn hwnnw yn rhan o gyfres hwy yn wreiddiol.

Serch yw thema nifer o'r darnau sy'n weddill. Ar fesur englyn y canwyd nifer o'r cerddi dienw hyn ond ceir hefyd ddwy gerdd ar fesur cywydd, sef 'I Fefeddus' (cerdd 13), sy'n cynnwys chwe llinell, a 'Dau bos' (cerdd 15), dau bennill sy'n cynnwys pedair llinell o gywydd yr un, gydag enwau Angharad a Lleucu Llwyd yn llechu ynddynt. Dichon mai Angharad wraig Ieuan

[71] Gw. D. Huws, *art.cit*. 17, 23n49. Dichon mai'r Ustus Llwyd hwn yw'r un a ganodd ddwy gerdd ddychan finiog (un ohonynt i *Gruffud iarll ma6d6y*) yn Llyfr Coch Hergest, R 1363–4.

[72] Gw. rhif 19 yn y rhestr uchod, td. 2.

[73] Gw. GMB cerdd 20.

Llwyd yw un o'r merched. Diddorol hefyd yw'r ffaith mai serch yw pwnc y ddau gywydd hyn a bod y cyntaf yn arbennig yn lleisio hen thema a ddatblygir gan Ddafydd ap Gwilym, sef darfodedigrwydd harddwch merch.

Mae'n rhyfedd braidd na chadwyd mwy o gywyddau yn haen III y llawysgrif hon, yn enwedig a'r cywydd yn cynyddu mewn bri yn nhridegau a phedwardegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Awgrymodd Mr Daniel Huws dri rheswm posibl am hyn: bod ymdrech fwriadol i'w cadw o'r llawysgrif (fel yn achos y Llyfr Coch yn ddiweddarach, efallai); 'bod y rhan fwyaf o'r gofod gwag yn H wedi'i lenwi gan lawiau haen III erbyn tua diwedd y 1330au a chyn goruchafiaeth y cywydd'; mai hap a damwain sy'n gyfrifol am eu hesgeuluso.[74]

I'r traddodiad teuluwraidd hefyd, bid sicr, y perthyn y ddwy gyfres o englynion a briodolir i Ruffudd Gryg. Cyhoeddwyd un ohonynt gan Mr Daniel Huws,[75] ac mae'r llall bron yn annarllenadwy oherwydd traul. Dichon mai'r un yw Gruffudd Gryg â'r bardd o Fôn a fu'n ymryson â Dafydd ap Gwilym, ond mae dau bosibilrwydd arall. Priododd Rhydderch, mab Ieuan Llwyd, Fargred ferch Gruffudd Gryg ab Ieuan Fychan ab Ieuan ap Rhys o Uwch Aeron.[76] Priododd hen daid y Gruffudd Gryg hwn, sef Rhys, yntau â Margred ferch Gruffudd Foel, hen daid Rhydderch. Felly, yr oedd cyswllt teuluol rhwng teulu Gruffudd Gryg a Rhydderch yn mynd yn ôl sawl cenhedlaeth,[77] a phe bai gennym dystiolaeth i awgrymu bod y Gruffudd Gryg hwn yn fardd, yna hawdd fyddai esbonio cynnwys ei gerddi yn Llawysgrif Hendregadredd. Yr ail bosibilrwydd yw mai Gruffudd Gryg fab Dafydd Fongam o Gaeo a hanoedd o linach frenhinol Dyfed yw'r bardd dan sylw.[78] Ni ellir bod yn sicr pwy oedd mam y Gruffudd hwn, oherwydd priododd ei dad ddwywaith: â Lleucu ferch Syr Gruffudd Llwyd a Gwenllïan ap Cynan,[79] ac â Gwenllïan ferch Gruffudd ap Cadwgon Hen o Landdeusant yng nghwmwd Perfedd.[80] Gwyddys bod Syr Gruffudd Llwyd yn noddwr barddoniaeth,[81] a chanodd Casnodyn awdl i foli ei wraig, Gwenllïan ferch Cynan,[82] wyres Maredudd ab Owain, prif noddwr y Prydydd Bychan y cyfeiriwyd ato eisoes. Fodd bynnag, ni chafwyd ychwaith unrhyw dystiolaeth fod aelodau o'r teulu hwn yn feirdd eu hunain.

74 Gw. D. Huws, *art.cit*. 17.
75 *Ib*. 24.
76 P.C. Bartrum: WG1 'Llowdden' 1, 3, 5.
77 Gw. *ib*. 'Llowdden' 1.
78 Gw. *ib*. 'Selyf' 1, 2.
79 Gw. *ib*. 'Marchudd' 17.
80 Gw. *ib*. 'Eidio' 2.
81 Bu'n noddwr, er enghraifft, i Wilym Ddu o Arfon, gw. GGDT cerddi 6 a 7.
82 Gw. H 331–2.

# GWAITH

# LLYWELYN BRYDYDD HODDNANT

golygwyd gan

ANN PARRY OWEN

# *Rhagymadrodd*

Ni wyddys dim am Lywelyn Brydydd Hoddnant heblaw'r hyn y gellir ei gasglu o'r tair cerdd isod, ac ni rydd y rheini inni unrhyw wybodaeth fywgraffyddol amdano. Erys ansicrwydd ai Hoddnant neu Hodnant yw'r elfen olaf yn ei enw. Mae copïwyr y testunau isod, ynghyd â Wiliam Llŷn a John Davies,[1] yn unfryd mai *Hodnant* yw'r ynganiad, ond *Ꝉ brydyδ hoδnant* yw enw'r bardd yn ôl teitl y gerdd ar f. 127ʳ yn Llawysgrif Hendregadredd,[2] a dilynir hynny yma.

Mae ei enw'n awgrymu ei gysylltu â Hoddnant, a chofnodir nifer o nentydd o'r enw hwn gan R.J. Thomas, neu ffurfiau amrywiol arno megis Hodni, Howni a Hoffnant.[3] Y cerddi i Ieuan ap Gruffudd Foel a'i wraig Ellylw yw'r unig gerddi a gadwyd inni gan Lywelyn, a chan fod o leiaf bedair nant yng Ngheredigion yn dwyn yr enw hwnnw, mae'n hollol bosibl mai bardd o'r sir honno ydoedd.[4] Ceisiodd Iolo Morganwg ei hawlio i Forgannwg gan fod Nant Hoddnant yn llifo ger Llanilltud Fawr, ond dichon nad oes unrhyw sail i'r honiad hwnnw.[5]

Priodolir tair cerdd i Lywelyn Brydydd Hoddnant yn Llawysgrif Hendregadredd, sydd rhyngddynt yn cynnwys cant o linellau, sef dwy gerdd foliant i Ieuan ap Gruffudd Foel ac un i'w wraig, Ellylw. Nid oes modd dyddio'r cerddi hyn yn fanwl, ond credir, ar sail y cyfatebiaethau geiriol rhyngddynt, eu bod yn perthyn i'r un cyfnod ac iddynt gael eu canu yn chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Molir Ieuan am y rhinweddau arferol a ddisgwylid mewn pennaeth: ei ddewrder a'i ffyrnigrwydd ar faes y gad; y modd y gweinyddai'r gyfraith ag awdurdod cadarn; ei haelioni tuag at rai a ddeuai ar ei ofyn; ac yn arbennig ei haelioni a'i gyfeillgarwch tuag at feirdd, a Llywelyn ei hun yn benodol. Gan fod y ddwy gerdd yn dechrau â'r un geiriau agoriadol *Cyfaillt grym ysym* ...[6] ac yn cynnal yr un cymeriad *c*-,

[1] Gw. Geirfa Wiliam Llŷn yn Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1983) d.g. *Aerfa* a *Damlewchv* [*sic*] a rhestr o feirdd John Davies ar ddiwedd D.

[2] Gthg. H 327 *Lln brydyd hodnant*. Er bod y ddwy *d* yn y gair *prydyd* yn debyg yn Llawysgrif Hendregadredd, mae cynffon hwy i'r ail sy'n cynrychioli 'dd'. Yr un *d*, gyda chynffon hwy, a geir yn *hodnant*.

[3] Gw. EANC 149–54. Ar Hoddnant ym Mhenfro, gw. BDe 29, a B.G. Charles, *The Place-names of Pembrokeshire* (Aberystwyth, 1991), 296.

[4] Gw. EANC 151.

[5] TLlM 5.

[6] Yn H 193–4 ceir cerdd ddienw i fab Ieuan, Ieuan Llwyd, yn dechrau â'r geiriau *Mae ym gyfaillt grym* ... a chan fod y gerdd honno'n rhagflaenu cerdd arall i'r un gŵr gan Hillyn, cymerir mai Hillyn a gyfansoddodd y ddwy (isod cerddi 5 a 7). Ond rhaid cofio am awgrym J.B. Smith, 'Einion

mae'n dra thebygol i'r englynion hyn gael eu canu ar yr un achlysur â'r awdl, ac efallai mai un gerdd ydynt mewn gwirionedd,[7] er bod copïydd y gerdd yn Llawysgrif Hendregadredd wedi eu hystyried yn ddwy gerdd ar wahân wrth roi teitlau i'r ddwy.

Cerdd i foli Ellylw, gwraig Ieuan, yw'r drydedd gerdd, a chredir i'r gerdd hon gael ei chyfansoddi cyn i Ellylw briodi Ieuan, pan oedd yn byw yn Nhrefynor, ychydig filltiroedd i lawr y dyffryn o Lyn Aeron, yn ei chartref genedigol.[8] Credir, er hynny, fod Ellylw ar fin priodi Ieuan. Molir Ellylw am ei harddwch yn ogystal â'i rhinweddau cymdeithasol a'i thras fonheddig. Ceir yn y gerdd hefyd elfennau o ganu serch: cwyna'r bardd fod harddwch Ellylw cymaint nes peri poen a chlwyf i gan dyn (llau. 26 a 48); cymer arno lais y carwr o fardd gwrthodedig, ac anoga ei farch i ymweld â hi. (Gw. ymhellach y nodyn cefndir i gerdd 3 isod.)

Yr oedd cynnyrch barddol Llywelyn yn sicr ddigon yn fwy nag y mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu, a diddorol yw'r tair llinell o gerddi coll a ddyfynnir yng Ngeirfa Wiliam Llŷn wedi eu priodoli i *prydydd hodnant*: d.g. *Aerfa* ceir *gwr pryssur a dur dewr yn aerfa*; d.g. *Damlewchv* (sic) ceir *damlewychv kymrv / Rac kymrwyn*; d.g. *Dyvysgi* ceir *y blaenwr dirfawr dorf difysgi*.[9]

O ran ieithwedd a syniadaeth, mae Llywelyn Brydydd Hoddnant yn perthyn yn agos i Feirdd y Tywysogion ac mae'n amlwg ei fod wedi ei drwytho yn eu celfyddyd hwy. Trawiadol iawn yw'r nifer helaeth o ymadroddion a chyfuniadau a welir yn ei waith sydd i'w gweld hefyd ym marddoniaeth ei ragflaenwyr, ac yn enwedig yng ngwaith Cynddelw Brydydd Mawr. (Tynnir sylw at y cyfatebiaethau hyn yn y nodiadau.)

Dau fesur a ddefnyddir yn y cerddi hyn, sef gwawdodyn ac englyn unodl union. Ceir yn y tair cerdd ganran uchel o gynganeddion sain pengoll sy'n nodwedd ar ganu'r Gogynfeirdd yn gyffredinol, yn ogystal ag ar ganu'r bedwaredd ganrif ar ddeg.[10] Gwelir bod Llywelyn yn feistr ar ddefnyddio cymeriad: cenir yr awdl gyntaf drwyddi ar y cymeriad llythrennol *c*-; cynhelir y cymeriad *c*- yn llinellau 1, 3 a 4 pob englyn yn yr ail gerdd;[11] ac yn y drydedd gerdd cynhelir y cymeriad llythrennol *ll*- ym mhob llinell o'r penillion gwawdodyn yn y rhan gyntaf, a cheir cymeriad yn llinellau 1, 3 a 4 pob englyn yn yr ail ran. Y grefft hon o ddefnyddio'r un cymeriad dros nifer helaeth o linellau a ddug Dafydd ap Gwilym yn ddiweddarach i gelfyddyd y cywydd.

Offeiriad', B xx (1962–4), 344n2, y gall mai Llywelyn Brydydd Hoddnant a gyfansoddodd y gerdd honno yn ogystal.

[7] Cf. cerdd 3 isod lle ceir 32 ll. ar fesur gwawdodyn yn cael eu dilyn gan 5 englyn unodl union a'r gair *llyw* yn cysylltu'r ddwy ran. Gw. ymhellach J. Morris-Jones: CD 296–7 am gynnwys englynion gosteg neu gyngogion gydag awdl.

[8] Gw. y nodyn cefndir i gerdd 3 isod.

[9] Gw. R. Stephens, *op.cit*. Atodiad.

[10] Gw. J. Morris-Jones: CD 187–8.

[11] J. Morris-Jones, *op.cit*. 291, 'Nid ystyrrid toddaid byr … ond yn un llinell, ac nid oedd raid wrth gymeriad yn ei chanol, megis ar ddechreu "ail" linell englyn unodl union'.

Codwyd y tair cerdd isod gan law a elwir yn llaw ‘d’ gan Mr Daniel Huws i ffolios 127–9 yn Llawysgrif Hendregadredd.[12] Nid yw’r testun heb ei frychau, a chredir bod yma beth olion copïo. Codwyd y tair cerdd yn eu tro gan Dr John Davies i BL Add 14869 ac mae’r holl gopïau eraill o’r tair yn tarddu’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol o’r llawysgrif honno.

[12] Gw. D. Huws, *art.cit*. 11.

*1*

## *Moliant Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron*

Cyfaillt grym ysym, nis amheuir,
Cyfaillt beirddion yw fy llyw llafnir,
Cyfaillt hynod glod a gludir—fwyfwy,
Cyfaillt arlwy rhwy, ni rhygeblir.
Cynheilad difrad, gwarediad gwir
Cyhoedd dewr llysoedd nid arllwysir.
Cerdd nawd udd hyffawd, ydd hoffir—Ieuan,
Cyhafal anian Drystan dreistir,
Cynfab Gruffudd, udd a oddefir,
Cynnydd iawn o'i ddawn ni ddifenwir.
Cyfoethog torfog, niw terfir—ei gledd,
Cyfedd edrysedd, ef ni dreisir.
Caraf, ni wadaf, udd ni wedir,
Coron glan Aeron, glyn a eurir.
Cynneddf Gwên lawen, lwybrdir—yn aeroedd,
Cannoedd oludoedd, ŵyr Elidir.
Cadarn fydd peunydd pan gyferchir,
Cedol arwyrain a gain genir.
Cyfiawn gwalch Carawn, cerir—ei gyngyd,
Cyfyd o'i blegyd ddeddf ni blygir.
Ceinion a'm rhoddes, lles ni'm llysir,
Cyfeddach forach fur dienwir.
Câr dawnus parchus perchir—o'r wyron,
Canon atebion, ef niw tybir.
Cyfaillt wyf i'm rhwyf, nid arwyddir,
Cyfaillt ym fy rhwyf rhag herwnwyf hir;
Cyfeillon dragon draig tir—a pheddyd,
Cyfeillach ddiwyd cywyd cywir.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14869, 102$^{r}$ B—LlGC 1981B [= Pant 12], 202$^{v}$ C—LlGC 5274D, 18 (llau. 1–12) D—LlGC 6680B, 127$^{r}$ E—Llst 31, 210

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif D. Codwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r llawysgrif honno. Mae rhai geiriau yn nhestun llawysgrif D bellach yn anodd, os nad yn amhosibl, eu darllen oherwydd traul. Wrth godi'r gerdd oddi yno i lawysgrif

A, medrodd John Davies ddarllen mwy nag sy’n bosibl erbyn hyn a manteisiwyd ar hynny wrth lunio’r testun. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.)

*Darlleniadau’r llawysgrif*
9 kym uab (*ond bod y tri minim yn y drydedd lythr. braidd yn wahanol i* m *arferol y llaw*). 14 aerehir. 25 ar v6ydir

*Teitl*
~~Ll~~ brydyδ hoδnant ae kant y Ieuan ap gr$^{h}$ voel (*mewn llaw wahanol*, *o bosibl*, *i’r testun*)

## *Moliant Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron*

Cyfaill grymus sydd gennyf, nid amheuir ef,
Cyfaill beirdd yw fy mhennaeth hir ei lafn,
Cyfaill hynod [ei] enwogrwydd [yr hyn] a gludir [ar led] fwyfwy,
Cyfaill [mewn] gwledd faith, ni feiir [ef].
Noddwr didwyll, gwaredwr sicr
Pobl wych llysoedd na waceir [fyth].
Cerdd hysbys arglwydd ffodus, canmolir Ieuan,
[Yr un o] natur debyg i Drystan sicr ei orthrwm,
Mab hynaf Gruffudd, arglwydd y dygymyddir ag ef,
Ni ddibrisir [yr] elw teg [a ddaw ataf] trwy ei rodd.
Gŵr a thiroedd [a] lluoedd ganddo, ni ddychrynir ei gleddyf,
Cydymaith [llawn] rhwysg, nis gorchfygir.
Caraf, ni wadaf, arglwydd na wedir,
Coron glan [Afon] Aeron, glyn a enwogir.
[Un ac iddo] hynodrwydd Gwên llawen, [torrwr] tir llwybr mewn brwydrau,
Canfyddai oludoedd, disgynnydd Elidir.
Bydd [ef] yn gadarn bob dydd pan ddeuir ar [ei] ofyn,
Cerdd foliant anrhegwr a genir yn hardd.
Gŵr cyfiawn yw gwalch Caron, hoffir ei fwriad
[A] deillia o'i achos ddeddf na phlygir [mohoni].
Rhoddodd imi ddiod anrhydeddus, ni wrthodir budd imi,
Amddiffynnwr di-fai cyfeddach lawen.
Cyfaill galluog [ac] anrhydeddus [a] anrhydeddir o blith y disgynyddion,
Safon atebion, nid amheuir ef.
Cyfaill wyf i'm pennaeth, nid [?oes rhaid] mynegi [hyn],
Cyfaill imi yw fy mhennaeth [sy'n fy nghadw] rhag [perygl] angerdd alltudiaeth hir;
Cyfeillion yw ymladdwyr dewr y pennaeth tir a['r] milwyr traed,
Cymdeithas ffyddlon [ac iddi] fwriad cywir.

## *2*
## *Moliant Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron*

Cyfaillt grym ysym a sawdd—ei alon
A'i alaf ni chronnawdd,
Cedol wirawd, wawd wahawdd,
Cadr ffysg, rwydd hyddysg rodd hawdd.

Cyfaillt grym ysym, ysydd—cer Aeron,
Côr beirddion rhoddion rhydd,
Cyrdd foliant, cadr ffyniant ffydd,
Câr ced gynnar, cad gynnydd.

Cyfaillt grym ysym, sail glyw—glud gyfranc,
Cadr ieuanc, Ieuan yw,
Grymus fab (lafn arab lyw)
Gruffudd, griff gwaywrudd, gwiwryw.

Cyfaillt grym ysym, ni somir—rhi ffyrdd
Yn rhyw ffordd pan brofir,
Cad gyfles yw llyw llafnir,
Ced gyflwydd gwaranrwydd gwir.

Cyfaillt grym ysym (nid som gaffael—walch)
O weilch hydr goafael,
Corf Mebwyniawn dawn diwael,
Cyfrwydd mawl hylwydd moel hael.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14869, 102$^{v}$ B—LlGC 1981B [= Pant 12], 203$^{v}$ C—LlGC 6680B, 127$^{v}$ D—Llst 31, 212

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C. Codwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r llawysgrif honno. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.)

*Teitl*
I Ieuan ap gr' voel (*gyda* llwyd ap Ieuan *wedi ei ddileu yn yr un llaw ar ôl* Ieuan)

## *Moliant Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron*

Cyfaill grymus sydd gennyf sy’n llethu ei elyn
Ac ni phentyrrodd ei gyfoeth,
[Rhoddwr] gwirod haelionus, [un] yn gwahodd barddoniaeth,
Grymus [ei] ruthr, hael [a] galluog [ei] rodd barod.

Cyfaill grymus sydd gennyf, sydd ger Aeron,
Llys beirdd rhydd [ei] roddion,
[Dygwr] mawl [i] luoedd [a] chynnydd gwych [sy’n esgor ar] hyder,
Cyfaill buan [ei] rodd, [dygwr] goruchafiaeth [i] fyddin.

Cyfaill grymus sydd gennyf, sylfaen [i] fyddin [mewn] brwydr daer,
[Un] hardd [ac] ieuanc, Ieuan ydyw,
Mab grymus (arweinydd chwim [ei] lafn)
Gruffudd, griffwn coch ei waywffon, o dras bonheddig.

Cyfaill grymus sydd gennyf, ni thwyllir brenin ffyrdd
Pan roddir prawf arno mewn unrhyw fodd,
Llwyr les [mewn] byddin yw[’r] arweinydd hir ei lafn,
Ffyniannus [ei] rodd yw [un sy’n] sicrwydd gwirionedd.

Cyfaill grymus sydd gennyf (nid pennaeth [sy’n] cael [ei] dwyllo)
O blith penaethiaid gwrol [a] thyn eu gafael,
Cynheiliad Mebwynion [ac iddo] allu rhagorol,
Llwyddiannus yw moliant ffortunus [y] gŵr moel hael.

*3*

## *Moliant Ellylw ferch Maredudd o Drefynor*

Llyw gwrol breinol brenineiddaf,
Llywiawdr gwendref nef, nerth a archaf;
Llwyddiant pob carant, caraf—Dy foli,
Llewychfawr Geli, Rhi rhywocaf.
Llwyr y'm cyfyd bryd, brys ni gelaf,
Llafurfaith a waith a weinyddaf,
Llyriaidd nawdd trethawl, traethaf—o nawfan,
Llwyddran Ellylw gan a gynyddaf.
Llawen eiddun fun, fudd ddiorsaf,
Llefair rhygwblair, ni rhygablaf;
Lleddf ddiffol ddethol, ddoethaf—o'r gwragedd,
Llariedd gludfawredd a glodforaf.
Llawr mawr Mebwyniawn dawn diwarthaf,
Llewychdud meinir yw'r tir tecaf;
Llu ddifrawd hyffawd hoffaf—cer Meuryg,
Lliw gwynblyg gwenyg, gwen ei hadaf.
Lleufer eiry didraul neu haul yn haf,
Lliaws a'i canmawl o'r mawl mwyaf;
Llin gwinfaeth pennaeth pennaf—o Gymry,
Llun hy a'i dyly iaith a dalaf.
Llwrw gwir niw cenir fal y'i canaf:
Llafar câr cerddrodd o fodd fyddaf,
Lloer hynod, a'i glod i'r gloywaf—deurudd,
Llaesferch Faredudd a brudd brydaf.
Lledfryd yw gofyn dyn diweiraf
(Llid cant) o foliant, gwarant gwiraf:
Llawer gair a wnair a wnaf—cer Aeron,
Llif dragon fanon foneddicaf.
Llebliw ardal gwiw, gwydrblas ydd af
Lle ni'm llwydd eilwydd, arwydd araf,
Lles ni'm oedd eres, euraf—â'm tafawd
Llathraid wawd hyd Frawd, hud nawd, hoed naf.

Lliw cer Enwysg riw, rinddawl—o'm tafawd
Neud difethl anfeidrawl;
Llin arglwydd llary hylwydd hawl
Llun diweirfun dywirfawl.

Mawlran Ellylw gan, gynnydd—gwŷd hydeg,
Ei gwawd hydr ni dderfydd,
Milioedd draul, ne haul hafddydd,
Moliant pwyll feddiant pell fydd.

Ni bydd amdlawd gwawd gwawr hynod—Ellylw,
Allwedd dawn a gwybod,
Nawd yw rhag rhan o ddannod
(Nwyf rhiau glwyf) rhwy o glod.

Clodfawr dwn, cyrchwn, cyrch diludd—feinfarch,
Ar fwynferch Faredudd,
Claer orne ddwyre ddeurudd,
Clwyf cant, fyrdd feddiant feirdd fudd.

Buddfawr iawn hyddawn, heddiw—hawl ddylyn
Yw haul ddolydd Llebliw,
Bodd rodd rin ddifrawd wawd wiw,
Bun laes wanllun, lwys wynlliw.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14869, 191$^{r}$ B—LlGC 1981B [= Pant 12], 200$^{r}$ C—LlGC 6680B, 128$^{r}$, 129 D—Llst 31, 387 E—Pen 119, 452

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C. Codwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r llawysgrif honno. Mae rhai geiriau yn nhestun llawysgrif C bellach yn anodd, os nad yn amhosibl, eu darllen oherwydd traul. Wrth godi'r gerdd oddi yno i lawysgrif A, medrodd John Davies ddarllen mwy nag sy'n bosibl erbyn hyn a manteisiwyd ar hynny wrth lunio'r testun. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*
19 ginuaeth. 20 a[ ]. 21 y [ ]af. 27 geir [ ]neir (*gan fod* geir *ar ddiwedd ll.* *a* neir *ar ddechrau'r nesaf anodd yw gwybod a oes llythyren yn eisiau ai peidio*). 48 uddeant.

## *3*
## *Moliant Ellylw ferch Maredudd o Drefynor*

Llywodraethwr arwrol urddasol [a'r] mwyaf brenhinol,
Rheolwr bro fendigaid [y] nefoedd, gofynnaf am allu;
[Un sy'n peri] llwyddiant pob câr, caraf Dy foli,
Arglwydd goleufawr, [y] Brenin mwyaf rhadlon.
Yn gyfan y daw imi fwriad, ni chelaf fy ffrwst,
Cyfansoddiad o lafur mawr a ddarparaf,
Hynaws [ei] nawdd teyrngedol, traethaf gyda naw cân,
Ychwanegaf at ran ffyniannus Ellylw ddisglair.
Merch ddymunol lawen, ddiatal [ei] budd,
Llefara'n rhwydd iawn ei hymadrodd, ni feiaf [hi];
[Un] bwyllog synhwyrol [a] chall, y ddoethaf o'r gwragedd,
[Ei] chyfoeth [llawn] haelioni a glodforaf.
Tir gwastad maith Mebwynion [ac iddo'r] rhodd fwyaf di-fai,
Gwlad ddisglair y feinir yw'r tir tecaf;
Dinistr[wraig] ffortunus llu a folaf ger Meurig,
[Un o] liw crychni gwyn [y] tonnau, gwyn yw ei llaw.
Disgleirdeb eira dilychwin neu haul yn [yr] haf,
Lliaws sy'n ei chanmol â'r moliant eithaf;
[Yn perthyn i] linach fonheddig y pennaeth pennaf o blith [y] Cymry,
[Un] hyderus [ei] gwedd sy'n teilyngu['r] farddoniaeth a dalaf [iddi].
Yn wir ni folir hi fel y molaf i hi:
Lleferydd cyfaill [a rydd] rodd o gerdd [iddi] a fyddaf o['m] bodd,
[Y] lleuad hynod, a'i glod i'r wynepryd disgleiriaf,
I ferch wylaidd Maredudd y canaf [ei] moliant yn ddoeth.
Ynfydrwydd yw ceisio['r] ferch buraf
([Achos] poen can dyn) trwy foliant, y sicrwydd cywiraf:
Llawer cyfarchiad a gyfansoddir [ac] a gyfansoddaf ger Aeron,
Tyrra ymladdwyr glew at yr arglwyddes fwyaf urddasol.
Llebliw['r] ardal ragorol, i blas disglair yr af
Lle nad yw cyfarfod [â'r ferch] yn dod â dedwyddwch imi, [dyna] argoel drist,
Nid oedd lles [materol] yn rhyfeddol imi, addurnaf â'm tafod
Gerdd foliant gaboledig hyd at Ddydd y Farn, [un] gyfareddol [ei] natur, gofid [i] arglwydd.

Disgleirdeb ger rhiw Enwysg, mae[’r] rhodd gyfrinachol [a ganaf iddi] â’m tafod
Yn ddi-fai [a] galluog;
[O] linach arglwydd hael [a] ffyniannus [ei] hawl[io]
Yw[’r un ac iddi] wedd merch ddiwair sicr ei mawl.

Moliant Ellylw ddisglair [sy’n] ffyniant [llawn] angerdd [a] theg iawn,
Ni bydd ei moliant grymus yn darfod,
Dinistr[wraig] miloedd, liw haul [ar] hafddydd,
Bydd moliant [yr un ac iddi] feddiant [ar] ddoethineb yn parhau am amser maith.

Ni bydd moliant yr arglwyddes Ellylw hynod yn brin,
[Hi sy’n] allwedd dawn a chwrteisi,
Cyffredin yw rhag cael siâr o ddannod
(Cur [sy’n peri] archoll [i] frenhinoedd) llawer o glod.

[Yr] un canmoladwy cochddu, cyrchwn, [y] march main dirwystr [ei] hynt,
At ferch addfwyn Maredudd,
Wyneb [sy’n] arddangos gwrid disglair,
[Un sy’n peri] dolur can dyn, lles [i] feirdd [ac iddi] reolaeth [dros] fyrdd.

[Un] ddawnus tra buddfawr, heddiw parhaol [ei] hawl
Yw haul dolydd Llebliw,
[Un] wych [ei] moliant sy’n rhwystro rhodd [o] gyfathrach ddirgel [a roddai] foddhad,
Merch wylaidd fwyn ei gwedd, [un] brydferth, ddisglair ei lliw.

# *Nodiadau*

## *1*

Enwir Ieuan ap Gruffudd Foel, gwrthrych yr awdl fawl hon, yn llinell 7, a disgrifir ef ymhellach yn llinell 9 fel *cynfab Gruffudd*, mab hynaf Gruffudd, mae'n debyg. (Ymhellach ar ei ach a'i yrfa, gw. uchod tt. 12–13.) Y tebyg yw fod y disgrifiad ohono yn llinell 16 fel *ŵyr Elidir* i'w ddeall yn ffigurol yn hytrach nag yn llythrennol, gan na ddaethpwyd o hyd i unrhyw Elidir yn ei ach.

Nid oes dim yn y gerdd hon sy'n gymorth inni i'w dyddio, ond os canwyd hi ar yr un achlysur â'r gyfres englynion iddo—ac mae'r tebygrwydd geiriol yn agoriad y ddwy gerdd yn awgrymu hynny—yna fe'i canwyd pan oedd Ieuan yn ŵr ifanc (gw. isod 2.10 *Cadr ieuanc*, *Ieuan yw*), a hynny rywdro yn gynnar yn chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg.[1]

Canmolir Ieuan drwy gydol yr awdl fel cyfaill, a hyn, yn ôl pob tebyg, sy'n cyfrif am y cymeriad llythrennol *c-* a gynhelir drwyddi. Topos yng nghanu mawl Beirdd y Tywysogion yw honni bod y noddwr yn gyfaill i'r bardd, a chofir yn arbennig am farwnad Cynddelw i Fadog ap Maredudd lle mae'r bardd yn gofidio colli *arglwyt gedymdeith*.[2] Moliant traddodiadol a geir yma i Ieuan, gan gyfeirio at ddewrder a ffyrnigrwydd ei ymladd, ei gyfraith gref a'i gyfeillgarwch a'i groeso i eirchiaid a beirdd, ac yn arbennig i'r bardd ei hun.

Canwyd yr awdl fer hon ar fesur gwawdodyn, sef cwpledi o gyhydedd naw ban am yn ail â thoddeidiau. Cynhelir y cymeriad llythrennol *c-* ar ddechrau pob llinell, a cheir cyrch-gymeriad yn cysylltu diwedd yr awdl â'i dechrau wrth ailadrodd yr elfennau *Cyfaillt/Cyfeill-*. Ceir cynghanedd sain ym mhob llinell, a nifer helaeth ohonynt yn bengoll.

2 **llyw llafnir** Cf. isod 2.15.

3 **fwyfwy** Llsgr. D *wywy*; ar *w* = 'fw', gw. P. Russell, 'Orthography as a Key to Codicology: Innovations in the Work of a Thirteenth-Century Welsh Scribe', CMCS xxv (Summer 1993), 79.

4 … **ni rhygeblir** Gw. isod 3.10n. Gellid hefyd ddileu'r coma o'i flaen a chymryd bod grym perthynol i *ni*: *Cyfaillt arlwy rwy ni rygeblir* 'Cyfaill maith [ei] wledd na ellir ei feio'.

[1] Trafodir dyddiadau'r cerddi, uchod tt. 19–20.

[2] Gw. GCBM i, cerdd 7, ac yn arbennig llau. 4, 12.

7 **ydd hoffir** Deellir *yd* llsgr. D yma ≡ 'ydd'; am enghreifftiau pellach o'r geiryn rhagferfol *ydd* o flaen *h-*, cf. GDG[3] 276 (102.27) *ydd henyw*, ond gthg. GDB 26.51 *hael yd hwyly* (Dafydd Benfras).

8 **Drystan dreistir** Sef Drystan fab Tallwch. Dyma'r ffurf fwyaf arferol ar yr e. mewn ffynonellau Cymraeg; arno, gw. ymhellach TYP[2] 329–33, 549. Ymddengys mai fel rhyfelwr treisgar y coffeir Drystan, fel gan Fleddyn Fardd yn GBF 54.26, 56.9. Er mai'r gytsain gysefin a geir yn y llsgr., cymerir bod yr a. *treistir* yn treiglo'n feddal yma, gan fod a. yn treiglo'n feddal yn weddol reolaidd ar ôl e.p. mewn Cym.C., gw. Treigladau 114–15 *et passim*. Dilynir G 366 sy'n rhestu'r a. yn gyfuniad o dan *dir* yn golygu 'sicr', &c., yn hytrach na'i ddeall yn gyfuniad sy'n cynnwys *tir*.

9 **cynfab** Llsgr. D *kym uab*. Derbynnir y diwygiad a gynigir yn G 247 a GPC 782; cf. llsgr. A *Kyn uab*. Gan fod llinellau cyhydedd naw ban y bardd yn tueddu i ymrannu yn 5 + 4 sillaf, efallai y dylid darllen *Cynfab Gruffudd udd a oddefir* 'Mab hynaf [yr] arglwydd Gruffudd y dygymyddir ag ef'.

11 **niw** Cywasgiad o'r negydd *ni* a'r rh.m. proleptig 3 un. '*w* sy'n achub y blaen ar wrthrych y f. amhersonol *terfir*, sef *cledd*: yn llythrennol, 'nis dychrynir ei gleddyf'. Mae'r gystrawen hon yn gyffredin iawn ym marddoniaeth Beirdd y Tywysogion, cf. isod 3.20 a gw. GMW 56–7 lle cyfeirir at nodyn yn GDG[3] 446 sy'n rhoi nifer o enghreifftiau o'r gystrawen hon o'r 14g.

12 **cyfedd** Am yr ystyr 'cyd-yfwr, cydymaith', &c., gw. G 203 a GPC 688; nid amhosibl awgrym petrus G *l.c.* fod iddo'r ystyr 'gwledd, cyfeddach, ?ymborth' yma.

14 **glan Aeron, glyn …** Ffurfia Afon Aeron y ffin rhwng cymydau Anhuniog a Mebwynion yng nghanolbarth Ceredigion. Dilynir G 536 d.g. *glyn* a deall hwn yn gyfeiriad at Lyn Aeron.

**a eurir** Llsgr. D *aerehir*. Derbynnir awgrym cyntaf petrus G 499 i'w ddeall yn ffurf amhrs.pres.myn. y f. *euraw* (cf. John Davies yn llsgr. A). Rhydd hyn well cytseinedd ag *Aeron* nag ail awgrym petrus G i ddarllen *erchir*.

15 **cynneddf Gwên lawen** Rhoddir coma ar ôl *lawen*, gan fod ll. gyntaf toddaid y bardd fel arfer yn ymrannu yn 5 + 5 sillaf. Treiglir *llwybrdir* fel e. mewn cyfosodiad. Ond nid yw'n amhosibl fod *llawen* yn goleddfu *llwybrdir*: '[Un ac iddo] hynodrwydd Gwên, [torrwr] tir llwybr llawen mewn brwydrau'. Deellir *Gwên* yma'n gyfeiriad at fab Llywarch Hen, arno gw. G 659, CLlH 57 *et passim*. Sylwer hefyd fod *Llawen* yn digwydd o bosibl fel enw afon yng nghyswllt Gwên yn CLlH 3 (I.14a) *Gwen wrth Lawen yd welas neithwyr*, ond dichon mai a. ydyw yn y gerdd dan sylw.

**llwybrdir** Mae GPC 2239 yn ei restru yn gyfuniad o *llwybr* + *tir*, ond gellid hefyd ei ddeall yn 'llwybrddir' yn golygu 'sicr ei hynt' (< *llwybr* + *dir*), er na restrir y ffurf honno yn gyfuniad yn G 366 d.g. *dir*. Y syniad yma yw fod y tir a dramwyai Ieuan mewn brwydr yn hyrwyddo llwybr ei gyd-ryfelwyr.

16 **cannoedd** Fe'i dehonglir yn ffurf 3 un.amhff.myn. y f. *canfod* gan ddilyn awgrym petrus G 104. Cymerir mai canmol gallu Ieuan i ganfod anrhaith a thrysor ar gyrchoedd a wneir.

**ŵyr Elidir** Deellir hwn yn ymadrodd mewn cyfosodiad, yn gyfeiriad at Ieuan. Fel y sylwir yn G 469 d.g. *Elidir*[4], ni chafwyd unrhyw Elidir yn ach Ieuan. (Am achau'r teulu, gw. uchod tt. 9–10.) Mae'n debygol, fel yr awgryma G *l.c.*, fod yr ymadrodd yn cael ei ddefnyddio'n ffigurol yma ac y dylid cysylltu Elidir â rhyw Elidir enwog o'r gorffennol, gw. G *l.c.* a TYP[2] [3]43–4 am bosibiliadau. Sylwer hefyd ar y cyfeiriad pellach at *wyron* yn ll. 23 isod.

18 **arwyrain a gain genir** Cf. GCBM i, 2.32 *Arwyrein Ywein kein kenitor*; GLlF 2.6 *Arwyrein Owein a geinganaf* (Llywelyn Fardd I); T 80.7 *Kein geneis* ('Canu y Byd Bychan').

19 **Carawn** Ardal Tregaron yng nghwmwd Pennardd yn Uwch Aeron, ac yn ymestyn i lawr hyd at Afon Aeron, gw. WATU 35, 311. Yr oedd cartref tad Ieuan yn Llanbadarn Odwyn yn ardal Tregaron yng nghwmwd Pennardd.

**cyngyd** Yngenir 'cyn·gyd', gw. G 248–9.

21 **ceinion** Ffurf l. *cain*, a ddefnyddir yn gyffredin yng nghanu'r Gogynfeirdd am 'y ddiod gyntaf a'r orau a ddygid i'r neuadd', GPC 390 d.g. *cain*[1]. Ymffrostia Cynddelw yntau iddo dderbyn y ddiod anrhydeddus hon gan yr Arglwydd Rhys, GCBM ii, 6.140–1 *Eurdorcha6c a ryt eurdal—ym yr kert*, / *A'm keinyon o vual* a cf. GBF 22.6 *Digaled am ged*, *am geinnyon* (Hywel Foel).

22 **cyfeddach forach fur** Am enghreifftiau pellach o gyfosod *cyfeddach* a *morach*, cf. GLlF 14.56 *Pan vu gyuedach uorach Vorvran* (Owain Cyfeiliog), *ib*. 31.37 *Kyuetach uorach* (Gruffudd ap Gwrgenau); GCBM ii, 9.141 *Kyuetach uorach uirein6ch*; cyfosodir y ddwy elfen hefyd yn *ib*. 4.46 *Kyrt vorach*, *kyuetach carant*.

24 **canon atebion** Gw. GPC 416 am ystyron amrywiol *canon*; nid amhosibl rhoi iddo yma'r ystyr ffigurol 'rheolwr' a nodir yno.

25 **nid arwyddir** Llsgr. D *ar v6ydir*; dilynir awgrym G 44 ynglŷn â'r dehongliad. Anodd gweld beth yw grym y f. (yn golygu 'arwyddo, dangos, mynegi') yma, onid yw'r bardd yn honni nad oes raid iddo fynegi ei gyfeillgarwch â'i noddwr mewn cerdd, gan fod hynny eisoes yn amlwg i bawb. Eto i gyd, ymffrostio yng nghyfeillgarwch eu

noddwyr a wna'r beirdd fel rheol, felly efallai y dylid diwygio a darllen *neud arwyddir*.

*2*

Canwyd y gyfres hon o englynion i Ieuan pan oedd yn ŵr ifanc: *Cadr ieuanc*, *Ieuan yw*, meddir amdano yn llinell 10. Yn llinell 20 cyfeirir ato fel gŵr *moel*, sef, o bosibl, fel gŵr ifanc heb farf; ond o gofio mai Gruffudd Foel oedd enw ei dad, gall mai cyfeiriad at gyfenw teuluol sydd yma (gw. y n. ar y ll.). Fel yr awgrymwyd yn y nodyn ar gefndir y gerdd gyntaf uchod, mae'n debygol iawn i'r gyfres hon gael ei chanu ar yr un achlysur â'r awdl flaenorol, o gofio bod y ddwy gerdd yn dechrau â'r un geiriau *Cyfaillt grym ysym* ... a'u bod wedi eu canu ar yr un cymeriad; mae'n bosibl, hefyd, fod y ddwy gerdd yn un mewn gwirionedd.[1] Lleolir llys Ieuan ger Aeron (*ysydd—cer Aeron*, / *Côr beirddion*, llau. 5–6) a gelwir ef yn gynheiliad Mebwynion (ll. 19), cwmwd yn neau Ceredigion. Fel yn yr awdl flaenorol, molir Ieuan fel ymladdwr ac fel un hael ei roddion a'i groeso.

Gosteg o bum englyn unodl union yw'r gerdd hon. Cysylltir yr englynion â'r geiriau *Cyfaillt grym ysym*, a ddaw ar ddechrau pob un ohonynt. Cysylltir llinellau 1, 3 a 4 yr englynion â chymeriad llythrennol neu gynganeddol. Mae hyd y llinellau yn rheolaidd a chysylltir y gair cyrch yn y toddeidiau byr â'r llinell nesaf naill ai ag odl (llau. 5–6, 9–10) neu â chytseinedd (llau. 1–2, 13–14, 17–18) gan ffurfio cynghanedd groes (bengoll) neu gynghanedd sain. Ceir cynghanedd sain yn llinell gyntaf a dwy linell esgyll pob englyn.

2 **alaf** Dilynir G 179 ynglŷn â'r darlleniad yn hytrach na H 328.15 sy'n darllen *alar*. Mae canmol arglwydd am beidio â chronni cyfoeth yn ddull cyffredin yn y canu o fynegi haelioni, cf. GMB 3.94 *Ny chronnei na seirch na meirch g6eilyt* (Meilyr Brydydd am Ruffudd ap Cynan); GCBM ii, 9.81 *Gretyf eigya6n*, *ny gra6n*, *ny gryny—gormot*.

5 **Aeron** Gw. uchod 1.14n.

7 **cyrdd** Ffurf l. naill ai *cerdd* neu *cordd* (yn golygu 'llu', &c.); dilynir awgrym petrus G 133 yma i'w ddeall yn ll. *cordd*.

9 **glyw** Deellir yma'r e.ll. yn golygu 'llu, byddin', gw. G 537 a GPC 1415 d.g. *glyw*³, yn groes i G *l.c.* sy'n ei restru dan *glyw*² yn golygu 'brwydr, rhyfel, ymladd, ymdrech'.

12 **griff** Cytunir â G 589 ynglŷn â'r darlleniad, gthg. H 328.25 *grut*. Anifail chwedlonol yw'r *griff*, yn hanner eryr ac yn hanner llew, a defnyddir y gair yn ffigurol am 'arweinydd', gw. G 589 a GPC 1531. Chwaraeir yma ar yr e. Gruffudd, cf. GDB 29.23–4 *Am Ruffudd*

[1] Cf., o bosibl, GMB cerdd 17 (Elidir Sais).

*gwaewrudd*, *gwae finnau*, */ Am riff ner*, *lluch hyder Llachau* (Dafydd Benfras).

13 **somir** Ffurf amhrs.pres.myn. y f. *somi*, amrywiad ar *siomi*. Arni, gw. PKM 186–7 lle dangosir bod blas '*to trick*, *deceive*, *mock*' iddi gynt; cf. *som* 'twyll', ll. 17. Gw. ymhellach EEW 53 a DGG 209.

14 **profir** Cymerir bod gwrthrych y f., *rhi ffyrdd* y ll. flaenorol (h.y. Ieuan), yma'n ddealledig. Ar ddefnydd y f. *profi* yn golygu 'rhoi prawf ar, rhoi dan bwysau', cf. GMB 8.32 *Teir praff prif lyghes wy bres broui* (Gwalchmai), *ib*. 9.97 *Angerta6l uy march*, *ma6r ys proueis* (eto); GCBM i, 26.31 *G6aethyl edlid o'm bronn pan brouer—kynrein* a gw. Arm P 33 ar *ymprofyn*.

15 **llyw llafnir** Cf. uchod 1.2.

19 **Mebwyniawn** Cwmwd yn Is Aeron yn neau Ceredigion, gw. WATU 154, 235, 252.

20 **moel** Yn ogystal â 'heb wallt', gallai gyfeirio at ŵr ifanc heb farf, a gw. GPC 2474 a cf. GCBM ii, 7.2 *mygyrwas moel*; GLlLl 24.68 *Na'th orsseif na moel na mygha6c*. Tystia ll. 10 uchod fod Ieuan yn ŵr ifanc pan ganwyd y gerdd hon iddo. Ond cofier mai Gruffudd Foel oedd enw tad Ieuan, ac y gall fod *moel* yma yn gyfenw teuluol ac efallai y dylid ei ddeall yn ep.

## *3*

Er nad oes teitl i'r gerdd hon yn y brif lawysgrif, cesglir mai cerdd o fawl ydyw i Ellylw a enwir yn llinellau 8, 37 a 41.[1] Disgrifir hi yn llinell 24 fel *llaesferch Faredudd*, ac yn llinell 46 fel [*m*]*wynferch Faredudd* a chesglir o'r achau mai merch Maredudd ap Cadwgan Fantach o Drefynor ydoedd[2] a gwraig i Ieuan ap Gruffudd Foel. Yr oedd ei mam, Gwenllïan, yn ferch i Faredudd ab Owain, gorwyr yr Arglwydd Rhys o Ddeheubarth.[3] (Ymhellach ar y teulu diwylliedig hwn, gw. uchod tt. 6–9 *et passim*.) Yr oedd Ellylw, felly, yn perthyn i'r teulu o Drefynor y canodd Llywelyn Ddu ab y Pastard farwnad gofiadwy iddo, ond ni lwyddwyd i ganfod y gwŷr a enwir yn y gerdd honno yn yr achau.

Cysylltir Ellylw, fel Ieuan ei gŵr, ag ardal Mebwynion (llau. 13–14 a cf. 2.19 uchod) a lleolir ei chartref hi, fel yntau, *cer Aeron* (ll. 27 a cf. uchod 2.5). Fodd bynnag, nid oes unrhyw awgrym pendant yn y gerdd fod Ellylw ac Ieuan yn briod pan ganwyd hi, a bod Ellylw, felly, yn byw yng Nglyn

[1] Ffurf ddeusill, sef Ellyw neu Elliw erbyn hyn, gw. G 472.
[2] Gw. achau Gruffudd Hiraethog yn Pen 132, 132.
[3] Gw. P.C. Bartrum: WGl 'Cadwgan Fantach' ac *ib*. 'Rhys ap Tewdwr' 6.

Aeron. Mae dwy ffaith yn awgrymu, yn hytrach, fod y gerdd wedi ei chyfansoddi cyn iddi briodi. Yn gyntaf, mae pedwar cyfeiriad yn y gerdd yn awgrymu ei chysylltu ag ardal Trefynor ger Gartheli ym Mebwynion, ryw ddwy neu dair milltir i'r de-orllewin o Langeitho. Disgrifir Ellylw fel yr un *hoffaf—cer Meuryg* (ll. 15),[4] fe'i gelwir yn *Lliw cer Enwysg riw* (ll. 33), a chyfeirir at ei chartref yn *Llebliw ardal* (ll. 29) a *dolydd Llebliw* (ll. 50). Lleolir Trefynor lai na chwarter milltir o Nant Meurig sy'n rhedeg i Afon Aeron, ryw filltir i'r gorllewin. Mae *Enwysg riw* a *Llebliw* yn anhysbys bellach, ond gellid efallai gysylltu'r naill â Chilerwisg ychydig dros filltir i'r de-orllewin o Drefynor; ac am y llall, ymddengys mai'r hen enw ar fferm Dolau a leolir ar lan Afon Aeron ym Metws Leucu oedd Dolau Llebliw.[5] Lleolir Dolau ychydig dros filltir i'r gogledd-ddwyrain o Drefynor.

Mae'r ail reswm dros gredu i'r gerdd gael ei chanu cyn i Ellylw briodi yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â thystiolaeth fewnol y gerdd. Fe'i cyferchir ynddi fel merch i'w thad (ll. 24), ac anogir y march i gludo'r bardd at *fwyn-ferch Faredudd* (ll. 46). Molir hefyd ei thras aruchel a chymerir mai disgrifiad o'i thad yw *pennaeth pennaf—o Gymry* (ll. 19). Pe canesid y gerdd ar aelwyd Ellylw a'i gŵr Ieuan, disgwylid i'r bardd efallai fod wedi achub y cyfle i gyfeirio at ei gŵr yn ogystal ag at ei thad.[6]

Ni ellir dod i unrhyw gasgliadau pendant ychwaith drwy edrych ar y mawl a gyflwynir iddi. Molir Ellylw fel gwraig ddelfrydol: canmolir ei harddwch, gan gymharu ei disgleirdeb ag eira dilychwin a'r haul yn yr haf (llau. 17 a 39) ac â chrych disglair ton yn torri (ll. 16); molir hefyd ei rhinweddau cymdeithasol, gan gyfeirio at ei doethineb a'i dysg (llau. 11 a 42), ei diweirdeb (llau. 25 a 36), ei huodledd (ll. 10), ei haelioni (ll. 12, &c.), ei gwyleidd-dra (llau. 24 a 52) ac yn arbennig ei thras fonheddig (llau. 19, 28, 35, &c.). Mae sylwedd y mawl hwn yn awgrymu efallai mai gwraig briod ydoedd, oherwydd dyma, i bob pwrpas, y rhinweddau a ddisgwylid mewn gwreigdda, yn ôl Gramadegau'r Penceirddiaid:

> Gwreicda a uolir o doethineb, a chymhendawt, a diweirdeb, a haelyoni, a thegwch pryt a gwed a ffuryf, a disymylder ymadrodyon a gweithredoed …[7]

ac ymhellach:

> ny pherthyn moli gwreicda herwyd serch a charyat, kany pherthyn idi ordderchgerd.

[4] 'Nant fechan yn codi ger y Cilgwyn, Llangybi, ac yn rhedeg heibio i Artheli i Aeron tros filltir i'r dwyrain o Drefilan', EANC 193.
[5] Diolchir i Mr Iwan Humphreys am yr wybodaeth hon.
[6] Cf. GSRh cerdd 1, lle mae Sefnyn yn moli Angharad, gan foli ei gŵr, Dafydd, yn ogystal.
[7] Gw. GP 16.

Er hynny, mae elfennau yn y gerdd sydd yn gyffredin mewn canu serch—y gŵyn fod harddwch Ellylw cymaint nes peri poen a chlwyf i gan dyn (llau. 26 a 48), a hefyd y modd mae'r bardd yn cymryd arno lais y carwr o fardd gwrthodedig, gan gwyno na fu i Ellylw ymateb yn ffafriol i'w serch, er na fu hi erioed yn grintachlyd ei rhoddion materol iddo (llau. 29–32):

> Llebliw ardal gwiw, gwydrblas ydd af
> Lle ni'm llwydd eilwydd, arwydd araf,
> Lles ni'm oedd eres, euraf—â'm tafawd
> Llathraid wawd hyd Frawd, hud nawd, hoed naf.

Dyma gŵyn arferol y bardd claf o serch, ac mae'n ei alluogi i gyfuno dwy swyddogaeth, y naill fel molwr a'r llall fel y carwr gwrthodedig. Yr un ydyw cwyn Cynddelw Brydydd Mawr wrth Efa ferch Madog ap Maredudd *Yg golud amliw amyl y'm rotir, / Nyd amgen y'm ryt, ny'm rybuchir!*[8] Mae'r pwyslais ar ddiffyg ymateb Ellylw i serch y bardd yn awgrymu'n gryf ei bod o hyd yn ddibriod.

Elfen bellach a gysylltir yn bennaf â chanu serch yw'r modd y mae'r bardd yn cyfarch ei farch ac yn gofyn iddo ei gludo tuag at Ellylw (llau. 45–6). Ond seithug yw cais y bardd:

> Lledfryd yw gofyn dyn diweiraf
> (Llid cant) o foliant, gwarant gwiraf (llau. 25–6).

Os cyfansoddwyd y gerdd hon ar achlysur priodi Ellylw ac Ieuan, byddai'r fframwaith dramatig hwn yn arbennig o effeithiol. Yr awgrym fyddai fod gwychder Ellylw yn denu serchiadau o du cannoedd o ddynion yn ogystal â'r bardd ei hun; ond gan iddi eisoes gael ei hennill gan Ieuan, nid oes diddordeb ganddi mewn neb arall a seithug bellach yw unrhyw gais i'w hennill.

Mae'r awdl hon yn ymrannu'n ddwy. Yn llinellau 1–32 ceir saith pennill ar fesur gwawdodyn ac yn llinellau 33–52 gyfres o bum englyn unodl union.[9] Cysylltir y ddwy ran gan y cymeriad llythrennol *ll-*, a gynhelir drwy'r rhan gyntaf ac yn englyn cyntaf yr ail ran.[10] Ceir cymeriad llythrennol yn llinell 1, 3 a 4 pob englyn, yn newid o englyn i englyn. Ffurfia'r gyfres englynion gadwyn a elwir yn gyngogion, ac ailadroddir gair olaf pob englyn ar ddechrau'r llinell nesaf a gair olaf y gyfres yn ateb ei

[8] Gw. GCBM i, 5.121–2.

[9] Gw. J. Morris-Jones: CD 296–7.

[10] Y mae'n berffaith bosibl mai cerdd annibynnol yw'r englynion hyn i Ellylw: cf. cerddi 1 a 2 uchod i Ieuan ap Gruffudd Foel, y naill yn awdl ar fesur gwawdodyn, a'r llall yn gyfres o englynion unodl union. Cedwir y ddwy gerdd hynny fel cerddi ar wahân yn Llawysgrif Hendregadredd, ond mae'r tebygrwydd amlwg yn llinellau cyntaf y ddwy yn awgrymu y gall mai un gerdd ydynt mewn gwirionedd.

dechrau.[11] Mae'r llinellau i gyd yn gywir o ran hyd. Ceir cynghanedd sain ym mhob llinell o'r awdl, a chyfran helaeth ohonynt yn bengoll. Cynganeddwyd llinell gyntaf paladr a dwy linell esgyll yr englynion: ceir cynghanedd sain yn y mwyafrif o'r llinellau, a chanran sylweddol ohonynt yn bengoll. Mae'r gair cyrch yn ffurfio cynghanedd groes neu draws (bengoll) â'r ail linell ym mhob englyn.

3 **pob** Ar ddefnydd *pob* o flaen e.ll., gw. GMW 98.

7 **llyriaidd nawdd trethawl** Gellid deall hwn yn gyfeiriad naill ai at nawdd Ellylw i'r bardd, neu at ganu'r bardd i Ellylw.

**nawfan** Rhannwyd yn ddau air yn y llsgr., ond ni threiglir e. fel arfer yn dilyn y rhif *naw* (gw. Treigladau 135). Ond o gymryd bod *naw* a *ban* yn llunio cyfuniad clwm, mae'r treiglad i'r ail elfen yn dderbyniol: cf. isod 4.38n ar *naweirw*, a gw. GMW 16 (lle nodir y ffurf *nawwyr*, ond sylwer mai dim ond y ffurf *nawban* yn yr ystyr fydryddol a restrir yn GPC 2555). Am yr ystyr, cf. GCBM i, 1.1–2 *Ardwyreaf naf o na6 rann—uyg kert, / O na6 rif angert, o naw ryw uann*.

8 **Ellylw** Gw. uchod ar yr e.

9 **budd** Llsgr. C *uuyd* gyda phwynt dileu dan yr *y*; gthg. H 329.13 *uyud*.

10 **rhygwblair** Derbynnir awgrym G 189 ac un petrus GPC 634 fod grym a. i'r e. cyfansawdd *cwbl-air* yma.

**Llefair rhygwblair, ni rhygablaf** Cf. yn arbennig GCBM i, 5.120 *A dyweid riein*, *ny rygeblir* a hefyd uchod 1.4n. Ar y diffyg treiglad yma i wrthrych uniongyrchol *llefair*, cf. GDB 3.35 *Ny lleueir geir gorchalet* (y Prydydd Bychan).

13 **Mebwyniawn** Cwmwd yn Is Aeron yn ne Ceredigion, gw. uchod 2.19n.

15 **llu ddifrawd** Cf. isod ll. 39 *Milioedd draul*. Yr awgrym yw fod Ellylw yn dinistrio dynion trwy wrthod eu serchiadau.

**Meuryg** O bosibl y 'nant fechan yn codi ger y Cilgwyn, Llangybi, ac yn rhedeg heibio i Artheli i Aeron tros filltir i'r dwyrain o Drefilan', EANC 193. Gw. ymhellach y nodyn cefndir uchod.

16 **gwynblyg gwenyg** Sylwer mai *g6ynblyc g6eny*[ ] yw darlleniad llsgr. C yn hytrach na *g6ynblyc g6ein* a geir yn H 329.20; sylwer hefyd fod GPC 1771 yn derbyn darlleniad H ac yn rhoi'r ystyr 'plethwaith disgleirwyn (am wain cleddyf)' i *gwynblyg* yma. Cadarnheir y darlleniad *gwenyg* gan John Davies yn llsgr. A a chan yr odl fewnol â *gwynblyg*, ac â *Meuryg* yng ngair cyrch y ll. flaenorol.

[11] Gw. J. Morris-Jones: CD 294–5.

17 **lleufer eiry didraul** Am yr un syniad, cf. GDB 22.4 *G6ynlli6 eiry difri6* (Goronwy Foel) a GP 11 *Gwynlliw eiry divriw* (?Einion Offeiriad am Angharad).

19 **gwinfaeth** Llsgr. C *ginuaeth*; cywirwyd ef yn *gwinfaeth* yn llsgr. A a derbynnir y cywiriad hwnnw.

**pennaeth** Fe'i deellir yn gyfeiriad at Faredudd, tad Ellylw.

20 **a'i** Llsgr. C *a*[ ]; llsgr. A *ae*. Cytunir â darlleniad llsgr. A yn G 422 ac ategir y darlleniad hwnnw gan y gynghanedd. Deellir y rh.m. yn broleptig, yn cyfeirio ymlaen at wrthrych y f. *dyly*, sef *iaith*, cf. uchod 1.11n.

21 **y'i canaf** Llsgr. C *y*[ ]*af*; llsgr. A *y canaf* (cf. G 109). Ategir y darlleniad gan y gynghanedd. Ar ddefnydd y f. *canu* fel ba. yma, cf. *prydu*, isod ll. 24n.

23 **a'i** Mae'r darlleniad yn aneglur yn y llsgr. (gan fod y gair yn dod ar ddiwedd ll.). Noder hefyd ddarlleniad John Davies yn llsgr. A, *ar* ['a'r'], a chofio nad oedd y gair o reidrwydd yn aneglur yn ei gyfnod ef.

24 **Maredudd** Tad Ellylw, gw. y nodyn cefndir uchod.

**prudd brydaf** Cymerir mai 'doeth' yw ystyr *prudd* yma, er nad amhosibl ychwaith fyddai ei ddeall yn golygu 'trist', yn enwedig os yw'r bardd yn cymryd arno ei fod yn garwr gwrthodedig. Ar ddefnydd y f. *prydu* yma fel ba., cf. GIG 17 *Yswain brwydr sy'n ei brydu*.

27 **gair a wnair** Llsgr. C *geir* [ ]*neir*—daw *geir* ar ddiwedd ll. a *neir* ar ddechrau'r nesaf ac anodd erbyn hyn yw gwybod a oes llythyren yn eisiau ai peidio, ond cf. llsgr. A *geir* [ ]*wneir*. Mae'r mydr yn hawlio sillaf ychwanegol a rhydd *wnair* gynghanedd sain dderbyniol i'r ll. Ar gyfosod *gwnair* a *gwnaf* yn yr un ll., cf. uchod ll. 21 *Llwrw gwir niw cenir fal y'i canaf*.

28 **Llif dragon fanon foneddicaf** Cf. Cynddelw Brydydd Mawr am Efa, GCBM i, 5.45 *Llif dragon vanon valch y thyged* a gw. *ib*.n. Fel yn yr enghraifft honno, deellir *llif* yn ffurf 3 un.pres.myn. *llifo* yn golygu 'tyrru (i)', gyda'r cyrchfan, *fanon*, yn dilyn yn ddigyfrwng ac yn treiglo'n feddal.

29 **Llebliw** Ymddengys mai'r hen enw ar Ddolau, fferm ar lan Afon Aeron, ryw ddwy filltir i lawr y dyffryn o Langeitho, oedd Dolau Llebliw (diolchir i Mr Iwan Humphreys am yr wybodaeth hon); cf. y ffurf *dolydd Llebliw* isod ll. 50. (Gw. hefyd GPC 2123 lle dangosir i William Owen Pughe atgyfodi'r gair a rhoddi iddo'r ystyr 'lliw melyn gwan', &c.)

**gwydrblas ydd af** Dehonglir *gwydrblas* yma yn gyfeiriad at gartref disglair Ellylw, ond yn wyneb y traddodiadau diweddarach am Fyrddin fel carwr mewn tŷ gwydr—cf. DGG 78 (XLV.17–20) *Gwnaf yno i hudo*

*hon / Glos o fanadl … / Modd y gwnaeth*, *saernïaeth serch*, */ Merddin dŷ gwydr am ordderch*—tybed a ydyw'r bardd yn ei uniaethu ei hun â Myrddin y carwr? Ymhellach ar y traddodiad hwn, gw. TYP[2] 474 ac E. Rolant, 'Y Tri Thlws ar Ddeg', LlCy v (1958–9), 52.

30–1 **ni'm … / … ni'm** Gthg. H 330.6, 7 *uym … / … uym*.

33 **Enwysg** Derbynnir awgrym petrus G 482 y gellid ei gymryd fel yr unig gyfeiriad at e. lle anh. yn ardal Mebwynion. Ceir Nant Wysg yn llifo i Afon Aeron ger Llanllŷr, ond mae'n debyg mai e. diweddar yw hwn, yn adffurfiad o bosibl o'r elfen olaf yn Cilerwysg gerllaw.

**rhinddawl** Ar *dawl* yn golygu 'rhan, cyfran, anrheg, rhodd', gw. GPC 906; cf. hefyd G 303 er na restrir y ffurf hon yno fel cyfansoddair.

37 **hydeg** Llsgr. C *hydec*; gthg. H 330.13 *hyder* (ond anodd yw gwahaniaethu'n aml rhwng *c* ac *r* y llaw).

40 **pwyll feddiant** Deellir y cyfuniad yn enwol am Ellylw; ymhellach ar wahanol ystyron *pwyll*, gw. CLlH 85, 91.

**pell** Gall gyfeirio yma at bellter daearyddol neu amseryddol, gw. GPC 2923.

41 **Ni bydd amdlawd gwawd …** Cf. GCBM ii, 2.41 *Nyd amdla6d na'm gua6d na'm gwetidor*.

44 **clwyf** Deellir hwn yn gyfeiriad at serch fel cur (gw. Th.M. Chotzen: Rech 315 *et passim* am enghreifftiau pellach o'r syniad cyffredin hwn) neu o bosibl yn enwol am Ellylw ei hun fel un sy'n peri cur.

45 **Clodfawr dwn … feinfarch** Cymerir bod y bardd yn cyfarch ei farch yma, ond mae'r gystrawen yn amwys. Daw gwrthrych y f., *mwynferch Faredudd*, yn y ll. ddilynol dan reolaeth yr ardd. *ar*. Arall yw dehongliad G 265 sy'n cymryd mai *cyrchu cyrch ar* yw'r gystrawen.

46 **mwynferch** Llsgr. C *wyn ferch*, gw. uchod 1.3n.

**Maredudd** Gw. ll. 24n.

47 **dwyre ddeurudd** Cf. R 1350.33 *llen a gud deurud dwyre* (Mab y Clochyddyn).

49 **hawl ddylyn** Deellir *dylyn* yma'n a. gan ddilyn GPC 1138 (er na restrir yr enghraifft hon yno) yn hytrach na ba. yn golygu 'dilyn, canlyn, glynu wrth, dal ymlaen â' fel y'i rhestrir yn G 353 d.g. *dilit*[2].

50 **haul ddolydd** Eb. oedd *haul* mewn Cym.C. Am dreiglad meddal e. genidol yn dilyn eb.un., gw. J. Lloyd-Jones, 'Some features of Middle Welsh syntax', ZCP xvii (1927–8), 81–9 ac yn arbennig *ib*. 86 lle cyfieithir y ll. hon '*the glory of Llebliw Meadows*'.

**Llebliw** Gw. uchod ll. 29n.

51 **bodd** Gthg. H 330.27 *dod*.

**rhin ddifrawd** Cwyn arferol beirdd serch y cyfnod yw fod y merched yn osgoi ‘rhin’ â hwy, sef cyfarfyddiad dirgel neu agosrwydd, cf. disgrifiad Cynddelw Brydydd Mawr o Efa, GCBM i, 5.7 *Rin woleith woletyf ...*

# *Mynegai*


**a**[1] 1.14n
**adaf** 3.16
**alaf** 2.2n
**amdlawd** 3.41n
**arab** 2.11
**arllwyso: arllwysir** 1.6
**arwyddo**: **arwyddir** 1.25n
**arwyrain** 1.18n
**ateb: atebion** 1.24n
**banon** 3.28n
**bodd** 3.51n
**bonheddig**: **boneddicaf** 3.28n
**budd** 3.9n
**cablu** gw. **rhygablu**
**cain** 1.18n
**canfod**: **cannoedd** 1.16n
**canon** 1.24n
**canu**: **canaf** 3.21; **cenir** 1.18n
**cedol** 1.18, 2.3
**clodfawr** 3.45
**cludfawredd** 3.12
**clwyf** cur 3.44n
**cordd**: **cyrdd** 2.7n
**cyfedd** 1.12n
**cyfeddach** 1.22n
**cyfles** 2.15
**cyflwydd** 2.16
**cyfranc** 2.9
**cyfrwydd** 2.20
**Cymry** 3.19
**cynfab** 1.9n
**cyngyd** 1.19n
**cynneddf** 1.15n
**cynyddu: cynyddaf** 3.8
**cywyd** 1.28
**deurudd** 3.47n
**didraul** 3.17n
**dienwir** 1.22
**difethl** 3.34
**difrawd** 3.15n, 51n
**diffol** 3.11
**diorsaf** 3.9
**diwarthaf** 3.13
**diweirfun** 3.36
**dôl**: **dolydd** 3.50n
**dragon** 3.28n
**dwn** 3.45
**dwyre** 3.47n
**dylyn** 3.49n
**dylyu: dyly** 3.20
**dywirfawl** 3.36
**edrysedd** 1.12
**eilwydd** 3.30
**eres** 3.31
**euraw**: **eurir** 1.14n
**ffysg** 2.4
**gair** 3.27n
**galon** 2.1
**glan** 1.14n
**glud** 2.9
**glyn** 1.14n
**glyw** 2.9n
**goafael** 2.18
**gorne** 3.47
**griff** 2.12n
**gwaneg: gwenyg** 3.16n
**gwaranrwydd** 2.16
**gwarant** 3.26
**gwarediad** 1.5
**gwawd** 3.41
**gwinfaeth** 3.19n
**gwneuthur: gwnair** 3.27n
**gwydrblas** 3.29n
**gwynblyg** 3.16n
**haul** 3.50n
**hawl** 3.49n

**herwnwyf** 1.26
**hud** 3.32
**hydeg** 3.37n
**hyddawn** 3.49
**hyffawd** 3.15
**’i** 3.21n (yn cyfuno ag **y**)
**llafnir** 1.2, 2.15
**llafurfaith** 3.6
**llathraid** 3.32
**llawen** 1.15n
**lledfryd** 3.25
**llefaru: llefair** 3.10n
**lleufer** 3.17
**llewychdud** 3.14
**llewychfawr** 3.4
**llifo**: **llif** 3.28n
**lliw** 3.16
**llu** 3.15n
**llwybrdir** 1.15n
**llwyddran** 3.8
**llyriaidd** 3.7n
**llywiawdr** 3.2
**meddiant** 3.40n
**meinfarch** 3.45n
**moel** 2.20n
**morach** 1.22n
**mur** 1.22n
**mwyfwy** 1.3n
**mwynferch** 3.46n
**nawd** 3.32
**nawdd** 3.7n
**nawfan** 3.7n
**nid** 1.25n
**peddyd** 1.27
**pell** 3.40n
**plygu: plygir** 1.20
**pob** 3.3n
**profi**: **profir** 2.14n
**prudd** 3.24n
**pwyll** 3.40n
**rhin** 3.51n
**rhinddawl** 3.33n
**rhygablu**: **rhygablaf** 3.10n
  **rhygeblir** 1.4n
**rhygwblair** 3.10n
**soddi: sawdd** 2.1
**som** 2.17
**somi**: **somir** 2.13n
**treistir** 1.8n
**trethawl** 3.7n
**ŵyr** 1.16n; **wyron** 1.23
**y: ydd** 1.7n; **y’i** (yn cyfuno ag **’i**[1])
  3.21n
**ysym** 1.1, 2.1

## *Enwau personol*

**Celi** 3.4
**Drystan** Drystan fab Tallwch 1.8n
**Elidir** 1.16n
**Ellylw** 3.8n, 37
**Gruffudd** Gruffudd Foel 1.9, 2.12
**Gwên** 1.15n
**Ieuan** Ieuan ap Gruffudd Foel 1.7, 2.10
**Maredudd** Maredudd ap Cadwgan Fantach 3.24n, 46n

## *Enwau lleoedd*

**Aeron** [Afon] Aeron 1.14n, 2.5, 3.27
**Carawn** 1.19n
**Enwysg** 3.33n
**Llebliw** 3.29n, 50n
**Mebwyniawn** 2.19n, 3.13n
**Meuryg** [Nant] Meurig 3.15n

# ENGLYNION DAFYDD AP GWILYM

# I’R GROG O GAER

golygwyd gan

ANN PARRY OWEN

# *Rhagymadrodd*

Trafodir cefndir yr englynion hyn yn fanylach yn Ann Parry Owen, ‘Englynion Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam i’r Grog o Gaer’ yn YB xxi (1996), 15–36.

Cododd John Davies chwe llinell gyntaf y gerdd i’r copi a wnaeth o Lawysgrif Hendregadredd, sef BL Add 14869,[1] ar ddechrau’r ail ganrif ar bymtheg, ond gan fod y testun yn dirywio ar ôl y chweched llinell—gan fod y copïydd wedi dechrau defnyddio inc o ansawdd gwael—nid aeth John Davies ymhellach. Gan fod yr holl destunau diweddarach yn gopïau uniongyrchol neu anuniongyrchol o chwe llinell John Davies, Llawysgrif Hendregadredd yw ein hunig ffynhonnell ar gyfer y gerdd gyfan.

Teitl llawn yr englynion yn y llawysgrif yw *Eglynyon a gant dauid llwyd uab gwilim gam yr groc o gaer*. Er iddynt gael eu gwrthod yn wreiddiol o ganon Dafydd ap Gwilym gan Thomas Parry yn ei olygiad cyntaf o *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, a hynny oherwydd yr enw Dafydd Llwyd wrthynt,[2] newidiodd ei feddwl yn ddiweddarach.[3] Er hynny, ni chynhwysodd y gyfres yn yr ail na’r trydydd argraffiad o *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, a hynny, mae’n sicr, oherwydd ansawdd gwael y testun yn y llawysgrif.[4]

Gwelir bod cryn dipyn o fylchau yn aros yn y testun, ond gellir bod yn hollol sicr mai Caerfyrddin oedd cartref y grog y canodd Dafydd iddi, er mai Caerlleon (Chester) oedd cartref y ‘grog o Gaer’ y canodd nifer o feirdd iddi ar ôl Dafydd, gan gynnwys Gruffudd ap Maredudd a Guto’r Glyn.[5] Cyfeirir at y dref yn benodol fel *Caer Fyrddin* ddwy neu o bosibl dair gwaith (4.100, 120, 133 (gw. nodyn)), a disgrifir yn helaeth y llanw a lifai yn Afon Tywi, *Lle lleinw heli Dywi daer* (4.12).

Awgrymodd Mr Daniel Huws ei bod yn dra phosibl fod y gerdd wedi ei chofnodi yn Llawysgrif Hendregadredd gan Ddafydd ap Gwilym ei hun, rywdro yn ystod ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg pan oedd y llawysgrif yng nghartref Ieuan Llwyd ac Angharad ei wraig yng Nglyn Aeron.[6] Yr oedd Dafydd, bid sicr, yn troi yn yr un cylchoedd llenyddol ag Angharad,[7] ac efallai mai drwy ei berthynas â hi y daeth i’w chartref hi a’i gŵr yng Nglyn Aeron. Ond o gofio ei bod yn debygol fod Dafydd wedi

[1] Gw. RWM ii, 957–70.

[2] GDG xiii–xiv.

[3] Gw., e.e., T. Parry, ‘Hendregadredd’, *Y Casglwr*, 15 (1981), 5 a GDG$^2$ xix, 556.

[4] Hoffwn gydnabod yma fy niolch arbennig i Mr Daniel Huws, a dreuliodd gryn dipyn o amser yn ateb fy ymholiadau am y testun; diolch iddo hefyd am ei gefnogaeth.

[5] Gw. R 1194–8 a GGl$^2$ 285–6 (CXI).

[6] Gw. D. Huws, ‘Llawysgrif Hendregadredd’, Cylchg LlGC xxii (1981–2), 18.

[7] Gw. uchod tt. 7–8.

derbyn rhywfaint o addysg ym mynachlog Ystrad-fflur, bod cysylltiad clòs rhwng Ieuan Llwyd a'r fynachlog honno, a bod y ddau yn rhannu'r un diddordebau llenyddol, gall mai Ieuan Llwyd ei hun a ddenodd Dafydd i Lyn Aeron.

Anodd gwybod yn union sut grog y canodd Dafydd ap Gwilym iddi yng Nghaerfyrddin. Cesglir o'r disgrifiadau fod iddi bedwar pwynt ([*p*]*edwar ban*, ll. 4); fe'i gelwir ddwywaith yn *corf* ('colofn, piler', llau. 27 a 100) ac mae'r bardd yn cyflwyno ei addoliad iddi ar ei ddeulin (4.89). Pwysleisir ei disgleirdeb droeon a'i disgrifio'n *loyw*, *claer*, *llathr*, *croyw*, a *llathrgaen*, gan awgrymu ei bod wedi ei gorchuddio â deunydd llachar. Onid ydyw'n ffigurol, mae'r disgrifiad ohoni fel *eurddelw* (llau. 22, 35, 161) hefyd yn awgrymu ei bod wedi ei goreuro, ac mae'r cyfeiriad pellach at *gem* (llau. 47–8, 161–2) yn awgrymu ei bod wedi ei haddurno. Sonnir hefyd am y weithred o'i llunio (*nadd naddyf* 'naddiad y fwyall', 4.83), gan awgrymu mai crog o bren neu o bosibl o faen ydoedd. Y tebyg yw fod arni hefyd ddelw o Grist ac mae'r cyfeiriad at *mynog ball eurog* (4.109) o bosibl yn gyfeiriad at fantell a wisgai'r ddelw, sef mantell litwrgïol, y *colobium*. Mae'r cyfeiriadau at y grog fel *delw fyw* a *chrair* neu *grair byw* yn awgrymu'n gryf ei bod yn cynnwys darn o'r Grog Sanctaidd, neu o leiaf yn honni cynnwys darn o'r Grog honno. Os felly, mae'n debygol iawn mai dyma fyddai prif grair ac atyniad y sefydliad a'i cynhwysai.

Lleolir y grog o fewn muriau Caerfyrddin—*Llathr yw y grog fyw o fywn dinas—Caer* (4.157)—ac fe'i cysylltir â chaer wyngalchog (llau. 4, 85–6). Cyfeirir at fylchau llathraid (*llathrfylch*), sef y '*battlements*' ar frig muriau'r castell (4.173), a *bylchgaer* (4.8), a lleolir y grog ar allt, *llethrfaith blas—y grog* (4.173). Cyfeirir sawl gwaith at *blas y grog* (*cysegrblas*, *carueiddblas* a *nefolblas*, llau. 28, 36, 166) ac er na fedrir bod yn hollol sicr o rym y gair bob tro (gw. 4.28n), credir mai cyfeiriad at adeilad sydd yma. Mae'r cyfeiriadau pellach at *deml* (llau. 43 a 88) ac at *drefn myrr a gwin* (4.98),[8] yn awgrymu sefydliad eglwysig o ryw fath. Arwyddocaol efallai yw'r cwpled *Llwyr elw er eurddelw i ar urddas—gem / A gymyrth tŷ a phlas* (llau. 161–2), a all fod yn gyfeiriad at y ffaith fod yr adeilad hwnnw wedi derbyn arian gan bererinion a ymwelai â'i chrog. Byddai dyletswydd ar yr offeiriad i roi cyfran o'r arian hwn i'r tlodion, ond byddai cyfran helaeth ohono yn mynd tuag at gynnal a gwella'r adeilad; fel y sylwodd Glanmor Williams: 'Building schemes were to a surprisingly large extent determined and financed by the crowds which could be attracted to relics and other sacred objects housed in a church.'[9]

Ni lwyddwyd i leoli'r grog hon y canodd Dafydd iddi gydag unrhyw sicrwydd. Gellir diystyru'r groes a godwyd yn sgwâr y farchnad y tu allan i

[8] Fe'i deellir yn llythrennol yma, ond cofier hefyd fod *myrr* a *gwin* yn digwydd gyda chysylltiadau ffigurol, *myrr* yn symbol o ddioddefaint a *gwin* yn symbol o waed Crist.

[9] Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Cardiff, 1976), 267.

brif borth y castell, lle mae cerflun Nott yn sefyll heddiw, gan na ddaethpwyd ar draws cyfeiriadau at grogau marchnad yn ffocws i bererinion.[10] Cafwyd tystiolaeth o ddechrau'r bymthegfed ganrif hefyd fod *crucifix cum ij imaginibus beate marie et Sancti Johannis Evangeliste auro depictis* ar gadw yng nghapel castell Caerfyrddin;[11] ond dichon mai capel preifat i'r castell oedd hwn ac na fyddai pobl gyffredin yn gallu cyrchu'r grog ynddo. Fodd bynnag, ychydig islaw sgwâr y farchnad yr oedd capel rhydd, annibynnol o'r enw Capel y Santes Fair, a godwyd gan drigolion y dref cyn canol y drydedd ganrif ar ddeg.[12] Cyfeirir at y capel hwn ar drothwy'r bymthegfed ganrif fel *capelle Sancte Crucis de Kerm'dyn* ac eto yn yr unfed ganrif ar bymtheg fel *Rode Church* 'eglwys y grog'.[13] Dichon i'r capel gael yr enw hwnnw oherwydd crog sanctaidd y tu mewn iddo.[14] Cyfeirir at eiddo'r capel hwn mewn cofrestr esgobaethol dyddiedig 1401 a hefyd yng nghanol yr unfed ganrif ar bymtheg yn yr arolwg a wnaethpwyd yn sgil diddymu'r siantrïoedd dan Edward VI, ond nid oes unrhyw gyfeiriad yn y naill na'r llall at grog o unrhyw fath.[15]

Ceir ambell awgrym yn y gerdd hefyd am natur addoliad y bardd i'r grog. Cyfeiria deirgwaith at ei weddi fel *dadl ddidaer* 'ple anymwthgar' a ddeellir yn gyfeiriad at ei ble i'r grog am faddeuant o'i bechodau. Dywed ymhellach iddo gyfarch y grog ar ei liniau, *Molaf*, *addolaf ar ddeulin* (4.89), a chyfeiria at ei weddi fel *dadl ddeulin* (4.93). Mae'n bosibl hefyd ei fod wedi derbyn cymun wrth y grog, *Myrdd a fawl*, *gwehynfawl gwin*, / *Mawrddelw o fygrdrefn Myrddin* (4.91–2). Yn wahanol i gerddi'r beirdd diweddarach i grogau, nid yw Dafydd yn ymhelaethu ar ei bechodau ac unwaith yn unig y sonia am faddeuant y grog (4.87). Mae'n debygol iawn mai ar adeg y Pasg y daeth i gyfarch y grog, gan mai Dydd Iau Cablyd oedd y diwrnod pwysicaf yn yr Eglwys ar gyfer penydu a derbyn maddeuant.[16] Gall y cyfeiriad at salmau fod yn gyfeiriad penodol at y siantiau a'r salmau a genid yn ystod gwasanaeth anrhydeddu'r grog (*veneratio crucis*) ar Ddydd Gwener y

[10] Yr oedd y ddwy grog arall a safai yng Nghaerfyrddin yn ystod y cyfnod hwn y tu allan i furiau'r dref, y naill yn Heol y Priordy a'r llall yn Heol Awst (*Lammas Street*); diolchir i Terrence James am yr wybodaeth hon.

[11] Gw. cofnodion Syr Edward Stradling am 1431–3 pan oedd yn is-ustus De Cymru, yn Arch Camb, *Original Documents* i, 23, lle ceir manylion am *capella infra castrum Regis de Kermerdyn*.

[12] Gw. Terrence James, *Carmarthen*: *An Archaeological and Topographical Survey* (Carmarthen, 1980), 27–8, 36–7 a RCAHM (Carmarthenshire) 252–3.

[13] Gw. *Episcopal Registers of the Diocese of St Davids*, *1397–1518* (Cymmrodorion Record Series), VI, i, 240 a J.T. Evans, *The Church Plate of Carmarthenshire* (London, 1907), 117 ac E.D. Jones, 'Survey of South Wales Chantries, 1546', Arch Camb lxxxix (1934), 139–40.

[14] T. James, *op.cit.* 27, 'The name "rood" is presumably derived from the Market Cross which stood close by, although it may refer to a venerated crucifix within the church'.

[15] *Episcopal Registers* … 240 cyfeirir at *libros luminaria et vestimenta eccl'iastica* yn unig yn 1401 ac eto yn J.T. Evans, *op.cit.* 118 at 'challes of silver … one pare of Vestmentes of blew satten … Alter clothes … and ij smale belles'. Ar weddillion diweddar y capel hwn, gw. RCAHM (Carmarthenshire) 258.

[16] Gw. Ann Parry Owen, *art.cit.* 25–6.

Groglith—*Gwawdaml seilm gwiwdeml Selyf* (4.88). Gan i Ddafydd addoli'r grog ar ei ddeulin, gellid nodi ymhellach mai yn y gwasanaeth hwn yn unig y byddai dyn yn mynd ar ei liniau o flaen y grog.

Yr oedd Caerfyrddin yn ganolfan fasnach bwysig yn ne Cymru a byddai ei marchnadoedd yn atyniad i drigolion yr ardaloedd cyfagos. Ond os ceisir noddwr i'r gerdd hon, sydd wedi'r cyfan yn dyrchafu bri'r grog a'r dref, awgrymir y byddai Rhys ap Gruffudd yn bosibilrwydd, ac y byddai'r flwyddyn 1335, pan oedd yn gwnstabl castell Caerfyrddin, yn ddyddiad posibl ar gyfer ei chyfansoddi.[17]

Cynhwysa'r gerdd o leiaf bump a deugain o englynion, sef 180 o linellau. Mae'n fwy na thebygol fod englyn neu ddau wedi eu tocio ar frig ffolios $120^{v}$ a $121^{r}$, ac felly ei bod yn wreiddiol yn cynnwys yn nes at hanner cant o englynion (sef 200 llinell). Dyma, felly, yn sicr, y gerdd hwyaf a gadwyd inni gan Ddafydd ap Gwilym. Hyd y gellir barnu, englynion unodl union yw pob un o'r englynion hyn, ac y maent, o ran cynllun, yn weddol unffurf.[18] Ac eithrio llinellau 69–72, 109–112, cynhelir cymeriad llythrennol, cynganeddol neu eiriol yn llinellau 1, 3 a 4 o bob englyn. Gwelir bod yma flociau o englynion, weithiau gymaint â 12, yn cynnal yr un odl, ac yn aml yn diweddu gyda'r un gair yn safle'r brifodl yn y bedwaredd linell. Yn ogystal â'r odl, cysylltir nifer o englynion gan gymeriadau a phan fo'r odl yn newid ceir cyrch-gymeriad yn eu cysylltu, boed hwnnw'n gyrch-gymeriad geiriol, yn cynnwys odl, neu'n gyrch-gymeriad synhwyrol. Ni ellir dod i unrhyw gasgliadau pendant o safbwynt y gynghanedd, gan fod oddeutu 27% o'r llinellau yn anghyflawn. Fodd bynnag, o ddiystyru'r gynghanedd rhwng y gair cyrch a'r ail linell, gwelir bod yma gynghanedd sain mewn 75% o'r llinellau, croes mewn 19%, traws mewn 4% a llusg mewn 1%. Cynghanedd groes neu draws a geir yn arferol rhwng y gair cyrch a dechrau'r ail linell, gyda dwy enghraifft yn unig o gynghanedd sain.

[17] Trafodir hyn ymhellach *ib*. 33–5.

[18] Trafodwyd mydryddiaeth y gyfres hon yn Ann Parry Owen, 'Golwg byr ar fydryddiaeth englynion Dafydd ap Gwilym i'r Grog o Gaer' yn *Dwned*, i (1995), 41–53.

*4*

*I’r grog o Gaer*

Cryf aberth yw nerth (nid yn aer—treiswyr
Eithr mywn trawswyrth didaer)
Crair mawrglod, croywrym, eirglaer,
Crog bedwar ban o gan Gaer.

Lluniaf arawl mawl can wyf maer—ar wawd
I’r wiwdeg fygrddelw glaer,
Lle breisgdwrf llanw llwybr-rwysg daer,
Llathr amgylch [ ]frestr fylchgaer.

Llawn iawn fu o ddawn heb fodd aer—na thwrf
Na therfysg brwydr aglaer,
Ll[ ]lch oleugalch loywgaer,
Lle lleinw heli Dywi daer.

[ ]aer—[ ]
O achos y grog glaer,
Llathrgaen [ ] brwydrdaer,
Llithr byrdd fyrdd [ ] lludw cylch Caer.

Llathrddelw fyw llin Llyw llwybr didaer—[
]claer
Lle daw, cyn treiaw traaer,
Llanw llawndraidd a gyrraidd Gaer.

[ ]dysg diaer—er urddas
I’r eurddelw loywfyw glaer,
Cannaid dadl [ ] didaer,
[ ]logion Caer.

Cyflawn yw o ddawn, ddinam faer,—ynof
Gan [ ]
Celfydd corf dedwydd didaer,
Coelfain cysegrblas cain Caer.

C[ ]Crist yw saer—y grog
Groywgadr wyrth ffrwythlonglaer,
Creawdr [
]a ddoeth i dref goeth Gaer.

Y grog hon loywfron lyfr Biblglaer—…
]saer
Eurddelw, drwyadl ddadl ddidaer,
Urddas carueiddblas Caer.

[ ] cannaer—anewog
Lle mae naweirw dwrddglaer,
D[ ]daer
Dwfr dros lennyrch a gyrch Gaer.

Dug llanw gwyll fi [ ]
Er moliant i'r ddelw glaer,
Deifr brudd-deml dwfr ebrwydd-daer,
] Caer.

Da fu drwyadl ddadl ddidaer—hwyl[ ]
H[ ]
Dawn mawrglau, dinam, eirglaer,
Dwyn gem a garem i Gaer.

Credadun eiddun addef—yw dyfod
I blith Deifr Saesnectref,
[ ]
Crair croywgain air grog o nef.

I'w ffloywfrain[
]dwyn gwawd gysylltgref
Ei phlas yw Caer, aer wrdd-dref,
[ ]

*Mae un englyn yn annarllenadwy yma, wedi ei docio ar frig y ddalen. Mae'n bosibl fod dau englyn arall yma hefyd yn wreiddiol.*

Peryf didrist Grist groes dioddef—mygr,
Ni magwyd trafn mal Ef,
Pur, Mur, Amherodr tangnef,
Poen ffyrfgrair ffêr pêr Nêr nef.

Dug Duw Tad ddelw fad fydr gywair—i Gaer,
Egoriad gwyrth y'i gwnair,
Dygaf (dogn beraf burair)
Dwygerdd groyw i'm digardd grair.

Gwnaeth hon er deillon, heb dwyllair,—ni drem
Fal y dremwalch mudair;
Arwydd na bydd (ffydd Ffyrfbair)
Arab heb nerth Mawrfab Mair.

A bod, gwawl nawsglod, gwael annisglair—grupl,
Grapach feirw, Dwy eilgair,
Ar osteg, wiwdeg wawdair,
Ar restr yn ffyrf beddestr ffair.

O'i gwyrth prudd a'i budd y byddair—a glyw
Yn gleuwymp ddilestair;
A byw yn llwyrgryf a bair
O beth marw, obaith mawrair.

Gorhoff grair purair Peryf—aglaerddelw
Eglurddoeth ei gwyrth cryf,
Gŵyr pob gradd mad nadd naddyf,
Gorau taith er Gŵr a'u tyf.

Gofwy aur [ ]fawl deisyf—y grog
O groywgaer galchliw nyf,
Gwedy maddeuaint, braint bryf,
Gwawdaml seilm gwiwdeml Selyf.

Molaf, addolaf ar ddeulin,—[
]atwyf dafodflin,
Myrdd a fawl, gwehynfawl gwin,
Mawrddelw o fygrdrefn Myrddin.

Egoraf, dodaf, dadl ddeulin,—'y mryd
Ym mrodiau gwyrthefin,
I garu delw ryelw rin,
[ ]in

[
]drefn myrr a gwin,
Cyflawn ddawn ddysgfawr rin,
Coeth corf eurddoeth Caer Fyrddin.

[ ]—i Gaer
Ac arwydd Iesu yw,
Croyw gerdd ferwloyw [
]cydfalch grair balch byw.

[ ]—[ ]edyriaith
Awduriaid cerdd a'i clyw,
Wawr eurglawr byd a erglyw
Weddawl fawl i'r wiwddelw fyw.

Mynog ball eurog a bell oryw—Deifr
[ ]llyw
Loegrwybr gaer ddilwygryw,
Loegrig foes i'r loywgrog fyw.

[ ] ddileddf ddeddf a ddoddyw—i Gaer,
Pibl eirglaer, pybl erglyw,
O farw, firain Arglwyddlyw
Eurog ball, a orug byw.

[ eur]ddelw wrddiaith—a gyrchodd
Ag erchyll hydr heb graith,
Corf balch[ ]eddylfaith,
Caer Fyrddin daer, fawrddawn daith.

[ ]wrddiaith—i fawrgaer,
Nid ofergerdd gwawdiaith;
Dyddwyn[ ]
Diddig detholedig daith.

[ ]aith—ugeinmil
A genmyl eu dawn maith;
Mynnaf, na wydiaf wawdiaith,
Mawl hawl hylwydd rheg deg daith.

[ ] wyniaith— -Usalem
A seilwyd yn Benrhaith,
Cylchwy bedd Crist ddi[
]sg magwyr fraisg fraith.

[ ]wych araith—Fyrddin
A farddawd chwŷl pobiaith,
Lle y mae[
]athrddelw freinfryw, fyw, faith.

[

] pellfaith
Uddunt wy a eiddun taith.

Duw trugar, Nen câr, ni’n cawdd—yn ognwd,
Dros waetffrwd draws wawtffrawdd;
Dâr breinol a’n dewr brynawdd,
Dôr y nef a’n dyry nawdd.

Doeth i Gaer, lle taer twrf môr-gymlawdd—ffyrf,
Yn y ffurf y’n prynawdd,
Dwysg enw pêr, dysg a’n parawdd,
Delw o’r nef, Adeilwr nawdd.

Arail dalm o’m salm, na sawdd—ferw awgrim,
Fawr wiwgrog a’m prynawdd,
Erchyll gwaedfriw a’th liwawdd,
Archaf i’r Duw Naf Dy nawdd.

Traul gwyarddafn Trafn, trefnawdd—eglur Grist
I’r glaer grog a’n lludd cawdd
(Tras ym mydr, traws ymadrawdd)
Tref yn ail nef, annwyl nawdd.

Llathr yw y grog fyw o fywn dinas—Caer,
Cariad eilun teyrnas,
Lle gwŷl Deifr, llu gwelw difas,
Llif dwfr croyw a llanw gloyw glas.

Llwyr elw er eurddelw i ar urddas—gem
A gymyrth tŷ a phlas;
Lle beirw dwfr [ ] llwybr difas,
Llawr llathrfawr glawr llithrfor glas.

Lle deifrdaer yw Caer, lle nid cas—myned
Er mwyn delw nefolblas,
Lle[ ] Iuddas,
Lle beirw llawer glwyseirw glas.

Lluniaf daith drosaf, doeth dras,—i weled
Y wiwloyw golau gras,
[ ]llif uch camlas,
Llyry Caer a llen glaer llanw glas.

Mae yng nghylch llathrfylch llethrfaith blas—y grog
O groywgaer [ ]
Mwynrym ddawn maenrwym ddinas,
Mur hoyw a morgl[ ] glas.

Maich wnaf i'm Trawsnaf trwy fodd tras—i'r grog
Ar groyw[ ] ei gwas,
Mygrwawd ddiofn, ddofn, ddifas,
Mal rhif graean ar lan las.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14869, $245^{v}$ (llau. 1–6) B—BL Add 14936, $50^{r}$ (llau. 1–6) C—LlGC 6680B, $120^{r}$ D—Llst 31, 492 (llau. 1–6) E—Pen 119, 500 (llau. 1–6)

Codwyd y chwe llinell gyntaf yn unig gan John Davies i lawysgrif A o lawysgrif C, a thestun llawysgrif A yw ffynhonnell yr holl gopïau eraill o'r testun. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*
Defnyddir teip italig i ddynodi darlleniadau ansicr. Rhoddir dot mewn bachau petryal am bob llythyren annarllenadwy a bylchau gwag am nifer ansicr o lythrennau amhosibl eu darllen. Argreffir testun diplomatig mewn atodiad, isod tt. 85–91.

6 uyg*y*rddel6. 8 llathyr amgylch [..]*frest*yr*u*ylch[ ]. 10[ ]theruysc. 13 l[..]6en [ ] kynt ll*e* k*a6*. aer. 15 uae*t*[ ]br[..]d br6ydy.daer. 21 [..]eth o*f*[ ]dysc. 26 gan ddu[….]*gwyn*[ ]. 27 [ ]uyd. 39 der*uyd*[.]ut [ ]daer. 41 ui, ni *neu* m. 43 ebr6ydd[ ]. 45 h6yl [ ]fya6. 55 6rddr[ ]. 61 [ ]ryf. 62 ma[ ]. 64 [.]*o*en. 66 egoryat gwyr[.]*h* y gwy*n*eir (*neu* gwy*u*eir). 69 [.]wanaeth. 73 anisg[.]eir. 76 arestyr. 77 [.]e. 81 [..]reir. 85 [ ]*u*a6l. 92 uyrdin. 93 ymryt. 99 ua*6r*in. 104 [ ]k*yt*ua*l*ch. 105 [ ]*e*dyrieith. 107 byt[..]rglyw. 108 weda6l [.]a6l; 6idel6. 109 deify[.]. 110 [ ]*et* yn[.]ef lly[.]. 111 l*o*ygr6ybyr *neu* l*e*ygr6ybyr; ddil6ycry6. 116 *eur*ddelw. 121 [ ]6rd[.]eith. 141 yn gocn6t. 143 a de6rbrynawd. 151 e[.]chyl. 152 naf [ ]. 158 [ ]lun. 163 *re*[.]. 167 lle [.]*g*[ ] *drut* ]ret iudas. 170 g*oleu gras*. 176 mor*gl*[ ]glas. 178 groe6ga[….]*d* y gwas.

*Teitl*
Eglynyon a gant dauid llwyd uab gwilim gam yr groc o gaer

## *I'r grog o Gaer*

Aberth grymus yw nerth (nid mewn gwrthdrawiad gorthrechwyr
Ond mewn gwyrth gadarn hyfryd)
Crair clodfawr, eglur [ei] rym, disglair fel eira,
Crog bedwar ban o Gaer wen.

Lluniaf ddatganiad [o] fawl gan fy mod yn stiward ar brydyddiaeth
I'r ddelw wych ddisglair ragorol [a] hardd,
Lle mae trwst mawr llanw [ac iddo] rwysg cwrs byrlymus,
Disglair am gylch … caer fylchog.

Llawn iawn fu o fendith heb foddion ymladd na chythrwfl
Na therfysg brwydr dra disglair,
… caer loyw eglur [a] gwyngalchog,
Lle mae heli yn llenwi [Afon] Tywi fyrlymus.

…
O achos y grog glaer,
… â gorchudd disglair … taer [ei] ymladd,
?Rhedegog yw cloriau fyrdd … edifeirwch cylch Caer.

Delw fyw lathraid [o] linach Tywysog llwybr tirion
…
Lle daw, cyn treio tu draw i'r maes,
Llanw sy'n treiddio i'r eithaf a gyrraedd Gaer.

… dysg heddychol er mawrhad
I'r ddelw wych loywfyw ddisglair,
Disglair yw datganiad [?cennad] addfwyn,
… Caer.

Cyflawn o fendith ydyw, maer di-fai,—ynof
Gan …
Celfydd yw['r] piler gwynfydedig, hyfryd,
[Gwrthrych] llawenydd safle cysegredig [a] chain Caer.

… Crist yw saer—y grog
Sanctaidd a chryf [ei] gwyrth lesol a disglair,
Creawdwr …
… a ddaeth i dref Caer wych.

Y grog hon [megis] Beibl disglair [sy’n] llyfr gloyw ei fron
… saer
Delw wych, ple trwyadl [ac] anymwthgar [a gyflwynaf],
Urddas safle annwyl Caer.

… can byddin—gyfoethog
Lle mae naw berw ton disglair eu sŵn,
…
Dŵr dros lennyrch a gyrch Gaer.

Dug llanw gwyllt fi …
Er moliant i’r ddelw ddisglair,
Teml ddwys [y] Saeson [ger] llif cyflym a byrlymus,
… Caer

Da fu [fy] mhle trwyadl [ac] anymwthgar—…
…
Bendith fawr ac eglur, sanctaidd, ddisglair fel eira,
Oedd cludo gem a garem i Gaer.

Cyffes gywir [a] dymunol yw dyfod
I blith Saeson tref Seisnig,
…
Crog o nef [sy’n] grair sanctaidd prydferth [ei] glod.

I’w ?braint ddisglair …
… cludo prydyddiaeth rymus ei chlymiad
Ei lleoliad yw Caer, tref gadarn [mewn] ymladd,
…

*Mae un englyn yn annarllenadwy yma, wedi ei docio ar frig y ddalen. Mae’n bosibl fod dau englyn arall yma hefyd yn wreiddiol.*

Croes dioddefaint gogoneddus Crist [yr] Arglwydd
    gwynfydedig,
Ni fagwyd pennaeth [fel Ef],
Sanctaidd, Amddiffynnydd, Ymherodr tangnefedd,
Dioddefaint crair cadarn gwych Arglwydd tirion [y] nefoedd.

Dug Duw Dad ddelw ddaionus addas [i] gerdd i Gaer,
[Yn] allwedd gwyrth y’i gwneir,
Dygaf (cyfraniad [o’r] moliant pur [a] melysaf)
Ddwy gerdd bur i’m crair di-fai.

Gwnaeth hon er deillion, heb air celwyddog, nad ydynt yn gweld
Fel y gwalch llygeidiog yn ei lawn blu;
[Mae’n] arwydd na bydd (ffydd [yn yr] Arglwydd nerthol)
Yn rymus heb nerth Mawrfab Mair.

A bod, goleuni clodfawr ei natur, crupl truan [a] phŵl,
[A] meirwon gwywedig, [dyma] ail air Duw,
Yng ngŵydd pawb, moliant harddwych,
Ar orymdaith yn rhodiwr nerthol [mewn] ffair.

Trwy ei gwyrth ddoeth a’i lles y rhai byddar a glyw
Yn eglur wych heb rwystr;
A pheri byw yn hollol gryf a wna
O beth marw, hyder iaith aruchel.

Crair clodfawr, gair sanctaidd [yr] Arglwydd,—delw dra disglair
Eglur a doeth ei gwyrth gref,
Gŵyr pob gradd [o ddyn mai] llesol yw naddiad [y] fwyall,
Mwyaf daionus yw[’r] daith er mwyn y Gŵr sy’n peri iddynt [h.y. y gwyrthiau] ffynnu.

Ymweliad … deisyf y grog
Yn [y] gaer sanctaidd [ac iddi] liw calch [megis] eira,
Ar ôl maddeuant, braint [yn ôl] gorchymyn,
Caniadau [o] farddoniaeth ddigonol teml wych Selyf.

Molaf, addolaf ar ddeulin, …
… blinedig fy nhafod,
Lliaws a fawl, arllwysiad clodfawr gwin,
Ddelw fawr trigfan ysblennydd Myrddin.

Cyflwynaf, dodaf, dadl [ar] ddeulin, fy mryd
Mewn barnau goruchaf,
I garu delw fuddfawr [ei] rhinwedd,
…

…
… trigfan myrr a gwin,
Rhinwedd helaeth ei dysg [sy’n] fendith lwyr,
Gwych yw piler ysblennydd a doeth Caerfyrddin.

… i Gaer
Ac arwydd Iesu yw,
Cerdd bur fyrlymus a disglair…
… crair urddasol byw.

…
Cyfansoddwyr barddoniaeth a'i clyw,
Tywysog wyneb disglair [y] byd a glyw
Weddus fawl i'r ddelw fyw wych.

Mantell euraid dywysogaidd a orchfygodd y Saeson ymhell [?yn ôl]
…
Caer ddiddiffyg [y] Saeson [?sy'n ymestyn i'r] entrychion,
Arfer [*sc*. addoliad] Seisnig i'r grog ddisglair fyw.

… diysgog [ei] braint a ddaeth i Gaer,
Beibl eglur ei air, gwrandawiad pobloedd,
O farw, [y] Tywysog o arglwydd gwych
[Mewn] mantell euraid, a wnaeth yn fyw.

… ddelw huawdl [ei] hiaith a gyrchodd
Gydag anafiadau mawr heb graith,
Piler urddasol …
Caerfyrddin daer, bendithiol [oedd] y daith [iddi].

… clodfawr y/i/ei gaer fawr,
Nid cerdd ofer [o] brydyddiaeth;
Dwyn …
Taith ddiddig [a] dewisol.

… ugain mil
Sy'n canmol eu bendith helaeth;
Mynnaf, fel na lygraf farddoniaeth,
Foliant hawl ffyniannus [y] daith [sy'n] fendith deg.

… iaith wynfydig — -Usalem
A seiliwyd yn Bennaeth cyfraith,
Ymyl bedd Crist …
… mur cadarn a lliwiedig.

… traethiad gwych Myrddin
O farddoniaeth [a’i] hynt [ym] mhob iaith,
Lle y mae …
… delw ddisglair urddasol, lawn bywyd [a] maith.

…
…
… pellfaith
Iddynt hwy a ddeisyf daith.

Duw trugarog, Pennaeth [o] gyfaill, ni’n cerydda yn dâl,
Angerdd barddoniaeth am lifeiriant o waed;
Derwen urddasol a’n prynodd yn wych,
Cynheiliad y nefoedd a rydd inni nawdd.

Daeth i Gaer, lle [mae] trwst rhuthr grymus [y môr] yn fyrlymus,
Yn y ffurf y’n prynodd [ni],
Cyfran [o] glod hyfryd, dysg inni a roddodd,
[Y] ddelw o’r nef, [y] Trefnydd nawdd.

Gwarchod gyfran o’m cân, na ddarostwng arwydd [ffydd] berw [barddol],
[Y] grog wiw helaeth a’m prynodd,
Archollion anaf gwaedlyd a’th liwiodd,
Erfyniaf i’r Arglwydd Dduw am Dy nawdd.

[Gyda] chost dafn o waed [yr] Arglwydd, trefnodd Crist eglur
Ar gyfer y grog ddisglair sy’n rhwystro digofaint inni
(Bonedd mewn mydr, ymadrodd grymus)
Dref sy’n ail [i’r] nef, nodded annwyl.

Llathraid ydyw y grog fyw o fewn dinas Caer,
Delw annwyl teyrnas,
Lle gwêl Saeson, llu gwelw goludog,
Lifeiriant dŵr croyw a llanw gloyw glas.

Cyflawn elw ar gyfrif [y] ddelw euraid trwy urddas gem
A dderbyniodd tŷ a safle;
Lle mae dŵr yn byrlymu … hynt ddofn,
Wyneb [y] môr rhugl glas [sydd â’i] lawr yn pefrio’n ysblennydd.

Lle byrlymus ei ddyfroedd yw Caer, lle nad cas yw mynd [iddo]
Er mwyn delw['r] safle nefolaidd,
… ?Jiwdas,
Lle mae llawer o donnau hyfryd glas yn byrlymu.

Lluniaf daith gadarnaf, [myfi sy'n ŵr o] fonedd dwys, i weld
?Y [grog] wych a disglair [sy'n ffynhonnell] goleuni gras,
… llif uwch camlas,
Llwybrau Caer a mantell ddisglair llanw glas.

Mae yng nghylch bylchau disglair safle maith ei lethr y grog
O …
Bendith dirion a grymus dinas wedi ei hamgylchu gan faen,
Mur cain a môr …  gloyw glas.

Sicrwydd a wnaf i'm Harglwydd cadarn trwy foddion bonedd i'r grog
Ar groyw … ei ?thangnefedd/gwas,
Barddoniaeth anrhydeddus [ac] eofn, ddwys [a] chyfoethog,
Fel rhif graean ar lan las.

# *Nodiadau*

3 **eirglaer** Cymerir mai a. cyfansawdd o *eiry* + *claer* ydyw, cf. isod llau. 47 (gthg. ll. 114n).

4 **crog bedwar ban** Sef crog a phedwar pwynt iddi, sy'n awgrymu efallai nad oedd wedi ei gosod yn y ddaear ond yn hytrach wedi ei chodi ar blatfform, neu ei gosod ar fur neu sgrin neu y gellid ei chario o gwmpas.

**Caer** Sef Caerfyrddin, cf. G 95. Er mor anghyfarwydd yw inni bellach (ond, cf. *Sir Gâr*), mae digon o dystiolaeth y defnyddid *Caer* am Gaerfyrddin yn y cyfnod cynnar. Ceir enghreifftiau yn siarteri Llandaf (LL 124 (llau. 15–16) *Lann Toulidauc icair*, ac eto *ib*. 254 (ll. 29)), a cheir sawl enghraifft yng ngwaith Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 667 d.g. *Caer*$^{1}$. Anodd yw bod yn sicr bob tro ai'r e. lle ynteu'r e.c. a ddylid ei ddeall ac nid amhosibl yr ail yma.

5 **arawl** Dilynir GPC 177 sy'n ei gysylltu â'r e. *hawl* ac yn rhoddi iddo'r ystyron 'hawl i rywbeth, honiad ynghylch meddiant', &c., cf. G 'Rhai Cywiriadau a Gwelliannau yn rhan I', a gthg. *ib*. 35 lle'i dosberthir fel yr unig enghraifft o e. yn golygu '?emyn, cân addolgar', o'i gysylltu â *iawl*, sef bôn y f. *ioli*. Sylwer bod y bardd hefyd yn cyfeirio isod at ei gerdd sawl gwaith fel *dadl*, llau. 23, 35, 45, 93. Cymerir mai cyfeirio a wna Dafydd at ei gerdd fel gweddi neu ble i'r grog am faddeuant.

**maer** Am y syniad fod bardd yn 'oruchwyliwr' neu'n 'stiward' cerdd, cf. ll. 25 a hefyd eiriau Rhys Goch Eryri wrth ei gyd-fardd, Llywelyn ab y Moel, *Faer cerdd*, *a fu enwog coeth / Fwyn ddegddysg foneddig-ddoeth*, IGE$^{2}$ 163 (llau. 3–4); a hefyd ddisgrifiad Cynddelw Brydydd Mawr o'r beirdd yn canu marwnad i Owain Gwynedd, GCBM ii, 4.163–4 *Meirieu agheu … / Y uar6nad ny diffyc*. Y tebyg yw fod yr ystyr yn fwy llythrennol yn GDG$^{3}$ 19 (7.3–4) *Myfi yw*, *ffraethlyw ffrwythlawn*, */ Maer dy dda*, *mawr yw dy ddawn*, er ei bod yn bosibl deall *da* fel cyfeiriad at y daioni a ddaw o farddoniaeth y bardd.

7 **llwybr-rwysg** Llsgr. C *ll6ybyr6ysc*, y gellid hefyd ei ddehongli'n gyfansoddair o *llwybr* + *wysg*. Ar *wysg* 'llwybr', gw. yn arbennig J.E. Caerwyn Williams, 'Wysg (river name), wysg, hwysgynt, rhwysg', *Celtica*, xxi (1990), 677.

8 **rhestr** Llsgr. C [..]*frestyr* (gyda'r *f* yn ansicr). Mae'r ll. yn anghyflawn, ond ar ystyr *rhestr* yng ngwaith Dafydd ap Gwilym, gw. GDG$^{3}$ 496 a cf. isod ll. 76n.

**bylchgaer** Llsgr. C *uylch*[ ], gyda'r *u* yn ansicr. Am *bylch*, ll. *bwlch* yn golygu'n benodol 'un o gyfres agoriadau ar frig mur castell, "*battlements*" ', gw. GDG$^3$ 566 a cf. yn arbennig *ib*. 114 (42.19) [*b*]*ylchgaer*. Cf. hefyd *llathrfylch*, ll. 173.

10 **aglaer** Cf. ll. 81 *aglaerddelw*. Cymerir mai ffurf gryfhaol ar *claer* sydd yma, er na restrir y ffurf honno yn GPC 47 ac er mai *achlaer* a ddisgwylid (gw. *ib*. 7 lle rhestrir ffurfiau megis *achar*, *achas*, &c.). Ni weddai'r ffurf negyddol *anghlaer* (GDG$^3$ 184 (68.19)) yma o ran ystyr, nac ychwaith yn ll. 81 lle cynganeddir *aglaerddelw* gydag *eglurddoeth*.

11 **Ll[ ]lch** Byddai darllen *lle balch* yn cyflawni'r gynghanedd, ond ni chredir mai dyna sydd o dan y staen.

**goleugalch loywgaer** Cyfeiriad o bosibl at gastell Caerfyrddin y byddai ei furiau wedi eu gwyngalchu yn y cyfnod hwn, cf. isod ll. 85–6 … *y grog / O groywgaer galchliw nyf* (er mae'n bosibl mai cyfeirio at furiau'r ddinas yn gyffredinol a wneir yno yn hytrach na'r castell). Am gyfeiriadau pellach at geyrydd gwyngalchog yng nghanu Dafydd, cf. GDG$^3$ 114 (42.19) *galch falch fylchgaer*, *ib*. 140 (52.2) *ar gaer galch*, *ib*. 267 (98.47) *glaer galchgaer gylch*.

16 **lludw** Mae'r gair sy'n ei ragflaenu wedi ei orchuddio gan staen, felly ni ellir bod yn hollol sicr nad rhan o air arall ydyw. Fe'i deellir yn betrus felly i olygu 'edifeirwch', gw. GPC 2218 a cf. GGDT 10.10 *Traul gwir lludw cywir mal llid cawad* (Trahaearn Brydydd Mawr) a gw. *ib*.n. Posibilrwydd arall fyddai darllen *llydw* 'llu, mintai, cymuned', gw. GPC 2252.

17 **llathrddelw fyw** Cf. disgrifiad Gruffudd ap Maredudd o'r grog yng Nghaerlleon, R 1194.34–5 *Del6 vy6 uarglwyd eurlliw arwyd* (ac eto *ib*. 1195.3–4, 1196.3, 1197.1). Anodd gwybod union ystyr yr elfen *byw*. Mae'n bosibl ei fod yn ddisgrifiad o'r grog fel ffynhonnell bywyd, neu bod y ddelw o Grist arni yn edrych yn fyw ('*life-like*'), gw. GPC 927 d.g. *y Ddelw Fyw*. Mae'n bosibl hefyd y gallai olygu fod y ddelw ei hun yn symud: e.e. honnai mynaich Abaty Glyn-y-groes yn Llangollen eu bod yn berchen ar gerflun o Grist a oedd yn gallu siarad, gw. D.H. Williams, *The Welsh Cistercians* (Caldey Island, 1984), i, 177. Am gyfeiriadau pellach gan Ddafydd at ddelwau neu grogau byw, gw. GDG$^3$ 236 (86.23–4) *Myn delw Gadfan* (*ai dilyth?*) / *A'r grog fyw* …, *ib*. 340 (128.9–10) *Ac unsut fy nyn geinsyw / Yn y ffair â delw Fair fyw*, *ib*. 359 (135.34) *Ym delw Fair fyw*. Gw. ymhellach *ib*. 511–12.

19 **traaer** Fe'i dehonglir yn adf. ar lun *tramor*.

20 **cyrraidd** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *cyrraedd*, gw. GMW 117.

23 **cannaid dadl [ ] didaer** Digwydd y tri gair *dadl*, *drwyadl* a *didaer* gyda'i gilydd isod llau. 35 a 45, ond ni chredir bod y bwlch yn ddigon i

gynnwys y ffurf *drwyhadyl* sy'n digwydd yno, er y byddai'n gweddu o ran y gynghanedd a'r mydr. Ceid cynghanedd groes gyflawn ac ystyr dderbyniol o ddarllen *Cannaid dadl cennad didaer* 'Disglair yw neges negesydd mwyn'.

24 **[ ]logion** Cynigir yn betrus mai ffurf dreigledig *llogion*, ll. *llog* 'mangre gysegredig', &c., GPC 2202, sydd yma, er na roddir ffurf l. i'r gair yno.

25 **maer** Cyfeiriad at y bardd, gw. uchod ll. 5n.

27 **celfydd** Llsgr. C [ ]*uyd*. Derbynnir awgrym G 'Rhai ychwanegiadau a gwelliannau yn rhannau I a II', d.g. *kor*(*y*)*f* ynglŷn â'r darlleniad, sy'n cyflawni'r cymeriad a'r gynghanedd.

**corf** Cyfeiriad at y grog, sy'n awgrymu mai colofn neu biler o ryw fath ydoedd, neu o bosibl ei bod wedi ei chodi ar biler neu golofn, gw. GPC 558 a cf. isod ll. 100n.

28 **cysegrblas** Cf. ll. 36 *carueiddblas Caer*, ll. 166 *nefolblas*, ll. 173 *llethrfaith blas—y grog*, a hefyd lau. 55 a 162. Yr oedd rhychwant ystyron *plas* yn ehangach yn y cyfnod canol na heddiw; yn fenthyciad o'r S.C. *place* '*place*, *open space*, *palace*', fe'i ceir yn y tair ystyr hynny, gw. EEW 84, GDG[3] 445–5 a GPC 2819; cf. yn arbennig HGK 18 (llau.13–14) *A phan weles enteu en evynnauc ym plas e dinas* ..., *ib*. 82 'lle agored mewn dinas, sgwar'; R 1329.24–5 *bu pla ym pob plas* ('lle'); H 312.26–7 *llwyr el6 ... / A gymyrth ty a phlas*. Digwydd *plas* yn yr ystyr 'lle' a 'phalas' yng ngwaith Dafydd ap Gwilym ei hun—gw. GDG[3] 445–6, 597. Mae'r elfen *cysegr* yma yn awgrymu adeilad cysegredig, sef capel neu eglwys; trafodir lleoliad y grog ymhellach yn y nodyn cefndir uchod.

32 **doeth** Hen ffurf ar *daeth*; ceir enghreifftiau eraill yng ngwaith Dafydd, cf. GDG[3] 323 (122.9) *Yma y doeth o swydd goeth Gaer*. Mae'r ll. yn anghyflawn, a byddai *Crair a ddoeth i dref goeth Gaer* yn parchu'r cymeriad.

33 **gloywfron lyfr Biblglaer** Ymddengys fod y bardd yn cymharu gwychder y grog ag wyneb disglair ac ysblennydd Beibl, cf. isod llau. 113–14n. Ceir cloriau aur ysblennydd iawn yn greirfâu i destunau sanctaidd, efengylau bron yn ddieithriad, yng Nghymru yn ogystal ag Iwerddon a'r Cyfandir—gw. Raghnall Ó Floinn, *Irish Shrines & Reliquaries of the Middle Ages* (Dublin, 1994), 7, 21, 37, 43. Ymddengys i ffasiwn y cloriau metal hyn gilio yn y 13g. a gallai Dafydd ei hun fod wedi gweld cloriau cyffelyb mewn eglwysi cyn-Normanaidd. Cymerir mai ffurf dreigledig *Piblglaer* sydd yma (cf. *Pibl*, ll. 114), gyda *gloywfron lyfr* yn ei oleddfu.

35 **trwyadl ddadl ddidaer** Ailadroddir yr un ymadrodd yn ll. 45 a cf. ll. 23. Dilynir G 285 ynglŷn ag ystyr *dadl* yma, a'i ddeall yn gyfeiriad at ble'r bardd i'r grog am faddeuant. Ceir enghreifftiau pellach gan y bardd o odli *trwyadl* a *dadl*, cf. GDG$^3$ 128 (47.10) *I'm dyn drwyadl geinddadl gu*, a hefyd yn R. Geraint Gruffydd, '*Englynion y Cusan* by Dafydd ap Gwilym', CMCS xxiii (Summer 1992), 4 (llau. 9 a 11). Digwydd y cyfuniad *dadl didaer* hefyd yn BDG 16.

37 **cannaer** Yn betrus cymerir mai 'can byddin' yw'r ystyr yma a'i fod yn gyfeiriad at y milwyr a drigai yn y fwrdeistref yng Nghaerfyrddin ac a amddiffynnai'r castell. Gormodiaith sydd yma wrth reswm.

**anewog** Llsgr. C *aneua6c*. Er mwyn cyfatebiaeth â *naweirw* y ll. nesaf, cymerir mai 'anewog' yw'r ynganiad. Ni chafwyd hyd i enghraifft arall o'r ffurf, ac efallai y dylid diwygio'n *aneua6t*—er y gellir bod yn sicr mai *c* ac nid *t* sydd yma—sef *annefod* GPC 135 'anhrefn, anllywodraeth' (G 27 'nad yw wrth reol neu ddefod; unbenaethol'). Am y tro, cymerir mai ffurf amrywiol ar *anewig/anefig* ydyw (o *anaw* + *-ig*), GPC 113 'cyfoethog, lluosog', er nad hawdd esbonio'r affeithiad *aw* > *ew* os *-og* yw'r terfyniad.

38 **naweirw** Cyfuniad o *naw* + *geirw* 'crych ar ddŵr, dŵr crych, ewyn, berw, tonnau; ffrwd, rhaeadr', GPC 1388. Am enghreifftiau o *geirw* yng ngwaith Dafydd ap Gwilym, gw. GDG$^3$ 582 *et passim*. Gyda *naweirw*, cf. yn arbennig *ib*. 205 (75.37–8) *Saethffrwd aig*, *trywanwraig trai*, / *Saig nawton a'i sugn atai* a'r cyfeiriad at *naw gwaneg*, *ib*. 269 (99.27). Am y treiglad meddal yn yr ail elfen yma, cf. *nawradd*, GPC 2559, a gw. uchod 3.7n.

40 **Dwfr dros lennyrch a gyrch Gaer** Tybed a oes yma gyfeiriad penodol at y teras (a defnyddio'r gair yn ei ystyr ddaearyddol) sy'n gorwedd rhwng Afon Tywi a muriau'r dref? Pan fo gorllanw yn yr afon, gorchuddir y llennyrch hyn yn llwyr. Unwaith eto, gellid deall *Caer* yma'n e.c.

43 **Deifr** Digwydd y ffurf yn gyffredin yn y gerdd (cf. llau. 50, 109, 159) yn gyfeiriad at y Saeson, gw. GDG$^3$ 436–7. Bwrdeistref Seisnig oedd Caerfyrddin, wrth gwrs, cf. y disgrifiad ohoni fel *Saesnectref* yn ll. 50. Am gyfeiriadau Dafydd ap Gwilym at *Ddeifr*, gw. GDG$^3$ 574. Dylid nodi hefyd fod yn ei waith enghraifft o *deifr* fel ll. *dwfr* (*id*. d.g. *deifrblas* 'llong' a cf. isod *deifrdaer*, ll. 165), ac o'r enw merch *Deifr*.

45–8 Gellir cystrawennu'r englyn beth yn wahanol, a chymryd mai'r brif frawddeg yw *Da fu ... Dwyn gem a garem i Gaer*.

47 **eirglaer** Nid amhosibl mai ffurf dreigledig *geirglaer* sydd yma, cf. isod ll. 114n.

52 **crog o nef** Sef crog sy'n '[hanfod] o nef'; gthg. *crog o Gaer* yn y teitl sydd fel petai'n golygu 'crog yng Nghaer', gw. GPC 2606 d.g. *o*[1] 2(c).

53 **ffloywfrain[ ]** Gellid awgrymu darllen *ffloywfraint*, cf. y ffurf [*g*]*loe6vreint*, R 1415.39.

55 **plas** Gw. ar *cysegrblas*, ll. 28n uchod.

61 **Peryf** Llsgr. C [ ]*ryf*. Mae'r ddwy lythyren gyntaf yn annarllenadwy, ond mae angen y *p*- i gynnal y cymeriad; digwydd y ffurf eto yn ll. 81. Dyma'r unig ddwy enghraifft o *peryf* yng ngwaith Dafydd ap Gwilym—ceir *perydd*, GDG[3] 78 (27.7)—ond digwydd y ffurf yn fynych ym marddoniaeth y Gogynfeirdd am Grist neu Dduw.

**didrist Grist** Am enghreifftiau pellach o'r cyfuniad cyffredin hwn, cf. GDG[3] 6 (2.5) *Corff Crist sy rydrist*; R 1273.2 *Crist arglwyd didrist* (Madog Dwygraig); ac yn enwedig *ib*. 1194.40–1 *Didrist grist groes* (Gruffudd ap Maredudd i'r grog o Gaer).

**croes dioddef** Cf. *pren dioddef* yn GBF 42.43–4 *Nat o'e gammwed Ef yd aeth Arglwyd nef / Y prenn diodef* (Gruffudd ab yr Ynad Coch); R 1331.35–6 *Na6d yr an pryna6d or prenn diodef* (Gruffudd ap Maredudd). Gellid aralleirio'r ll. beth yn wahanol o ddeall *dioddef* yma'n fe.: 'Arglwydd llawen Grist yn gogoneddus ddioddef croes'.

62 **ni magwyd** Am enghreifftiau pellach o waith Dafydd ap Gwilym o gadw'r gytsain gysefin *m*- ar ôl y negydd *ni* mewn prif frawddeg, cf. GDG[3] 48 (17.3), 71 (24.35), 94 (33.31); ceir ganddo hefyd enghreifftiau o dreiglo'n feddal pan fo'r gynghanedd yn gofyn am hynny, cf. *ib*. 25 (9.29), 101 (36.17). Gw. hefyd isod 19.103n.

**trafn** Gw. GDG[3] 546 lle gwelir bod iddo sawl ystyr posibl yn y farddoniaeth, megis 'ffynhonnell', 'trigfa' neu 'arglwydd, pennaeth'. Cymerir mai 'arweinydd, tywysog, arglwydd' yw ei ystyr yma, cf. ll. 153, 9.13 *treistrafn*, a GIG 36 (VIII.34) *Hil Uchdrud lwyd, hael wychdrafn* (am Owain Glyndŵr). Ymhellach ar y ffurf, gw. I. Williams, 'trafn', B ii (1923–5), 310–11.

**mal Ef** Llsgr. *ma*[ ]. Dyfaliad, ond mae'n parchu'r mydr ac yn rhoi ystyr addas.

64 **ffyrfgrair ffêr** Cyfosodir *ffyrf* a *ffêr* eto gan y bardd yn GDG[3] 16 (6.21) *fy ffêr ffyrf erddyrn*.

66 **Egoriad gwyrth y'i gwnair** Llsgr. C *egoryat gwyr*[ ]*h* (yr *h* yn aneglur) *y gwyneir* (neu *gwyueir*). Deellir *gwnair* yn ffurf amhrs.pres.myn. y f. *gwneud* (am ffurf y llsgr., cf. ll. 69 *gwanaeth* yn golygu 'gwnaeth'). O ran cystrawen cymerir bod yr *yn* traethiadol wedi ei hepgor o flaen *egoriad gwyrth*. O ran ystyr, cymerir bod y ll. yn gyfeiriad at y grog ei hun fel cyfrwng gwyrth, cf. llau. 79–80n.

67–8 **Dygaf … / Dwygerdd** Ni wyddys union arwyddocâd y gosodiad hwn. A ganodd Dafydd ddwy gerdd o fawl yn llythrennol i'r grog, ynteu a yw'n cyfeirio at grefft cerdd dafod a cherdd dant, cf. GLD 79 (25.47, 49–50) ym marwnad Lewys Daron i Dudur Aled, *Pencerdd y ddwy-gerdd agos … / Gwin neu fêl y gwnâi foliant / Ac yna teg ganu tant*.

69 **ni drem** Cymerir mai ffurf 3 un.pres.myn. y f. *dremu* 'edrych, gweled' yw *drem*, gw. G 389 a cf. GLlF 26.161 *dremwys*. Ar y f. unigol yma mewn is-gymal perthynol negyddol lle disgwylid bf. luosog, cf. GMB 3.141 *Ny 6tant vanueirt ny ma6r gynnyt* (Meilyr Brydydd), GCBM ii, 16.106–7 *... yd atueila—pa6b / O'r pobloed ny bara* a gw. T. Jones, 'Rhai sylwadau gramadegol a thestunol', LlCy vii (1962–3), 112–13. O ddilyn G 389 sy'n dosbarthu *drem* yma fel e. yn golygu 'golwg, llygad', gellid dehongli *ni drem* yn gywasgiad o *yn ei drem* yn golygu 'yn ei olwg' (a chymryd mai *trem* yw'r ffurf gysefin).

70 **dremwalch mudair** Ar *mudair* a ddefnyddir am walch neu hebog 'mud … yn ei lawn blu', gw. GPC 2500; daw'r ffurf o *mud* ac elfen anh. *-air*. Cytras yw'r elfen *mud* â'r f. *mudo* 'newid' a digwydd hefyd yn enw ar y cawell y cedwid hebogiaid ynddo wrth *fudo*, h.y. wrth fwrw eu plu. Mewn nodyn ar y gair *trimud*, awgrymir mai *hebog mud* yw 'hebog wedi bwrw ei blu', a bod hebog o'r fath yn un aeddfed ac ar ei orau, gw. B.L. Jones, 'na golwc hebawc mut, na golwc gwalch trimut: WM 476', B xxiii (1968–70), 327–8. Felly dweud a wna'r bardd nad yw'r deillion yn gweld cystal â'r hebog gorau—sef yr hebog gorau ei olwg. Fodd bynnag, rhaid ystyried hefyd y gallai *mudair* olygu yma 'hebog mewn cawell', ac felly hebog dall—yr ystyr wedyn fyddai 'y deillion nad ydynt yn gweld fel y gwalch llygeidiog mewn cawell'. (Tybed ai'r un gair yw *buteir* a geir yn CLlH 34 (XI.8b) *Buteir ennwir gynndeiryawc*, y nodir, *ib*. 196, y byddai gair am 'aderyn ysglyfaethus' yn cyd-fynd â'r cyd-destun.)

74 **crapach** Ffurf amrywiol ar *crepach*, gw. GPC 592.

**Dwy** Sef 'Duw', cf. GDG[3] 191 (70.46) *Rhan Ddwy fraisg, ar hindda fry*.

75 **ar osteg** Dilynir G 583 sy'n deall y cyfuniad i olygu 'ar gyhoedd, yn gyhoeddus, yng ngŵydd pawb' (cf. GPC 1514 '*in public*, *publicly*, *openly*'), a cf. yn arbennig GDG[3] 36 (13.71) *Llawer och dost ar osteg*. Cyfosodir *rhestr* ac *ar osteg* eto yn BDG 334.

76 **ar restr** Llsgr. C *arestyr*, y gellir hefyd ei ddeall yn *a rhestr* 'a gor-ymdaith'.

79–80 **A byw yn llwyrgryf a bair / O beth marw …** Gan fod y bardd yn cyfeirio at allu'r Duwdod i wella cleifion trwy'r grog yn llau. 65–78, dichon mai cyfeirio a wneir yma at Ei allu i godi'r meirw yn fyw. Ond mae'n bosibl hefyd mai dweud a wna fod yr hwn a fu farw (sef Crist),

bellach yn fyw, cf. llau. 115–16 *O farw*, *firain Arglwyddlyw / Eurog ball*, *a orug byw*.

81 **aglaerddelw** Am *aglaer*, gw. ll. 10n uchod.

83 **nadd naddyf** Gellid dehongli *naddyf* yn ffurf amrywiol ar *naddydd* 'un sy'n naddu, torrwr (pren neu garreg), cymynwr, cerfiwr', &c., GPC 2548 d.g. *naddwr*, ond gwell yma yw ei ddeall yn amrywiad (neu wall) am *neddyf* 'bwyall', &c., *ib*. 2561. Gyda'r cyfuniad *nad naddyf*, cf. yn arbennig GDG[3] 319 (120.39) *naddiad neddyf.*

84 **er Gŵr a'u tyf** Deellir *Gŵr* yn gyfeiriad at Dduw sy'n peri i'r gwyrthiau a restrir yn llau. 69–78 ffynnu.

87 **braint bryf** Yn betrus iawn deellir *bryf* (benthyciad S. *breve*) i olygu 'gorchymyn cyfreithiol neu swyddogol', &c., gw. GPC 339 (er na nodir yr enghraifft hon yno); cf. o bosibl BDG 444 *Y brawd du ei bryd*, *bryf taw* (ond gthg. GDG[3] 367 (138.28)). Ni chynhwysir y ffurf yn G 80. Mae'n bosibl mai cyfeirio a wna *bryf* at y Cymun, ac yn benodol at orchymyn Crist i'w ddisgyblion yn y Swper Olaf i gymryd cymun i gofio amdano, gw. Luc xxii.17–20. Os cywir yr awgrym mai ar adeg y Pasg y canwyd y gerdd (gw. y nodyn cefndir uchod), gellid nodi hefyd mai enw Lladin ar ddydd Iau Cablyd oedd *Dies mandati* (genidol yr enw *mandatum* 'yr hyn a orchmynnir'; cf. S. *Maundy Thursday*). Ai *braint bryf* felly yw'r rhagorfraint (*privilege*), sef maddeuant, a ddaw i ran penydwyr ar y dydd Iau arbennig hwn?

Posibilrwydd arall yw fod *bryf* yn amrywiad ar *Peryf* 'Arglwydd, Duw', cf. uchod ll. 61n. Digwydd y ffurf—er iddi gael ei gwrthod yn y golygiad—mewn teitl i gerdd gan Gynddelw Brydydd Mawr i Ednyfed Arglwydd Crogen (llsgr. *Ytnyued bryf crogen*), gw. GCBM i, cerdd 27. Posibilrwydd arall fyddai deall *pryf* yn amrywiad ar *prif*, gw. GPC (i ymddangos) ac am y gystrawen, cf. GIG 167 (XXXVII.54) *Profedig feirdd prif ydym*. Gellid hefyd ddeall *pryf* 'trychfil; creadur', &c., yn ffigurol; felly ystyr *braint bryf* fyddai 'creadur breintiedig'.

88 **seilm** Ll. *salm*, a all fod yn gyfeiriad yma at ganu cysegredig yr eglwys. Am y ffurf, cf. isod 15.1n.

**gwiwdeml Selyf** Yr oedd Selyf (Solomon) yn gyfrifol am godi teml ysblennydd yn Jerwsalem er mwyn dyrchafu statws y ddinas honno, gw. ODCC[2] 1269, 1328. Cymerir bod y bardd yma yn cyfeirio'n ffigurol at yr adeilad a gynhwysai'r grog yng Nghaerfyrddin fel teml ysblennydd Solomon. Os lleolir y grog yng Nghapel y Santes Fair (sef Capel y Grog Sanctaidd) yng Nghaerfyrddin, capel a godwyd i raddau helaeth er mwyn dyrchafu bri'r dref yn y 13g., yna efallai nad rhy anaddas y gymhariaeth. Cyfeirir at *Gaerusalem* eto yn ll. 129.

91 **gwehynfawl gwin** Tybed a ydyw hwn yn cyfeirio at weinyddiad y Cymun yn y capel?

92 **mygrdrefn Myrddin** Llsgr. C *uygyrdrefyn uyrdin*. Diwygiwyd hwn yn betrus er mwyn y gynghanedd. Er hynny, sylwer mai eb. yw *trefn* yn GDG[3] 278 (103.13) *wiwdrefn wych*; ond eg. ydyw mae'n debyg yn IGE[2] 17 (V.87). Ar wahanol ystyron *trefn*, gw. GDG[3] 603. Disgrifiad sydd yma o Gaerfyrddin, 'trigfan ysblennydd Myrddin'. Cf. disgrifiad Iolo Goch o Gaerfyrddin fel [*C*]*aer fardd Emrys*, GIG 34 (VIII.44). Poblogeiddiodd Sieffre o Fynwy y syniad fod cyswllt rhwng y cymeriad Myrddin a Chaerfyrddin, er bod y syniad, yn ôl pob tebyg, yn hŷn, gw. TYP[2] 472 ac ymhellach A.O.H. Jarman, 'The Legend of Merlin and its Associations with Carmarthen', *Carmarthenshire Antiquary*, xxii (1986), 23–4 lle esbonnir bod yr enw personol Myrddin yr un ffurf ag a geir yn ail elfen yr enw lle, ond bod y *Myrddin* hwnnw yn tarddu o ffurf Frythoneg (*Moridunon*) a olygai 'caer [ger y] môr' (cf. y ffurf *Moridunum* a geir mewn ffynonellau Lladin).

100 **corf** Cymerir mai cyfeirio at y grog fel 'piler' a wneir yma—cf. uchod ll. 27n—ond nid amhosibl ychwaith yma fyddai ei ddeall yn gyfeiriad at arweinydd neu arglwydd cyfoes yng Nghaerfyrddin, megis Syr Rhys ap Gruffudd, gw. y rhagymadrodd uchod.

104 **crair … byw** Cf. uchod ll. 17n ar *llathrddelw fyw*.

106 **awduriaid** Deellir hwn yn gyfeiriad at rai sy'n llunio cerdd ('awdur, creawdwr, lluniwr', &c., G 47 a cf. GPC 239); ychwanegir yr ystyron 'noddwr, rhoddwr' yn GPC *l.c.*, ac mae'n dra phosibl mai dyna yw'r ystyr yma.

109 **Mynog ball eurog** Cf. GCBM i, 5.22 *Gorda6c pall eura6c pell nas g6el6yf*. Cymerir yr ymadrodd yn gyfeiriad posibl at y fantell a wisgai'r ddelw o Grist ar y grog (sef mantell litwrgïol, y *colobium*), gw. C.E. Pocknee, *Cross and Crucifix in Christian Worship and Devotion* (London, 1962), 25, 27 *et passim* am luniau o ddelwau o Grist yn gwisgo mantell. Posibilrwydd arall yw mai cyfeirio a wneir at y ddefod o wisgo llen ddisglair (euraid neu wen) ar y grog ar ddydd Iau Cablyd i ddathlu buddugoliaeth Crist. Dyma'r amser traddodiadol i benydwyr yn yr Eglwys ac mae'n dra phosibl mai dyma'r adeg y canwyd y gerdd hon, gw. ymhellach A. Parry Owen, 'Englynion Dafydd ap Gwilym i'r Grog o Gaer', YB xxi (1996), 25–6.

**goryw** Dilynir G 565 a'i ddeall yn ffurf 3 un.pres.myn., gyda grym prff., y f. *gorfod* 'gorfod, gorchfygu, goresgyn, goroesi'.

111 **Lloegrwybr** Llsgr. C *loygr6ybyr* neu *leygr6ybyr*. Nid yw ystyr *lloegrwybr* ychwaith yn eglur; ar *wybr* 'ffurfafen; cwmwl', gw. GDG[3] 605. Tybed ai dau a. yn disgrifio *caer* ydynt—'caer Seisnig [sy'n ymestyn i'r] entrychion'? Sylwer bod y ll. yn fyr o sillaf; tybed a ddylid cyfrif *loegrwybr* yn deirsill, er bod y gynghanedd yn gofyn am i'r brif acen ddisgyn ar y sillaf gyntaf?

**dilwygryw** Llsgr. C *dil6y cry6*. Ceir e. *cryw* 'cawell' yn GDG³ ¹68 (63.54), ond ni chafwyd goleuni ar y ffurf *dilwy*. Fe'i deellir, yn hytrach, yn unig enghraifft o gyfuniad yn cynnwys y rhagddodiad negyddol *di-* + *llwyg* + *rhyw* gan ddeall *llwyg* yn fôn y f. *llwygaf*: *llwygo* 'diffygio, blino, methu', &c., GPC 2244; cf. yr a. *llwygedig* yn GDG³ 319 (120.52), *ib*. 591 'gwan, swrth'. Gthg. G 354 sy'n darllen *dilwytry6* a'i ddeall yn a. yn golygu 'dilwgr, dinam' (< *di-* + *llwyd* + *rhyw*); ni nodir y ffurf honno yn GPC 1015.

112 **Lloegrig** Ni nodir y ffurf yn GPC 2198, ond fe'i deellir yn a. o *Lloegr* a'r terfyniad ansoddeiriol *-ig*.

113–14 **dileddf ddeddf … / … erglyw** A ydyw'r bardd o bosibl yn priodoli awdurdod y Beibl i'r grog ac yn cymharu dyfodiad y grog i Gaerfyrddin â dyfodiad y Beibl? Am gyfeiriad pellach at y Beibl, gw. uchod ll. 33n.

114 **geirglaer** Ceir enghreifftiau pellach o'r ffurf *eirglaer* uchod (llau. 3 a 47), a chymerir mai cyfansoddair o *eiry* + *claer* sydd yno. Dilynir G 525 a chymryd bod yr enghraifft hon yn ffurf dreigledig *geirglaer* (gan ddeall *Pibl* yn e.p., gw. *ib*. 56).

**erglyw** Dilynir GPC 1232 a'i ddeall yn e. 'gwrandawiad', er na restrir yno'r enghraifft hon; gthg. G 485 a wêl yma fe. (ni restrir y ffurf yn fe. yn GPC *l.c.*). Gthg. ll. 107 lle deellir ffurf 3 un.pres.myn. y f.

118 **erchyll** Sef ll. *archoll*, gw. G 36. Ar arwyddocâd y ll., gw. uchod ll. 109n.

**erchyll hydr heb graith** Awgrymir bod y ddelw ar y grog yn portreadu Crist wedi dileu ôl ei archollion. Cesglir felly mai delw o Grist yn fuddugoliaethus oedd ar y grog hon, *Christus Rex*, yn hytrach na delw o Grist yn dioddef. Cf. hefyd llau. 115–16 ... *firain Arglwyddlyw / Eurog ball*.

127 **na wydiaf wawdiaith** Cf. GDG³ 254 (93.9) *Tra ellais*, *ni wydiais wawd*. Gellid hefyd ddeall yr ymadrodd yn wrthrych i'r f. *mynnaf* yma.

129 **-Usalem** Mae rhan gyntaf y ll. hon yn annarllenadwy. Tybed a oes yma enghraifft o drychiad, *Caer ... usalem?* Am y ffurf honno, cf. IGE² 243 (ll. 30), *Dafydd broffwyd loywlwyd lem / A seiliodd Gaerusalem* (Ieuan ap Rhydderch), lle cyfosodir y ffurf eto â'r f. *seilio*. Tybed a oedd trychiad cyffelyb (*Caer ... Fyrddin*) yn yr englyn nesaf, ond gw. isod ll. 133n.

130 **seilwyd** Cf. GDG³ 25 (9.53–4) *Arglwyddïaeth*, *dugiaeth deg / A seiliwyd wrth Fasaleg*.

133–4 **[g]wych araith—Fyrddin / A farddawd …** Gan fod hanner cyntaf ll. 133 yn eisiau ni ellir bod yn sicr o'r gystrawen, ond cymerir mai cystrawen 'mawr a beth' sydd yma, gydag *araith Fyrddin* yn goleddfu

*barddawd*. A ydyw Dafydd yma yn cymharu ei farddoniaeth â iaith Myrddin, y Cynfardd? Cf. GDG[3] 313 (118.23–4) lle mae'n cysylltu Myrddin â'r Cynfardd Taliesin, ond yn cyfeirio at y ddau fel beirdd serch. Cysylltwyd Myrddin, yn anghywir, â'r ail elfen yn yr enw *Caerfyrddin*, gw. uchod ll. 92n. Posibilrwydd arall yw fod y bardd yn cyfeirio at Fyrddin fel y bardd chwedlonol a oedd yn enwog am siarad yn ddi-baid, cf. GDG[3] 347 (130.5, 7–8) *Mwy y dywaid ... / No Myrddin sonfawr mawrddig*, */ Fab Saith Gudyn*, *y dyn dig*, a gw. *ib*. 538n.

136 [ ]**athrddelw** Tybed ai *llathrddelw* yw'r darlleniad i fod, cf. uchod ll. 17n.

**breinfryw** Dilynir G 74 sy'n ei restru fel yr unig enghraifft o'r a. 'breinfawr, urddasol' (< *brain*(*t*) + *bryw*); nis rhestrir yn GPC 316 ond gw. *ib*. 342 ar *bryw* 'bywiog, egnïol, cryf, grymus'.

141 **Nen** Sef 'Arglwydd'; cf. GDG[3] 13 (5.20) *Nen y ffurfafen* a gw. *ib*. 454. Cymerir bod yr e. *câr* yn enidol ansoddol yma.

**yn ognwd** Llsgr. *yn gocn6t*. Dilynir awgrym petrus G 549 (cf. GPC 1437) ynglŷn ag ystyr *gognwd* yma. Cymerir na ddangosir y treiglad gan yr orgraff, gw. Treigladau 188; dichon na welir yma enghraifft o gadw cysefin yr adf. *go* ar ôl *yn*, gw. Treigladau 443. Posibilrwydd arall yw dehongli 'ein gognwd'.

142 **gwawtffrawdd** Cymerir mai e. yn golygu 'angerdd barddoniaeth' ydyw, yn groes i G 635 sy'n cymryd mai a. ydyw yma yn golygu 'a folir yn eiddgar' neu 'y clodforir ei angerdd'.

143 **a'n dewr brynawdd** Llsgr. C *a de6r brynawd*. Derbynnir awgrym G 322 ynglŷn â'r diwygiad ar sail ystyr a chynghanedd.

144 **Dôr y nef** Sef Duw, cf. R 1331.13–14 *dor y nef dyro ynn oet* (Gruffudd ap Maredudd).

147 **twysg** GDG[3] 604 'swm, cyfran', ac ymhellach ar y ffurf, gw. *ib*. 516 lle dyfynnir diffiniad John Davies, D '*pars*, *portio ... acervulus*, *cumulus*'. Gw. ymhellach CA 282–3 a J. Lloyd-Jones 'Olion Sein-dawdd Cyntefig yn Gymraeg', B ii (1923–5), 295 lle rhoddir iddo yn fwy penodol yr ystyr 'llif, llifeiriant, rhuthr', cf. G 310 *deigrdwysg* 'rhuthr neu grynhoad dagrau' a GSRh 6.85 *Cad gur rwyf Arthur*, *ryfawrthin—deigrdwysg* (Rhisierdyn), *ib*. 10.86 *Twysg draw o'i gedlaw a gad* (eto).

149 **salm** Digwydd yn gyffredin yng ngwaith Dafydd ap Gwilym am 'gân', gw. GDG[3] 600.

**awgrim** Derbynnir yma'r ystyron 'amnaid, arwydd; syniad …', &c., a roddir i'r enghraifft hon yn GPC 242; cf. G 48. Ar y gair, gw. DGG[2] 182 lle esbonnir ef yn fenthyciad o'r S., gan nodi 'Ystyr *awgrim* yn Saesneg oedd y dull Arabaidd o rifo, yna rhifyddiaeth'. Ceir yn y S. ffurfiau megis *algorisc*, *algrim*, *augrim*, *awgrim* a esbonnir fel ffurfiau yn

tarddu o enw rhifyddwr Arabaidd o'r 9g.; gw. hefyd EEW 128 a GDG$^3$ 491. Fe'i deellir yma i olygu 'arwydd' yn gyffredinol. Gw. hefyd Thomas Roberts, 'Ieuan ap Rhydderch ab Ieuan Llwyd', B iv (1927–9), 29.

152 **i'r Duw Naf** Gellid hefyd ddehongli *yr* y llsgr. fel yr ardd. *er* yma ond ni roddai gystal ystyr. Am enghreifftiau pellach o ddefnyddio'r fannod o flaen *Duw*, cf. GBF 32.8 (Madog ap Gwallter).

153 **Trafn** Gw. uchod ll. 62n.

153–6 Cymerir mai'r gystrawen yma yw 'trefnawdd—eglur Grist / I'r glaer grog … / Tref yn ail nef …'.

156 **tref yn ail nef** Cf. disgrifiad Dafydd ap Gwilym o fwrdeistref Niwbwrch, GDG$^3$ 356 (134.13) *Cystedlydd nef o'r trefi*.

159 **gwŷl Deifr** Anghytunir â G 288 sy'n darllen *gwyl deifyn* 'gŵyl deifn' yma gan ddeall *deifn* yn ffurf l. *dafn* (unig enghraifft). Ceir cyfeiriadau pellach at y *Deifr* yn llau. 43n, 50, 109.

**llu gwelw difas** Cymerir hwn yn ddisgrifiad o'r Deifr, sef trigolion Caerfyrddin—'townies'!

163 Gwelir bod gair rhwng *d6fyr* a *ll6ybyr* yn y llsgr.—tair llythyren aneglur, o bosibl *ue*[ ].

167 **Iuddas** Gan fod darlleniad y ll. yn anghyflawn, ni ellir bod yn sicr ai cyfeiriad at *Iudas* neu *Iuddas*, sef Jiwdas, sydd yma. Am y ffurf *Iuddas*, cf. GSRh 12.115, 121 (Gruffudd Fychan). Sylwir mai *Suddas* yw'r ffurf gan Ddafydd ap Gwilym yn GDG$^3$ 3 (1.17).

171 **uch camlas** Ceir enghraifft arall o'r ffurf *camlas* ym mawl Dafydd ap Gwilym i Lywelyn ap Gwilym, *Llyn i barc Emlyn*, *camlas—hyd Deifi* a rhoddir iddo'r ystyr 'ffos' gan Thomas Parry, gw. GDG$^3$ 31 (12.5), 567. Yn GPC 402 rhoddir yr ystyron '*ditch*, *mill-race*, *stream*, *channel*' i enghreifftiau cynnar o *camlas* ac mae'n bosibl mai cyfeirio'n ffigurol at Afon Tywi a wneir yma. Fodd bynnag, ychydig i'r gogledd o dref newydd Caerfyrddin yn y 13g., crëwyd camlas ar gyfer ffrwd melin drwy wyrdroi nant a elwid *Wenvath* (*Chwiman* yn ôl tystiolaeth o'r ganrif ddiwethaf). Byddai'r gamlas hon yn rhedeg ychydig i'r gogledd o furiau'r dref, gw. Terrence James, *Carmarthen*: *An Archaeological and Topographical Survey* (Carmarthen, 1980), 45.

173 **llathrfylch** Ar *bylch*, gw. uchod ll. 8n.

178 **gwas** Gan fod y ll. yn anghyflawn, amhosibl yw dweud ai *gwas* 'mab ifanc' ac yn fwy penodol 'un a weinyddai ar sant neu santes' (neu ar y grog efallai) sydd yma, ynteu *gwas* 'arhosfa, trigfan … gorffwys, tawelwch'; gw. GPC 1590 d.g. *gwas*$^1$ a 1591 d.g. *gwas*$^2$. Byddai *Ar groyw ganiad ei gwas* yn rhoi ll. foddhaol o ran ystyr.

# *Mynegai*

*Nodwedd arbennig ar arddull yr englynion hyn yw'r modd y mae'r bardd yn ailadrodd nifer o eiriau—cynhwysir nifer o'r rhain isod er nad ydynt o reidrwydd yn eiriau anghyfarwydd.*


**a**[1] 4.40n; **a'n** 4.143n **(**yn cyfuno ag **'n)**
**a**[2] 4.134n
**adeilwr** 4.148
**addef** 4.49
**aglaer** 4.10n
**aglaerddelw** 4.81n
**ail** 4.156n
**anewog** 4.37n
**ar** gw. **ar osteg, ar restr**
**arab** 4.72
**arawl** 4.5n
**archoll: erchyll** 4.118n, 151
**areilio: arail** 4.149
**arglwyddlyw** 4.115
**ar osteg** 4.75n
**ar restr** 4.76n
**arwydd** 4.71
**awdur: awduriaid** 4.106n
**awgrim** 4.149n
**ban** gw. **pedwar ban**
**barddawd** 4.134n
**berw** 4.149
**berwi: beirw** 4.168
**berwloyw** 4.103
**Biblglaer** gw. **Piblglaer**
**braint** 4.87n
**brawd: brodiau** 4.94
**breinfryw** 4.136n
**brwydrdaer** 4.15
**bryf** 4.87n
**byddar: byddair** 4.77
**bylchgaer** 4.8n
**byw** 4.17n, 104n, 108, 112, 116, 136, 157
**caer** 4.111
**calchliw** 4.86
**camlas** 4.171n
**can** 4.4
**cannaer** 4.37n
**cannaid** 4.23n
**carueiddblas** 4.36
**celfydd** 4.27n
**claer** 4.6, 14, 18, 22, 42, 154, 172
**clawr** 4.164
**cleuwymp** 4.78
**coelfain** 4.28
**corf** 4.27n, 100
**crair** 4.3, 52, 68, 81, 104n
**crapach** 4.74n
**credadun** 4.49
**croes** 4.61n
**crog** 4.4, 14, 29, 33, 52n, 85, 154, 157, 173, 177
**croyw** 4.68, 103, 160
**croywgaer** 4.86, 174
**croywgadr** 4.30
**croywgain** 4.52
**croywrym** 4.3
**crupl** 4.73
**cylchwy** 4.131
**cyrchu: cyrch** 4.40n
**cyrraedd: cyrraidd** 4.20n
**cysegrblas** 4.28n
**cysylltgref** 4.54
**chwŷl** 4.134

**dadl** 4.23n, 35n, 45
**dedwydd** 4.27
**deddf** 4.113n
**Deifr** 4.43n, 50, 109, 159n
**deifrdaer** 4.165
**didaer** 4.2, 17, 23n, 27, 35n, 45
**didrist** 4.61n
**difas** 4.159n, 163, 179
**dileddf** 4.113n
**dilestair** 4.78
**dilwygryw** 4.111n
**dioddef** 4.61n
**dôr** 4.144n
**dremu: drem** 4.69n
**dremwalch** 4.70n
**dros** 4.40n
**dwfr** 4.40n, 43, 160, 163
**dwrddglaer** 4.38
**dwygerdd** 4.68n
**dyfod: doeth** 4.32n
**dysgfawr** 4.99
**ebrwydd-daer** 4.43
**ef** 4.62n
**eglurddoeth** 4.82
**egoriad** 4.66n
**eiddun** 4.49
**eidduno: eiddun** 4.140
**eirglaer** 4.3n, 47 (gw. hefyd **geirglaer**)
**er** 4.84n
**erchyll** gw. **archoll**
**erglyw** 4.114n
**erglywed: erglyw** 4.107
**eurddelw** 4.22, 35, 161
**eurddoeth** 4.100
**eurglawr** 4.107
**eurog** 4.109n, 116
**ffair** 4.76
**ffêr** 4.64n
**ffloywfrain[ ]** 4.53n
**ffrwythlonglaer** 4.30
**ffyrf** 4.76, 145
**ffyrfbair** 4.71
**ffyrfgrair** 4.64n
**geirglaer** 4.114n
**gem** 4.48
**glas** 4.160, 164, 168, 172, 176, 180
**gloywfron** 4.33n
**gloywfyw** 4.22
**gloywgaer** 4.11n
**gloywgrog** 4.112
**glwyseirw** 4.168
**gofwy** 4.85
**gognwd** 4.141n
**goleugalch** 4.11n
**gorfod: goryw** 4.109n
**gosteg** gw. **ar osteg**
**gradd** 4.83
**gwaedfriw** 4.151
**gwaetffrwd** 4.142
**gwas** 4.178n
**gwawdair** 4.75
**gwawdaml** 4.88
**gwawdiaith** 4.127n
**gwawl** 4.73
**gwawtffrawdd** 4.142n
**gweddawl** 4.108
**gwehynfawl** 4.91n
**gweled: gwŷl** 4.159n
**gwelw** 4.159n
**gwin** 4.91n
**gwiwdeg** 4.6, 75
**gwiwdeml** 4.88n
**gwiwddelw** 4.108
**gwiwgrog** 4.150
**gwiwloyw** 4.170
**gwneuthur: gwnair** 4.66n
**gŵr** 4.84n
**gwrdd-dref** 4.55
**gwrddiaith** 4.117, ?121
**gwyarddafn** 4.153
**gwydio: gwydiaf** 4.127n
**gwyrth** 4.66n
**gwyrthefin** 4.94
**hydr** 4.118n

**llannerch: llennyrch** 4.40n
**llathrddelw** 4.17n, ?136
**llathrfawr** 4.164
**llathrfwlch: llathrfylch** 4.173n
**llathrgaen** 4.15
**llawndraidd** 4.20
**llethrfaith** 4.173
**llif** 4.171
**llithr** 4.16
**llithrfor** 4.164
**lliwo: lliwawdd** 4.151
**Lloegrig** 4.112n
**Lloegrwybr** 4.111n
**llu** 4.159n
**lludw** 4.16n
**llwrw: llyry** 4.172
**llwybr-rwysg** 4.7n
**llwyrgryf** 4.79n
**llyfr** 4.33n
**maddeuaint** 4.87
**maenrwym** 4.175
**maer** 4.5n, 25
**magu: magwyd** 4.62n
**magwyr** 4.132
**maich** 4.177
**mal** 4.62n
**marw** 4.80n
**mawrair** 4.80
**mawrddelw** 4.92
**mawrglau** 4.47
**mawrglod** 4.3
**môr-gymlawdd** 4.145
**mudair** 4.70n
**mwynrym** 4.175
**mydr** 4.65, 155
**mygr** 4.61
**mygrdrefn** 4.92n
**mygrddelw** 4.6
**mygrwawd** 4.179
**mynog** 4.109n
**myrr** 4.98
**’n** 4.143n (yn cyfuno ag **a**[1])
**nadd** 4.83n
**naddyf** 4.83n
**naf** 4.152
**naweirw** 4.38n
**nawsglod** 4.73
**nef, y nef** 4.52n, 144n, 156n
**nefolblas** 4.166
**nen** 4.141n
**nêr** 4.64
**ni** 4.62n, 69n
**nyf** 4.86
**o** 4.52n
**ofergerdd** 4.122
**pall** 4.109n, 116
**pedwar ban** 4.4n
**peddestr** 4.76
**pellfaith** 4.139
**penrhaith** 4.130
**peryf** 4.61n, 81
**peth** 4.80n
**Pibl** 4.114
**Piblglaer** 4.33n
**plas** 4.55n, 162, 173
**pobiaith** 4.134
**pobl: pybl** 4.114
**prudd** 4.77
**prudd-deml** 4.43
**prynu: prynawdd** 4.143n
**purair** 4.67, 81
**rhestr** 4.8n (a gw. **ar restr**)
**rhyelw** 4.95
**Saesnectref** 4.50
**salm** 4.149n; **seilm** 4.88n
**seilo: seilwyd** 4.130n
**soddi: sawdd** 4.149
**taer** 4.12, ?39, 120
**tafodflin** 4.90
**taith** 4.84, 120, 124, 128, 140, 169
**talm** 4.149
**traaer** 4.19n
**trafn** 4.62n, 153
**tras** 4.155, 169, 177
**traul** 4.153
**traws** 4.155

**trawsnaf** 4.177
**trawswyrth** 4.2
**tref** 4.156n
**trefn** 4.98
**treisiwr: treiswyr** 4.1
**trwyadl** 4.35n, 45
**twyllair** 4.69
**twysg** 4.147n
**tyfu: tyf** 4.84n
**uch** 4.171n
**y** 4.66n
**ymadrawdd** 4.155
**yn** 4.156n

## *Enwau personol*

**Crist** 4.29, 61n, 131, 153
**Duw** 4.65, 141, 152n **Dwy** 4.74n
**Iesu** 4.102
**Iuddas** ?Jiwdas 4.167n
**Mair** 4.72
**Myrddin** 4.92n, 133n (gw. hefyd **Caer Fyrddin**)
**Selyf** 4.88n

## *Enwau lleoedd*

**Caer** Caerfyrddin 4.4n, 16, 20, 24, 28, 32, 36, 40n, 44, 48, ?55, 65, 101, 113, 145, 157, 165, 172
**Caer Fyrddin** 4.100, 120
**Tywi [**Afon] Tywi 4.12
**-Usalem** ?[Caer]usalem, Jerusalem 4.129n

# *Atodiad*

Argreffir yma destun y llawysgrif (LlGC 6680B, ff. $120^{r}$–$121^{v}$). Rhannwyd geiriau yn ôl ystyr (gan ei bod yn anodd penderfynu yn aml a oes bwlch bwriadol rhwng geiriau ai peidio) a gosod y testun ar lun englynion. Os yw ystyr geiriau yn ansicr, rhennir geiriau fel y maent yn y llawysgrif.

Arwyddion neu symbolau a ddefnyddir yn y testun—

| | |
|---|---|
| cc | Symbol i ddynodi arwydd tebyg i ddwy c wedi eu cywasgu'n un gyda llinell fflat ar y top; fe'i defnyddir yn weddol reolaidd gan y copïydd i ddynodi dechrau englyn. |
| *ital.* | Mae llythyren wedi ei hitaleiddio yn ddarlleniad ansicr; hynny yw, credaf mai dyna sydd yno. |
| [*ital.*] | Mae llythyren wedi ei hitaleiddio mewn bachau petryal yn ddarlleniad ansicr iawn. |
| [ ] | Mae llythyren mewn bachau petryal yn ddarlleniadau posibl (h.y. ar sail cynghanedd, cymeriad, &c.)—dyfaliadau ydynt. |
| [ ] | Mae bachau petryal gwag yn dynodi bod staen neu rwyg yn y testun. |
| …. | Rhoddir dot am bob llythyren y gellir ei gweld ond na lwyddir i'w hadnabod. |
| ( ) | Rhoddir cromfachau o amgylch llythrennau y llwyddodd golygyddion H a G i'w darllen, ond na fedrais eu cadarnhau. |

*Eglynyon a gant dauid llwyd uab gwilim gam yr groc o gaer*

œ Kryf aberth yw nerth nyt yn aer—treiswyr
eithyr my6n tra6swyrth didaer
kreir ma6rglot croe6rym eirglaer
croc bedwar ban o gann gaer

œ llunyaf ara6l ma6l can 6yf maer—ar 6a6t
yr 6i6dec uyg*y*rddel6 glaer
lle breiscd6ryf llan6 ll6ybyr6yscdaer
llathyr amgylch ..*frest*yr*u*ylch [.aer]

œ lla6n ia6n uu o dda6n heb uod aer—na th6ryf
[na] theruysc br6ydyr aglaer
ll….lch oleugalch loe6gaer
lle llein6 heli dy6i daer

œ l[la]6en ….. kynt ll*e* k*a6*. aer—[ ]
o acha6s y groc claer
llathyrgaen uae*t* ….br..d br6ydy[r]daer
llithyr byrd uyrd [ ] llud6 kylch kaer

œ llathyrddelw uy6 llin lly6 ll6ybyr didaer—y .y[
]claer
lle da6 kyn treia6 tra aer
llan6 lla6ndreid a gyrreid gaer

œ…eth *of*[ ]dysc diaer—yr urdas
yr eurddel6 loe6uy6 glaer
kanneit datyl [ ] didaer
[ ]locyon caer.

œ kyfla6n y6 o dda6n ddinam uaer—ynof
ganddu….gwy[n].ieith[
[cel]uyd coryf det6yd didaer
coeluein kyssegyrblas kein caer

œ k[ ]crist yw saer—y groc
groe6gadyr wyrth ffr6ythla6nglaer
crea6dyr …….[ ]
]a ddoeth y dref goeth gaer

œ y groc honn loeỽuronn lyfyr Bibylglaer—*bi*[
]saer
eurddelỽ drỽyhadyl ddadyl didaer
urdas carueidblas caer

]lỽ cannaer—aneuaỽc
lle mae naỽeirỽ dỽrdglaer
der*uyd*.ut [ ]daer
dỽfyr dros lenyrch a gyrch gaer

œ duc llanỽ gỽyll *u*i[1][ ]
yr molyant yr ddelỽ glaer
deifyr brud demyl dỽfyr ebrỽyd-d[aer
] eu caer

œ da uu drỽyhatyl ddatyl ddidaer—hỽyl ..fyaỽ
h[ ]
daỽn maỽrgleu dinam eirglaer
dỽyn gem a garem y ga(er)

credadun eidun adef—yỽ dyuot
y blith deifyr saesnectref
[ ]
creir croeỽgein eir groc o nef

œ yỽ ffloeỽurein.[
]dwyn gỽaỽt gysylltgref
y phlas yỽ caer aer ỽrddr[ef
]

*f. 120*[v] m*ae top y tudalen wedi ei docio ar ganol llinell a chredir bod tua modfedd o femrwn wedi ei golli—dichon fod dau neu dri englyn wedi eu colli yma. Mae ymyl chwith y tudalen hefyd wedi ei docio ar ganol ysgrifen.*

[pe]ryf didrist grist groes dioddef—mygyr
ny magwyt trafyn ma[l ef]
pur mur ameraỽdyr tagnef
[p]*o*en ffyryfgreir ffer per ner nef

[1] Mae'r darlleniad yn ansicr; ceir yma dri minim a gellid darllen *ui*, *ni* neu *m*.

œ duc duỽ Tat delỽ uat uydyr gyweir—y gaer
egoryat gwyr[t]*h* y gwy*n*eir[2]
dygaf (dogyn beraf bureir)
dỽygerd groew ym digard greir

[g]wanaeth honn yr deillon heb dwylleir— ni drem
ual y dremwalch muteir
arwyd na byd fyd fyryfbeir
arab heb nerth mawruab meir

œ a bot gỽawl nawsglot. gwael anis[g]leir—grupyl
grapach ueirỽ dỽy eilgeir
ar ostec wiwdec waỽdeir
a restyr yn fyryf bedestyr feir

[o]e gỽyrth prud ae bud y bydeir—a glyỽ
yn gleuwymp ddilesteir
a byỽ yn llwyrgryf a beir
o beth marw obeith maỽreir

gorhoff greir [pu]reir peryf—aglaerddelw
eglurddoeth y gwyrth cryf
gwyr pob grat mat nad nadyf
goreu teith yr gỽr ay tyf

gofỽy aur [*uiỽe u*]aỽl deisyf—y groc
o groeỽgaer galchliw nyf
gwedy madeueint breint bryf
gỽaỽtamyl seilym gwiỽ demyl selyf

molaf adolaf ar ddeulin—ue..[.]
.atỽyf dauaỽt ulin
myrd a uawl gỽehynỽaỽl gwin
maỽrddelỽ o uygyrdrefyn uyrdin.

egoraf dodaf datyl ddeulin—y mryt
ymrodyeu gỽyrtheuin
y garu delỽ ryelw rin
[ ]in

[2] Neu *gwyueir*.

[
]drefyn myrr a gwin
kyfla6n dda6n ddysc ua*6r*in
coeth coryf eurddoeth caer uyrdin

[ lly…..y ]—y gaer
ac ar6yd Iesu y6
croe6 gerd uer6loe6 [
]k*yt*ua*l*ch greir balch byw

[ ]—[ ]*e*dyrieith
a6duryeit kerd ae cly6
Wa6r eurgla6r byt [a e]rglyw
W*ed*a6l [u]a6l yr 6idel6 uy6

œ myna6c ball eura6c a bell ory6—deify[r
]*et* yn.ef lly[6]
l[o]ygr6ybyr[3] gaer ddil6ycry6
loegric uoes yr loe6groc uy6

[ ]ddiledyf ddedyf a ddodyw—y gaer
pibyl eirglaer pybyl erglyw
o uarw uirein argl6ydly6
eura6c ball a oruc byw

[ eur]ddelw wrdieith—a gyrcha6d
ac erchyll hydyr heb greith
coryf balch[ ]*et*ylueith
caer uyrdin daer ua6rda6n deith

[ ]6rd[i]eith—y ua6rgaer
nyt ouergerd g6a6tieith
dyddwyn[ ]h
diddic detholedic deith

[ ]eith—ugeinmil
a genmyl eu dawn meith
mynnaf na 6ydyaf wa6tieith
ma6l ha6l hyl6yd rec dec deith

[3] Neu *l[e]ygr6ybyr*

[ g] ỽynieith—usalem
a seilwyt yn Benrheith
kylchỽy bed crist ddi[
]sc magỽyr ureisc ureith

[ ]ỽychareith—uyrdin
a uardaỽd chỽyl popieith
lle y mae[ ]
[ l]athyrddelw ureinuryw uyw ueith

*2 englyn yn eisiau o bosibl*

]dyr pellueith
udunt wy a eidun teith

duw trugar nenn car nyn cawd—yn gocnỽt
dros ỽaetfrỽt draỽs ỽaỽtffrawd
dar breinawl a deỽrbrynawd
dor y nef an dyry nawd

doeth y gaer lle taer tỽryf morgymlaỽd—ffyryf
yn y furuf yn prynawd
dỽyscenỽ per dysc an parawd
delỽ or nef adeilwr nawd

areil dalym om salym na sawd—uerw aỽgrim
ỽaỽrỽiwgroc am prynawd
e[r]chyl gỽaeturiỽ ath liỽaỽd
archaf yr duw naf [dy nawd]

treul gwyarddafyn trafyn trefnawd—eglur grist
yr glaer groc an llud caỽd
(tras ymydyr traỽs ymadraỽd)
tref yn eil nef annỽyl nawd

llathyr yw y groc uyw o uywn dinas—caer
caryat [ei]lun teyrnas
lle gỽyl deifyr llu gwelw diuas
llif dỽfyr croeỽ a llanw gloew glas

llwyr elỽ yr eurdelw y ar urdas—gem
a gymyrth ty a phlas
lle beirw dỽfyr [*re.*] llỽybyr diuas
llawr llathyruaỽr glaỽr llithyruor glas

lle deifyrdaer yỽ caer lle nyt cas—mynet
yr mỽyn delỽ nefaỽlblas
lle [.*g*   *drut*   ] ret iudas
lle beirỽ llaỽer glỽyseirw glas

llunyaf deith drossaf doeth dras—y ỽelet
y ỽiỽloew g*oleu gras*
]llif uch[4] camlas
llyry caer a llenn glaer llanw glas

mae ygylch llathyruylch llethyrueith blas—y groc
o g…ỽg[   ]
mỽynrym dawn maenrỽym dinas
mur hoew a mor gl[*oyw*   ] glas

meichỽnaf ymtraỽsnaf trỽy uot tras—yr groc
ar groeỽ ga….[*d*] y gwas
mygyrỽaỽt ddiofyn ddofyn ddiuas
mal rif graean ar lan las

[4] *uỽch* gyda phwyntiau dileu o dan yr *ỽ*.

# GWAITH HILLYN

golygwyd gan

ANN PARRY OWEN

# *Rhagymadrodd*

Prin yw ein gwybodaeth am Hillyn—y cyfan y gellir ei gasglu amdano yw iddo ganu i Ieuan Llwyd a hynny fwy na thebyg yn gynnar yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ni ddaethpwyd ar draws yr un enghraifft arall o'i enw yn yr achau, ac mae'n dra thebygol mai llysenw unigryw ydyw. Mae'n bosibl mai'r ansoddair *hyll* 'diolwg' yw'r elfen gyntaf, gyda'r un terfyniad -*yn* ag a welir yn Sefnyn (?*safn* + -*yn*) a Rhisierdyn (o *Rhisiard* + -*yn*), neu o bosibl gyda'r terfyniad ansoddeiriol -*in* (fel yn *gerwin*), er bod orgraff y ffurf yn Llawysgrif Hendregadredd (*Hillyn*) yn tystio fel arall. Ni ellir bod yn sicr ychwaith ai *ll* yn hytrach nag *l-l* sydd yn y gair,[1] a gellid hefyd ystyried ai ffurf ydyw yn cynnwys yr elfen Hen Saesneg *hyll* '*a hill*; *an upland*, *an elevation in the ground*'[2] a welir yn y cyfenw Saesneg *Hill*. Posibilrwydd arall fyddai amrywiad ar yr enw Cymraeg *hulyn* 'hugan, mantell' ac o bosibl 'ffŵl'.[3]

Mae'r tair cerdd a olygir isod yn cysylltu Hillyn ag ardal Llangeitho yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai bardd o Fôn ydoedd, neu, o leiaf, fod ganddo gysylltiadau clòs â'r ynys honno, os dyna a awgrymir isod 7.3–4 *Cludais o fad fawrwlad Fôn / Clod—ys erod—Is Aeron* ac eto 7.18, 20 *O wenwlad y Gwyndyd*, / ... / *Llaweredd llu a weryd* lle'r ymddengys fod y bardd yn ei uniaethu ei hun â'r lluoedd o Wynedd a gynhaliodd Ieuan Llwyd yn ei lys yng Nglyn Aeron. Ond rhaid cofio mai topos yn y canu yw i'r bardd honni ei fod yn lledaenu clod ei noddwr o'r naill begwn i'r llall, ac mae Môn yn aml yn cynrychioli pegwn gogleddol eithaf y wlad.

Nid oes unrhyw beth yng ngherddi Hillyn a allai fod o gymorth inni i'w dyddio gydag unrhyw sicrwydd, heblaw'r ffaith ei fod yn cyfeirio at Ieuan yn y gerdd gyntaf fel gŵr ifanc (5.10), sy'n awgrymu dyddiad yn gynnar yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg.[4] Cyfeiria Hillyn ato yn y cerddi hyn fel *Llym rôn Is Aeron* (5.26), *nêr Glyn Aeron* (7.12), ac yn y drydedd gerdd molir yn arbennig groeso a diwylliant ei lys yn *Is Aeron*. Mae'r ail gerdd, englyn a ganwyd i ddathlu codi tŷ Ieuan, yn ddiddorol gan mai dyma'r enghraifft gynharaf yn y Gymraeg o gerdd wedi ei chanu ar y fath achlysur. Awgrymwyd y gall mai dathlu codi cartref newydd ym Mharcrhydderch a wna Hillyn yma, ychydig i lawr yr afon o Lyn Aeron.[5]

[1] Cf. y gair *calon* a ysgrifennir yn gyffredin fel *callon* yn y llsgrau., gw. G 99. Byddai hyn o bosibl yn esbonio pam y dryswyd yn ddiweddarach rhwng Hil(l)yn a Heilyn, gw. isod.

[2] Gw. Hywel Wyn Owen, *The Place-names of East Flintshire* (Cardiff, 1994), 385.

[3] Gw. GPC 1910 d.g. *huling*, *hulyn*[1], *hulyn*[2].

[4] Ymhellach ar ddyddiadau Ieuan Llwyd a'i dad, gw. uchod tt. 12–13.

[5] Ymhellach ar gartref Ieuan Llwyd, gw. uchod, tt. 10–12.

Cerddi mawl traddodiadol yw'r awdl a'r gyfres englynion isod, yn moli Ieuan am y gwerthoedd traddodiadol—ffyrnigrwydd ei ymladd ar faes y gad a chynhesrwydd ei groeso yn ei lys (cf. 7.21–4). Fel ym marddoniaeth Llywelyn Brydydd Hoddnant, ceir hefyd nifer o ymadroddion ac epithetau yn adleisio gwaith ei ragflaenwyr ac yn ei gysylltu'n gadarn â'u traddodiad hwy.

Yr unig gerdd yn Llawysgrif Hendregadredd y ceir enw Hillyn wrthi yw cerdd 7 isod, cerdd foliant i Ieuan Llwyd o Lyn Aeron, ond gan fod yr englyn sy'n ei rhagflaenu yn enwi Ieuan a'r awdl sy'n rhagflaenu hwnnw hefyd yn enwi Ieuan Llwyd, a chan fod y cyfan yn yr un llaw, cesglir mai tair cerdd gan yr un bardd sydd yma. Er hynny, gan fod llinell gyntaf cerdd 5 yn adleisio awdl Llywelyn Brydydd Hoddnant i dad Ieuan Llwyd, teg yw cofio awgrym yr Athro J.B. Smith y gall mai Llywelyn a gyfansoddodd yr awdl hon hefyd.[6]

Yn y mynegeion,[7] cymerir mai'r un yw Hillyn â Hywel Heilyn neu Heilyn Fardd a phriodolir iddo chwe cherdd. Dilynwyd ef mewn nodyn diweddar gan y Parchedig Dafydd Wyn Wiliam.[8] Cyfeiria at weithred ym Môn wedi ei dyddio 1351/2 sy'n enwi meibion *heilin varth*, a chyfeiria at linell 7.3 isod y gellid ei dehongli i olygu mai bardd o Fôn oedd Hillyn. Edrychir ar y priodoliadau'n fanylach.

Wrth godi'r cerddi o Lawysgrif Hendregadredd i'w Liber A, sef BL Add 14869, cododd John Davies hwy yn yr un drefn, gan roi iddynt yr un teitl a'r un priodoliad. Dilynwyd yntau gan gopïwyr Llst 31 a Pen 119.

Cedwir y testun mewn pedair llawysgrif arall, fodd bynnag, nad yw eu perthynas â'i gilydd, nac ychwaith â thestun Llawysgrif Hendregadredd, mor eglur: Pen 117 (yn llaw Siôn Cain, 17g.); LlGC 2691D (a ddyddir 17g./18g); BL Add 14891 (William Rowland, *c*. 1694); CM 14 (Lewis Morris, 1726).[9] Yn y pedair llawysgrif hyn codwyd y cerddi yn y drefn 6, 7, 5 a cheir nifer o ddarlleniadau amrywiol yn gyffredin rhyngddynt. Yn Pen 117 priodolir y tair cerdd i *heilin vardd*; felly hefyd LlGC 2691D, ond yno ceir nodyn mewn llaw wahanol yn tystio mai Llywelyn Brydydd Hoddnant a'u canodd a hynny ar sail y ffaith fod John Davies yn ei *Dictionarium Duplex* dan y gair *côst* wedi priodoli llinell o gerdd 6 isod i Lywelyn. Ansicr yw copïydd BL Add 14891 a rhydd *Heilin Fardd neu Lywelyn brydydd Hodnant* ..., ac mae copïydd CM 14 yn eu priodoli i Lywelyn Brydydd Hoddnant yn unig. Er bod cryn nifer o ddarlleniadau sy'n wahanol i'r hyn a geir yn nhestun Llawysgrif Hendregadredd (y rhan fwyaf ohonynt i'w hesbonio'n ffrwyth camddehongli, diweddaru ffurfiau neu o 'drwsio' llinellau), credir mai o Lawysgrif Hendregadredd y tardd y testun yn y pen

[6] Gw. J.B. Smith, 'Einion Offeiriad', B xx (1962–4), 344n2; gw. hefyd isod.

[7] *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (1978) a MCF (Medi, 1995).

[8] Gw. D.W. Wiliam, 'Nodion am Fagad o Feirdd Cynnar Môn', LlCy xviii (1994–5), 371–2.

[9] Ymhellach ar y llsgrau. hyn, gw. isod tt. 213–14.

draw, ond drwy ryw ffynhonnell goll. Tybir hefyd fod fersiwn Pen 117 yn nes i'r llawysgrif goll honno na'r tair arall. Rhaid casglu, felly, naill ai fod y copïwyr wedi drysu rhwng yr enwau Heilyn Fardd a Hillyn (neu wedi rhoi Heilyn Fardd yn lle Hillyn am fod Hillyn mor ddieithr iddo, yn enwedig os yngenid ef fel 'Hilyn'), neu ynteu fod gan y copïydd hwnnw wybodaeth i awgrymu mai'r un bardd oeddynt.

Priodolir tair cerdd i Heilyn Fardd neu Hywel Heilyn, heb fod yr un o'r llawysgrifau yn eu priodoli i Hillyn.

1. Cerdd ddarogan wedi ei phriodoli i Heilyn Fardd y ceir yr unig gopi ohoni yn LlGC 13069B, f. 64$^{r}$, wedi ei chopïo gan Domas ab Ieuan yn yr ail ganrif ar bymtheg.[10] Ceir yma 21 pennill rhydd, pob un ohonynt yn dechrau â'r geiriau *koronog faban* ..., yng nghanol proffwydoliaethau wedi eu priodoli i Fyrddin Wyllt, Myrddin Emrys, y Bergam, Adda Fras a Thaliesin. Yn y gyfres hon proffwydir dyfodiad y *coronog faban* i drechu'r Saeson.[11] Mae blas diweddar i'r iaith, fel y dengys ffurfiau tafodieithol neu ddiweddar megis *dieliff*, *ynghenol*, *iengtid*. Mae'r odl yn aml yn dibynnu ar ffurfiau tafodieithol, a cheir nifer o ffurfiau (megis *bola*) sy'n awgrymu iaith ddeheuol. Ceir hefyd ambell gyfeiriad penodol megis at *rys or yri* (?Rhys Goch Eryri) ac Arglwydd Rhaglan, a dichon mai cyfeirio at y glanio yn sir Benfro yn 1485 a wneir yn yr ail bennill isod:

Coronog faban a ddenfyn dan ir gyll
At y gwŷr a fo'n cadw'r cestyll
Ac yna rhoddir manerau yn eu sefyll
Gwae Arglwydd Rhaglan pan welo'r pebyll!

Coronog faban medd Rhys o'r Yri
A ddenfyn lynges i Aberteifi,
Ac yn Swydd Benfro y bydd gwaiddi
Pan ddêl ei wŷr i dir heb balli.

Coronog faban a gaiff ei gyfarch
Er iddo yn Lloegr gaffael amarch,
Ef a ddianc o ddwylo hil Lowarch
Fal y diengis Ionas o fola'r morfarch.[12]

Yn Llst 119, 42, a ddyddir *c.* 1642, ceir cyfres ddienw ar yr un mesur gyda nifer o benillion yn dechrau â'r un fformwla ac yn cyfateb bron yn union.[13]

[10] Gw. HMNLW iv, 357–8.
[11] Gw. M.E. Griffiths, *Early Vaticination in Welsh with English Parallels* (Cardiff, 1937), 144–5.
[12] LlGC 13069B, 65$^{v}$; diweddarwyd yr orgraff a'i atalnodi.
[13] Gw. R. Wallis Evans, 'Caniadau Rhys Fardd neu'r Bardd Bach o Ystum Llwynarth', LlCy viii (1964–5), 74.

Go wahanol yw'r gerdd hon o ran ieithwedd i'r cerddi a briodolir i Hillyn isod, ac mae'n dra sicr nad yw'n gynnyrch chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg nac ychwaith yn gynnyrch bardd o Fôn. Tybed ai cynnyrch Hinin Fardd ydyw, mewn gwirionedd, bardd y priodolir iddo nifer o gerddi darogan?[14]

2. *Mae rhyw amwynt i'm rhwymaw*. Ceir y gerdd serch hon mewn un llawysgrif ar ddeg a ddyddir o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg hyd y ganrif ddilynol.[15] Priodolir hi i Hywel Heilyn ym mhob un llawysgrif, a cheir nodyn mewn dwy ohonynt yn tybio mai Bedo Aeddren oedd yr awdur cywir.[16] Y cynganeddion cytsain sy'n llywodraethu yma, yn wahanol iawn i'r cerddi a briodolir i Hillyn yn Llawysgrif Hendregadredd, lle ceir cynghanedd sain ym mron pob llinell. Cwyna'r bardd am ei ystad adfydus gan fod y ferch y mae'n ei charu wedi ei wrthod:

Sonio wrthi sy anawdd
Os profi tewi nid hawdd,
Och f'arglwydd am a wyddwn
Na wypai hi'r anap hwn!
Y mae'r enaid mor unig,
Y mae'r corff heb ddim o'r cig,
Gwewyr ym yn y gïau:
E allai hon ei lleihau.[17]

3. *Sori wrth y ferch groes eyraid*. Ceir hon mewn un llawysgrif yn unig, sef BL Add 14875, 193$^{r}$, a gopïwyd ar ôl 1570. Priodolir hi i Hywel Heilyn, a thybia J. Gwenogvryn Evans ei bod yn llaw y bardd ei hun.[18] Anodd iawn yw'r testun i'w ddarllen ond y cynganeddion cytsain sy'n llywodraethu yma unwaith eto ac nid yw'r gerdd yn taro deuddeg fel cynnyrch y bardd traddodiadol a ganodd i Ieuan Llwyd yng Nglyn Aeron.

Fel Llywelyn Brydydd Hoddnant, bardd y gwawdodyn a'r englyn yw Hillyn, yn ôl tystiolaeth y tair cerdd isod. Cenir yr awdl gyntaf yn gyfan gwbl ar fesur gwawdodyn; englyn proest cyfnewidiog yw'r ail, a chyfres o saith englyn unodl union yw'r drydedd gerdd. Y gynghanedd sain a geir yn y rhan fwyaf o linellau'r bardd, a nifer helaeth o'r rheini yn gynganeddion pengoll. Fel Llywelyn, defnyddia Hillyn gymeriadau yn helaeth, ond gyda mwy o amrywiaeth.

Codwyd y tair cerdd i ffolios 77$^{v}$–78$^{v}$ Llawysgrif Hendregadredd gan law a elwir gan Mr Daniel Huws yn llaw 'h'.[19] Dyma'r unig destun a geir yn

[14] *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978), 1307–8.
[15] Gw. *ib.* 1302.
[16] Gw. Bedo Aerddrem, &c.: Gw 214.
[17] Dyfynnir o LlGC 5269B, 168—gw. RWM ii, 82—gan ddiweddaru'r orgraff ac atalnodi.
[18] Gw. RWM ii, 1047.
[19] D. Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LlGC xxii (1981–2), 11.

llaw y copïydd hwnnw a chan nad oes yma unrhyw olion copïo o destun arall, nid yw'n amhosibl eu bod yn llaw'r bardd ei hun. Codwyd y cerddi gan John Davies i BL Add 14869 a dyna yw'r ffynhonnell uniongyrchol neu anuniongyrchol ar gyfer Pen 119, LlGC 1981B a Llst 31. Yn Pen 117, LlGC 2691D, CM 14C a BL Add 14891 copïwyd y tair cerdd (yn y drefn 6, 7, 5). Fel y nodwyd uchod, ni chredir bod testun y llawysgrifau hyn yn tarddu yn y pen draw o destun sy'n annibynnol ar Lawysgrif Hendregadredd, ond mae lle cryf i amau mai rhyw lawysgrif goll yw ffynhonnell uniongyrchol rhai ohonynt.

*5*

*Moliant Ieuan Llwyd o Lyn Aeron*

Mae ym gyfaillt grym, grymus mal Cai,
Moliant ymadrawdd, hawdd y'i haeddai;
Milwr huysgwr ysgwyd-ddrylliai—yng ngnif,
Mawl ddyrrif cynnif, cynnydd Gwalchmai.
Milwriaidd arfaidd, arf a bylai,
Mal arall ddeall ddiofn y gwnaai;
Meidrawl llew didawl lle dodai—ei fryd,
Mireinbryd yng ngryd, yng ngrym hwylai.
Meddwl dewr ffrwythlawn, o'i ddawn ydd âi
Mywn cyfrang, ieuang Ieuan difai
Mab Ieuan, darian a dorrai—yn nhrin,
Mab Gruffudd heilwin fyddin fyddai.
Gwawr llafn esgud, clud clod a fynnai,
Gwalch o'r addfwynrhyw, llew byw lle bai,
Gwarant cynnwrf twrf, tarfai—estronion
(Gwiw rôn llid alon) yn lle delai.
Ger byddin brenin y gobrynai
Gorhoffter a pharch ar llyfnfarch llai;
Gŵr didramgwydd llwydd, lladdai—Einglgawad,
Gorau ergyrchgad feiddiad fyddai.
Gorwydd â hylwydd hwyl farchogai,
Gorhoffion neidiau uch cloddiau clai.
Gwayw onnen rethren, gwae ruthrai,—rhag ofn
Gwir eofn golofn, gwŷr a giliai.
Llywiawdr urddasaidd, deÿrnaidd dai,
Llym rôn Is Aeron, ys aer gyrchai;
Llawen fydd, a rhydd y rhoddai—ddaoedd,
Lluoedd ar bunnoedd a erbynnai.
Lloegr Frynaich â'i fraich a frainborthai,
Llaw gadarn ddichwith dros nith dros nai.
Lliwgoch gadr baladr llew ni bylai—yng nghad,
Lleiddiad gwir giliad gwŷr y Galai.
Llwyr y'm gwnaeth arfaeth arfer heb fai,
Llewenydd beunydd ban ym gwelai;
Llew tadol nefol, Naf pob rhai—o'r byd,
Llwyddo ei iechyd hyd hoeddl ddidrai!

*Ffynonellau*
A—BL Add 14869, 100r B—BL Add 14891, 70r C—CM 14C, 173 D—LlGC 2691D, 248 E—LlGC 6680B, 77v F—Llst 31, 207 G—Pen 117, 460 H—Pen 119, 365

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif E. Codwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r llawysgrif honno. Mae rhai geiriau yn nhestun llawysgrif E bellach yn anodd, os nad yn amhosibl, eu darllen oherwydd traul. Wrth godi'r gerdd oddi yno i lawysgrif A, medrodd John Davies ddarllen mwy nag sy'n bosibl erbyn hyn a manteisiwyd ar hynny wrth lunio'r testun. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.)

*Darlleniadau'r llawysgrifau*
18 gorhoffer.

*Teitl*
I Ieuan llwyd ap Ieuan ap gr' voel (*mewn llaw wahanol*).

*Moliant Ieuan Llwyd o Lyn Aeron*

Mae gennyf gyfaill grymus [a] nerthol fel Cai,
Moliant ymadrodd, yn hawdd yr haeddai ef;
Milwr cadarn a ddrylliai darian mewn cynnwrf,
Yn teilyngu clod [mewn] brwydr [ac yn dwyn] goruchafiaeth Gwalchmai.
Un rhyfelgar beiddgar, arf a bylai,
Fel un di-ofn o amgen synnwyr y gwnâi [hynny];
Nerthol [fyddai'r] llew dibrin ym mha le bynnag y rhoddai ei fryd,
Ysblennydd ei wedd mewn ymladdfa, mewn nerth y cyrchai.
[Un o] fwriad eofn a llwyddiannus, yn ei allu arbennig y cyrchai
Mewn brwydr, Ieuan ifanc di-fai
Fab Ieuan, drylliai darian mewn trin,
Fab Gruffudd fyddai [y mae iddo] fyddin [a fegir ar] win a dywelltir.
Arglwydd deheuig [ei] lafn, hawliai lwyth o glod,
Gwalch o'r dras fonheddig, llew egnïol ym mha le bynnag y byddai,
Gwarant[wr] cynnwrf terfysg, chwalai wŷr estron
(Trywanwr gwych gelyn [llawn] dicter) ym mha le bynnag y delai.
Ger byddin [y] brenin y teilyngai
Edmygedd ac anrhydedd [wrth ymladd] ar gefn march llyfn [a] chochddu;
[Y] milwr di-rwystr llwyddiannus, trawai haid o Saeson,
[Ef] fyddai['r] anturiwr gorau [mewn] byddin ar gyrch.
March ac [iddo] hynt lwyddiannus a farchogai,
Canmoliaethus [oedd ei] neidiau dros gloddiau clai.
[Ei] bicell yn waywffon onnen, yn adfydus rhuthrai, rhag ofn
[Y] cynheiliad eofn ffyddlon y ciliai arwyr.
Arglwydd tai urddasol [a] brenhinol,
Trywanwr llym [o] Is Aeron, brwydr a gyrchai [bob amser];
Llawen fydd, ac yn hael y rhannai gyfoeth,
Lluoedd a groesawai â phunnoedd.
Gwŷr Brynaich Lloegr a borthai i frain â'i fraich,
[Y] cadarn [ei] law [a] medrus dros nith [a] thros nai.
Gwaywffon waedlyd [a] chadarn llew na phylai mewn brwydr,
Lleiddiad [a] gwir wrthladdwr milwyr y ?Normaniaid.
Parodd arferiad di-fai gynllun llwyr imi [h.y. yn fy meddwl],
[Sef fy] llawenydd beunydd pan welai fi;
[Y] Llew tadol nefol, Arglwydd pob rhyw rai o'r byd,
Llwydded [ei] iechyd ar hyd einioes ddi-ball!

*6*

*Dathlu codi tŷ Ieuan Llwyd*

Costes cun barddles, beirddlith,
Ieuan rhan rhwydd, dŷ difeth,
Naddfain a gwyngalch, falch fath,
Neb ni'i cyst y rhyw byst byth!

*Ffynonellau*

A—BL Add 14869, $101^{r}$ B—BL Add 14891, $69^{v}$ C—CM 14C, 172 D—LlGC 2691D, 248 E—LlGC 6680B, $78^{v}$ F—Llst 31, 208 G—Pen 117, 459 H—Pen 119, 365

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif E. Codwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r llawysgrif honno. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.)

*Dathlu codi tŷ Ieuan Llwyd*

Gwariodd arglwydd [sy'n] lles i fardd [ac] yn lluniaeth beirdd,
[Sef] Ieuan rhwydd [ei] ran, ar dŷ perffaith,
Ar feini nadd a gwyngalchog, urddasol [eu] math,
Ni waria neb fyth [eto] ar y cyfryw golofnau!

## *7*
## *Moliant Ieuan Llwyd o Lyn Aeron*

Cleddfuan Ieuan, ieuang dirion—hael,
Walch ehalaeth roddion:
Cludais o fad fawrwlad Fôn
Clod—ys erod—Is Aeron.

Perais glod erod, aur gofion—Ieuan,
Friw darian fro dirion,
Parablau â doniau Dôn,
Pair tes eurair Is Aeron.

Hoeddl yt hael grair Mair, mur beirddion—dinag,
Doniog Ieuan dirion;
Hydr, geirgoeth, synhwyrddoeth sôn,
Hyder gloyw nêr Glyn Aeron.

Haelaf ac euraf dan y Goron—yw
Ieuan Llwyd am roddion;
Ys ŵyr i Ruffudd rhudd rôn,
Ys Irioel iaith Is Aeron.

Lle bo ei hoywfro, hyfryd—ei winwledd;
O wenwlad y Gwyndyd,
Llwyddreg Ieuan, brifdeg bryd,
Llaweredd llu a weryd.

Llys hysbys ei gwŷs, nid gwŷd,—cer Aeron,
Carwraidd gymhlegyd;
Lloegrwys dachwedd arfeddyd,
Llafn awchlym yng ngrym yng ngryd.

Llwyr ataw y daw (diwyd—i gennyf
Gynneddf Nudd o'r mebyd)
Llawen air llew un wryd,
Llyw cynnydd fyw can hawdd fyd.

*Ffynonellau*
A—Bl Add 14869, 101^r^ B—BL Add 14891, 69^v^ C—CM 14C, 172 D—LlGC 1981B [= Pant 12], 201^v^ E—LlGC 2691D, 248 F—LlGC 5274D, 19 (llau. 1–12) G—LlGC 6680B, 78^r^ H—Llst 31, 209 I—Pen 117, 459 J—Pen 119, 366

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif G. Codwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r llawysgrif honno. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.)

*Darlleniad y llawysgrif*
9 Hoytlit.

*Teitl*
hillyn ae cant i ieuan ll6yt ab ieuan ab gruffut uoel.

*Moliant Ieuan Llwyd o Lyn Aeron*

Ieuan chwim ei gleddyf, un hawddgar ifanc [a] hael,
Arwr helaeth [ei] roddion:
Cludais o ardal eang a hyfryd Môn
Glod [i] Is Aeron er dy fwyn.

Perais glod er dy fwyn, Ieuan ysblennydd [y] meddyliau [amdanat],
[Cludwr] tarian friwedig ardal ddymunol,
Lleferydd â galluoedd Dôn,
Y mae'n peri tirion eirda Is Aeron.

Hir oes iti anwylyd hael Mair, amddiffynnwr beirdd heb nacâd,
Ieuan dawnus [a] hawddgar;
Disglair [a] choeth ei ymadrodd, synhwyrddoeth [ei] barabl,
[Ffynhonnell] gobaith yw arglwydd disglair Glyn Aeron.

Yr haelaf a'r gwychaf dan y Goron yw
Ieuan Llwyd am roddion;
Ŵyr ydyw i Ruffudd gwaedlyd [ei] waywffon,
[Ef] yw Irioel iaith Is Aeron.

Lle bynnag y bo ei fro ddymunol, hyfryd yw ei wledd o win;
O wlad fendigaid trigolion Gwynedd,
Ieuan ffyniannus ei rodd, teg iawn [ei] bryd,
Llawer llu a gynhalia.

Llys enwog ei galwad, nid celwydd [mo hyn], ger [Afon] Aeron,
Cariadus [ei] gwmni;
[Ei] fryd ar [greu] lladdfa [o] wŷr Lloegr,
[Cludwr] llafn miniog mewn nerth mewn brwydr.

Yn llwyr ato y daw (ffyddlon yn fy ngolwg yw
[Yr un o] natur Nudd o'r ieuenctid)
Enwogrwydd llawen llew o wroldeb unigryw,
[Boed] yn bennaeth bywiog ei ffyniant gyda dedwyddwch.

# *Nodiadau*

## *5*

Cerdd draddodiadol o fawl ydyw hon i Ieuan Llwyd y rhoddir ei ach yn fyr yn llinellau 10–12, *ieuang Ieuan … / Mab Ieuan … / Mab Gruffudd*. Agorir drwy gyfeirio at Ieuan Llwyd fel cyfaill, sydd, o bosibl, yn adleisio cerddi Llywelyn Brydydd Hoddnant i'w dad, Ieuan ap Gruffudd Foel (cerddi 1 a 2 uchod).

Molir Ieuan yn arbennig yn yr awdl hon fel milwr cydnerth a beiddgar sy'n dryllio tarianau'r gelyn ac yn eu trywanu'n ddewr, gan wrthgyferbynnu ei ddicter ar faes y gad â'i anwyldeb a'i haelioni yn y llys. Y Saeson, ac o bosibl y Normaniaid neu'r Ffrancwyr, yw'r gelyn: dywedir iddo gymynu *Einglgawad* (ll. 19), iddo fwydo'r brain ar wŷr Brynaich o Loegr (ll. 29) a pheri cilio *gwŷr y Galai* (ll. 32). Amwys yw'r sylw yn llinellau 17–18:

> Ger byddin brenin y gobrynai
> Gorhoffter a pharch ar llyfnfarch llai.

Cymerir mai cyfeirio at fyddin Brenin Lloegr a wneir yma, gan ddeall yr arddodiad *ger* i olygu bod Ieuan yn ymladd gyda'r brenin. Tybed a fu'n ymladd ym myddin Edward II gyda Rhys ap Gruffudd? Ymddengys i Rys arwain nifer o ymgyrchoedd, yn enwedig yn erbyn Roger Mortimer o Wigmore yn ystod ugeiniau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.[1] Bu hefyd yn ymladd yn Ffrainc dros y Goron, a thybed ai cyfeiriad at ei elyniaeth tuag at y Ffrancwyr a geir yn llinell 32, *Lleiddiad gwir giliad gwŷr y Galai?*[2] Ond yng ngoleuni'r cyfeiriadau eraill at elyniaeth tuag at y Saeson, gellid hefyd ddehongli *ger* yn y dyfyniad uchod i olygu 'ar bwys' (h.y. ar yr un maes ymladd, ond nid ar yr un ochr). Rhaid cofio bod honni gelyniaeth arglwydd yn erbyn y Saeson yn rhan mor annatod o ieithwedd y beirdd yn y cyfnod hwn ag yn y cyfnod blaenorol, nes ei bod hi'n anodd gwybod beth oedd safle gwleidyddol yr arglwydd mewn gwirionedd.

Canwyd yr awdl fer hon o 36 llinell ar fesur gwawdodyn. Mae llinellau 3, 6 a 31 yn hir o sillaf (ond mae cywasgiadau posibl ynddynt). Ceir cynghanedd sain ym mhob llinell, ac ychydig dan eu hanner yn bengoll. Sylwer bod y gyfatebiaeth gytseiniol rhwng yr ail a'r trydydd traean yn gyflawn yn aml yn y cynganeddion sain (e.e. llau. 14, 16, 28, 30, 32).

[1] Gw. R.A. Griffiths: PW i, 100.

[2] Er enghraifft, bu Rhys ap Gruffudd yn ymladd yng Nghresi yn 1346; ond dichon fod hyn braidd yn rhy ddiweddar o safbwynt cerdd Hillyn. Gw. *ib*. 101.

1 **Cai** Cai ap Cynyr Ceinfarfog, cymeriad amlwg yn y chwedlau Arthuraidd ac un a goffeir fel arwr yn y farddoniaeth, y Trioedd a 'Breuddwyd Rhonabwy'; nid yw'r portread ohono mor ffafriol yn 'Culhwch ac Olwen', gw. G 122–3, TYP[2] 303–7 ac ymhellach GCBM ii, 4.207n.

2 **hawdd y'i haeddai** Gellid cystrawennu beth yn wahanol o ddeall *y* yn ffurf amrywiol ar y rhagenw perthynol *a* (GMW 63), a'r a. *hawdd* yn goleddfu *moliant ymadrawdd*: 'Ymadrodd hyfryd o foliant a haeddai'.

3 **milwr huysgwr ysgwyd-ddrylliai** Deellir *ysgwyd-ddrylliai* yn f. ar lun *brainborthai*, ll. 29. Cymerir yr a. *huysgwr* i oleddfu *milwr* yn hytrach nag *ysgwyd*, cf. GCBM ii, 1.36 *Eryr huysg6r ysgwyd arwein* ('Arwr cydnerth yn cludo tarian').

4 **Gwalchmai** Gwalchmai ap Gwyar, yn ôl pob tebyg, sef nai Arthur mewn rhyddiaith Arthuraidd. Yn ôl y cyfeiriadau prin ato gan y Gogynfeirdd, cesglir ei fod yn arwr a nodweddid gan ffyrnigrwydd ei ymladd, gw. TYP[2] 374–5 a hefyd GCBM ii, 4.182n.

6 **mal arall ddeall ddiofn** Mae'r ystyr yn amwys. Cymerir *diofn* yn enwol am Ieuan gyda *mal arall ddeall* yn ei oleddfu. Deellir *arall* felly yn ansoddeiriol, yn groes i G 35 sy'n ei ddehongli fel rhagenw yma. Cymerir mai'r awgrym yw fod Ieuan yn ymladd fel dyn gorffwyll.

8 **yng ngryd, yng ngrym** Cyd-drawiad cyffredin, cf. 7.24 isod a GDB 35.7 *Llym yg grym yg gryt*.

12 **heilwin fyddin fyddai** Ymadrodd anodd ei gystrawen a'i ystyr. Dosberthir *heilwin* yn G 774 fel a. yn golygu 'yn heilio gwin' ac mae'n amlwg i Lloyd-Jones gymryd mai a. ydyw yn goleddfu Gruffudd yma; ond anodd yw cystrawennu hyn â gweddill y ll. Cymerir *heilwin fyddin* yn hytrach i olygu 'byddin [a fegir ar] win a dywelltir'.

13 **clud** Noder hefyd yr ystyr 'teyrnged' a roddir yn G 149, er na chofnodir yr ystyr honno yn GPC 509. Gan fod llinellau cyhydedd naw ban y bardd yn ymrannu yn 5 + 4 sillaf gan amlaf, dylid o bosibl ddarllen *Gwawr llafn esgud clud, clod a fynnai* 'Arglwydd anrhaith [= *clud*] [a chanddo] lafn chwim, hawliai glod'.

16 **rhôn** Ei ystyr lythrennol yw 'ffon, gwaywffon, cynffon', gw. I. Williams, 'Awdl i Rys ap Gruffudd gan Einion Offeiriad', Cy xxvi (1916), 143; fe'i deellir yma'n ffigurol am Ieuan fel 'trywanwr' ei elyn, cf. ll. 26.

17 **brenin** Gw. y nodyn cefndir uchod. Awgrymir y gall fod yma gyfeiriad at Ieuan Llwyd yn ymladd ym myddin y brenin, sef Edward II.

20 **ergyrchgad** Yr unig enghraifft o'r ffurf, a dilynir G 486 a GPC 1234 ynglŷn â'r ystyr, gan nodi awgrym G y dylid efallai ddarllen *aergyrchgad* yma.

24 **ciliai** Gellid ei deall yn f. anghyflawn yma: *gwŷr a giliai* 'parai i wŷr gilio'.

25 **tai** Nid oes rhaid i'r ffurf fod yn ll. o ran ystyr: cf. CA 73–4 ar *mordai*, lle'r esbonnir '[g]an fod amryw dai "buildings" ynglŷn â phob llys, gall *mordai* olygu un llys brenhinol yn ogystal â llysoedd yn gyffredinol'. Gw. hefyd GSRh 11.47–8, 13.35–6n.

26 **rhôn** Gw. uchod ll. 16n.

**Is Aeron** Ar leoliad cartref Ieuan Llwyd, gw. uchod, tt. 10–12.

29 **Lloegr Frynaich** Cyfuniad rhyfedd braidd a ddeellir i olygu 'gwŷr Brynaich Lloegr', yn gyfeiriad cyffredinol at y Saeson. Ymhellach ar *Brynaich*, sef yn wreiddiol gwlad a thrigolion *Bernicia* yng ngogledd Lloegr, gw. G 80 a CA *passim*. (Cf. hefyd ddefnydd Dafydd ap Gwilym o *Deifr* i gyfeirio at y Saeson yng Nghaerfyrddin, uchod 4.43, 50, 109, 159.) Adlais llenyddol sydd yma, gan fod disgrifio gwŷr Brynaich yn cael eu bwydo i frain yn gyffredin iawn yng nghanu'r Gogynfeirdd, cf. GCBM i, 21.112 *Ny bu esgorueich Bryneich branhes*; GCBM ii, 1.28 *Marchogyon Bryneich branhes Ywein*.

**brainborthai** Topos yng nghanu'r Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd yw disgrifio arwr yn porthi anifeiliaid rheibus, yn arbennig brain, gw. T.J. Morgan, 'Dadansoddi'r Gogynfeirdd (2)', B xiv (1950–2), 4–5 lle dyfynnir cyfansoddeiriau cyffelyb.

31 **llew** Mae'r ll. fel y saif yn rhy hir o sillaf oni chywesgir hi. Gellid hepgor *llew* ac aralleirio 'Gwaywffon waedlyd [a] chadarn na phylai mewn brwydr', cf. ll. 5, *arf a bylai*.

32 **Galai** Mae'r darlleniad yn anghyflawn yn llsgr. E oherwydd traul, a derbynnir darlleniad John Davies yn llsgr. A. Awgrymir yn G 519 y gellid ei ddeall yn ffurf debyg i'r H.S. *Gallie* am y Normaniaid neu'r Ffrancod. Noder yr ail awgrym petrus yno y gall fod yn ffurf ar *galei* yn golygu '*galley*'; ar y ffurf honno, gw. GPC 1373 d.g. *galai*[1]. Dichon nad oes unrhyw sail i'r ffurf *bygylai* a geir yn llsgrau. B, C, D, G (GPC 363 *bygylu* 1. 'arswydo, ofni, dychrynu, peri ofn, gyrru ofn neu fraw ar'; 2. 'bygwth' (16g.)). Tybed a ellid cysylltu'r ffurf â'r e. lle Ffrangeg *Calais*? Cf. GDG 370 (140.19–22) *Ef a roes Duw … / Gaer i'm cadw … / Cystal … / Â'r Galais*, *rhag ei elyn*.

36 **llwyddo ei iechyd** Unwaith eto mae'r darlleniad yn aneglur yn llsgr. E, a dilynir darlleniad John Davies yn llsgr. A, sy'n sicrhau bod y gorwant yn disgyn ar y bumed sillaf. Cymerir bod y f. ddibynnol yma'n cyfleu'r modd grch., gw. GMW 113. Mae'n debyg nad oes sail i ddarlleniad

llsgrau. B, C, D a G *Llawen vo i iechyd hyd hoedl didrai* a fyddai, o gywasgu *vo i* > *vo'i*, yn rhoi ll. dderbyniol o ran hyd a chynghanedd.

*6*

Nid oes teitl nac enw bardd ar gyfer yr englyn hwn yn Llawysgrif Hendregadredd, ond gan ei fod yn dod rhwng dwy gerdd i Ieuan Llwyd yno, rhesymol yw casglu mai'r un ydyw'r Ieuan a enwir ynddi.[1] Cymerwyd hefyd, fel yn achos yr awdl flaenorol, mai englyn a gyfansoddwyd gan Hillyn ydyw, gan mai ei enw ef sydd wrth y gyfres englynion i Ieuan sy'n dilyn yn Llawysgrif Hendregadredd.[2]

Ymddengys mai englyn ydyw i ddathlu codi tŷ newydd, yr enghraifft gynharaf a gadwyd inni yn y Gymraeg o farddoniaeth wedi ei chyfansoddi ar y fath achlysur. Nid enwir y tŷ, a'r cyfan a gesglir yw ei fod yn un go ysblennydd, gyda meini nadd a gwyngalch—ymffrostir yn y llinell olaf na welir fyth eto godi tŷ cyffelyb iddo. Mae'n bosibl hefyd i Gasnodyn yntau gyfeirio at yr un achlysur yn ei awdl fawl i Ieuan Llwyd, *lla6chblas agauas adas eidya6 llys hyspys dyfrys divra6 wassanaeth ll6yruchel6ryaeth llary ffraeth ffr6ythya6 ...*[3]

Englyn proest cyfnewidiog ydyw hwn gyda chynghanedd sain ym mhob llinell, a'r gynghanedd yn bengoll yn llinell 2. Cysylltir y ddwy linell olaf gan y cymeriad llythrennol *n-*.

4 **ni'i cyst** Derbynnir darlleniad llawysgrif E, *ny cyst*, gan ddehongli *ny* yn gyfuniad o'r geiryn negyddol a'r rh.m. 3 ll. gwrthrychol *'i*, yma mewn safle broleptig yn cyfeirio ymlaen at wrthrych y f., sef *y rhyw byst*. (Am enghreifftiau pellach o *ni'i* yn y farddoniaeth, gw. GCBM i, 7.25 a GLlLl 14.12.) Ni raid gyda Bl B XIV 8 ddarllen *ni chyst* (gan ddilyn llsgrau. B, C a geiriadur John Davies, D, d.g. *côst*), gan fod y rh.m. proleptig yn nodwedd gyffredin ar ieithwedd y beirdd, gw. uchod 1.11n a 3.20n. Ar *costio* 'gwario ar', &c., gw. GPC 570.

*7*

Molir Ieuan yn y gyfres hon o englynion am ei haelioni a'i roddion helaeth, ac yn fwy penodol am ei ddysg a'i ddoethineb, gan briodoli iddo *Hydr*,

[1] Yn llsgr. A unir y gerdd hon a'r gerdd ddilynol dan y teitl *Awdl foliant i Ieuan Llwyd*.
[2] Ymhellach ar awduraeth yr englyn, gw. y Rhagymadrodd uchod i waith Hillyn.
[3] R 1246.22–4.

*geirgoeth*, *synhwyrddoeth sôn* (ll. 11) a'i alw'n *Irioel iaith Is Aeron* (ll. 16). (Mae'n bosibl fod arwyddocâd cyffelyb i ddisgrifiad Casnodyn o Ieuan Llwyd, R 1246.29, 31 *car caeth y var coeth y uarn ... kadarn y eiruarn ae eruit ae ha6l.*) Yr oedd gan Ieuan yn sicr ddiddordeb dwfn mewn dysg a llenyddiaeth ac mae'n bosibl hefyd ei fod yn ŵr cyfraith, a chofio bod Rhydderch, ei fab, yn un o gyfreithwyr amlycaf ei oes a bod cyfreitha'n grefft a dueddai i gael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. (Ymhellach ar ddiddordebau diwylliannol Ieuan Llwyd, gw. uchod tt. 6–9 *et passim*.)

Ceir yma gyfres o saith englyn unodl union. Cenir y pedwar cyntaf ar yr odl *-on*, a'r tri olaf ar yr odl *-yd*. Cysylltir y pedwar cyntaf ymhellach â'r gair *Aeron* a geir yn safle'r brifodl yn llinell olaf pob un ohonynt,[1] a'r tri olaf gan y cymeriad llythrennol *ll-* a geir yn llinell gyntaf y paladr ac yn nwy linell yr esgyll. Y gynghanedd sain a welir fynychaf yn llinellau 1, 3 a 4 yr englynion, ac eithrio llinellau 20 a 27 lle ceir cynghanedd groes, a llinell 23 lle ceir cynghanedd lusg. Ceir cynghanedd groes neu sain rhwng y gair cyrch a'r ail linell.

3 **Môn** Cynrychiola begwn mwyaf gogleddol Cymru. Tybed a ydyw'r cyfeiriad yn awgrymu mai bardd o Fôn ydoedd Hillyn? Cf. hefyd isod llau. 18–20n. Neu tybed a oedd gan Ieuan Llwyd ei hun gysylltiadau â Môn, fel yr awgrymir, o bosibl, gan y cyfeiriad at drigolion Gwynedd, isod ll. 18. (Trafodir hyn ymhellach yn y rhagymadrodd i'w waith uchod.)

4 **Is Aeron** Ar gysylltiadau Ieuan ag ardal Is Aeron, gw. uchod tt. 10–12; nodir yno na ellir bod yn sicr ai *is Aeron* ynteu *Is Aeron* yw'r darlleniad cywir yma. Gwelir yn y ll. enghraifft o drychiad, lle mae'r ymadrodd *ys erod* yn gwahanu *clod* ac *Is Aeron*. Deellir *ys erod* yma yn golygu 'er dy fwyn', ond gellid deall yr ystyr 'o'th herwydd' yn ogystal.

5 **aur gofion** Ar amryfal ystyron *cof*, gw. G 159 a GPC 536; cf. hefyd yr a. *eurgof* yn golygu 'clodwych', G *l.c.* a IGE² 164 (ll. 3).

6 **Friw darian fro dirion** Deellir y treiglad meddal i *friw* yma mewn cyfosodiad, ac i *fro* mewn e. genidol yn dilyn eb.un., gw. J. Lloyd-Jones, 'Some features of Middle Welsh syntax', ZCP xvii (1927–8), 81–9. Deellir y cyfuniad *briw darian* yn enwol am gludwr tarian ddrylliedig—arwydd o'r arwr dewraf a'r mwyaf cyndyn. Gellid hefyd ddeall *tarian* yn ffigurol am 'amddiffynnydd' a chymryd bod *briw darian* naill ai'n ddisgrifiad ystrydebol o'r arwr sy'n brwydro'n ddewr er gwaethaf ei arfau toredig, neu yn ddisgrifiad o Ieuan wedi ei glwyfo.

7 **Dôn** Mam Gwydion ym Mhedwaredd Gainc y Mabinogi: gw. PKM 252–3, TYP² 327. Ymhellach ar yr e., gw. W.J. Gruffydd, 'Donwy', B

[1] Cf. cerdd 4 uchod.

vii (1933–5), 1–4. Yma defnyddir ei henw i gyfleu person doeth. Cysylltir Dôn yn draddodiadol ag Arfon (gw. GGDT 15.29n (Iorwerth Beli)), ac mae'r ffaith fod Hillyn yn ei henwi yma yn ategu, o bosibl, ei gysylltiadau ef ei hun â'r ardal honno. Gw. uchod ll. 3n ac isod llau. 18–20n.

8 **pair** Gellid hefyd ddeall *pair* yma yn e. yn golygu 'arglwydd' (GPC 2670 d.g. pair[2]) neu 'crochan', &c. (*ib*. 2669 d.g. *pair*[1]) o gofio am bair Ceridwen a'i gysylltiad ag awen ac ysbrydoliaeth y beirdd, gw. GPC *l.c*. Gellid deall *tes eurair* yn gyfeiriad at y mawl gwresog a ysbrydolid gan Ieuan, neu ynteu at y geiriau gwych yr oedd ef yn eu hynganu ei hunan.

9 **hoeddl yt** Llsgr. G *Hoytlit*. Petrus iawn yw'r dehongliad ac nid amhosibl fyddai deall *hoedlid*, sef ffurf 3 un.grch. y f. *hoe*(*d*)*dli* 'byw yn hir', er mai geiriadurol a diweddar yw'r f. honno yn ôl tystiolaeth GPC 1883. Diwygiwyd yn *Hael addfwyn gair mair* yn llsgrau. B, C, E ac I.

12 **Glyn Aeron** Ar gartref Ieuan Llwyd yng Nglyn Aeron, gw. uchod tt. 10–12.

13–14 **Haelaf … / … am roddion** Am y gystrawen, cf. RB ii, 158 (ll. 20) *hael am da oed*.

15 **Gruffudd** Sef Gruffudd Foel, taid Ieuan Llwyd.

**rhôn** Gw. uchod 5.16n.

16 **Irioel** Rhestrir y ffurf yn betrus yn G 525 d.g. *Geiryoel*, sef Gregori Bab, neu Gregori Fawr, gw. GSRh 7.37n. Cofnodir yno hefyd y ffurf amrywiol *Giryoel*. Anodd gweld pam y byddai'r ffurf honno'n treiglo yma ar ôl y cyplad amhrs. *ys*, ond o gofio bod *g*- weithiau yn colli ar ddechrau gair o flaen llafariad (cf. (*g*)*ogof*, GPC 2638), gellid tybio bodolaeth *Irioel* fel ffurf amrywiol ar *Giryoel*. O gymryd mai cyfeiriad at Gregori Bab ydyw, gellir deall y cyfuniad *Irioel iaith* yn ffigurol am Ieuan fel un sy'n feistr ar iaith, neu hyd yn oed ei fod yn arweinydd fel Gregori Bab dros ei 'genedl' neu ei 'bobl'. Ond posibilrwydd arall yw y dylid dehongli *Ys Irioel iaith* fel *Ys Sirioel iaith*, a deall *Sirioel* yn amrywiad ar *Seiriol*, y sant ac iddo gyswllt agos â Môn, gw. E.R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Woodbridge, 1987), 238–9.

18–20 Ar *Gwyndyd*, sef trigolion Gwynedd yma, gw. G 740. Cystrawennir llau. 18 ac 20 gyda'i gilydd, gan gymryd bod y bardd yn ei uniaethu ei hun â thrigolion Gwynedd, yr estynnodd Ieuan Llwyd ei groeso iddynt yng Nglyn Aeron. Gw. ymhellach ll. 3n uchod.

21 **gwŷs** Fe'i deellir yma'n e. yn groes i G 726 sy'n ei restru fel ffurf amhrs.pres.myn. y f. *gwybod*; o ddilyn G gellid aralleirio 'Llys enwog ger Aeron y gwyddys nad drwg / [Ei] gwmni cariadus …'.

22 **cymhlegyd** Derbynnir yr ystyron a roddir yn betrus yn GPC 765 (er mai fel *cymhlegid* yn unig y rhestrir y ffurf yno).

23 **Lloegrwys dachwedd** Cf. GCBM i, 26.64 *Lloegyr dachwet*. Am drafodaeth ar y ffurf *tachwedd*, gw. I. Williams, 'Diarhebion Cymreig', Beirn ii (1912), 173–4.

26 **Nudd** Nudd ap Senyllt, un o'r Tri Hael, gw. TYP[2] 476–7.

**mebyd** Cymerir mai cyfeirio at ieuenctid Ieuan Llwyd ei hun a wneir yma, gan dderbyn yr ystyr a roddir yn GPC 2388 d.g. *mebyd* (a); eithr byddai'r synnwyr 'pobl ieuainc' a roddir yn betrus i'r e. *ib*. 2389(c) yn rhoi cystal synnwyr o bosibl oherwydd y fannod bendant sy'n ei ragflaenu.

27 **un** Cymerir bod grym a. 'arbennig, unigryw, ar ei ben ei hun' i *un* yma, yn peri i'r e. sy'n dilyn dreiglo'n feddal. Posibilrwydd arall yw cymryd *llew un wryd* i olygu 'o'r un gwroldeb â llew'.

# *Mynegai*


**addfwynrhyw** 5.14
**am** 7.14n
**arall** 5.6n
**arfaeth** 5.33
**arfeddyd** 7.23
**aur** 7.5n
**barddles** 6.1
**beiddiad** 5.20
**beirddlith** 6.1
**bod: byddai** 5.12n
**brainborthi: brainborthai** 5.29n
**brenin** 5.17n
**briw** 7.6n
**bro** 7.6n
**Brynaich** 5.29n
**byddin** 5.12n
**cer** 7.21
**ciliad** 5.32
**cilio: ciliai** 5.24n
**clud** 5.13n
**cof: cofion** 7.5n
**Coron** 7.13
**costio: cyst** 6.4n **costes** 6.1
**crair** 7.9
**cyfrang** 5.10
**cymhlegyd** 7.22n
**cynnif** 5.4
**deall** 5.6n
**dichwith** 5.30
**didawl** 5.7
**difeth** 6.2
**diofn** 5.6n
**dryllio: ddrylliai** 5.3n
**dyrrif** 5.4
**ehalaeth** 7.2
**Einglgawad** 5.19
**erbyn: erbynnai** 5.28
**ergyrchgad** 5.20n
**esgud** 5.13
**eurair** 7.8
**Galai** 5.32n
**galon** 5.16
**geirgoeth** 7.11
**gnif** 5.3
**gobryn: gobrynai** 5.17
**gorhoff: gorhoffion** 5.22
**gorhoffter** 5.18
**gorwydd** 5.21
**gryd** 5.8n, 7.24
**gwryd** 7.27
**gwŷd** 7.21
**Gwyndyd** 7.18n
**gwŷs** 7.21n
**haeddu: haeddai** 5.2n
**hael: haelaf** 7.13n
**hawdd** 5.2n
**hawdd fyd** 7.28
**heilwin** 5.12n
**hoeddl** 5.36, 7.9n
**hoywfro** 7.17
**huysgwr** 5.3n
**hylwydd** 5.21
**i**: **yt** 7.9n
**’i** 6.4n (yn cyfuno â **ni)**
**iechyd** 5.36n
**llai** 5.18
**llawer: llaweredd** 7.20
**llew** 5.31n
**Lloegrwys** 7.23n
**llwydd** 5.19
**llwyddo: llwyddo** 5.36n
**llwyddreg** 7.19
**llyfnfarch** 5.18
**llys** 7.21
**mal** 5.6n
**mebyd** 7.26n

**meidrawl** 5.7
**milwr** 5.3n
**mireinbryd** 5.8
**naddfain** 6.3
**naid: neidiau** 5.22
**ni: ni'i** 6.4n
**paladr** 5.31
**peri: pair** 7.8n
**post: pyst** 6.4
**prifdeg** 7.19
**punt: punnoedd** 5.28
**pylu: pylai** 5.5, 31
**rhethren** 5.23
**rhodd: rhoddion** 7.14n
**rhôn** 5.16n, 26, 7.15
**synhwyrddoeth** 7.11
**tachwedd** 7.23n
**tarfu: tarfai** 5.15
**tarian** 7.6n
**tes** 7.8
**teÿrnaidd** 5.25
**tirion** 7.6n
**trin** 5.11
**tŷ: tai** 5.25n
**un** 7.27n
**y** 5.2n
**ysgwyd** 5.3n

*Enwau personol*

**Cai** 5.1n
**Dôn** 7.7n
**Gruffudd** 5.12, 7.15n
**Gwalchmai** 5.4n
**Ieuan**[1] Ieuan ap Gruffudd Foel 5.11
**Ieuan**[2] Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffudd Foel 5.10, 7.5, 10, 19
**Ieuan Llwyd** 7.14
**Irioel** 7.16n
**Mair** 7.9
**Nudd** 7.26n

*Enwau lleoedd*

**Aeron** [Afon] Aeron 7.21
**Glyn Aeron** 7.12n
**Is Aeron** 5.26n, 7.4n, 8, 16
**Lloegr** 5.29n
**Môn** 7.3n

# CERDDI DIENW

golygwyd gan

ANN PARRY OWEN

## *8*
## *Moliant Tomas ap Rhotbert*

Tomas fab Rhotbert, rhwyd pâr—gwersyllig,
Rhwyf rhyfyg rhyfelgar,
Rhuthr aruthr areithran esgar,
Rheithon gawr, rheithfawr llawr llachar,
Rhodd cynnygn cynnif diwatwar,
Rhwym cedeirn, cadarn ei ofar.
Rhwysg tân â gwynnon fal twrf gwyniar—drud,
Molud clud tud wasgar,
Moli rhi rhybuch ‘y narpar,
Molawdr maws, nid moes i’i gytbar!
Moliant llew lletawd o’m baniar
(Milwr coeth trawsddoeth) dros ddaear
Fal molawd Dunawd gan rif toniar—feirdd
Tynnegl heirdd hir ddear.
Tadog Gwent, torment dermud gwâr,
Tadmaeth myrdd, mawrddawn ei ddaffar,
Tud fenwyd, fynud wrth wangar,
Tu brwydr glyw, ef glew anhygar.
Tu oedd wysg yn wysg yn ysgar—torfoedd
Ac eu teirf mal adar,
Adwyn llew yn lladd yn anwar,
Adwen llyw yn llawch, yn hygar,
Edif gnif, gnawd llychu amar,
Edern llid pan lludd ei arwar.
Edyrn trin feddgyrn, trydar—erchwyniog,
Trawd farchog feirch amar,
Emyrdd cyrdd cerddorion llafar,
Amlwg saif ei safwy fal dâr,
Amwlch gledd gloywddrud yng ngwyar,
Amorth cardd, nid cerddor niw câr.
Aml ei rodd o’i fodd, ei fâr—yng rhydrwm,
Ys rhydraws cain wanar,
Cuniad cad cedernid Elgar,
Cynnail frwydr ar fraint tân llachar,
Cynnor trin, nid rhwy edifar,
Cynnwrf Gwair, cyniwair Cuniar.

Cynheiliant anant, afar—anelyf,
Aergleddyf glew ddigar,
Glud a drud ar drawd athrugar,
Glyw ei ryw, ef rhwyf ufeliar,
Glew fal rhew rhuddgrys brys brwydrgar,
Glaif hywan ac nid glaif hywar;
A'i glod gwnair a'i air i ar—y Tri Hael,
Neb traha nid achar.
Lleawr gwawr gwedy bo abar
Lle mae saint yn sant ddiafar;
Ei ddechrau oedd wychfryd Casnar,
Ei ddiwedd boed i Dduw trugar!

*Ffynonellau*

A—BL Add 14869, 129$^{r}$ B—BL Add 15046, 72$^{v}$ (llau. 1–8) C—Card 2.634 [= Hafod 24], 56 (llau. 1–8) D—LlGC 1981B [= Pant 12], 149$^{r}$ E—LlGC 3029B [= Mos 110], 21 (llau. 1–8) F—LlGC 6680B, 88$^{v}$ G—LlGC 13132A, 23 (llau. 3–5) H—Llst 3, 499$^{v}$ I—Llst 31, 262 J—Pen 119, 392–3 K—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LlGC 9048E], 115$^{r}$

Seiliwyd y golygiad isod ar destun llawysgrif F. Codwyd y testun hwn i lawysgrif A, a dyma ffynhonnell uniongyrchol neu anuniongyrchol llawysgrifau D, I a J.

Dyfynnwyd wyth llinell gyntaf y gerdd yn fersiwn llawysgrifau H a K o Ramadegau'r Penceirddiaid, a dyma ffynhonnell uniongyrchol neu anuniongyrchol y testun yn llawysgrifau B, C, E, a G. Nodir y darlleniadau amrywiol o lawysgrifau H a K yn unig isod. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.)

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *HK* a Roppert; *K* rwyd bar. 3 *H* Arthur; *H* areithraw, *K* anreithyaw. 4 *K* reidyon gawr; *F* reithaỽr, *HK* rwythawr. 5 *H* Rwym kynigin, *K* rỽym kyngyn; *K* kyngit. 6 *K* rwym kedern; *HK* kadarn o var. 7 *K* tan a gwynnan; *K* twyrf gwaniar. 8 *K* molit. 9 *F* ynarpar. 17 *F* tud menỽyd mynud. 19 *F* tuoed. 23 *F* gynif gnanỽd (*o bosibl* guanỽd). 34 *F* kyueil. 37 *F* anar. 43 *F* gueir ac eir (*neu o bosibl* ae eir).

*Moliant Tomas ap Rhotbert*

Tomos ap Rhotbert, amddiffynnol rwydwr gwaywffon [ei elyn],
Rheolwr beiddgarwch rhyfelgar,
Rhuthr dychrynllyd [ar y] gelyn baldorddus ydyw,
Cawr [ymysg] gwŷr y gyfraith, pen-campwr ysblennydd helaeth ei gyfraith,
[Ei] rodd [i'w] elynion yw [ei] frwydro difrifol,
Rhwymwr cedyrn, cadarn ei lid.
[Un â] rhwysg tân ar frigau crin fel trwst hyrddwynt chwyrn,
Moliant cyfoeth gwasgarwr pobl (h.y. y gelyn),
Moli brenin [sy'n] ddyhead [gennyf] yw fy mwriad,
Canmolwr persain, nid arferol [mo hyn] i'w gystedlydd!
Bydd moliant [y] llew oherwydd fy nghlod yn lledu
([Y] milwr gwych cadarn a doeth) dros [y] ddaear
Fel molawd Dunod gan feirdd rif tonnau
Chwim eu traed a hardd, maith [eu] trwst.
Tadog Gwent, tawelwr gwâr byddin,
Tadmaeth lliaws, haelioni mawr yw ei ddarpariaeth,
Llawenydd [ei] bobl, cwrtais wrth gyfaill mwyn,
Cynhaliwr brwydr dewrion, gŵr dewr milain ydyw.
Plaid a oedd sawdl ar sawdl yn gwasgaru torfoedd
A'u hysgariadau fel adar,
Mwyn yw['r] llew [sy]'n lladd yn greulon,
Adwaen bennaeth [sy]'n nawdd [ac] yn hawddgar,
Rheibiwr brwydr, arferol yw [iddo] leddfu clwyf,
[Un a chanddo] ddicter Edern pan wrthyd ei gysur.
Cyrn yfed medd yr un aruthr [mewn] brwydr, cynhaliwr [mewn] cythrwfl,
Meirch stwrllyd marchog cyrch,
Niferus yw cerddi cerddorion soniarus,
Eglur y saif ei waywffon fel derwen,
[Ei] gleddyf bylchog [yn] ddisglair a ffyrnig mewn cyflafan,
Rhwystr[wr] gwarth, nid bardd mo'r sawl nad yw'n ei hoffi.
Lluosog yw ei rodd trwy ei fodd, ei ddicllonedd [yn] wasgfa drom iawn,
Cadarn iawn yw['r] arweinydd ysblennydd,
Pennaeth byddin [ac iddo] gadernid Elgar,
Cynnal frwydr yn null tân llachar,
Blaenor brwydr, nid pennaeth edifeirwch [mohono],
[Un yn creu] cynnwrf [megis] Gwair, [yn] gwibio [megis] Cuniar.

Cynhaliaeth beirdd [a] thristwch afrifed,
Cleddyf brwydr dewr [a] llidiog,
Taer a gwrol ar gyrch didostur,
Rhyfel yw ei natur, pennaeth gwreichionllyd ydyw,
Glew fel rhew yw[’r un] gwaedlyd ei wregys [ac] aidd un hoff o ymladd,
[Cludwr] gwaywffon [sy]’n trywanu’n hawdd ac nid gwaywffon wâr;
A’i glod a wneir a’i enw da uwchben [h.y. yn fwy nag eiddo] y Tri Hael,
Nid yw’n hoff iawn o unrhyw falchder.
Lleolir yr arglwydd wedi bo’n gelain
Lle mae saint yn santaidd lawen;
Ei ddechrau oedd dewrfryd Casnar,
Ei ddiwedd boed i[’r] Duw trugarog!

# *Nodiadau*

Er na wyddom pwy a gyfansoddodd yr awdl gelfydd hon, nid oes amheuaeth am enw'r gwrthrych a gyflwynir yn llawn yn y llinell gyntaf: *Tomas fab Rhotbert*. Awgrymodd yr Athro J.B. Smith mai'r un ydyw o bosibl â gŵr o'r un enw a ddaliai swydd *bedellus* ym Mefenydd yn 1361–2 (*ob*. 1362).[1] Cynhwysir y pennill cyntaf o fyr a thoddaid isod yn nhestun Llst 3 a Rhydychen, Coleg Balliol 353 o Ramadegau'r Penceirddiaid, sef dau destun y credir eu bod yn adlewyrchu'n weddol agos fersiwn gwreiddiol Einion Offeiriad o'r Gramadeg.[2] Mae'r ffaith fod y gerdd yn ymddangos yn nhrydedd haen Llawysgrif Hendregadredd yn ogystal ag yng Ngramadegau'r Penceirddiaid yn awgrymu'n gryf iawn mai gŵr o Geredigion ydoedd Tomas.

Nid yw'r gerdd ychwaith yn cynnig unrhyw awgrym ynglŷn â phwy yw'r gwrthrych. Gelwir Tomas yn *tadog Gwent*, a phetai hynny i'w gymryd yn llythrennol, gellid cymryd bod ei awdurdod yn ymestyn hyd y de-ddwyrain (ond gw. ll. 15n). Molir ef am ei ymladd ffyrnig a'i gadernid. Ac ar ddiwedd y gerdd mae'r bardd yn cyfarch Duw, gan ofyn iddo sicrhau i Domas groeso gyda'r saint yn y nefoedd ar derfyn ei oes. Mae'r llinellau hyn yn dwyn i gof yn arbennig linellau terfynol marwnad Cynddelw Brydydd Mawr i Gadwallon ap Madog ab Idnerth:

> As deupo casnar, kar kyngreinon,
> Colofyn Cadellig, Kadell Brython,
> Yg goleuad g6lad G6ledic neiuyon,
> Yg kein adef nef, na6t eggylyon![3]

O edrych ar weddill y gerdd gellir bod yn dra hyderus, fodd bynnag, mai cerdd foliant yn hytrach na cherdd farwnad yw hon i Domas ap Rhotbert, a cheir enghreifftiau eraill yng nghanu moliant y Gogynfeirdd o gyfarch Duw a gofyn iddo warchod y gwrthrych ar derfyn ei oes ac yntau yn dal i fod ar dir y byw.[4]

Cerdd wedi ei saernïo'n grefftus iawn yw hon. Ceir yma ddilyniant o wyth pennill o fyr a thoddaid yn cynnwys chwe llinell yr un. Cynhelir yr un brifodl drwodd a gwneir defnydd celfydd iawn o gymeriad llythrennol neu gynganeddol i gysylltu'r llinellau. O ran cynghanedd, trawiadol yw'r nifer

[1] J.B. Smith, 'Einion Offeiriad', B xx (1962–4), 347n1. Ni chafwyd hyd i'w achau yn P.C. Bartrum: WG1, a go brin y gellir ei gysylltu â Tomas ap Rhotbert Fychan o Brompton ger yr Ystog, *ib*. 'William of Elbeth' 2, rhif cenhedlaeth 10.

[2] Gw. R.G. Gruffydd, 'Dafydd Ddu o Hiraddug', LlCy xviii (1994–5), 208.

[3] GCBM i, 21.210–13.

[4] E.e. GCBM ii, cerddi 3, 6 a 8; GDB cerdd 19 (anh.).

helaeth o gynganeddion sain bengoll a chynganeddion braidd gyffwrdd yma.

1 **rhwyd pâr—gwersyllig** Gellid hefyd ddeall ‘rhwydwr gwaywffon amddiffynnol’, eto’n ddisgrifiad o Domas.

1–2 **gwersyllig … / … rhyfyg** Ar yr odl, gw. J. Morris-Jones: CD 247, lle esbonnir ‘Seinir *-yg* ddiacen yn *-ig* drwy Gymru oll er y ddeuddegfed ganrif …’.

3 **rhuthr aruthr** Cyfuniad cyffredin iawn yng nghanu’r Gogynfeirdd, cf. GCBM i, 24.50 *G6r oet ruthyr aruthyr ar y esgar*, *ib*. 24.95 *Ruthyr aruthyr eirthya6*, *ib*. 26.70; GDB 17.8 (Gwgon Brydydd), 29.17 (Dafydd Benfras).

**areithran** Gthg. H 350 *areithrau*. Dyma’r unig enghraifft o’r ffurf yn G 38 a chynigir yn betrus ei deall yn e. ‘?lleferydd, ymadrodd; testun’, o *araith* + *rhan*. (Ni restrir y ffurf yn GPC 191.) Cymerir bod i’r ffurf rym ansoddeiriol, yn ddisgrifiad o’r gelyn ‘swnllyd, baldorddus’. Mae’r amrywiad a geir yn llsgr. K, *anreithyaw*, yn cynnig ystyr haws.

4 **rheithon** Yn dra phetrus cymerir mai ffurf l. yr e. *rhaith* ydyw, er na chafwyd enghraifft arall ohoni. Am y terfyniad ll. *-on*, gw. *ib*. 2647 d.g. *-on*². Ymhellach ar *rhaith* ‘cyfraith, hawl’ neu ‘*the body of compurgators who support the oath of a principal*’, gw. WLW 64.

**rheithfawr** Llsgrau. F *reitha6r*, HK *rwythawr*. Ni chafwyd enghraifft bellach o’r ffurfiau hyn, ac er y gellid esbonio *reitha6r* yn gyfuniad o’r e. *rhaith* (gw. y nodyn blaenorol) a’r terfyniad gweithredydd *-awr* (GPC 242 d.g. *-awr*³) a’i ddeall i olygu ‘gŵr cyfraith’, credir mai gwell yw diwygio’r darlleniad yn *rheithfawr* a’i ddeall yn a. ‘helaeth ei gyfraith’. Am galediad *l-* > *ll-* yn dilyn *-r* yn y cyfuniad *rheithfawr llawr*, gw. Treigladau 27–8.

5 **cynnif diwatwar** Gellid hefyd ddarllen *cynnif ddiwatwar* a deall ‘un difai [ei] frwydro’, o gymryd *diwatwar*, a restrir fel a. ‘digabl, difai’ yn G 376, yn enwol am Domas.

7 **rhwysg tân â gwynnon** Defnyddia Cynddelw yntau’r ddelwedd o ryfelwr yn lledu dinistr yn ei lwybr fel y gwna tân wrth ledu drwy frigau crin (*gwynnon*), GCBM i, 24.146 *T6ryf taerdreul taerdan yn gwan gwynna6n*, *ib*. 16.45–6 ... *kyulafan goteith*, / *Gwyth g6ynnyeith wrth wynna6n*; cf. hefyd GLlF 5.31 *Vuelyar tan tr6y ysgyr* (Llywelyn Fardd I) ac *ib*. 18.22–3 *Yd lysc uy ghallonn yg cof meith* / *Mal yd lysc gwynna6n gan oteith* (Daniel ap Llosgwrn Mew). Ar amryfal ystyron *rhwysg*, gw. CT 27 (P Tal 30).

**fal twrf gwyniar—drud** Ar *gwyniar* ‘gwynt uchel, rhuthrwynt’, &c., gw. G 747, GPC 1776 a J. Lloyd-Jones, ‘The Compounds of **gar*’,

*Celtica*, iii (1956), 206 lle cyfieithir yr ymadrodd hwn '*like the roar of a violent hurricane*'. Dyma'r unig enghraifft a roddir o *gwyniar*. Am enghreifftiau pellach o gymharu trwst rhyfelwr â gwynt uchel, cf. GCBM i, 8.15–16 *Twrf marchogion ... / Mal twrf torredwynt am brys*, *ib*. 26.73 *Ruthyr torredwynt g6rt ...*

8 **molud clud** Dilynir GPC 509 yma o ran ystyr *clud* a'i ddeall yn golygu 'cyfoeth', &c., ond mae'n bosibl hefyd fod iddo weithiau'r ystyr 'clod', gw. G *l.c*. a hefyd P Tal 45, er na nodir y posibilrwydd hwnnw yn GPC.

9 **rhybuch** Cymerir mai e. ydyw yma yn golygu 'dymuniad, dyhead', &c., a'r ll. yn frawddeg enwol. Posibilrwydd arall fyddai ei ddeall yn ffurf 3 un.pres.myn. *rhybucho* 'dymuno' (gw. I. Williams, 'Hen Ddiarhebion', B iii (1926–7), 27), ac aralleirio 'Moli brenin sy'n dymuno fy narpariaeth [ar ei gyfer, h.y. fy marddoniaeth]'.

**'y narpar** Llsgr. F *ynarpar*. Derbynnir awgrym petrus G 42 a chymryd *yn* y llsgr. yn ffurf amrywiol ar y rhagenw blaen cyntaf unigol *fy* (Cym. Canol *vyn*, '*yn*), gw. *ib*. 502 a cf. GCBM i, 21.183 *Treithitor 'yg kert*, *'yg kein osson*. Posibilrwydd arall a led-awgrymir yn G 42 yw bod y copïydd wedi camgymryd *n* am *u* a hepgor y gytsain gyntaf; os felly gellid darllen *rhybuch cyfarpar* ('dyhead yw [fy] arfaeth').

11 **lletawd** Ffurf 3 un.dyf.myn., gydag ystyr ddyfodol o bosibl, y f. *lledu*, cf. GLlLl 23.197 *lletta6d dy uolyant*; GCBM ii, 17.56 *O arwein pecha6d*, *lletta6d lleduryd*. Ymhellach ar y ffurf, ac ar y calediad ym môn y f. yn sgil ychwanegu'r terfyniad -(*h*)*awd*, gw. GMW 119.

**baniar** Ystyr arferol yr e. yw 'bloedd, bonllef', &c., gw. G 51 a GPC 255 ac ymhellach J. Lloyd-Jones, *art.cit*. 204 lle nodir enghreifftiau pellach o'i ddefnydd yn yr ystyr ffigurol 'clod'.

11–12 Cystrawennir y ddwy l. hyn ynghyd, gan gymryd *Milwr coeth trawsddoeth* yn sangiad. Er mwyn cytseinedd â *dros ddaear* yngenir 'coeth drawsddoeth' yma, gyda'r gytsain fud *t* yn lleisio ar ôl *th*, gw. J. Morris-Jones: CD 208–9.

13 **Dunawd** Sef, yn ôl pob tebyg, Dunod ap Pabo, un o 'Dri Phost Cad Ynys Prydain', gw. TYP[2] 10 ac ymhellach G 396, CLlH 113–14, TYP[2] 334–5 a WCD 208. Fel y noda R. Bromwich, *l.c*., mae Gwilym Ddu o Arfon yn enwi Cywryd fel bardd i Ddunod (GGDT 7.43), sy'n awgrymu'n gryf iddo fod yn noddwr cynnar i farddoniaeth sydd bellach wedi ei cholli; ategir hynny gan y ll. hon.

**rhif toniar—feirdd** Dyma'r unig enghraifft a gafwyd o'r ddelwedd hon o feirdd yn llifo megis tonnau. Ar *toniar* yn golygu '*waves*, *surge of waves*, *rollers*, *breakers*', gw. J. Lloyd-Jones, *art.cit*. 207. Dylid nodi y

gallai *rhif* olygu 'parch', S. '*esteem*', yn ogystal, a gellid aralleirio 'parch beirdd [yn symud megis / a thrwst megis] tonnau'.

14 **tynnegl** Gair ansicr ei ystyr a'i darddiad. Ar slip yng nghasgliad Geiriadur Prifysgol Cymru mae J. Lloyd-Jones, gan ddilyn J. Glyn Davies yn THSC, 1912–13, 96n3, yn cynnig yn betrus ei ddehongli'n a. '*ensnaring*', yn fenthyciad o'r Llad. *tendicula*, ond nid yw'r ystyr hon yn addas yn yr enghreifftiau o waith y Gogynfeirdd. Ceir gan Einion ap Gwalchmai y ll. *Tynhegyl a gerteis-y*, *gortwfyr Dyui*, GMB 26.14, lle dehonglir y ffurf i olygu 'hydyn ei gam' (o *tyn*(*n*) + *hegl* 'coes', &c. (GPC 1838) er nas rhestrir felly yn G 773 dan *hegyl*). Ceir gan Hywel ab Owain Gwynedd y ll. *Gorewyna6c tonn tynhegyl ebrwyt*, GLlF 7.3; fe'i dehonglir yno fel e. 'llif, symud cadarn'. Deellir *tynnegl* a *heirdd* yma'n ansoddeiriau'n disgrifio *beirdd* yn y ll. flaenorol.

15 **tadog Gwent** D 'Tadog, & Tadol, *Paternus*'. Tybed ai cyfeiriad ydyw at Deyrnon Twrf Liant *arglwyd ar Wynt Ys Coet* (PKM 22 (llau. 1–2))? Ymhellach ar gysylltiad Teyrnon â Gwent, gw. PKM 145–7 a R.G. Gruffydd a B.F. Roberts, 'Rhiannon gyda Theyrnon yng Ngwent', LlCy xiii (1974–81), 289–91. Gw. ymhellach y nodyn canlynol.

**torment dermud** Gwelir yma galediad *-t d-* > *-t t-* er mwyn y cytseinedd, gw. J. Morris-Jones: CD 207–8. Ar *torment* yn golygu 'llu, byddin', a tharddeiriau ohono, gw. PKM 132 d.g. *tormynnawc*. Digwydd y cyfuniad *termud torment* gan Brydydd y Moch a diddorol nodi iddo yntau gyfeirio at Deyrnon ychydig linellau yn ddiweddarach, GLlLl 3.5, 7 *Termud torment*, *terrwyn deyrn … / Eryr Teyrnon yr yn deyrngein*. Cyfosodir *termud* a *Teyrnon* ymhellach *ib*. 4.23–4 *Ym o'm da6n y'm da6 kyfla6don / Am olud termud Teyrnon*. Fel y nodwyd uchod, cysylltir Teyrnon â Gwent, ac nid amhosibl mai ato ef y cyfeirir yma. (Cadarnheir ynganiad *termud*, er gwaethaf *termyd* llsgr. F, gan yr odl fewnol â *drud* yn GLlLl 11.16.)

17 **tud fenwyd, fynud …** Llsgr. F *Tud men6yd mynud*. Treiglir er mwyn yr ystyr, a dehongli'r cyfuniad *tud fenwyd* ar lun cystrawen 'hydref ddail', gyda *menwyd* yn enwol am Domas; er mwyn y cytseinedd treiglir *mynud* hefyd.

19 **tu oedd** Llsgr. F *tuoed*. Noder hefyd awgrym J. Lloyd-Jones, 'Tuedd "Tweed" ', B xiv (1950–2), 38 y gellid diwygio *tuoed* yn *tued* ('tuedd') yma, sef ffurf l. arferol yr e. *tu* (gw. yno am enghreifftiau pellach o *tuedd*).

20 **teirf** Sef ll. *tarf* a ddeellir yn e. yn golygu 'chwaliad'.

21 **adwyn** Dilynir G 9 sy'n ei ddeall yn a. 'tirion, gwych', er nad yw GPC 30 yn cydnabod y ffurf fel a. nac e.; gw. ymhellach GCBM ii, 9.93n. Am y calediad *l* > *ll* yn dilyn *-n*, gw. Treigladau 27–9. Posibiliadau pellach fyddai deall y be. *adwyn* 'dwyn, cipio ymaith' (GPC 30), neu

ffurf amrywiol ar *adwaen*, ffurf 1 un.pres.myn. *adnabod*. Credir bod y bardd yma yn gwrthgyferbynnu, yn y dull traddodiadol, y pennaeth tirion tuag at ei ddeiliaid â'r milwr chwyrn sy'n lladd ei elynion.

22 **adwen** Ffurf amrywiol ar *adwaen*, sef 1 un.pres.myn. y f. *adnabod*. Topos yn y canu mawl yw i'r bardd honni ei fod yn *adnabod* ei noddwr: cf. GCBM i, 14.42 *Ma6rurydic y'th adwaen* (am Owain ap Madog); GCBM ii, 9.74 *Gwr a 6nn-y a hwnn yw hynny* (am yr Arglwydd Rhys).

23 **Edif … amar** Llsgr. F *edif gynif gnan6d* (o bosibl *guan6d*) *llychu amar*, sy'n peri i'r ll. fod ddeusill yn rhy hir. Derbynnir felly'r diwygiad a gynigir yn G 438 (d.g. *edif*) a 539 (d.g. *gnif*). Gan na threiglir *gnif* yn dilyn yr a. *edif*, deellir *edif* yn enwol am Tomas a *gnif* yn enidol: 'rheibiwr [mewn] brwydr'.

**llychu** Ffurf anodd sy'n ymddangos fel be.; ond yr unig f. *llychu* a restrir yn GPC 2249 yw *llychaf*: *llychu* 'gwneud yn llwch … gorchuddio â llwch', &c., y ceir yr enghraifft gynharaf ohoni yn yr 17g. Tybed a welir yma'r un elfen ag a welir yn y f. *golychu*, *gollychu* 'moli, clodfori, … galw, ceisio, crefu, deisyf, erfyn' a 'dyhuddo, llonyddu', GPC 1454? Ond ni cheir enghreifftiau pellach o fôn y f. hon yn cael ei ddefnyddio heb ragddodiad yn GPC 2233–4, 2249. Yn betrus iawn felly y rhoddir i *llychu* yr ystyr 'dyhuddo, llonyddu' yma (cf. GLlLl 2.19 *G6ollycha dy uar*) gan gymryd bod *amar* yn wrthrych iddo yn yr ystyr 'niwed, clwyf'. (Mae'n werth hefyd ystyried y posibilrwydd fod a wnelom â ffurf amrywiol ar y f. *llochi*.)

**amar** Rhestrir *amar* yn G 23 d.g. *amhar* yn golygu 'amryfal, amrywiol', ond gan nodi y gall hefyd olygu 'dihafal' neu 'bywiog, ys[b]rydol, nwyfus'. Yn GPC 80, rhestrir *amar* fel bôn y f. *amharu* gyda'r ystyr 'anaf, niwed, clwyf; clwyfedig, amharus, adfeiliog; anffodus, niweidiol' (cf. GLlLl 23.31n, 30.10n), er na restrir yr enghraifft hon yno. Gw. hefyd isod ll. 26n.

24 **Edern** Sef, o bosibl, Edern ap Nudd, arwr a gysylltid ag Arthur yn 'Culhwch ac Olwen' a 'Breuddwyd Rhonabwy', gw. G 438, EWGT 185 ac WCD 223 am bosibiliadau pellach.

**pan lludd ei arwar** Derbynnir y darlleniad fel y saif yn y llsgr. (… *y arwar*), ond cofier hefyd am y cyfuniad *ymarwar Lludd* lle y golyga *ymarwar* 'hanes, cyfranc' neu'r cyffelyb, cf. BT 78.26 *ymarwar llud a llefelis*; GDB 7.3–4 *Handwyf hua6dyl was a wys yn llys / Ual Ymarwar Llut a Llevelys* (Llywelyn Fardd II), a gw. ymhellach B.F. Roberts, *Cyfranc Lludd a Llefelys* (Dublin, 1975), xix–xx.

25 **edyrn trin feddgyrn** Petrus iawn yw'r dehongliad yma. Deellir *edyrn*, a restrir fel a. yn unig yn G 442 a GPC 1169, yn enwol am Domas, a'r cyfuniad *edyrn trin* yn enidol o flaen *meddgyrn* ac yn peri treiglad meddal ar lun cystrawen 'hydref ddail'.

26 **trawd** Digwydd yn gyffredin yn yr ystyr 'taith' neu 'gyrch' yn enwedig 'cyrch rhyfel', cf. isod ll. 39 a *Dyt tra6d* 'dydd cyrch' yn GLlLl 10.60. Ymhellach ar y ffurf, gw. HG Cref 223 a GMB 9.90n.

**amar** Gthg. *amar* uchod ll. 23n. Derbynnir awgrym J. Lloyd-Jones, *art.cit*. 201, ynglŷn â'r enghraifft hon a'i deall fel a. '*noisy*, *neighing*' yn ddisgrifiadol o'r *meirch* (o'i darddu o'r Clt. **ambi-gar*). Fodd bynnag, o gymryd mai'r un gair sydd yma ag uchod ll. 23n, yn golygu 'anaf, niwed', &c., gellid aralleirio 'cyrch farchog meirch dinistr'.

27 **Emyrdd … llafar** Posibilrwydd arall fyddai dehongli *emyrdd* fel 'ym myrdd' (er gwaethaf G 475 a GPC 1211), deall *cyrdd* yn ll. *cordd* 'mintai', ac aralleirio, 'Ymysg myrdd minteioedd cerddorion/beirdd llafar'.

28 **ei safwy** Llsgr. F *y safwy*. Cf. CA 37 (ll. 920) *savwy cadavwy gwyned*. Mewn nodyn ar y ll. honno, mae I. Williams, *ib*. 291, yn cynnig (i) ei fod yn gyfystyr â *saffwy* 'gwaywffon'; (ii) ei fod yn a. 'sefydlog'; (iii) yn enw dyn. Awgryma ymhellach mai'r ystyr gyntaf a roddir i'r enghraifft dan sylw, a dilynir yr awgrym hwnnw yma. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai'r darlleniad gwreiddiol oedd *Y safwy*, gydag arwydd trwynoli uwchben yr *y*, ac y dylid darllen *yn safwy* yn golygu 'yn sefydlog' neu 'yn gadarn'. Am yr ystyr honno, gw. IGE[2] 107 (XXXVI. 13) *Macwy safwy sy hyfedr*, lle mae'r gynghanedd yn ategu'r ynganiad; sylwer hefyd fod A.O.H. Jarman yn dehongli'r enghraifft uchod o CA fel '*steadfast*' yn *Aneirin*: *Y Gododdin* (Llandysul, 1988), 49 (ll. 706).

30 **amorth cardd** 'Rhwystr[wr] gwarth'. Cyffredin yn y farddoniaeth fawl gynnar yw'r syniad fod arglwydd yn un sy'n gwrthod gwarth neu sarhad, cf. CA 23 (llau. 561–2) *Nyt ef borthi gwarth*; GBF 46.41 *Dewrddreic Deheubarth*, *warth wrthotyat*; GCBM ii, 6.80 *Cart 6rthryn y 6rth Aberfra6* (am Hywel ab Owain Gwynedd).

**nid cerddor niw câr** Am yr un syniad, cf. GCBM i, 12.1–2 *Ioruerth aer gannerth … / Nyd kerta6r nyw molwy*. Defnyddir y f. *caru* yma bron yn gyfystyr â *canmol*, cf. ystyron y f. *hoffi*, GPC 1886.

33 **Elgar** Cyfeiriad at gymeriad anhysbys (ond gw. G 468) a nodweddid gan ei gadernid wrth ymladd.

34 **cynnail** Llsgr. F *kyueil*; dilynir G 255 a chymryd mai bai ydyw am *kyneil* 'cynneil', ac ategir hynny gan y cymeriad *cyn-* a gynhelir yn llau. 33–7.

35 **rhwy** Fe'i deellir yma'n ffurf amrywiol ar *rhwyf* 'pennaeth', cf. GBF 5.30 *Ny'm gorchwy rwy trugar* (y Prydydd Bychan).

36 **Gwair** Sef Gwair fab Gwestl, yn ôl G 649, ond fel y noda R. Bromwich, TYP[2] 377 (d.g. *Gweir*[1]), nid oes sicrwydd at bwy y mae'r beirdd yn cyfeirio ym mhob achos. Gw. hefyd WCD 301. Fodd bynnag,

gellid nodi bod sawl cyfeiriad yn y farddoniaeth at ddicter a llid Gwair, e.e. GCBM i, 20.19 *angert Weir*; R 1207.2 *llit g6eir* (Gruffudd ap Maredudd), *ib.* 1327.40 *gweir o angerd* (eto).

**cyniwair Cuniar** Derbynnir awgrym Lloyd-Jones yn G 187 ac *art.cit.* 209 i ddeall *Cuniar* yma'n e.p.; ond gthg. yr ystyr '*as pervasive as C.*' a roddir gan Lloyd-Jones yno. Ymhellach ar yr e., gw. GLlLl 23.16n.

37 **afar** Llsgr. F *anar*. Derbynnir awgrym petrus G 26 ynglŷn â'r diwygiad yn *auar* 'afar', gan na chafwyd yr un enghraifft arall o *anar*; ond noder bod y gynghanedd yn gryf o blaid derbyn *anar*. Cymerir mai moli creulondeb Tomas a wneir, hynny yw ei fod yn creu tristwch difesur i'w elyn drwy ei ymladd, cf. TA 268 (LXVI.105) *Rhyfel a fag rhyw afar*.

39 **trawd** Gw. uchod ll. 26n.

40 **ufeliar** Gw. trafodaeth J. Lloyd-Jones yn *art.cit.* 207–9 lle rhoddir iddo'r ystyron '*sparks*, *sparkling*, *flashing*; *bonfire*, *conflagration* (*oft. fig.*)'.

41 **glew fal rhew** Cymhariaeth ryfedd braidd, ond cf. y disgrifiad o Ririd Flaidd gan Gynddelw fel *Ma6s*, *massarn cadarn*, *callon yaen*, GCBM i, 24.115, sydd o bosibl yn adlais o CLlH 33 (XI.3a) *Kynndylan*, *callon iäen gaeaf*.

43 **a'i glod gwnair a'i air** Llsgr. F *ae glod gueir ac eir* (neu *ae eir*). Awgrymwyd yn betrus yn G 649 fod yma gyfeiriad pellach at Gwair, *a'i glod Gwair*, ond anodd felly yw cystrawennu'r ymadrodd. (Ar *Gwair*, gw. uchod ll. 36n.) Yn hytrach diwygir y ffurf yn *gwnair* (gellid tybio *guneir* neu *guueir* yn y gynsail), ac am y cyfuniad *gwneud clod*, cf. GDB 13.5 *Ryg6neuth6m ytt glot glut*, *rwyf ga6r—ygwrys* (Phylip Brydydd). Gellid deall *ac eir*, os dyna'r darlleniad cywir, yn ffrwyth camraniad (*a gair*) ond gwell o ran yr ystyr a'r gynghanedd yw darllen *a'i air*.

**A'i glod … i ar—y Tri Hael** Sef Nudd, Mordaf a Rhydderch Hael; arnynt, gw. TYP$^2$ 5–6 *et passim*. Cf. disgrifiad Casnodyn o Ieuan Llwyd, R 1247.9 *ar glot y tri glut y tric*.

47 **Casnar** Dilynir G 115 a'i ddeall yn e.p. Gellir ei uniaethu hwyrach â Chasnar Wledig, un o gyndeidiau tywysogion Powys, a gŵr a nodweddir gan ei lid, gw. GCBM i, 12.24n lle rhoddir cyfeiriadau pellach ato. Sylwer mai fel eg. neu a. ('llid, gofid, poen; llidiog, milain' neu 'arwr, arglwydd', weithiau fel e.p.) y diffinnir *casnar* yn GPC 437.

## *9*
## *Moliant Rhys ap Gruffudd*

Cadarn wyd, ysgwyd esgudfrys—brwydrdwrdd,
Gwalch ymwrdd gweilch emys,
Carw mawrdrafn, rhuddlafn rhwyddlys,
Cadr helmfriw, cain rhoddwiw Rhys.

Clo clodrwydd (beirddlwydd bwrddlys—yw'r durfing)
Dirfawr Brydain Ynys,
Cardd waywgrwydr trawsfrwydr treisfrys,
Cudd tarian rhudd tirion Rhys.

Gwnaethost, aerfrys Rys res gynrain,—gwawdlwydd,
A gwaedlafn ym Mhrydain,
O'th ysgwyd rod, glod gloywgain,
Â'th fraich, laith Brynaich, lith brain.

Cadarn Rys cadfrys, cedfryd—frwydr dreistrafn,
Gwiw eurllafn gwyarllyd,
Carw rhuddlym, cadrwayw grym gryd,
Corf, llew gwendorf llyw Gwyndyd.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14869, 231[v]  B—BL Add 31055, 164[r]  C—LlGC 6680B, 125[v]
D—Llst 31, 461  E—Pen 119, 489

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.

## *Moliant Rhys ap Gruffudd*

Cadarn wyt, tarian ddeheuig a pharod [mewn] cythrwfl ymladd,
Arwr [mewn] ymdaro milwyr gwych [ar] feirch,
Arwr trigfan helaeth, un gwaedlyd ei lafn [y] llys haelionus,
Gŵr cadarn â helm friwedig, gŵr hardd [y] rhodd ragorol yw Rhys.

Campwr helaeth ei glod (hybwr beirdd [yn] llys y byrddau yw'r [un] didostur)
Ynys Prydain ddirfawr,
[Un a] gwib ei waywffon [yn achosi] gwaradwydd [mewn] brwydr gadarn yw['r un] parod ei orthrech,
Cuddiedig yw tarian waedlyd Rhys tirion.

Peraist, Rys [sy'n] gythrwfl brwydr [ymysg] milwyr blaen [llawn] angerdd, llwyddiannus dy fawl,
A llafn waedlyd ym Mhrydain,
Yn rhinwedd dy darian gron [daw] clod disgleirwych,
Â'th fraich [di], dinistr gwŷr Brynaich, [peraist] ymborth brain.

Rhys cadarn [sy'n] ffrwst mewn byddin, arglwydd treisgar mewn brwydr [a'i] fryd [ar roddi] rhodd,
Llafn ysblennydd gwych [a] gwaedlyd,
Arwr gwaedlyd a llym, gwaywffon hardd yng ngrym brwydr,
Cynheiliad, arwr mintai fendigaid yw pennaeth gwŷr Gwynedd.

## *Nodiadau*

Cyfres o bedwar englyn unodl union sydd yma ac anodd yw barnu a ydyw'r gyfres yn gyflawn ai peidio. Cenir y ddau englyn cyntaf ar yr odl *-ys*, gan gynnal y cymeriad *c-* yn llinell gyntaf y paladr ac yn yr esgyll a chan enwi *Rhys* yn safle'r brifodl yn llinell olaf y ddau englyn. Mae'r odl a'r cymeriad yn newid yn y trydydd englyn, ond ceir elfen o barhad wrth enwi Rhys eto yn llinell gyntaf yr englyn. Enwir Rhys drachefn yn llinell gyntaf y pedwerydd englyn ac mae gair cyntaf yr englyn, *Cadarn*, yn cysylltu'r englyn olaf â'r englyn cyntaf. Y gynghanedd sain a geir yn llinellau 1, 3 a 4 yr holl englynion, a chysylltir y gair cyrch a'r ail linell â chytseinedd (llau. 5–6, 9–10) neu ag odl (llau. 1–2, 13–14), gan lunio cynghanedd sain gyflawn â'r ail linell.

Yn nhestunau'r Llyfr Coch a Llst 3 o Ramadegau'r Penceirddiaid, ceir yr englyn canlynol:

Llawnwys lys yw Rys, Ros geniret—kad,
Kedernit Edelfled,
Lliw diuei, llywyadyr Dyuet,
Llew llafn gyniweir, kreir kred.[1]

Awgrymodd Ifor Williams mai Rhys ap Gruffudd oedd gwrthrych yr englyn hwn.[2] Fel y trydydd a'r pedwerydd englyn yn y gyfres uchod, enwir Rhys yn y llinell gyntaf, ac efallai fod yr englyn yn rhan o'r gyfres yn wreiddiol.

Yr oedd Rhys ap Gruffudd (*ob.* 1356) yn ŵr tiriog a phwerus iawn, a daliodd nifer o swyddi allweddol dan y Goron yn ne Cymru yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Bu'n was ffyddlon i Edward II a chafodd ei wobrwyo'n hael am hynny.[3] Yr unig gyfeiriad penodol yn y gerdd hon yw'r disgrifiad ohono fel *llyw Gwyndyd* (ll. 16) sy'n adlewyrchu'r ffaith fod ei awdurdod yn ymestyn hyd at Wynedd,[4] a'i fod yn disgyn o linach Ednyfed Fychan yng Ngwynedd. Canodd Einion Offeiriad awdl foliant orchestol iddo ac ynddi fe'i gelwir yn *Gwynedh orfoledh* ac yn

Gwledfawr gwawr eurglawr argledr Gwyned
Gwladlwydh glaif hylwydh hil teyrnedh
Gwledych Rys glyw brys browysedh—Brython
Gwlad fon ag Arfon arfoll wynedh.[5]

1 Dyfynnir o fersiwn Llst 3 fel y'i cofnodir yn GP 26; ceir yr amrywiadau canlynol yn nhestun Llyfr Coch Hergest (GP 7), ll. 1 *Llawnlwys*, ll. 2 *Edelffet*, ll. 3 *llywyawdyr*, ll. 4 [*Llew*].

2 Gw. I. Williams, 'Dosbarth Einion Offeiriad', Beirn v (1915), 130.

3 Am grynodeb o'i yrfa, gw. R.A. Griffiths: PW i, 99–102 *et passim* a R.R. Davies: CCC 415–17 *et passim*. Canodd Iolo Goch farwnad iddo, gw. GIG 33–5 (cerdd VII).

4 Fe'i gwnaethpwyd, e.e., yn fforestydd Eryri yn 1320, gw. R.A. Griffiths: PW i, 99.

5 Gw. I. Williams, 'Awdl i Rys ap Gruffudd gan Einion Offeiriad', Cy xxvi (1916), 135 (llau. 45, 41–4).

Lleisir yn y gerdd fer hon nifer o themâu ac ymadroddion sy'n ei chysylltu'n benodol â barddoniaeth y cyfnod blaenorol a sylwir ar y rhain yn y nodiadau isod. Molir Rhys am y rhinweddau traddodiadol—ffyrnigrwydd ei filwriaeth ar faes y gad, a'i haelioni a'i wareidd-dra yn y llys:

> Cardd waywgrwydr trawsfrwydr treisfrys,
> Cudd tarian rhudd tirion Rhys (llau. 7–8).

1 **ysgwyd esgudfrys** Cyfosodir y ddwy elfen *ysgwyd* ac *esgud* yn gyffredin yng nghanu'r Gogynfeirdd, cf. GLlF 16.9 *Piau yr ysgwyt esgutwal* (Llywarch Llaety); GMB 25.5 (Elidir Sais); GCBM i, 7.24.

3 **carw** Ar ddefnydd ffigurol *carw* am 'arwr', &c., gw. GSRh 10.38n a cf. *ib*. 9.34.

**mawrdrafn** Deellir *trafn* yma i olygu 'trigfan'; ar y ffurf, gw. uchod 4.62n a gthg. isod ll. 13 *treistrafn* 'arglwydd treisgar'.

5 **durfing** Llsgr. C *durwuyg* (lle ceir *wu* = 'f'); gthg. H 323 *durwunyg*. Diffinnir y ffurf yn a. yn G 397 a GPC 1100, eithr fe'i dehonglir yn enwol yma.

9–12 Cymerir mai'r brif frawddeg yn yr englyn hwn yw *Gwnaethost ... lith brain*.

11 **o'th ysgwyd** Dylid o bosibl ddiwygio'n *â'th ysgwyd*, er mwyn adlewyrchu'r gystrawen a geir yn ll. 12.

12 **llaith Brynaich, lith brain** Cyffredin yn y canu milwrol yw disgrifio cyflafan yr arwr fel bwyd i anifeiliaid rheibus, ac mae'r cyfuniad *llith brain* ei hun yn digwydd droeon, cf. GLlLl 17.27 *Lleith breisgwyr*, *llith brain a chnud*, *ib*. 23.37 *Myrt bu llat*, *llith brein gortyar*; gw. ymhellach T.J. Morgan, 'Dadansoddi'r Gogynfeirdd (2)', B xiv (1950–2), 1–8.

14 **eurllafn** Defnyddir y gair gan Einion Offeiriad hefyd wrth ddisgrifio Rhys, 'Awdl i Rys ap Gruffudd gan Einion Offeiriad', Cy xxvi (1916), 134, *Llawn eurllafn drafn ...*

16 **Corf, llew gwendorf ... Gwyndyd** Cf. GSRh 6.94 *Cynllug durgorf*, *ceinllyw gwendorf*, *canllaw Gwyndyd* (Rhisierdyn) ac am enghraifft bellach o gyfosod *gwendorf* a *Gwyndyd*, gw. GLlLl 11.20.

**llyw Gwyndyd** Gw. y nodyn cefndir uchod.

## *10*
## *Moliant tri mab*

Tri maib taer yn aer, yn erfai—cymynynt
Mal cymynodd Walchmai;
Tri broder cain arfer Cai,
4 Tri gwyndod, trowyr gwindai.

*Ffynhonnell*

LlGC 6680B, $2^{v}$

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. tt. 213–14.

### *Moliant tri mab*

Tri o feibion dygn mewn brwydr, yn rhagorol y torrent [eu gelynion] i lawr
Fel y torrodd Gwalchmai [ei elynion] i lawr;
Tri brawd [a chanddynt] wych ddefod Cai,
4 Tri [gwrthrych] dedwyddyd, rhai sy’n ymdroi mewn gwindai.

## *Nodiadau*

Ychwanegwyd yr englyn hwn ar ymyl y ddalen ac nid oes modd gwybod ai englyn unigol ydyw i fod neu ynteu a oedd yn wreiddiol yn rhan o gyfres hwy. Ceir cymeriad geiriol yn cysylltu llinellau 1, 3 a 4, a cheir cynghanedd sain yn llinellau 1 a 3 (y naill yn bengoll a'r llall yn gadwynog) a chynghanedd groes yn llinell 4 gyda dwy *r* yn ateb un.[1]

Ni wyddys dim am y tri mab a folir yma, ond mae'n bosibl mai gwŷr o Wynedd oeddynt (gw. ll. 4n isod). Anodd hefyd yw dyfalu i ba fath o ganu y perthyn yr englyn: ai canu ffurfiol traddodiadol neu ynteu canu cler-wraidd. Gellid nodi bod cymharu milwriaeth ag eiddo rhyw arwr glew o'r gorffennol yn dopos yn y canu mawl traddodiadol. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriad yn y llinell olaf at y tri gŵr fel rhai sy'n mynychu *gwindai* yn awgrymu nad yw'r bardd yn eu moli fel uchelwyr sydd eu hunain yn cynnal tai gwin (gthg. y ddau ddyfyniad yn ll. 4n isod), ond fel rhai sy'n derbyn gwin. Y tebyg yw, felly, fod yr englyn yn perthyn i ddosbarth o ganu llai ffurfiol ei gynnwys, er nad ydyw'n llai ffurfiol ei arddull a'i fynegiant.

2 **cymynodd Walchmai** Llsgr. *kymina6d 6alchmei*, y gellid ei ddehongli fel yr e. lle Cyminod yn Nhrefaldwyn a oedd yn safle i frwydrau cynnar y cyfeirir atynt yn Llyfr Du Caerfyrddin a chan Gynddelw Brydydd Mawr, cf. GCBM i, 21.133 *Am gylch Kymina6d kymynei—Saeson* (gw. *ib*.n). Ond anodd gweld ystyr dderbyniol i 'Cyminod Walchmai' yma, felly cymerir mai ffurf 3 un.grff.myn. y f. *cymynu* ydyw, a'r geiryn *y* wedi ei hepgor yn dilyn y cys. *mal* er mwyn gofynion y mydr. Fodd bynnag, nodir yn Treigladau 219 mai cysefin y goddrych sydd i'w ddisgwyl yn dilyn bf. yn terfynu ag *-odd*, a chyfeirir at yr enghraifft *y ford a gerdawd ereint* ('Geraint fab Erbin'), fel gwall copïo tebygol. Er y byddai cymryd *Gwalchmai* yma yn wrthrych yn bosibl, llawer haws o ran ystyr yw cymryd bod y bardd yn cymharu gwychder ymladd y tri mab dan sylw â'r modd yr ymladdai Gwalchmai.

**Gwalchmai** Sef Gwalchmai ap Gwyar, yn ôl pob tebyg, un o brif filwyr y brenin Arthur a gofir yn aml yn y farddoniaeth am ffyrnigrwydd ei ymladd; gw. TYP[2] 369–75 am drafodaeth bellach a chyfeiriadau ato yn y farddoniaeth.

3 **Cai** Sef Cai fab Cynyr Ceinfarfog, un arall o filwyr blaengar Arthur yn ôl y testunau cynnar, gw. *ib*. 303–7.

4 **gwyndod** Llsgr. *gwenda6d*. Cymerir bod yr *e* yn y llsgr. yn cynrychioli *y*-dywyll (cf. o bosibl *broder* y ll. flaenorol, er bod GPC 311 yn rhestru hwnnw fel ffurf l. reolaidd *brawd*). Posibilrwydd arall yw fod *gwyndod*

[1] Gw. J. Morris-Jones: CD 221.

yma yn golygu 'gŵr o Wynedd', gw. G 746 d.g. *gwyndawt* (lle esbonnir ef yn adffurfiad o *Gwyndodydd* 'pobl Gwynedd').

**trowyr gwindai** Cymerir mai cyfeiriad at y tri brawd fel gwŷr sy'n ymdroi mewn tai gwin (sef tafarnau) sydd yma. Cafwyd enghreifftiau pellach o *gwindai* yn GDG$^3$ 31 (12.1–2) *Llyfr dwned Dyfed dyfyn—ar windai / I randir Llywelyn*; GHD 2.56 *Gwyn wyd i'r beirdd*, *gwindai'r byd*. Posibilrwydd arall yw mai *triwyr* neu *trywyr* oedd y darlleniad gwreiddiol: 'tri gŵr [sy'n feddiannol ar] windai'.

## *11*

## *I Fair*

O arffed myged mygr fawrgrair—y daw
A dywyn pob cyfair,
Gwir ddigabl barabl burair,
Gwargain haul firain, hael Fair.

Mab (nawdd arnaf!) Naf nef trefred—eurglawr,
Duw Arglwydd gogoned,
Mygrfam ddinam eidduned,
Mair, gwâr hael grair, gwir haul Gred.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14869, 231$^{v}$ B—BL Add 31055, 164$^{r}$ C—LlGC 6680B, 125$^{v}$
D—Llst 31, 460 Pen 119, 489

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.

### *I Fair*

O fynwes urddasol anwylyd drud [a] gogoneddus y daw
Y sawl sy’n goleuo pob ardal,
Gair sanctaidd [sy’n] ymadrodd union [a] di-fai,
[Un] addfwyn a gwych [megis] haul ysblennydd, Mair urddasol.

[Sef] Mab (boed imi nawdd!) Arglwydd nefoedd [y] trigfan gwych ei lawr,
Duw [sy’n] Arglwydd gogoniant,
Mam ogoneddus ddi-nam [ei] deisyfiad,
Mair, anwylyd addfwyn [a] haelfrydig, gwir haul Byd Cred.

## *Nodiadau*

Yn y ddau englyn hyn molir Mair fel ffynhonnell goleuni i'r byd, oherwydd ei harddwch a'i haelioni, a chan iddi roi genedigaeth i Grist *a dywyn pob cyfair* (ll. 2). O ran eu thema gellid eu cymharu â chyfres o chwe englyn yn Llyfr Coch Talgarth (copïwyd *c*. 1400) yn dechrau â'r llinell *Meckyt Meir mab yn y bru*, er nad yw'r bardd yn mynd rhagddo yma i fyfyrio ar wyrth cenhedlu Crist fel y gwnaeth awdur yr englynion hynny. Telynegol yw'r gerdd, a gellir ei dosbarthu gyda'r 'mystic celebration poetry' y soniodd Jenny Rowland amdano, yn hytrach na barddoniaeth grefyddol ddidactig fel y cyfryw.[1]

Dau englyn unodl union sydd yma a defnyddir cymeriad llythrennol i gysylltu'r llinellau. Y gynghanedd sain a geir ym mhob llinell, gyda'r gyfatebiaeth gytseiniol yn arbennig o gryf yn llinellau 4 ac 8 yn creu llinellau clo effeithiol i'r englynion. Cysylltir y gair cyrch a'r ail linell yn y ddau achos â chytseinedd.

1 **arffed myged** Ymddengys *arffed* yma'n eg., cf. G 99, er mai fel eb. yn unig y'i diffinnir yn GPC 196. Fodd bynnag, gan fod *myged* yn cael ei ddosbarthu fel e. yn ogystal ag fel a., GPC 2530, gellid cymryd mai dau e. sydd yma ac aralleirio, 'O fynwes [lawn] anrhydedd … '.

2 **tywyn** Fe'i deellir yma'n ffurf 3 un.pres.myn. y f. *tywynnu*, yn f. anghyflawn 'peri disgleirio', &c.

5 **nawdd arnaf** Gw. GPC 2556 lle rhoddir enghreifftiau o'r cyfuniad *nawdd Duw ar* yn golygu '*God's protection ... God's mercy*'. Fe'i deellir yn sangiad yma.

**nef trefred** Ceir yr un cyfuniad yn GMB 3.172 (Meilyr Brydydd).

**eurglawr** Digwydd hefyd uchod 4.107.

8 **gwir haul Gred** Eb. oedd *haul* yn y cyfnod hwn, a threiglir yr e.p. *Cred* yma'n feddal ar ei ôl, gw. Treigladau 101. Mae'r gystrawen yn yr englyn olaf hwn yn amwys, o bosibl yn fwriadol felly, fel nad ydys yn sicr ai at Grist neu at Fair y cyfeirir. Gellid rhoi coma ar ôl *Mygrfam* yn ll. 7 a chymryd hyd at *hael grair* yn sangiad i'w disgrifio, ac yna *gwir haul Gred* yn enidol: 'Mam ogoneddus ([yr un] ddi-nam [ei] deisyfiad, / Mair, anwylyd addfwyn [a] haelfrydig) gwir haul Byd Cred'. Cf. Bl BGCC 117 (llau. 2–4) *Meckyt Meir mab yn y chnes*, */ Mat ganet y'r a'e gweles*: */ Llwybyr huan*, *llydan y drachwres*. Ond gan mai fel grym

[1] Gw. EWSP 288 ac am olygiad o'r gerdd *Meckyt Meir* ..., gw. Bl BGCC 113–20.

benywaidd yr ystyrid yr haul yn y Gymraeg yn yr Oesoedd Canol, mae’n bosibl mai cyfeirio at Fair ei hun a wneir eto yma, fel yn ll. 4.

## *12*

## *Prydferthwch Gweirfyl a Gwenllïan*

Nid gloywach caen dyfrflaen dôl,
Natur hoed, melyn [ ]al,
Na goroen eiry neu gwrel,
No gwirf[ ] main no Gweirfyl.

Nid gloywach caen taerflaen ton,
Nac ysgwd ll[ ]ur ffrwd llyn,
Na lloer loyw, na lliw eiry len,
[Na] lleuad no Gwenllïan.

*Ffynhonnell*
LlGC 6680B, 73$^{v}$

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. tt. 213–14.

*Darlleniadau'r llawysgrif*
Defnyddir teip italig i ddynodi darlleniadau ansicr. Rhoddir dot mewn bachau petryal am bob llythyren annarllenadwy a bylchau gwag am nifer ansicr o lythrennau amhosibl eu darllen. Argreffir testun diplomatig ar ôl y nodiadau isod.

2 […] *m*al. 3 nac or*oe*n (*neu* nac arien). 4 gwirv[..]main

*Prydferthwch Gweirfyl a Gwenllïan*

Nid yw gorchudd blaenllif dwfr [y] ddôl,
Pwl [o] dristwch, melyn …,
Nac [ychwaith] brydferthwch eira neu gwrel,
Na … main yn loywach na Gweirfyl.

Nid yw gorchudd brig byrlymus ton,
Na gwthiad … ffrwd [yn llifo o] lyn,
Na lloer ddisglair, na lliw haenen [o] eira,
Na['r] lleuad yn loywach na Gwenllïan.

## *Nodiadau*

Nid oes modd gwybod ai canu i wragedd go iawn neu i ferched dychmygol a wna'r bardd yma, ond gellid nodi bod Hywel ab Owain Gwynedd yntau yn rhestru merched o'r enw Gweirfyl a Gwenllïan fel cariadon iddo,[1] a digwydd y ddau enw hefyd mewn cywydd 'pos' a briodolir i Ddafydd ap Gwilym sy'n rhestru nifer o enwau merched.[2] Dichon nad yr un yw Gwenllïan â gwraig Syr Gruffudd Llwyd y canodd Casnodyn awdl fawl iddi a gedwir yn Llawysgrif Hendregadredd; yr oedd hi'n gyfnither i Ellylw, mam Ieuan Llwyd.[3] Yn yr achau rhestrir yn ogystal dair merch o'r enw Gwenllïan yn ferched i Ieuan Llwyd.[4] Trawiadol yw'r ffaith mai i Weirfyl a Gwenllïant y canwyd dwy awdl serch Iorwerth Fychan—tybed ai hwy a roddodd y cywair i'r ddau englyn hyn?[5]

Dau englyn proest sydd yma, ill dau yn dechrau â'r geiriau *Nid gloywach* ac yn cynnal y cymeriad *n-* drwodd. Maentumir yn y ddau englyn ragoriaeth pryd a gwedd y ddwy ferch ar hardd bethau natur, gan eu cloi drwy enwi'r ddwy. Mae'n dra thebygol mai dryll o gerdd hwy yw'r ddau englyn hyn a thebyg o ran strwythur iddynt yw'r englyn a ddyfynnir yng Ngramadegau'r Penceirddiaid fel enghraifft o englyn lleddfbroest gadwynog:

Na'r heul yn hwyl awyrneit,
Na'r lloer nyt gwell y lliwyt,
Yn llathyrwiw wed, yn llathreit,
Yn llathru no Lleucu Llwyt.[6]

Unwaith eto mynegir rhagoriaeth y ferch ar yr haul a'r lloer, gan ei henwi yn y llinell olaf.

2 Llsgr. *nattur hoyt melyn ... mal*. Dichon mai'r gynghanedd sain sydd yma, ond dylid nodi bod cytsain gyntaf *mal* yn ansicr. Byddai *natur hoen* o bosibl yn rhoi gwell ystyr na *natur hoed*.

4 Llsgr. *no gwirv ... main no gweir6yl* (gyda'r *in* yn *main* yn ansicr). Mae'r cys. *no* yma ar ddechrau'r ll. yn hytrach na *na* yn awgrymu mai gwrthrych i'r gymhariaeth a geir yma hefyd ac felly o bosibl enw merch arall. Fodd bynnag, ni chafwyd hyd i enw'n dechrau â'r llythrennau

1 Gw. GLlF 6.52, 55 (Hywel ab Owain Gwynedd).
2 Gw. nodyn cefndir cerdd 15 isod.
3 H 331–2 a gw. D. Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LlGC xxii (1981–2), 11.
4 Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Cydifor ap Gwaithfoed' 2.
5 Gw. GBF cerddi 29, 30.
6 Gw. GP 8 (fersiwn Llyfr Coch Hergest); cf. *ib*. 27 (fersiwn Llst 3) a 48 (fersiwn Pen 20).

*Gwirf-* yn achau P.C. Bartrum ac os a. yw *main*, disgwylid i hwnnw dreiglo'n feddal ar ôl enw merch.

6 Llsgr. *nac yssg6t ll..ur* [neu *ll..ar*] *fr6t llyn*. Tybed a ddylid darllen *Nac ysgwd llafar ffrwd llyn* 'Na gwthiad llafar ffrwd [yn llifo o] lyn'? Rhoddai hynny gynghanedd sain gadwynog arferol. Ar *ysgwd* 'gwth, ergyd', gw. GDG[3] 606.

# *Atodiad*

LlGC 6680B, $73^{\mathrm{v}}$
Codwyd y testun o D. Huws, ‘Llawysgrif Hendregadredd’, Cylchg LlGC xxii (1981–2), 24–5; esbonnir yno, ‘Italeiddir darlleniadau ansicr. Cedwir orgraff y gwreiddiol … Safonir gwahanu’r geiriau a’r llinellu.’

nyt gloyỽach kaen dyvyr vlaen dol
nattur hoyt melyn … *m*al
nac or*oe*n eiry neỽ gỽrel
no gwirv .. ma*in* no gweirỽyl

nyt glo[y]wach kaen taer vlaen ton
nac yssgỽt ll..*u*r fr*ỽ*t llyn
na lloer loyỽ na lliỽ eiry len
.. lleuat no gỽenllian

## *13*

## *I Fefeddus*

Mefeddus mau ufyddoed,
Dy fardd wyf, mawl hynwyf hoed;
Mi a’th welais, maith wiwlun,
Indeg o fodd, yn deg fun;
Aethost, fun, falchddoeth goethwawr,
Yn wrach gyda’r cleirach clawr.

*Ffynhonnell*
LlGC 6680B, 109$^{r}$

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.

### *I Fefeddus*

Mefeddus yw fy mhwyntmant gwylaidd,
Dy fardd wyf, [â] mawl hoenus [o] hiraeth;
Mi a’th welais, [di’r] ffurf dra gosgeiddig,
[Megis] Indeg o ran pryd, yn fun deg;
Aethost, ferch, arglwyddes gwrtais hardd a doeth,
Yn wrach gyda’r hen ŵr cramennog.

## *Nodiadau*

Ni wyddys pwy yw'r Fefeddus a enwir yn y gerdd hon. Nid owdd yn enw cyffredin iawn yn y cyfnod hwn, yn ôl tystiolaeth yr achau, ond o'r chwe Mefeddus a restrir yn P.C. Bartrum: WG1 yn y cyfnod 1215–1350, ceir dwy a chanddynt gysylltiad â theulu Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffudd Foel. Y naill yw Mefeddus ferch Gruffudd Wyddel a oedd yn gefnder i Ieuan Llwyd;[1] a'r llall yw Mefeddus ferch Maredudd Gam a briododd Drahaearn Llwyd ap Dafydd ap Gruffudd Foel, o Landdewibrefi.[2]

Hyd y gellir barnu mae'r cywydd byr hwn yn gyflawn, a sonnir yma am ddarfodedigrwydd harddwch merch, thema a leisir droeon gan Ddafydd ap Gwilym. Dyma yw thema 'Morfudd yn Hen', sef effaith ddinistriol treigl amser ar bryd a gwedd merch hardd.[3] Ond er bod Morfudd bellach wedi troi'n ddiolwg, *Henllath mangnel Wyddeleg*, / *Hafod oer* ... (GDG$^3$ 369 (139.45–6)), mae Dafydd yn dal i gael ei ddenu ganddi: *Heno ni chaf*, *glaf glwyfaw*, / *Huno drem oni fwyf draw* (*ib*. 369 (139.39–40)). Felly yntau, bardd Mefeddus, *dy fardd wyf*, medd wrthi, ac awgrymir yn y gerdd iddo ganu iddi pan oedd yn ieuanc a'i bod hithau yn dal yn barod i gyfarfod ag ef er ei bod bellach yn hen. Atgoffeir ni hefyd o'r cywydd 'Llychwino pryd y ferch' (GDG$^3$ cerdd 81), lle mae Dafydd yn beio *anadl Eiddig* am y dirywiad ym mhryd a gwedd y ferch. Yma mae Mefeddus hithau wedi troi yn *wrach* yng nghwmni'r hen ŵr gwahanglwyfus neu gramennog (ll. 6).

Cywydd rheolaidd a geir yma. O ran ei gynganeddiad, ceir tair llinell o gynghanedd groes, dwy o gynghanedd sain ac un o gynghanedd lusg. Rhed y gystrawen a'r ystyr fesul cwpled a gwelir yma'r arddull sangiadol rwydd sydd mor nodweddiadol o ganu Dafydd.

1 **ufyddoed** Cyfuniad o *ufydd* + *oed*. Ar *ufydd* 'gwylaidd', gw. PKM 112–13.

2 **dy fardd wyf** Cf. Dafydd ap Gwilym wrth y don ar Afon Dyfi, *Dy fardd wyf*, *uwch dwfr ydd wyd*, GDG$^3$ 194 (71.8).

4 **Indeg** Sef Indeg ferch Arwy Hir; crybwyllir ei henw droeon yng ngwaith Dafydd ap Gwilym fel safon prydferthwch, gw. *ib*. 456, 590.

6 **cleirach clawr** Ar *cleirach* 'henwr, henwr musgrell', gw. GPC 496; ceir enghraifft o'r ffurf amrywiol *cleirch*, isod 19.44 ac yn GDG$^3$ 168 (63.46). Dehonglir *clawr* yn ffurf amrywiol ar *clafr* 'gwahanglwyf', 'dyn gwahanglwyfus' neu a. 'gwahanglwyfus, cramennog', gw. GPC 488 d.g. *clafr*, *clawr*; y tebyg yw mai ystyr 'cramennog' sydd iddo yma, a digwydd y gair droeon yn y canu dychan am hen ddynion diolwg.

[1] P.C. Bartrum: WG1 'Cydifor ap Gwaithfoed' 1, 'Cydifor Fawr' 3.

[2] Gw. *ib*. 'Cydifor ap Gwaithfoed' 1, 8, a 'Cydifor Fawr' 7.

[3] D.J. Bowen, '"Morfudd yn Hen", GDG, 139', LlCy viii (1964–5), 231–4.

Ymhellach ar *clawr*, gw. N. Jacobs yn *Hispano-Gallo-Brittonica*, ed. J. Eska *et al*. (Cardiff, 1995), 66–78.

## *14*
## [*Ban ymhoffwyf …*]

Ban ymhoffwyf, nwyf nifer,
Wrth fun a'm gwnaeth cawddfaeth cur,
Sef dywaid, gwiw amnaid gwâr,
Hithau mai gorau yw'r gŵr.

*Ffynhonnell*
LlGC 6680B, 130$^{r}$

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.

Pan fwyf i, [gwrthrych] hyfrydwch llu, yn ymffrostio
Wrth ferch a barodd imi gynnydd poen cur,
Yr hyn a ddywed, [â] gwych ystum bonheddig,
Hithau yw mai gorau [o bawb] yw'r gŵr.

## *Nodiadau*

1 **ymhoffwyf** Ar *ymhoffi* '*to praise oneself*', gw. I. Williams, 'hoffi, ymhoffi, hoffedd, gorhoffedd', B ii (1923–5), 39–41.

2 **cawddfaeth cur** Cf. GDG³ 238 (87.15) *cawddfaeth cudd*.

4 **gŵr** Mae yma amwysedd bwriadol, mae'n debyg—ni ellir bod yn sicr ai cyfeirio at ŵr y ferch neu at y bardd ei hun a wneir.

## *15*
## *Dau bos*

*C* a *U* yn selu seilym,
*Ll U E* a allai ym;
*Ll* ac *W* eilw olwg,
*T* ac *Y*, teg yw ei gwg.

*Dychymyg pwy enw y ferch*

*T A R*, ceiser mywn cudd
Yn graff o fodiau Gruffudd;
*H A G*, dwyn *Y* danun,
Hyn a bair caffel henw bun.

*Ffynhonnell*
LlGC 6680B, 115$^{r}$

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.

*Teitl*
lleven ygharat

*Priodoliad*
Ywein

## *Dau bos*

C ac U yn edrych ar salmau,
Ll U E a lwyddai imi;
Ll ac W sy'n hawlio edrychiad,
D ac Y, teg yw ei gwg.

## *Dyfala beth yw enw'r ferch*

D A R, ceisier mewn cudd
Yn graff o grafangau Gruffudd;
H A Ng, dwyn A odanynt,
Hyn a bair cael enw merch.

## *Nodiadau*

Dau gwpled o gywydd sydd yn y naill bennill a'r llall, a'r enwau LLEUCU LLWYT ac YGHARAT, Lleucu Llwyd ac Angharad, yn llechu ynddynt. Priodolir yr ail bennill i Owain. Oherwydd natur gryptig y testun nid yw ystyr llinellau'r pennill cyntaf yn eglur. Ni wyddys ychwaith ystyr y teitl *lleven ygharat* a roddir uwch ei ben yn y llawysgrif. Yn GPC 2142 rhestrir *llefn* naill ai fel ffurf fenywaidd yr ansoddair *llyfn* (*ib*. 2254) neu fel enw '*loin*(*s*); *kidney*'. Ni rydd y naill na'r llall ystyr addas yma. Mae'n bosibl hefyd mai 'lleuen' yw'r ynganiad a gellid ei ddeall yn ffurf unigol *llau* '*lice*', ond ni rydd hynny oleuni ychwaith, na *llofen* 'gwenci, bronwen, ffured', *ib*. 2200. Byddai esbonio *Lleuen* yn ffurf fachigol ar elfen gyntaf yr e. Lleucu yn bosibilrwydd pellach, neu gellid ei ddeall yn amrywiad ar y berfenw *llefain* (*ib*. 2141; ceir *llefen* yn amrywiad digon cyffredin ar y ferf heddiw). Beth bynnag yw union ystyr y teitl, os teitl ydyw, rhaid, hefyd, gofyn beth yw perthynas Angharad a Lleucu Llwyd o safbwynt y gerdd, a phwy tybed oedd Owain?

O ran natur y pos, cymharer y cywydd 'Henw Cariad y Bardd' a argreffir gan Owen Jones a William Owen[-Pughe] yn *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*:[1]

Y Ferch fach dda ei hachen,
Lawer gwaith a elwir Gwen;
Llysenw serch y ferch fach,
A'r enw mae'n gyfrinach.
Myfi wyf yn ymofyn,
Mwy na dim, am enw'r dyn;
Hwyrach riain addfain-ael,
Rhyw ddydd noi gilydd ei gael.
U sy' fry, H hy hoywen,
A thair D ac Y ac N;
Ysbel Mabli, Gwenllian,
Dyddgu, neu Leucu wen lân;
Gwerfyl deg, gwawr fal y dydd,
Elen, Efa, lân Ofydd;
Nest, Gwenhwyfar, a Chari,
Tonwy, merch Gittin a mi;
Siwan, a ludd son o lid,
Wythliw ydiw ond odid,

[1] BDG 337 (cerdd clxvi). Gwrthodir y cywydd gan Thomas Parry yn GDG clxxxvi am ei fod yn annhebyg i waith Dafydd. Diddorol yw sylw R. Bromwich yn YB x (1977), 175, fod Melville Richards yn nodi na chanfu'r un enghraifft o'r enw Hunydd ar ôl canol y 14g., ffaith sydd o bosibl yn awgrymu bod y gerdd yn hen, hyd yn oed os nad ydyw'n perthyn i Ddafydd ap Gwilym. (Gw. M. Richards, 'Gwŷr, Gwragedd a Gwehelyth', THSC, 1966, 39–40.)

Morfudd, Hunydd o'i hannerch,
Sioned, neu Farged yw'r ferch.—
Ar hyn fe ddarfu ei henwi,
Un o honynt hwy yw hi.

Gwraig Ieuan Llwyd oedd Angharad, yn ôl pob tebyg, ond ni ellir bod mor sicr am Leucu Llwyd. Os yr un ydyw hon â'r Lleucu Llwyd y cyfeirir ati mewn englyn a ddyfynnir yng Ngramadegau'r Penceirddiaid,[2] ac os oedd yr englyn hwnnw yn fersiwn gwreiddiol y Gramadeg y credir iddo gael ei lunio yn ugeiniau'r ganrif, mae'n dra thebygol nad hyhi yw'r ferch o Bennal y canodd Llywelyn Goch ap Meurig Hen ei marwnad.[3] Yn yr achau rhestrir chwaer i Ieuan ap Gruffudd Foel o'r enw Lleucu ond dichon ei bod hi genhedlaeth yn rhy gynnar; fodd bynnag, gwelir bod yr enw *Lleucu* yn digwydd sawl tro yn ach Ieuan Llwyd, a chan fod y cyfenw Llwyd hefyd yn digwydd yn gyffredin, nid syn fyddai canfod *Lleucu Llwyd* yma. Fodd bynnag, pwy bynnag ydyw, mae'r ffaith ei bod yn *selu seilym* (yn edrych ar salmau neu'n eu darllen) yn awgrymu ei bod yn wraig ddiwylliedig.

1 **C a U … seilym** Cymerir mai ll. *salm* ydyw *seilym*, er mai ffurf unsill 'seilm' a ddisgwylid, cf. uchod 4.88 *Gwawdaml seilm gwiwdeml Selyf*. Rhaid yma yw cadw'r *-ym* i odli ag *ym* yn y ll. ddilynol. Cymerir mai fel a ganlyn y bwriadai'r bardd i'r ll. gael ei hynganu: 'C'a [≡ 'ca'] U yn selu seilym', yn hytrach nag fel 'Ec a[c] U …' fel y disgwylid, ond a fyddai'n peri i'r ll. fod yn rhy hir.

2 **a allai ym** Amwys yw'r ystyr a chynigir yr aralleiriad yn betrus iawn. Noder hefyd yr ail ystyr 'dwyn, cymryd', &c., a nodir yn GPC 1377, ond rhagflaenir y f. yn yr ystyr honno bron yn ddieithriad gan y geiryn *ry*.

3 **W eilw** Er mwyn yr odl a hyd y llinell, yngenir *eilw* yn ddeusill.

4 **teg yw ei gwg** Cf. GDG$^3$ 115 (42.47–50) *Gwedy dêl o'r awyr fry*, / *Dan haul wybr dwyn hwyl obry*, / *Yr ymachludd teg ei gwg* / *Dan orddrws y dyn oerddrwg*.

6 **bodiau Gruffudd** Ai cyfeiriad at Ruffudd Foel, sef taid Ieuan Llwyd, yw hwn tybed? Deellir *bodiau* yn ll. *bawd* yn yr ystyr 'crafanc'. gw. GPC 265.

[2] Gw., e.e., GP 8, 27 a 48 a gw. nodyn cefndir cerdd 12 uchod.
[3] Gw. R.G. Gruffydd, 'Marwnad Lleucu Llwyd', YB i (1965), 126–37.

## *16*
## *Campau Ieuan*

Gwir, gwir, gwir meddir, gwir meddan'—y byd,
Â'i biden ffroenllydan,
Gwir, nos fu cyn Gŵyl Ann,
Gwir â chaly hir gwir Ieuan.

Gwir—i ni, corff yr arglwydd a aberthwyd—ei chyrchu hyd yr ystafell yn yr ardd ac yno Ieuan hyd ei ddwygaill.

*Ffynhonnell*
LlGC 6680B, $104^{r}$

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. tt. 213–14.

*Darlleniadau y llawysgrif*
5 y*ni* koryf yr argyl6d aberyth6d.

### *Campau Ieuan*

Gwir, gwir, gwir meddir, gwir meddant [drigolion] y byd,
[Ei fod] gyda'i bidyn llydan ei ffroen,
Gwir, [ryw] nos a fu cyn Gŵyl Ann,
Gwir yw gwir [sef 'bost'] Ieuan â chal hir.

Gwir—i ni, corff yr Arglwydd a aberthwyd—ei chyrchu [a wnaeth] hyd at yr ystafell yn yr ardd ac yno Ieuan [a'i gwanodd] hyd ei ddwygaill.

## *Nodiadau*

Ysgrifennwyd y darn hwn ar ymyl y ddalen yn y llawysgrif, a gwelir yno mai darn o gerdd hwy ydoedd, ond bod y gweddill wedi ei golli. Mae'n bosibl iawn mai Ieuan Llwyd yw'r Ieuan a enwir ynddo, er nad oes unrhyw beth i awgrymu hynny ar wahân i'r cysylltiad arbennig sydd rhwng Ieuan Llwyd a nifer o gerddi yn nhrydedd haen y llawysgrif.

3 **Gŵyl Ann** Dethlid dydd gŵyl Ann(a), sef mam y Forwyn Fair, ar 26 Gorffennaf.

5 **i ni, corff yr arglwydd a aberthwyd** Llsgr. *yni koryf yr argyl6d aberyth6d*. Petrus yw'r dehongliad o'r cymal hwn. Dichon y gallai *koryf* gynrychioli 'corf' neu 'corff'. Ni chafwyd hyd i unrhyw air (hŷn na diwedd yr 18g.) yn dechrau ag *argyl-* yn G 41 na GPC 201. Os yw *argyl6d*, felly, yn cynrychioli 'arglwydd', yna gall *aberyth6d* gynrychioli 'aberthwyd' neu 'a berthwyd'. Ceir bf. *berthu* 'cynysgaeddu, cyfoethogi, addurno, prydferthu', GPC 274, a thybir yn G 56 fodolaeth bf. *berthu* 'hyrddio, taflu' yn ogystal (cf. GCBM ii, 16.13n). Posibilrwydd arall yw darllen *a bêr rythwyd*, a deall *rhythwyd* yn ffurf 3 un.grff.myn. y f. *rhythu*. Am y tro, felly, cymerir mai tyngu llw a wna'r bardd, gan ddefnyddio ymadrodd litwrgïaidd i honni ei fod yn dweud y gwirionedd.

## *17*
## *Cwyn mynach o fynachlog Cymer*

Can aethost, aerbost eurbar drafod,—hwnt
Ieuan hynt [ ]d ddannod,
Ba awr iawn, heb gleuddawn glod,
B[ ]rth Deheubarth hebod.

Nid oes ynn o serch [ ] h [ ] gofal
Am[ ]
Dodyn’ yf[ ]
Da beth un doreth y d[ ]

N[ ] bara nid da dawn hoed—arferu
Ar fara drwg [ ]
A llonaid (llyna f’addoed!)
Ysgâl o lyn cagal coed.

*Ffynhonnell*
LlGC 6680B, 76$^{r}$

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.

*Darlleniadau’r llawysgrif*
Defnyddir teip italig i ddynodi darlleniadau ansicr. Rhoddir dot mewn bachau petryal am bob llythyren annarllenadwy a bylchau gwag am nifer ansicr o lythrennau amhosibl eu darllen. Argreffir testun diplomatig ar ôl y nodiadau isod.

1 eurb*a*r. 2 [..]d ddannot. 3 *ba* awr. 4 b[..]rth. 7 D*o*tyn. 8 d[..]. 9 N[..].

*Priodoliad*
Mynach o vanachloc kymer ae cant

## *Cwyn mynach o fynachlog Cymer*

Gan aethost ymaith, ymladdwr mewn brwydr yn taflu
    gwaywffon ysblennydd,
Ieuan hynt … gwarthruddo,
?Pa awr gywir, heb glod sicr ei ddawn,
… Deheubarth hebot.

Nid oes inni o serch … pryder
Am …
?Dodent …
Peth da o doreth arbennig …

… bara nid da, rhodd [o] arfer â chwithdod,
Ar fara drwg …
A llond (dyna f'aflwydd!)
Cwpan o ddiod tom [y] coed.

## *Nodiadau*

Mae cyflwr y testun hwn yn y llawysgrif yn wael iawn, a bu raid imi ddibynnu'n llwyr ar adysgrifiad Daniel Huws ohoni yn 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LlGC xxii (1981–2), 25.

Anodd dirnad yn union beth yw cefndir yr englynion hyn. Honnir mai mynach o fynachlog Cymer—oedd yn fynachlog Sistersaidd fel Ystrad-fflur—yw'r awdur, ac ymddengys ei fod yn cyfarch Ieuan, gan gwyno am ansawdd y lletygarwch ar ôl i hwnnw fynd *hwnt* (ll. 1). Mae'n lladd ar yr ymborth a dderbyniodd ac yn ei ddisgrifio fel *Bara drwg* a *llyn cagal coed* (llau. 10–12). Y tebyg yw mai cyfeirio at y diffyg croeso a gafodd ym mynachlog Ystrad-fflur a wna, ond, a chofio bod Llawysgrif Hendregadredd bellach yng nghartref Ieuan Llwyd yng Nglyn Aeron, nid yw'n amhosibl mai cyfeirio at y diffyg croeso a gafodd yno a wna'r mynach.

Ceir tystiolaeth mai John oedd enw abad Ystrad-fflur yn 1299, ond ni chadwyd enw'r abad yno o 1299 tan 1336.[1] Tybed felly ai'r un John a ddaliodd yr abadaeth am ran o leiaf o'r cyfnod hwn, a thybed hefyd a ydyw i'w uniaethu ag Ieuan yr englynion hyn? Mae'n bosibl hefyd mai cyfarch Ieuan yn rhethregol a wna'r mynach o Gymer a bod Ieuan bellach wedi marw. Posibilrwydd arall eto yw mai cyfarch Ieuan Llwyd a wna a'i feio ef am y diffyg croeso yn Ystrad-fflur. Anodd gwybod pam y byddai'n gwneud hynny, ond ni wyddom beth oedd ei union gysylltiad â'r fynachlog. Pe gwyddem hynny, efallai y byddai modd gwybod pam yr aeth Llawysgrif Hendregadredd yn ogystal â Llyfr Gwyn Rhydderch o'r fynachlog i'w gartref ef yng Nglyn Aeron.

Englynion unodl union rheolaidd yw'r cyntaf a'r olaf yn y gyfres uchod; mae'r ail yn rhy anghyflawn i fedru barnu. Y gynghanedd sain sydd flaenaf yma, ond ceir cynghanedd groes bengoll yn ll. 11.

2 **Ieuan hynt [ ]d ddannod** Tybed a ddylid darllen *Ieuan hynt hyd ddannod* 'Ieuan a'i hynt hyd warthruddo'?

4 **B[ ]rth** Gellid awgrymu darllen *Buarth* yma.

9 Dichon y dylid darllen *Nid bara nid da* … yma.

[1] D.H. Williams, *The Welsh Cistercians* (Caldey Island, 1984), i, appendix 1.

*Atodiad*

Codwyd y testun o D. Huws, ‘Llawysgrif Hendregadredd’, Cylchg LlGC xxii (1981–2), 24–5; esbonnir yno, ‘Italeiddir darlleniadau ansicr. Cedwir orgraff y gwreiddiol … Safonir gwahanu’r geiriau a’r llinellu.’

Can aethost aerbost eurb*a*r drauot hwnt
Ieuan hynt ..d ddannot
*ba* awr iawn heb gleuddawn glot
b ..rth deheubarth hebot

Nyt oes ynn o *s*erch …. h ….. goual
a*m* ….. …..
D*o*tyn yf … ….. …..
Da beth vn doreth y d..

N.. bara nyt da dawn hoet arveru
ar vara drwc ….
a lloneit llyna vaddoet
ysgal o lynn cagal coet

Mynach o vanachloc kymer ae cant

# *Mynegai*


**adnabod: adwen** 8.22n
**adwyn** 8.21n
**addoed** 17.11
**aerbost** 17.1
**aerfrys** 9.9
**afar** 8.37n
**amar**[1] 8.23n
**amar**[2] 8.26n
**amnaid** 14.3
**amorth** 8.30n
**amwlch** 8.29
**anelyf** 8.37
**ar: arnaf** 11.5n
**areithran** 8.3n
**arferu** 17.9
**arffed** 11.1n
**aruthr** 8.3n
**arwar** 8.24n
**athrugar** 8.39
**baniar** 8.11n
**bardd** 13.2n; **beirdd** 8.13n
**bawd: bodiau** 15.6n
**bod: wyf** 13.2n; **oedd** 8.19n
**brain** 9.12n
**Brynaich** 9.12n
**cadrwayw** 9.15
**cagal** 17.12
**caly** 16.4
**cardd** 8.30n
**caru: câr** 8.30n
**carw** 9.3n
**cawddfaeth** 14.2n
**cedfryd** 9.13
**cerddor** 8.30n
**clawr** 13.6n
**cleirach** 13.6n
**cleuddawn** 17.3
**clod** 8.43n
**clud** 8.8n
**corf** 9.16n
**crair** 11.8
**Cred** 11.8n
**cur** 14.2n
**cwrel** 12.3
**cyfair** 11.2
**cymynu: cymynynt** 10.1;
**cymynodd** 10.2n
**cynheiliant** 8.37
**cyniwair** 8.36n
**cynnal: cynnail** 8.34n
**cynnif** 8.5n
**cynnogn: cynnygn** 8.5
**cynnor** 8.35
**daffar** 8.16
**dannod** 17.2
**darpar** 8.9n
**dear** 8.14
**diafar** 8.46
**digabl** 11.3
**digar** 8.38
**diwatwar** 8.5n
**drud** 8.7n
**durfing** 9.5n
**dy** 13.2n
**dyfrflaen** 12.1
**edif** 8.23n
**edyrn** 8.25n
**ei** 8.24n, 28n
**eidduned** 11.7
**emyrdd** 8.27n
**erfai** 10.1
**esgudfrys** 9.1n
**eurbar** 17.1
**eurllafn** 9.14n

**fy: ’y** 8.9n
**ffroenllydan** 16.2
**gair** 8.43n
**galw: geilw** 15.3
**gallu: gallai** 15.2n
**glaif** 8.42
**glew** 8.41n
**gloywgain** 9.11
**gogoned** 11.6
**goroen** 12.3
**gres** 9.9
**gryd** 9.15
**gwaedlafn** 9.10
**gwanar** 8.32
**gwangar** 8.17
**gwargain** 11.4
**gwasgar** 8.8
**gwawdlwydd** 9.9
**gwaywgrwydr** 9.7
**gwendorf** 9.16n
**gwersyllig** 8.1n
**gwg** 15.4n
**gwindai** 10.4n
**gwir** 11.8n
**gwneuthur: gwnair** 8.43n
**gwyar** 8.29
**gwyarllyd** 9.14
**gwychfryd** 8.47
**Gŵyl Ann** 16.3n
**gwyndod** 10.4n
**Gwyndyd** 9.16n
**gwyniar** 8.7n
**gwynnon** 8.7n
**haul** 11.8n
**henw** 15.8
**hynt** 17.2
**i: ym** 15.2n
**i ar** 8.43n
**llafar** 8.27n
**llaith** 9.12n
**lledu: lletawd** 8.11n
**llew** 9.16n
**llith** 9.12n
**llonaid** 17.11
**lluddias: lludd** 8.24n
**llychu** 8.23n
**llyn** 12.6n
**llyw** 9.16n
**mab: maib** 10.1
**main** 12.4n
**mawrdrafn** 9.3n
**mawrgrair** 11.1
**meddgorn: meddgyrn** 8.25n
**menwyd** 8.17n
**molud** 8.8n
**myged** 11.1n
**mygr** 11.1
**mygrfam** 11.7
**mynud** 8.17n
**nawdd** 11.5n
**nef** 11.5n
**ni: niw** 8.30n
**nid** 8.30n
**nifer** 14.1
**no** 12.4(2)n
**nwyf** 14.1
**o: o’th** 9.11n
**pan** 8.24n
**pâr** 8.1n
**parabl** 11.3
**piden** 16.2
**purair** 11.3
**rhaith: rheithon** 8.4n
**rheithfawr** 8.4n
**rhew** 8.41n
**rhif** 8.13n
**rhuddgrys** 8.41
**rhuddlym** 9.15
**rhuthr** 8.3n
**rhwy** 8.35n
**rhwyd** 8.1n
**rhwysg** 8.7n
**rhybuch** 8.9n
**rhydraws** 8.32
**rhydrwm** 8.31
**rhyfyg** 8.2n

**safwy** 8.28n
**salm: seilym** 15.1n
**selu** 15.1
**tadog** 8.15n
**tân** 8.7n
**tarf: teirf** 8.20n
**teg** 15.4n
**termud** 8.15n
**toniar** 8.13n
**toreth** 17.8
**torment** 8.15n
**trafod** 17.1
**trawd** 8.26n, 39
**trawsddoeth** 8.12
**trawsfrwydr** 9.7
**trefred** 11.5n
**treisfrys** 9.7
**treistrafn** 9.13
**trin** 8.25n
**tröwr: trowyr** 10.4n
**tu** 8.19n
**tud** 8.8, 17n
**twrf** 8.7n
**tynnegl** 8.14n
**tywynnu: tywyn** 11.2n
**ufeliar** 8.40n
**ufyddoed** 13.1n
**wysg yn wysg** 8.19
**’y** gw. **fy**
**yng** 8.31
**ym** 15.2n
**ymhoffi: ymhoffwyf** 14.1n
**ymwrdd** 9.2
**ysgâl** 17.12
**ysgar** 8.19
**ysgwd** 12.6
**ysgwyd** 9.1n, 11n

*Enwau personol*

**Ann** gw. **Gŵyl Ann**
**Cai** 10.3n
**Casnar** 8.47n
**Cuniar** 8.36n
**Dunawd** 8.13n
**Duw** 11.6
**Edern** 8.24n
**Elgar** 8.33n
**Gruffudd** 15.6n
**Gwair** 8.36n
**Gwalchmai** 10.2n
**Gweirfyl** 12.4n
**Gwenllïan** 12.8
**Ieuan** 16.4, 17.2n
**Indeg** 13.4n
**Lleucu Llwyd** 15.1–4
**Mair** 11.4, 8
**Mefeddus** 13.1
**Rhys** 9.4, 8, 9, 13
**Tomas fab Rhotbert** 8.1
**Tri Hael, y** 8.43n
**Yngharad** 15.5–8

*Enwau lleoedd*

**Deheubarth** 17.4
**Gwent** 8.15n
**Prydain** 9.10 **Prydain Ynys** 9.6

# GWAITH

# LLYWELYN DDU AB Y PASTARD

golygwyd gan

DYLAN FOSTER EVANS

# *Rhagymadrodd*

Ychydig iawn a wyddys am Lywelyn Ddu ab y Pastard ar wahân i'r hyn y gellir ei gasglu o'i gerddi a'i enw anghyffredin.[1] Hyd y gellir barnu, ni restrir ei enw yn yr achau, ond gan na wyddys enw ei dad, ni ellir bod yn sicr. Benthyciad o'r Saesneg *bastard* yw *pastard*, a gellir tybio bod y defnydd o'r gair yn adlewyrchu effaith y gyfundrefn Seisnig ar y gymdeithas, gan nad oedd y cyflwr o fastardiaeth yn bod fel y cyfryw yng Nghymru'r Oesoedd Canol cynnar.[2] Yn ôl Cyfraith Hywel Dda, gellid cynnal priodasau ar wahanol lefelau,[3] ac fel rheol, arddeliad tad ar blentyn a oedd yn bwysig yn hytrach na natur perthynas y tad â'r fam.[4] Gellid synio, felly, mai diffyg arddeliad o'r fath yn hytrach nag absenoldeb perthynas briodasol oedd y rheswm y cafodd tad Llywelyn ei alw'n 'pastard'. Eto, yr oedd dylanwad yr Eglwys a'r gyfundrefn Seisnig wedi treiddio'n ddwfn i Gymru cyn diwedd cyfnod annibyniaeth y Tywysogion.[5] Beth bynnag oedd union arwyddocâd 'bastard' ymysg y Cymry, nid tad Llywelyn Ddu oedd cyntaf na'r olaf i'w dderbyn fel llysenw.[6]

Ni ellir lleoli cartref Llywelyn Ddu ychwaith, ond cyfeirir yn ei ddwy awdl at y lleoedd canlynol: *Trefynor* (18.22), *Cilgerran* (19.6), *Llanhuadain*, sef Llawhaden (19.48) a *glan Aeron a'i glyn* (19.72). Mae pob un o'r lleoedd hyn naill ai yng Ngheredigion neu yn sir Benfro, a chan fod y bardd yn rhoi canmoliaeth arbennig i ardal dyffryn Aeron yn ei awdl ddychan, teg

[1] Nid yw hi'n glir ai fel *Pastard* ynteu *Pastardd* yr yngenid ei gyfenw. Ceir ffurfiau ar y gair yn diweddu â *–rt*, *–rd* a *–rdd*, gw. EEW 59, 242 a 243 a cf. GOLlM 35 (cerdd 18) lle profir y ffurfiau *pastardiaid*, *pastardd* a *pastart* gan odl a chynghanedd o fewn yr un cywydd. Mae orgraff y Llyfr Coch a Llawysgrif Hendregadredd o blaid dehongli *pastard* y llawysgrif fel 'pastardd', ond nid yw'r terfyniad '-rd' yn digwydd yn aml, felly mae'n anodd barnu. *Llywelyn Ddu ab y Pastard* yw'r ffurf a geir yn GPC 2529 d.g. *mygaf*², yn GMW xxviii, ac yn D, ond *Llywelyn δu uab y pastarδ* yw enw'r bardd yn ôl G 53 d.g. *bastarδaeth* a GPC 2759 d.g. *pensel*.

[2] 'Up to the time of the Edwardian Conquest, illegitimacy was an academic matter if it had any significance at all', P.C. Bartrum: WG1 5.

[3] Gw. WLW 27–39.

[4] Er hyn, yr oedd plentyn a aned o fewn priodas gydnabyddedig fel arfer mewn gwell sefyllfa, gw. *ib*. 90–2.

[5] Gw. R.R. Davies: CCC 249 am y defnydd a wnaeth Llywelyn Fawr o'r gyfundrefn Seisnig i sicrhau mai Dafydd fyddai ei etifedd ac nid ei fab hynaf, Gruffudd.

[6] Gelwir Einion Ddu ap Cynwrig (*fl*. tua dechrau'r 13g., gw. P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 19) yn 'bastard' mewn rhai copïau o'i achau, gw. G.P. Jones 'A List of Epithets from Welsh Pedigrees', B iii (1926–7), 43 lle ceir hefyd yr enw *Teg. Gogh Bastard* mewn cofnodion llys ym Môn o ddiwedd y 13g. Cf. hefyd yr enwau *Gr ap Wm fastard* a *Wm vastard de frach Beumares* a gofnodir yn Glyn Roberts, 'The Anglesey Submissions of 1406', B xv (1952–4), 53.

fyddai ei gysylltu â'r ardal honno.[7] Eto, dylid cofio mai crwydrol oedd natur bywyd llawer o feirdd y cyfnod, ac efallai mai ymweld yn unig â'r ardaloedd y mae'n eu crybwyll a wnaeth Llywelyn Ddu.

Gan nad yw'n glir pwy yn union oedd gwrthrychau ei awdlau, anodd yw dyddio Llywelyn Ddu ag unrhyw bendantrwydd. Rhoddir iddo'r dyddiad 1400 gan John Davies,[8] ond mae hynny'n rhy ddiweddar. Mae'r ffaith fod ei awdl farwnad i deulu Trefynor wedi ei chynnwys yn haen III Llawysgrif Hendregadredd yn awgrymu iddo ganu yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg neu ynghynt.[9] Ymhellach, os yr un yw'r Gruffudd Fychan â'r gŵr a fu'n amlwg yn llywodraeth cwmwd Mebwynion, ceir rheswm pellach dros dybio bod Llywelyn yn ei flodau rywdro yn hanner cyntaf y ganrif.[10] Awgrymodd Dafydd Johnston ar sail y llinell *Gwedy nad oes awr heb fawr farwnad* (18.36) mai'r Farwolaeth Fawr a oedd yn gyfrifol am ladd y teulu.[11] Os felly, gellid awgymu 1349/50 fel dyddiad cyfansoddi'r gerdd. Nid oes modd cadarnhau'r awgrym hwn, fodd bynnag, a dichon mai cyfeirio at farwnadau gwahanol feirdd i'r un gwrthrych y mae'r llinell yn hytrach nag at farwnadau nifer o wahanol unigolion.

Dwy gerdd yn unig a gadwyd o waith Llywelyn Ddu, sef 'Marwnad teulu Trefynor' a 'Dychan i Fadog ap Hywel a'i osgordd', a'r rheini'n gerddi pur wahanol i'w gilydd. Marwnad draddodiadol i aelodau teulu a drigai yn Nhrefynor yw'r gyntaf. Er nad yw'n hollol glir pwy yw prif wrthrych y gerdd hon, mae'n dilyn patrwm cyffredin marwnadau'r Gogynfeirdd trwy ymbil ar Dduw yn y llinellau agoriadol, wedyn moli'r rhai a gollwyd, cyn cloi trwy ofyn i Dduw eu croesawu i'r nefoedd ato Ef. Canmolir perchenogion Trefynor am eu gallu mewn rhyfel ac am eu haelioni yn y llys, a cheir sawl cyfeiriad at fyrder oes yn y byd hwn a diffyg sylwedd golud daearol.

Egyr 'Dychan i Fadog ap Hywel a'i osgordd' hefyd fel cerdd foliant draddodiadol, gyda'r bardd yn cyfarch Duw ac yn gofyn iddo am ysbrydoliaeth i gyfansoddi ei gerdd.[12] Ond ceir newid amlwg yn y bumed linell, a daw'n glir mai dychan yw'r gerdd, a rhyw Fadog ab Hywel a saith o'i ddilynwyr o dan y lach. Disgrifir eu cyrff, eu hafiechydon, eu lleferydd a'u celwyddau mewn iaith fywiog, gryno, lawn trosiadau a chymariaethau effeithiol. Gwneir defnydd celfydd iawn o sawl trawiad sy'n gyfarwydd yn y canu mawl gan eu gwyrdroi yn gywrain ac yn eironig ar gyfer pwrpasau dychanol.[13]

[7] Gw. 19.71–2.
[8] Gw. ei restr o feirdd ar ddiwedd D.
[9] Gw. uchod td 1.
[10] Gw. isod 18.27–8n.
[11] Bl B XIV 188.
[12] Cf. llinellau agoriadol marwnad Cynddelw i Gadwallon ap Madog ab Idnerth, GCBM i, 21.1–6.
[13] E.e. 19.1n, 18n, a 82n.

Fel y disgwylir gan fardd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, y gynghanedd sain yn ddi-os yw hoff gynghanedd Llywelyn Ddu,[14] a phrin yw'r enghreifftiau o'r mathau eraill o gynghanedd. Ar adegau, digwydd y rhagwant mewn mannau lle'r ymddengys ei fod yn torri ar draws ystyr y llinell, ond yr oedd hyn eto yn nodwedd ar gynghanedd y cyfnod.[15] Ceir nifer o enghreifftiau o gynghanedd sain deirodl a sain ddwbl yn y ddwy gerdd fel ei gilydd, a cheir cyfatebiaeth gytseiniol gref mewn sawl llinell.

Fel y crybwyllwyd eisoes, yn Llawysgrif Hendregadredd y ceir y copi cynharaf o 'Farwnad teulu Trefynor', a hi yw'r unig gerdd yn y llaw a'i copïodd. Mae'r holl gopïau diweddarach yn tarddu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r copi hwnnw. Cadwyd 'Dychan i Fadog ap Hywel a'i osgordd' yng ngholofnau 1353–55 o Lyfr Coch Hergest, yn llaw Hywel Fychan, prif gopïydd y llawysgrif.[16] Unwaith eto, dyma ffynhonnell uniongyrchol neu anuniongyrchol yr holl gopïau diweddarach.

[14] Gw. GDG xcvi–xcviii.
[15] Gw. *ib*. xciv.
[16] Gw. G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', Cylchg LlGC xxi (1979–80), 255.

## *18*
## *Marwnad teulu Trefynor*

Gwae fi, Arglwydd rhwydd, Rhwyf goleuad,
Gweled mawr giwed fal môr gawad,
Gwirodau, gwleddau a gwlad—ar hwntan:
Cwhwfan truan yw eu troad.
Gwŷr heddiw yn wiw, yn weilch ffysgiad,
Gwawd gny afory, yn feirw heb wad;
Gwenwyn rhent bresent, brysiad—yw arfaeth,
Waethwaeth hudoliaeth o'i hadeiliad.
Gwâr a'm câr a'm cên, fy Rhên rheiniad,
Gwir hir, mor ddehir eu marw ddead;
Gorddyfnais, mygais magiad—llwyth Cadfor,
Goror y glasfor a gâr gleisiad.
Gwedy Llywelyn hŷn, hy neirthiad,
Gwedy Gwilym lym, lys gynheiliad,
Gwedy chweddl ceneddl, cuniad—diogel,
Gwaed pensel Hywel, ddigel ddygiad,
Gwae a gâr na gwâr na gwyllt ffrystiad,
Gwawr tref, ddieithr nef tangnef ein Tad;
Gwatwar cwbl gynnar cabl geiniad—dybryd,
Gwŷd yw caru'r byd hyd ehediad.
Gwelais wenllys falch, gwelais winllad
Goror Trefynor, geirior gariad;
Gwelais wledd a medd a mad—wrhydri,
Gweilch ac eurllestri, gwesti gwastad.
Gwelai a'i gwelas cedolblas cad
Gwelwon arwyddon rhyddion rhoddiad,
Gruffudd, cleddyf rhudd, rhuad—cyflafan,
Fychan dariandan, a'i diriondad.
Gwedy eu gweled, gwawd a gwiw-wlad;
Gwedy eu colli, rhieni rhad:
Gwae fi aros dros drefad—cydeced,
Gweled llaes giwed a llys gaead.
Gwedy hyn, Dduw gwyn, gwenwyn borthiad,
Gwedy byd breuol a'i hudol had,
Gwedy rhuthr goruthr (girad—pob cerddawr),
Gwedy nad oes awr heb fawr farwnad,

Gorau ynn geisiaw, heb fraw, heb frad,
Gŵr a gynnail sail seithradd prelad,
Gorfoledd gwinwledd gwenwlad—dragywydd
Lle bydd hael Llywydd haul a lleuad.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14869, 134$^{\mathrm{r}}$ B—LlGC 1981 [= Pant 12], 150$^{\mathrm{r}}$ C—LlGC 5274D, 18 (llau. 1–11) D—LlGC 6680B, 90$^{\mathrm{v}}$ E—Llst 31, 274 F—Pen 119, 398

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif D, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 213–14.)

*Teitl*
ƚƚ ddu ap y pastard ae [ ]

*Marwnad teulu Trefynor*

Gwae fi, Arglwydd hael, Rheolwr goleuni,
Weld torf fawr fel [pe baent yn cael eu taro gan] hyrddiad môr,
Gwirodau, gwleddau a gwlad yn siglo:
Ysgwyd yn druenus yw eu hynt.
Gwŷr heddiw yn wiw, yn arwyr cyrch,
Bydd barddoniaeth yn cnoi yfory, [byddant] yn feirw yn sicr;
Gwenwyn yw tâl y byd hwn, diflanedig yw bwriad,
Gwaethwaeth yw['r] twyll o'i luniad.
Y [rhai] gwâr a'm câr sy'n fy mhoeni, f'Arglwydd rheolwr,
Gwirionedd [a bery yn] hir, mor afluniaidd yw eu llun marw;
Ymgynefinais, anrhydeddais fagwraeth llwyth Cadfor,
Glan y môr glas a gâr [y] gleisiad.
Wedi Llywelyn [yr] hynafgwr, atgyfnerthwr eofn,
Wedi Gwilym craff, cynhaliwr llys,
Wedi hanes [y] llwyth, tywysog di-ildio,
Gwaed lluman Hywel, dygiedydd amlwg,
Gwae'r hwn a hoffa gyrchwr tir âr na thir gwyllt,
Arglwydd [ar ei] diriogaeth, heblaw nefoedd tangnefedd ein Tad;
Gwatwar cynnar iawn canwr dybryd bai
[A] phechod yw caru'r byd hyd [yr] ehediad [oddi wrtho].
Gwelais lys gwyn hardd, gwelais rodd o win
Ardal Trefynor, cariad arglwydd barddoniaeth;
Gwelais wledd a medd a gwrhydri hyfryd,
Gweilch a llestri euraid, llety gwastadol.
Gwelai y sawl a welodd amddiffynfa wych brwydr
Lumanau rhydd [a] gwelwon [y] rhoddwr,
Gruffudd Fychan [a chanddo] gleddyf coch, rhuad [mewn] cyflafan,
Tanllyd ei darian, a'i dad tirion.
Wedi eu gweld, moliant a gwlad hyfryd;
Wedi eu colli, hynafiaid bendigedig:
Gwae fi [fod rhaid imi] ddioddef dros dref cyn deced,
[Wrth] weld torf ostyngedig a llys caeedig.
Wedi hyn, Dduw sanctaidd, dioddefwr chwerwder,
Wedi['r] byd bregus a'i had twyllodrus,
Wedi rhuthr gwyllt (alaethus yw pob bardd),
Wedi [cyfnod] pan na bo awr heb farwnad fawr,
Gorau inni geisio, heb ofn, heb dwyll,
[Y] Gŵr sy'n cynnal sail saith gradd offeiriad
[A] gorfoledd gwledd o win [y] wlad sanctaidd dragwyddol
Lle bydd Tywysog [yr] haul a['r] lleuad yn hael.

## *19*
## *Dychan i Fadog ap Hywel a'i osgordd*

Cyfarchaf i'm Naf, niferog—Ddofydd,
   Cynnydd ni dderfydd, defnydd deifnog;
Cymeraf, mwynaf mynog—Nefoldad,
   Ceniad trwy gariad Duw trugarog
Can bu gabl parabl poerog—dulluan,
   Cwynfan Cilgerran celain gyriog;
Can bu hefyd bryd bradog—cyfeilliach,
   Caentach Iosedd Grach, twthach, tuthiog;
Can ydiw heddiw, hyddewog—faniar
   Wyth dilwyth dalar, anwar enwog,
Cymrefial arial oriog—gythreulaid,
   Ceimiaid, gormeisiaid, haid hydomog.
Cablbryn etewyn taeog—egfaenfwrdd,
   Any ei ymodwrdd, un yw Madog.
Cefnrhwd cafn llwydiwd, llidiog—newynwaedd,
   Cyrraedd crau mynfaedd, car cramennog;
Crwbach, treyn grybach, trwyn gribog—wrneidr,
   Cachreeidr beleidr boly llyngerog,
Cyrpus cynhennus, cinhynnog—sallodr,
   Carplodr coes gallodr ci asgellog.
Caeth yw'r ail, chwydail chwydog,—o'r crefydd,
   Cynnydd pob celwydd, piw baedd coliog,
Ceidwad cabl ddyad cwbl ddiog—wersyll,
   Ceinflaen y pistyll, rhingyll rhyngog;
Cadr y tyngawdd sawdd swyddog—traeanau
   Cwynau gri geirau i'r grog eurog,
Clo ymdro lle y bo, bywiog—na chlywir
   Cywir ungair gwir, ongyr gwerog.
Cerydd i'r trydydd, troedog—daddleuau,
   Cwynau mineuau, cafn maneuog,
Cynwrig farf tremig trumog—goddeulam,
   Cythraul tafotfflam gogam gagog,
Certh serch coffr rhwygnerth, cyff rhygnog—ysgaw,
   Yn ceisiaw cwynaw am ddryll ceiniog.
Cadwgawn cwd rhawn rhefog—cyllestrig,
   Cythreulfab Cynwrig derrig dorrog,

Ceimiad cain dyfiad, cyndifiog—grefydd,
Cerydd bedwerydd, feddydd feiddiog,
Corfau tew fwydau, tafodiog—ieithwleb,
Cyfeb godineb, cof gadwynog,
Cefnbant frad dyfiant, frawd difiog—troednoeth,
Ceillboeth, gŵr annoeth o gorunog.
Caeth yw'r pymed, lled lliwiog—ei ddwyfoch,
Maredudd safngloch, gleirch coch cuchiog,
Cyfrau gwrddolau garwddoliog—wacson,
Un o ddisgyblon mudion Madog.
Carw a ddysgawdd cawdd, cyhoeddog—arwain,
Cer Llanhuadain sain sefydlog
Cerdded cynired (nid cun eurog—rhydd)
Ceyrydd, heolydd yn hualog;
Clywed pwy'r chweched, poer chwrychiog—furnferw,
Clwyf swyf ansyberw clawr herw horog.
Crwth talmithr hylithr, halog,—huddyglyd,
Crydd teimlwydd tomlyd, crud gwŷd gwaedog,
Cynllwyn furnffrwyn drwyn, draenog—budreddi,
Corgi, cadwgi, câr cod agog;
Clywed pwy'r seithfed, sythfodog—fapglaf,
Cnawtgraf yw'r gwaethaf, gwythiënnog.
Cennad mân genglad, min gonglog—hercyn,
Cŷn tyllwan ofyn, twyll wanafog;
Cyfrwys ei dadwys ar odidog—dwyll,
Cyrbwyll murn orffwyll, rhwyll rhyleuog.
Cysteg nid oedd deg, digog—fwrdd glehed,
Clywed pwy'r wythfed, pared poerog.
Cyfarthfws fadws, Fadog—fab Hywel,
Cyfryfel gefel isel oesog,
Cerddwriaeth gwlaeth geiliog—eisingrug,
Caddug mynychffug, barrug beiriog.
Cymered, muded Madog—a'i osgordd,
Hyn o aratgordd ffordd anffodiog;
Cywhynnent, gadent gwlad goedog—dirion,
Ceinion glan Aeron a'i glyn eurog,
Cof cyfan yn lân, loyw dyledog—dir,
Cywir aerau hir, wir werinog;
Cyrdd argae lle y mae mynog—rhianedd,
Cymyrredd a medd a meirch dosog,
Cynnydd rhwydd goedydd a rhygedog—naint
Cywraint ac ednaint a braint breiniog.

Cythrudd neud rhybudd, nod rheibiog—am bawr,
I bob gwan burawr, llawr llyngerog,
Cerdd dro na fwrio anddiferiog—sen
(Cefn nenbren) o'i ben ban fo llidiog,
Colofn rhag gorofn, caerog—egfaenbwn.
Cyfarfûm â hwn, grwn greinionog,
Cyfarfod am glod golidiog—cularch,
Cyfarch drwy hoywbarch dryw a hebog;
Cyfarfod corod corwg croeniog—glawr
Â llong fawr ar llawr uch llanw tonnog;
Cyfarfod corod carw bannog—ffysgiad
Â rhad wysg furniad ysgyfarnog.
Cyrrith air gochwith ar guchiog—ddefnydd
Fydd rhan awenydd rhynewynog,
Cyrrwm cryman trwm, trumog—dan gyfrtur,
Cyngladur, traetur, mesur mysog.
Cwplaf cof eithaf fydd cyfoethog—wawd,
Ceudawd hyd Ddyddbrawd heb frawd fradog,
Cadr fydd o'm defnydd a'm deifnog—gerddau
Cofau fy amodau, fi â Madog.

Rhyngog yw Madog, rhinc a'i medr—gofal,
Neur gafas anfodd Pedr,
Rhwystredig gloëdig gledr,
Rhestr gogoeglestr gagogledr.

Rhyngog yw Madog, ni medr tefyrn—gwin,
Gwenwynlyrp, ffyrch hëyrn,
Dibrid lid heb lin tëyrn,
Dybryd y chwŷd ac y chwyrn.

Ŵyll ddielw arddelw, erddyrn—caletgrin,
Cau lwytgrwth, tân llewyrn,
Aillt gagog cornwydog gyrn,
Ellyll o esgyll esgyrn.

Rhyngog yw Madog, medr gerdded—o'i grwm,
Crymedd gafr sothachled,
Rhefr hefr hyfrwnt, hwnt hyntied,
Rhwystrbwyll a'i greudwyll o gred.

Rhyglfab Hywel, sêl rhugl, seilied—ei bwll,
Ei bell hoeddl neur sodded,
Rhyn dynewyn dinawed,
Rhydruan, dilydan led.

Rhwystr enwir ar dir daered—annedwydd,
Llugenydd lle ganed,
Rhwyll gorffwyll tywyll tawed,
Rhost a'i wacffrost, hydost hed.

Gwter clêr llynger, ellynged—ddagrau,
A'i ddwygroes neur dorred,
Garwfron, llwytffon fal lletffed,
Gorffwyll o'i rewdwyll a red.

Trostan farw culgarw, cilged—o'i feddwl,
Feddw gyngladur glehed,
Tristgorn rhisg, fflodiadwisg ffled,
Trwyn rhyw golwyn rhygaled.

Rhyngog yw Madog, medr â gelfin—cam
Cymurth cnau ac eirin,
Rhain filain, feleithr feithrin,
Rhyfedd yw difonedd fin.

Rhwystr etifedd nedd nadd elin—Hywel,
Gwaed isel, gwawd eisin,
Rhost bron, curdost bren cerdin,
Rhestr ysgothsestr, blinglestr blin.

Ceseais cablfais cwblfin—gŵr rhyfaw
Ei ddwylaw a'i ddeulin,
Cysgadur efel melin,
Casgabl Fadog donnog din.

Cesail hagrgogail hygur gegin—llau,
Llawes gwerthiwr cennin,
Cyswyn corn rhisg casgl blisg blin,
Cas gennyf gi coes ginnin.

Cyswyn caen afwyn, cynefin—a chwerw
Golorferw gawl erfin,
Cysellt gwellt, gweithffon eithin,
Coes ceiliog croesgoliog crin.

*Ffynonellau*
A—BL Add 15001, 243r B—J 111, 1353 C—LlGC 4973B, 348r D—LlGC 21287B, 106v E—Llst 147, 260 F—Pen 118, 250

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 213–14.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*
37 kyndinyaϭc. 48 llann y hadein. 73 dyleadaϭc. 84 kyfuaruvum. 103 madaϭc ny madaϭc ny meder. 115 Regyluab. 120 llu genyd. 134 ryued yϭ di vouoned vin. 143 hygur gegir. 145 blist.

*Teitl*
Yrawdyl honn agant llywelyn du uab y pastard yr wythwyr hynn

## *Dychan i Fadog ap Hywel a’i osgordd*

Gofynnaf i’m Harglwydd, Rheolwr lluyddog,
Am fendith na ddaw i ben, am ddefnydd sylweddol;
Cymeraf, [y] Tad nefol hawddgaraf [ac] urddasol,
Ganiatâd trwy gariad Duw trugarog
Am fod lleferydd tylluan lafoeriog wedi bod yn enllib,
Cwynfan Cilgerran oherwydd celain weflog;
Am fod hefyd fwriad twyllodrus cyfathrach,
Grwgnach Iosedd Grach, bawlyd [a] thuthiog;
Am fod heddiw waedd dreiddgar
Wyth talar ddi-gnwd, anwaraidd [ac] enwog,
[Yn] fugunad [o] ffyrnigrwydd cythreuliaid anwadal,
Campwyr, gormeswyr, haid gachlyd.
Tewyn sy’n haeddu enllib yw[’r] taeog [sy’n darparu] bwrdd ogfaen,
Llwfr yw ei dwrw, un [ohonynt] yw Madog.
Crachlyd ei gefn [fel] cafn [o] uwd llwyd, blin [ei] waedd o newyn,
[Wrth] gyrraedd twlc baedd, ffrâm gramenllyd;
Un gwargrwm, sarff droellog [ei] ?chwrs, gribog [ei] thrwyn,
Gwaywffyn [sy’n] rhaeadrau cach bol llyngyrog,
Un afiach cynhennus, ?tonciwr bratiog,
[Â] llodrau carpiog coes gennog ci asgellog.
Caeth yw’r ail, [a chanddo] bothellau chwydlyd, o’r crefydd,
Cynyddwr pob celwydd, piw baedd gwrychog,
Ceidwad byddin hollol ddiog [a’i] gwedd [yn llawn] anfri,
Blaen gwych y pistyll, rhingyll ymyrrog;
Cadarn y tyngodd [y] swyddog traeanau [o’r] gwaelod
Lef cwynion geiriau i’r grog fendigedig,
Clo [ar] dro lle [bynnag] y bo, [un] bywiog na chlywir [ganddo]
Un gair gwir yn gywir, [y] waywffon seimlyd.
Cerydd i’r trydydd, llyffethair dadleuon,
Cwynau safn anwireddau, cafn mân ac euog,
Cynwrig [a chanddo] farf [o] ddirmyg brigog bwriadus ei lam,
Cythraul fflamiog ei dafod tra cham [ac] agennog,
[Ei] gariad gwirioneddol [at] gist [o arian] yw[’r] grym sy’n rhwygo [oddi mewn iddo], [y] fôn ysgawen ddolurus,
Yn ceisio cwyno am ddernyn [o] geiniog.
Cadwgawn [a chanddo] gwd [o] rawn rheffynnog caled,
Mab cythreulig Cynwrig garw foliog,
Campwr gwych [ei] ffyniant, gwyllt [ei] grefydd,
[Yw’r] pedwerydd [o] gerydd, yfwr maidd [sy’n] feddwyn,

[Un a’i aelodau fel] colofnau [o achos] bwydydd lluosog, plediwr glafoeriog,
Boliog [trwy] odineb, rhwymedig ei gof,
Magwraeth brad cefngam, brawd gwancus troednoeth,
[Un] poeth ei geilliau, un corunog sy’n ŵr annoeth.
Caeth yw’r pumed, lled liwiedig ei ddwyfoch,
Maredudd a’i safn fel cloch, [yr] henwr coch gwgus,
Lleferydd cryf a chlir yw [ei] siarad gwag garw a chrychleisiol,
Un o ddisgyblion mudion Madog.
Carw a ddysgodd boen, amlwg [ei] arwain,
Ger Llanhuadain [mae] sain gyson
[Wrth iddo] fynd yn ôl ac ymlaen (nid arglwydd ardderchog [a] hael mohono)
[I] geyrydd [a] ffyrdd yn llyffetheiriog;
Clywed pwy yw’r chweched, brad ferw poer ewynnog,
[Â] chlwyf [o] ysgum taeogaidd wyneb [mewn] alltudiaeth bawlyd.
Crwth garw [a] llithrig iawn, halogedig [a] huddyglyd,
Crydd tomlyd yn trin pren, crud gwaedlyd [llawn] pechod,
Trwyn [sy’n] ffrwyn dwyllodrus cynllwyn, draenog budreddi,
Corgi, gwarchotgi, cyfaill [y] cwd rhychiog;
Clywed pwy yw’r seithfed, un gwahanglwyfus di-ildio,
[Y] crafwr cnawd yw’r gwaethaf, amlwg ei wythiennau.
Cennad [o] wregysiad mân, un herciog conglog [ei] safn,
Cŷn [sy’n] ceisio twll i’w wanu, dicllon [mewn] twyll;
Cyfrwys yw ei dad ar dwyll gwych,
Sôn am loerigrwydd bradwrus, dellt lleuog iawn.
Gofid nad oedd yn deg, bwrdd llidiog [o] faw,
Clywed pwy yw’r wythfed, pared poerog.
[Y] llwynog cyfarthgar a drewllyd, Madog ap Hywel,
Cythrwfl gefel isel [a] pharhaol,
[A chanddo] farddoniaeth ceiliog letys [ar] dwmpath o us,
Niwl aml ei dwyll, barrug ffyrnig.
Cymered, symuded Madog a’i osgordd,
Y fath wedd aredig [ar] ffordd anffodus;
Bydded iddynt gychwyn, bydded iddynt adael gwlad goediog dirion,
Tlysau glan Aeron a’i glyn urddasol,
[A] chof cyfan yn lân, tir breiniol gloyw,
Lluoedd ffyddlon [a] maith, gwir finteiog;
[Daw] caneuon [o] argae lle mae merched yn fonheddig,
Bri a medd a meirch ewynnog,
Cynnyrch coedwigoedd helaeth a nentydd llawn rhoddion

Celfydd ac adar a braint bonheddig.
Cyffro sy'n rhybudd, nod rheibiog am borfa,
I bob prydydd gwael, llawr llawn llyngyr,
Troëdig [ei] gerdd na fwrio sen dichellgar iawn
(Cefn nenbren) o'i ben pan fo wedi gwylltio,
[Un yn delwi fel] colofn o flaen arswyd, [a chanddo] lwyth caerog [o] ogfaen.
Cyfarfûm â hwn, yn ymgreinio [ar] dywarchen,
Cyfarfod i gael clod un gwyllt cul ei ganol,
[Bu] cyfarch trwy barch bywiog [rhwng] dryw a hebog;
Cyfarfod anghymharus [rhwng] corwg [â] gorchudd croen
A llong fawr ar lawr uwchlaw llanw tonnog;
Cyfarfod anghymharus [rhwng] carw corniog chwim
Ac ysgyfarnog [sy'n] dwyllwr rhwydd [ei] hynt.
Clod gorgynnil [a] thrwsgl o sylwedd blin
Fydd cyfran awenydd tra newynog,
Crymedd cryman trwm, brigog o dan [ei] flanced,
Gwerthyd, bradwr, [un o] ddull drewllyd.
Bydd cân gywrain [yn] atgof mwyaf perffaith [hyd] eithaf
[Yn y] galon hyd Ddydd y Farn heb feirniadaeth fradwrus,
Gwych fydd o achos fy nghynhysgaeth a'm cerddi sylweddol
[Yr] atgofion am f'amodau, fi â Madog.

Ymyrrwr yw Madog, rhincian [ydyw] y mae gofid yn ei feddiannu,
Mae wedi cael anfodd Pedr,
Clwyd ataliedig [a] chloëdig,
Rhes llestr gwag [o] ledr rhychiog.

Ymyrrwr yw Madog, nid yw'n cyrraedd tafarndai gwin,
Crimogau o wenwyn yw [ei] ffyrch haearn,
[Un a chanddo] ddicter dibris heb linach fonheddig,
Mae'n chwydu ac yn chwyrnu'n ddybryd.

Drychiolaeth ddiwerth ei harddel, [un a chanddo] arddyrnau caled a chrin,
Crwth llwyd gwag, tân llwynog,
Taeog rhychiog [a chanddo] gyrn llawn doluriau,
Ellyll o ochrau esgyrn.

Ymyrrwr yw Madog, medr gerdded yn ei gwrcwd,
Crymedd gafr sothachlyd,
Tin bwch budr iawn, eled ymaith,

[Un] gwallgof a’i dwyll gwaedlyd o grefydd.

Mab ?haeddiannol Hywel, sêl huawdl, sefydled ei bwll,
Ei oes hir sydd wedi ei suddo,
Ystlys rynllyd dyniawed,
Truan iawn a main ei led.

Ataliad dinistriol ar dir treth anffortunus,
Trwsiwr [o’r man] lle[‘i] ganed,
Tawed dellt [o] wallgofrwydd tywyll,
Rhostyn a’i ymffrost gwag, ehediad poenus iawn.

Gwter beirdd [o] lyngyr, gollynged ddagrau,
A’i ddwy groes sydd wedi eu torri,
Garw ei fron, ffon lwyd fel lletwad,
Gwallgofrwydd a red o’i dwyll rhewllyd.

Polyn marw yw[’r] carw tenau, rhodd gil dwrn o’i fwriad,
Gwerthyd feddw o faw,
Corn trist [o] risgl, gwisg [fel] llifddor [yn arllwys] twyll,
[Un a chanddo] drwyn rhyw genau creulon iawn.

Ymyrrwr yw Madog, geill â phig crwm
[Beri] dolur [i] gnau ac eirin,
Bilain marwsyth [sy’n] magu llosg eira,
Rhyfedd yw [ei] geg ddifonedd.

Ataliad [ar] hiliogaeth nedd yw[’r] asglodyn [o] benelin Hywel,
[Un o] waed isel [â] barddoniaeth [fel] us,
[Un a chanddo] losg [ym] mron, criafolen boenus,
Rhes llestr ysgarthu, crafwr blin.

Caseais lond ceg [o] enllib gŵr bawlyd iawn
Ei ddwylo a’i liniau,
Cysglyd efel melin,
Madog cas ei enllib [a chanddo] din llifeiriol.

Cesail [ar gyfer] cogail hyll [a chanddo] gefn poenus [llawn] llau,
[A] llawes gwerthwr cennin,
Cydnabyddedig yw [ei] gorn [o] risg [a] chasgl [o] fasgl cas,
[Mae’n] gas gennyf gi [â] choes garpiog.

Cydnabyddedig yw gorchudd [ei] linyn ffrwyn, cynefin a chwerw
Yw [ei] gawl erfin [sy]'n byrlymu'n fustl,
Rhaff grogi [o] wellt, ffon waith [o] eithin,
[Un a chanddo] goes ceiliog croes bigog [a] chrin.

# *Nodiadau*

## *18*

Awdl farwnad i bedwar aelod teulu o Drefynor yw hon.[1] Lleolir Trefynor yng nghwmwd Mebwynion, ryw bedair milltir i'r de-orllewin o Lyn Aeron, cartref Ieuan Llwyd ab Ieuan a'i deulu.[2] O Drefynor yr hanoedd teulu Ellylw, mam Ieuan Llwyd,[3] ond gyda'i chenhedlaeth hi a'i dwy chwaer daw ach y teulu i ben.[4] Ymddengys mai marwnad gwŷr a drigai yn Nhrefynor yn y genhedlaeth nesaf yw'r gerdd hon, ond ni wyddys i sicrwydd pwy oeddynt. Efallai y gellid eu cysylltu â Gruffudd ap Cadwgan Fantach, ewythr Ellylw,[5] awgrym a fyddai'n esbonio pam y gelwid Gruffudd y gerdd hon yn 'Fychan'. Ond dichon nad oedd perthynas glòs rhwng y gwŷr hyn a'r teulu a drigai yno yn y genhedlaeth flaenorol.

Ni chyfeirir yn y gerdd at unrhyw ddigwyddiadau y gellir eu dyddio, a phetrus yw'r awgrym fod y Gruffudd Fychan a enwir ynddi yn cymryd rhan yng ngweinyddiaeth y cwmwd.[6] Nid yw'n gwbl amlwg ychwaith a fu'r gwŷr a enwir ynddi farw ar yr un pryd.

Bu'r gerdd fer hon eisoes yn destun canmoliaeth oherwydd ei chrefft amlwg.[7] Fe'i hysgrifennwyd yn nhraddodiad y Gogynfeirdd, ac fel y disgwylid, canmolir yr uchelwyr am eu haelioni, eu bri wrth ryfela a'u cartref llewyrchus. Dechreuir trwy ymbil ar Dduw, a mynegir tristwch personol y bardd o golli noddwyr a chyfeillion. Dwyseir y teimlad o golled trwy ailadrodd *gwedy* ar ddechrau cynifer â naw llinell, sef bron chwarter y gerdd gyfan.[8] Diffyg sylwedd a pharhad y byd hwn yw un o'r prif themâu,

[1] Fe'i cyhoeddwyd eisoes yn MA[2] 280 a Bl B XIV 146–7. Yn H 229 rhoddir y teitl *ll. ddu ap y pastard Ae* [*cant y sseith kedyrn?*]. Ni fedrir cadarnhau o gwbl mai dyna sydd yn y llawysgrif, a dylid nodi hefyd mai pum gŵr a enwir yng nghorff yr awdl, ac nid oes unrhyw reswm i dybio ei bod yn anghyflawn.

[2] Ar Lyn Aeron a'r cyffiniau, gw. uchod tt. 10–12.

[3] Gw. nodyn cefndir cerdd 3 uchod.

[4] Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Cadwgan Fantach'.

[5] Gw. *ib.*, ond nid oes cofnod yn yr achau i ddangos i Ruffudd ymbriodi na magu plant. Gw. hefyd isod ll. 27n.

[6] Gw. *ib.*

[7] Fe'i gelwir yn 'awdl gofiadwy' gan Mr Daniel Huws yn 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LlGC xxii (1981–2), 17; 'Awdl rymus iawn sydd heb gael y sylw mae'n ei haeddu' yw barn Dafydd Johnston yn Bl B XIV 15.

[8] Ceir adlais yma o'r ailadrodd tebyg o *gwedy* yn 'Englynion y Beddau', gw. Thomas Jones, 'The Black Book of Carmarthen "Stanzas of the Graves" ', PBA liii (1967), 120, englynion 14 a 15.

ac wrth gymharu'r *byd breuol* a'r *wenwlad dragywydd* mae'r gerdd yn cyrraedd ei huchafbwynt.

Gwawdodyn yw mesur yr awdl a cheir ynddi gymeriad llythrennol a gynhelir ar ei hyd. Cynghanedd sain a geir ym mhob llinell ac eithrio llinell 29 lle ceir cynghanedd groes. Ceir enghreifftiau o gynghanedd sain deirodl (e.e. llau. 10, 16 a 18), ac un o gynghanedd sain gadwynog (ll. 21).

1 **goleuad** Fel y gair *golau*, gall hwn fod naill ai'n e. neu'n a., gw. G 553 a GPC 1449.

3 **ar hwntan** Ar y gystrawen *ar* + be., gw. GMW 186.

6 **gwawd gny** Llsgr. C *gwawtgny*. Fe'i rhestrir yn betrus yn G 635 fel cyfuniad o *gwawd* a *cny* (ffurf l. ar *cno*); rhestrir *gwawtgno* hefyd yn GPC 1606, ond heb ystyr. Un ystyr bosibl i *gwawdgny* fyddai 'cnoadau barddoniaeth', cf. yr ymadrodd *cnoi gwawd* (GDG[3] 165 (62.18)) sydd, yn ôl R. Bromwich, yn golygu '*to chew*' sef '*to compose praise* (*poetry*)' yn *Dafydd ap Gwilym*: *A Selection of Poems* (Llandysul, 1982), 201. Fodd bynnag, cynigir yn betrus mai cywasgiad o *gwawd a gny* sydd yma, sef 'bydd barddoniaeth yn cnoi' neu yn 'peri poen'. Cynigir ymhellach yn G *l.c.* y dylid diwygio'n *gwaetkny*, a gellid cymharu *gwaetkny* 'cnoadau gwaedlyd' yn GCBM ii, 9.69 â'r ffurf un. [*g*]*waetgno* yn GGH 377 (115.62). Posibilrwydd arall yw fod yma gymysgu rhwng -*y* ac -*u*, gw. WG 13, ac y dylid darllen *gwawtgnu* 'cnu o foliant'.

7 **brysiad** Cf. R 1241.24–5 *ymdreigyl brat y6 bryssyat bressen* (Casnodyn). Dilynir awgrymiadau petrus G 81 a GPC 341 mai 'yn mynd heibio'n gyflym, diflanedig' yw'r ystyr.

8 **waethwaeth** Nid oes arwyddocâd arbennig i'r ffurf dreigledig yma, gw. G 602 d.g. *gwaeth*. Efallai y dylid adfer y ffurf gysefin, *gwaethwaeth*, yma o ystyried y cymeriad llythrennol *g*- a gynhelir bron yn ddi-dor drwy'r awdl.

**o'i hadeiliad** Cymerir bod y rh.m. yn cyfeirio at *arfaeth* y ll. flaenorol. Fel e?g. y rhestrir y gair yn G 8, ond ceir enghreifftiau ohono fel eb. yn y 14g., gw. GPC 192.

10 **dehir** Amrywiad ar *dihir* 'drwg, diffaith, dybryd, blin', gw. G 351 a GPC 1008–9.

**dead** Ffurf amrywiol ar *dyad* a geir yn 19.23 isod; am y ddwy ffurf, gw. G 406 d.g. *dyat*[1] a GPC 1113.

11 **mygais magiad** Gall *magiad* olygu un ai 'magwraeth, cynhaliaeth' neu 'meithrinwr', gw. GPC 2317. Ar y diffyg treiglad meddal i wrthrych bf. yn diweddu yn -*ais*, yn groes i'r arfer gyffredin, gw. Treigladau 202. Rhestrir yr enghraifft hon o *mygais* yn GPC 2529 d.g. *mygaf*[2] '?darparu, paratoi', ond gwell, efallai, yw ei gysylltu â'r gair *myg* 'gogoneddus,

anrhydeddus' yma a rhoi iddo'r ystyr 'anrhydeddu, canmol'. Os felly, gellid ei gymharu â *magiad myg* 'meithrinwr anrhydeddus' a geir mewn awdl gan Drahaearn Brydydd Mawr, gw. GGDT 13.52.

**llwyth Cadfor** E.prs. neu e. lle yw *Cadfor* yn ôl G 90. Digwydd y cyfuniad *llwyth Cadfor* ddwywaith yng ngwaith y Prydydd Bychan, GBF 14.12 *Hydwyth cadarnllwyth Caduor*, *ib*. 19.12 *llwyth cadarn Cadfor* a hefyd yn R 1355.30 *ll6yth ragor katuor* (y Prydydd Breuan). O Edeirnion y daw y teulu a restrir yn P.C. Bartrum: WG1 'Cadfor', a go brin fod unrhyw gysylltiad rhyngddo a'r teulu hwn a drigai yn Nhrefynor. Gwell fyddai derbyn yr awgrym a geir yn GBF 14.12n mai amrywiad ar yr enw *Cydifor* yw *Cadfor* y ll. hon. Fe'i deellir, felly, yn gyfeiriad naill ai at Gydifor ap Gwaithfoed neu at Gydifor ap Dinawal, cyndeidiau nifer o deuluoedd pwysig Ceredigion. Yr oedd Ieuan Llwyd ab Ieuan ei hun yn hanfod o linach Cydifor ap Gwaithfoed, gw. uchod tt. 9–10.

12 Ceir adlais yn y ll. hon o'r canu gwirebol a'r canu natur cynnar Cymraeg, cf. EWGP 18–42. Defnyddiwyd delweddau cyffelyb gan amryw o'r Gogynfeirdd, yn eu plith Hywel ab Owain Gwynedd a wnaeth ddefnydd helaeth o fyd natur mewn gorhoffedd, gw. GLlF cerdd 6. Mae dwy gynghanedd yn y ll. hon: cynghanedd sain, a chynghanedd groes gydag *f* led-lafarog.

13 **Llywelyn** Aelod hŷn o deulu Trefynor, yn amlwg.

14 **Gwilym** Aelod arall o'r teulu a ganmolir am ei ymddygiad yn y llys.

15 **chweddl ceneddl** Am y cyd-drawiad hwn, cf. R 1240.1 *Bv oerchwedyl kenedyl* (Casnodyn) a GBF 25.62 *Goruynt chwetyl kenetyl* (Llygad Gŵr); gw. G 129 d.g. *keneδ(y)l* am ragor o enghreifftiau.

16 **pensel Hywel** 'Baner fechan, lluman bychan' yw *pensel*, gw. GPC 2759. Ceir cyfeiriadau at bensel un o filwyr pennaf y ganrif, Syr Hywel ap Gruffudd 'Hywel y Fwyall', gan nifer o feirdd, gw. GSRh 6.34n. Mae'n amlwg ei fod yn rhan glodwiw o offer uchelwr o'r cyfnod.

21 **gwenllys** Eb. oedd *llys* yn y cyfnod hwn, gw. GPC 2276. Efallai fod yma chwarae ar ystyr yr enw *Trefynor*, sef 'tref farmor', ond dichon mai cyfeiriad at yr arfer o wyngalchu llysoedd a geir yma. Cf. GIG 47 (X.56) *Perllan*, *gwinllan ger gwenllys* yn y disgrifiad enwog o lys Owain Glyndŵr yn Sycharth, a gw. Iorwerth C. Peate, *The Welsh House*: *A Study in Folk Culture* (Liverpool, 1944), 29. Wrth gwrs, gall hefyd mai'r ystyr ffigurol 'bendigedig' sydd i *gwen* yma, cf. *gwenwlad* ll. 39 isod.

22 **Trefynor** Gw. y nodyn cefndir uchod.

**geirior** Cymerir mai'r elfen gyntaf yw *gair* yn yr ystyr 'moliant, barddoniaeth', cf. 19.91n.

23 **gwledd a medd** Digwydd y geiriau hyn gyda'i gilydd yn fynych iawn yng ngwaith y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd, e.e. CA 14 (ll. 356) *gwerth eu gwled o ved*; GMB 29.27 *Aduwyn met a g6let g6ledic hylwyt* (Einion ap Gwalchmai); R 1377.39 *med gwled gloe6* (Dafydd y Coed).

24 **gwesti gwastad** Cyd-drawiad cyffredin, gw. GSRh 12.259n am enghreifftiau pellach, a chymharer y ll. hon ynghyd â ll. 32 â GDG[3] 31 (12.20) *Llety anghaead wastad westi*.

25 **gwelai a'i gwelas** Cf. GCBM ii, 9.34 *A'e gweles, gwelei ryueta6d*. Cymerir bod y rh.m. yn cyfeirio ymlaen at wrthrych y f. *gwelas*, sef *cedolblas cad*, gw. GMW 56–7.

27–8 **Gruffudd … / Fychan** Bu rhyw Ruffudd Fychan yn gwasanaethu fel *reeve* ym Mebwynion am gyfnod byr yn 1315, gw. R.A. Griffiths: PW i, 507. Dichon hefyd mai ef yw'r Gruffudd Fychan ap Gruffudd a fu'n rhingyll yno yn yr un flwyddyn, ac a oedd, dan yr enw Gruffudd ap Gruffudd ap Llewelyn, yn noddwr eglwys Llanybydder ym mis Chwefror 1322, gw. *ib*. 502. Ond os felly, ni ellir ei gysylltu â Gruffudd ap Cadwgan Fantach, gw. y nodyn cefndir uchod. Fodd bynnag, yr oedd Gruffudd Fychan yn enw cyffredin iawn yn y cyfnod hwn, ac afraid dweud nad oes unrhyw sicrwydd fod cysylltiad rhwng y gwŷr hyn o'r un enw.

30 **rhieni** Gall hefyd olygu 'cenedl, disgynyddion', gw. Thomas Jones, 'Nodiadau Cymysg', B ix (1937–9), 131–3.

31 **aros** Gall hefyd olygu 'aros', 'oedi', 'parhau' a 'gwrthsefyll', gw. G 42 a GPC 202–3.

**cydeced** Fe'i deellir yn radd gyfartal yr a. *teg*, cf. G 198, er na ddiffinnir y ffurf fel y cyfryw yno.

36 **gwedy nad** Ar y gystrawen hon, gw. GMW 237.

38 **seithradd prelad** Erbyn diwedd yr Oesoedd Canol, credid yn gyffredinol fod saith gradd o eglwyswyr, gw. ODCC[2] 1004. Yr oedd y beirdd hefyd yn hoff iawn o'r rhif saith, ac yr oedd yn un o rifau pwysig Cristnogaeth yr Oesoedd Canol, gw. YMTh 58 (29–35) a'r nodyn *ib*. 65. Fesul saith y rhifir archangylion, gweddïau, sêr, planedau, salmau a rhinweddau yn GGH 222 (69.75–90).

40 **lle bydd hael Llywydd** Cymerir mai dibeniad yw *hael* yma; ond mae'n bosibl y dylid deall *hael* yn a. yn goleddfu *Llywydd* a bod yma enghraifft o galediad *l* + *l* > *ll*, gw. Treigladau 41.

## *19*

Mae arddull y gerdd ddychan hon yn nodweddiadol o nifer o gerddi dychan a gadwyd yn Llyfr Coch Hergest. Ceir ynddi ddau ganiad ar fesur ac odl

wahanol, a chan fod llinell olaf ond un y caniad cyntaf yn adleisio'r ail linell, gellid dadlau mai cerdd annibynnol yw'r englynion.[1] Ond gan mai'r un yw gwrthrych y toddeidiau a'r englynion yn ôl pob tebyg, sef Madog ap Hywel, a chan fod cyrch-gymeriad yn cysylltu'r naill wrth y llall, cymerir mai dwy ran yr un awdl ydynt.

Prif darged y dychan yw gŵr o'r enw Madog ap Hywel, a'r ail, fe ymddengys, yw Cadwgawn ap Cynwrig. Ni wyddys i sicrwydd pwy oedd Madog, ond gellir lloffa rhywfaint amdano o'r gerdd ei hun. Mae'r ffaith fod Llywelyn Ddu yn mynegi ei oruchafiaeth drosto droeon yn awgrymu mai bardd oedd Madog hefyd, a chadarnheir hyn gan gyfeiriadau megis *awenydd rhynewynog* (ll. 92) a *gwawd eisin* (ll. 136), ac o bosibl *cof* (ll. 40). Os yw'r cyfeiriad at ei ddisgyblion yn llinell 46 i'w ddeall yn llythrennol, ymddengys ei fod yn athro barddol hefyd.[2] Mae'n bosibl ei fod hefyd yn grefyddwr o ryw fath (gw. llau. 114 a 123 ac o bosibl l. 100).

Fodd bynnag, os yw'n wir mai bardd oedd Madog, nid ymddengys i unrhyw enghraifft o'i waith gael ei chadw. Ni ellir ei gysylltu â'r ddau fardd o'r enw Madog a oedd yn eu blodau yn yr un cyfnod gan mai Gruffudd oedd enw tad Madog Benfras, ac nid oes dim i awgrymu mai eglwyswr oedd Madog Dwygraig.[3] Fodd bynnag, rhestrir yr enwau Madog ap Hywel neu Madog ap Hywel Foel,[4] ynghyd â'r Cadwgawn ap Cynwrig a grybwyllwyd uchod, gan John Davies yn ei restr o feirdd ar ddiwedd D. Priodolir y dyddiad 1380 i'r ddau, ac mae hynny'n cyd-fynd yn eithaf â'r dyddiad 1400 a roir i Lywelyn Ddu yn yr un man. Ond ni ddylid rhoi llawer o bwys ar ddyddiadau D, a dichon ei fod wedi cynnwys enwau Madog a Chadwgawn yn ei restr ar sail y gerdd hon yn unig.

Mae'n bosibl fod cyfeiriadau eraill at y gwŷr hyn yng nghanu dychan y cyfnod; dichon eu bod yn wrthrychau barddoniaeth mwy nag un bardd. Dychanodd Iolo Goch, er enghraifft, ŵr o'r enw Madog ap Hywel mewn awdl sydd hefyd wedi ei chadw yn y Llyfr Coch.[5] Ymddengys mai eglwyswr oedd hwn hefyd,[6] ac fe'i dychenir gan Iolo am ei gybydd-dod. Ni wyddys pryd y canwyd y gerdd hon, ond gan fod Iolo yn ei flodau *c*. 1345–*c*. 1397, mae'n siŵr iddo fod yn lled gyfoes â Llywelyn Ddu.[7]

[1] Felly y'u cymerwyd gan Mr Daniel Huws wrth sôn am awdlau Llywelyn Ddu yn 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LlGC xxii (1981–2), 23n48.

[2] Gw. isod ll. 46n.

[3] Gw. ByCy 572, 573.

[4] Tybed ai mab yw hwn i Hywel Foel ap Griffri ap Pwyll Wyddel? Canodd Hywel Foel ddwy gerdd yn gofyn am ryddid Owain ap Gruffudd ap Llywelyn Fawr yn y cyfnod 1255–77; gw. GBF cerddi 22 a 23, wedi eu golygu gan Dr Brynley F. Roberts.

[5] Gw. GIG 170 (XXXVIII). Er mai 16 ll. yn unig sydd yn y gerdd hon, mae cryn debygrwydd rhyngddi ac awdl Llywelyn Ddu. Ceir cymeriad llythrennol ar *c*- drwyddi, ac fe gynnwys ambell drawiad tebyg i rai Llywelyn, e.e. *Cystuddfab Hywel* (ll. 4) gan Iolo, a *Cythreulfab Cynwrig* (ll. 36) gan Lywelyn.

[6] Gw. GIG 373.

[7] Gw. *ib*. xix.

Yn y Llyfr Coch hefyd y cadwyd dychan gan yr Ustus Llwyd i'r eglwyswr cybyddlyd *Madawc corunawc*.[8] Ymddengys o'r disgrifiad *rimwr puteineit* ei fod yntau'n fardd.[9] Yr oedd yr Ustus Llwyd yn ei flodau tua chanol y bedwaredd ganrif ar ddeg ac nid yw'n amhosibl, felly, mai'r un yw'r Madog hwn â'r Madog sy'n dioddef min tafod Llywelyn.[10]

Yr ail ŵr yn y gerdd y cawn wybod enw ei dad yw Cadwgawn ap Cynwrig. Fel y gwelwyd eisoes, fe'i rhestrir gyda Madog ap Hywel yn rhestr John Davies o feirdd ar ddiwedd D. Ceir awgrym yn G 93 (d.g. *Kadwgawn*[4]) mai efe yw'r Cadwgawn Ficar a ddychanwyd gan Drahaearn Brydydd Mawr.[11] Fodd bynnag, awgryma llinellau 41 a 42 yn awdl Llywelyn Ddu mai aelod o'r Urdd Ffransisgaidd, sef Brawd Llwyd, ydoedd Cadwgawn. Ni fyddai'n gweddu i Frawd Llwyd fod yn berchen ar dŷ, ac ni fyddai ganddo fab yng nghyfraith fel y Cadwgawn a ddychenir gan Drahaearn. Nid oedd rhwystr i'r Brodyr Llwydion farddoni, fodd bynnag. Yr oedd y Ffransisgiaid ledled Ewrop yn hoff o farddoni yn yr ieithoedd brodorol,[12] ac ymddengys mai Brawd Llwyd oedd y bardd Madog ap Gwallter a ganodd ddwy awdl i Dduw yn ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg.[13] Eto i gyd, byddai'r Brodyr Llwyd yn aml yn destun gwawd gan lenorion y cyfnod gan eu bod, fel rheol, yn hanfod o haen is o'r gymdeithas na'r mynaich.[14]

Yn ByCy 59, awgrymir mai Cadwgan ap Cynwrig oedd enw llawn Gogynfardd a elwir yn Cadwgan Ffôl. Nid oes fawr o wybodaeth ar glawr am hwn, ac un englyn yn unig a briodolir iddo. Dathliad ydyw o fuddugoliaeth dros y Saeson mewn brwydr yng Ngwynedd, a dichon ei fod yn ymwneud â chyfnod cyn diwedd y goresgyniad Edwardaidd. Os felly, ymddengys fod Cadwgan Ffôl yn ei flodau yn rhy gynnar i fod yr un gŵr â Chadwgawn y gerdd hon, ac efallai mai ymgais i briodoli cerdd i'r Cadwgan ap Cynwrig a restrir yn D sydd wrth wraidd y traddodiad hwn.

Egyr y gerdd yn null awdlau moliant Beirdd y Tywysogion, gan gyfarch Duw a gofyn iddo am ysbrydoliaeth, ond buan iawn yr ymddengys mai dychanu yw diben y bardd yn hytrach na moli. Ceir amryw gyfeiriadau at enllib, brad a dichell, ond nid yw'n gwbl glir beth yn union yw achos yr holl gyhuddiadau. Madog sy'n cael ei ddychanu yn gyntaf, ac fe'i dilynir yn eu

[8] Gw. Dafydd H. Evans , 'Yr Ustus Llwyd a'r Swrcod', YB xvii (1990), 70.

[9] Gw. *ib*.

[10] Cadwyd hefyd englyn gan Gonyn Coch i ryw Fadog anhysbys, gw. GBDd Atodiad ii, a'r nodyn, *ib*. 68.

[11] Gw. GGDT cerdd 12. Ceir hefyd englyn dychanol i ryw Gadwgawn gan Ddafydd y Coed yn R 1361.1–3, ond nid oes dim yng nghynnwys y gerdd honno i awgrymu mai'r un yw â'r Cadwgawn hwn ychwaith.

[12] Ar y Ffransisgiaid a'r traddodiad barddol, gw. D.J. Bowen, 'Y Bardd a'r Brawd Llwyd, GDG, 137', LlCy x (1968–9), 116–18.

[13] Gw. golygiad Rhian Andrews o waith Madog ap Gwallter yn GBF cerddi 32–5.

[14] Ceir dwy gerdd ddychan gan Iolo Goch i'r Brodyr Llwyd, gw. GIG 153–60 (XXXIV a XXXV).

tro gan saith o'i gyd-deithwyr. Ar ôl canu am dros drigain llinell, dychwel sylw'r bardd at Fadog, ac apelia ar i'r gynulleidfa ei alltudio ef a'i osgordd o ddyffryn Aeron. Mewn gwrthgyferbyniad, ceir disgrifiad o fendithion yr ardal, ac wedyn ddisgrifiad o'r cyfarfod a fu rywdro rhwng Madog a Llywelyn Ddu ei hun. Ym marn Llywelyn yr oedd mor unochrog â chyfarfod rhwng corwg a llong fawr neu rhwng carw ac ysgyfarnog. Diwedda'r caniad trwy ddatgan y pery'r atgof am farddoniaeth Llywelyn a'r hyn a fu rhyngddo ef a Madog yn hir, diolch i'w ddawn ef ei hun fel bardd. Yn yr englynion sy'n dilyn, dychwelir i ddychanu Madog am ffurf afluniaidd ei gorff ac am bob math o anhwylderau eraill. Ychydig o bwys a roddir ar frawddegu yn y gerdd hon, ac mae'r arddull yn ddwys ac yn aml yn dywyll. O ganlyniad, nid yw llif y syniadau bob amser yn eglur, ond dichon fod arddull astrus yn elfen fwriadol mewn cerddi dychan fel hon.

Nid yw'n glir beth yn union oedd amcan Madog ap Hywel wrth deithio'r wlad ynghyd â'i osgordd o ddilynwyr. O gofio'r holl gyfeiriadau atynt fel crefyddwyr, efallai eu bod yn pererindota. Gall hefyd mai mynd ar gylch yta yr oeddynt, arfer a oedd, mae'n debyg, yn dra chyffredin ymysg clerwyr y cyfnod hwn.[15] Byddai hynny'n esbonio rhai o'r cyfeiriadau at gydau ac at ogfaen. Ysbail bitw cylch yta aflwyddiannus fyddai'r sachau gweigion rhychiog a'r grawn o safon isel.

Cyfres o doddeidiau yw caniad cyntaf yr awdl hon a nodwedd arbennig arno yw'r modd y cynhelir y brifodl yn orchestol am 98 o linellau. Cynhelir y cymeriad llythrennol *c-* trwy gydol y caniad, ac eithrio mewn naw llinell (ail linell toddaid bob tro). Cynghanedd sain a geir ym mhob llinell ond un, a cheir amryw o enghreifftiau o gynghanedd sain deirodl (e.e. llau. 38, 55 a 62) a llinellau o gynghanedd sain ddwbl (llau. 10 a 113). Yr unig eithriad yw llinell 14, lle ceir cynghanedd groes. Tri englyn ar ddeg a geir yn yr ail ganiad, gyda chymeriad llythrennol rhwng llinell gyntaf y paladr a'r esgyll ym mhob un ac eithrio'r ail. Sain yw'r mwyafrif llethol o gynganeddion yr englynion hefyd, ond ceir hefyd enghraifft o gynghanedd draws (ll. 146) a chynghanedd lusg (ll. 141).

1 **Cyfarchaf i'm Naf …** Dechreuad sy'n dra chyffredin yn awdlau moliant ffurfiol Beirdd y Tywysogion, e.e. GCBM i, 7.1 *Kyuarchaf y'm Ri rad wobeith*; GLlLl 1.1 *Kyuarchaf, Duw naf, neua6l Dad—keli*; ac mewn canu dychan diweddarach, e.e. R 1337.2 *Kyfuarchaf ym naf nefa6l oestric h6yl* (Hywel Ystorm). Yma, rhoddir y sawl a gyferchir dan reolaeth yr ardd. *i*, a'r hyn y gofynnir amdano (*Cynnydd ni dderfydd*, ll. 2) yn wrthrych uniongyrchol.

[15] Gw. GBDd 66.

2 **defnydd deifnog** Cyd-drawiad cyffredin, cf. GCBM i, 12.5 *Haetws deifnyaỽc ri defnyt*; GBF 30.40 *Gorffwyllaỽc enwaỽc deifnyaỽc defnyd* (Iorwerth Fychan); cf. hefyd isod ll. 97.

5 **tulluan** Cymerir bod yma enghraifft o gymathiad, sef *y* ... *u* > *u* ... *u*, gw. GMW 3.

6 **Cilgerran** Yng ngogledd sir Benfro ger Afon Teifi, gw. WATU 43, 268. Dyma, o bosibl, fan cychwyn taith Madog a'i gymdeithion. Mae'n bosibl hefyd fod yma chwarae bwriadol ar ystyron tebyg *cwynfan* a *geran* 'sgrechian'; ar *geran* gw. G 528 a GPC 1394 d.g. *gerain*.

8 **Iosedd Grach** Ni wyddys at bwy y cyfeirir yma ond y tebyg yw mai cymeriad cyfoes â'r bardd ydyw. Digwydd *Iosedd* fel ffurf amrywiol ar *Joseff* mewn awdl i Dduw gan Elidir Sais, GMB 23.18, *O Iessu y traethỽys Iossed*, a gw. *ib*.n; nid yw'n glir ai cyfeiriad at dad yr Iesu, mab Iacob, neu Joseff o Arimathea yw hwn. Yr oedd gan yr olaf le amlwg yn nhraddodiad llenyddol Cymru, gw. TYP[2] 413–14. Mae'n debyg mai amrywiad ar yr enw yw'r *Iasseth* a geir yn achau mam Cristin, gwraig Owain Gwynedd, gw. EWGT 97; ceir yno'r amrywiadau pellach *Iasedd*, *Iassodd* a *Siasedd* a cheir y ffurf *Sioseth* yn TA 240 (LX.29–30).

**twthach** Unig enghraifft ar slipiau Geiriadur Prifysgol Cymru. Ceir *twthachû* yng ngeiriadur TW d.g. *fœdo*, sef 'baeddu, trochi' a chymerir ei fod yn a. o'r un bôn â'r f. honno.

9 **hyddewog** Unig enghraifft a derbynnir awgrym petrus GPC 1957 mai 'treiddgar' yw'r ystyr.

10 **wyth dilwyth dalar** Cf. GGDT 13.1 *Yng ngŵydd wyth tylwyth talar* (Trahaearn Brydydd Mawr) ac *ib*.n.

11 **cymrefial** Unig enghraifft. Gellid ei ddeall yn a. yn golygu 'yn brefu, croch, rhuadwy', gw. G 237, GPC 769, ac aralleirio 'Natur rhuadwy cythreuliaid anwadal'.

12 **hydomog** Cyfuniad o'r geiryn cryfhaol *hy-* a'r a. *tomog*. Dyma'r unig enghraifft o'r gair hwn a geir yn GPC 1952.

13 **egfaenfwrdd** Cymerir mai 'bwrdd bwyd' yn benodol sydd yma. Felly, ergyd y gair yw mai bwytawr neu ddarparwr ogfaen yw'r gwrthrych.

14 **any** Ffurf ar *anhy* 'ofnus, gwylaidd, llwfr', gw. G 29. Cywesgir *any ei* yn *any'i* er mwyn hyd y ll.

**ymodwrdd** Sef 'twrw, helynt', gw. PKM 37 (ll. 20).

**Madog** Y tebyg yw mai'r Madog ap Hywel a enwir ymhellach yn yr awdl yw hwn.

15 **llwydiwd** Cyfuniad o *llwyd* ac *iwd*, ffurf Cym.C. ar *uwd*, gw. WG 42, 147, L&P 13n1 a GPC 2241.

16 **mynfaedd** Mae darlleniad llsgr. B yn aneglur a gellid darllen *mynuaed* neu *mynnaed*, gan ei bod yn anodd iawn gwahaniaethu rhwng *u* ac *n* yn y llsgr. hon. Darllenwyd y ffurf gyntaf gan John Davies yn llsgr. C, a'r ail gan J. Gwenogvryn Evans yn R 1353.16–17. Ni restrir y naill ffurf na'r llall yn GPC, ond digwydd yr ail ffurf yn R 1362.10–11 *ka6ell mynnaed tec* (y Mab Cryg). Gall mai a. yn disgrifio cawell ydyw yno, a byddai hynny hefyd yn gweddu yma i ddisgrifio twlc adfeiliog (neu ddyn o ymddangosiad tebyg) sy'n cael ei gymharu â *car*, sef 'ffrâm, yr hyn y saif peth ynddo', yn yr un ll. Fodd bynnag, derbynnir mai'r ffurf gyntaf, sef cyfuniad o *myn* a *baedd*, sy'n gywir yma: cf. *mynfwch* 'bwch gafr' a ddefnyddir mewn cyd-destun difrïol yn R 1347.10, gw. GPC 2537 a gw. ymhellach LEIA M-38 ar y ffurf gytras H.Wydd. *menn* '"petit d'un animal" surtout "chevreau" '. Nid oes cystal cynghanedd o dderbyn y ffurf hon, ond gellir tybio bod yr *f* yn lled-lafarog, cf. uchod 18.12.

**car** Defnyddid geiriau megis *car*, *rhwyll* a *latys* yn fynych mewn dychan sarhaus, cf. llau. 62, 121, GGDT 13.83 a GDG$^3$ 61 (21.39).

17 **treyn** Yr unig enghraifft a nodir ar slip yng nghasgliad Geiriadur Prifysgol Cymru. Yn betrus cymerir mai ffurf ydyw ar *traen*, benthyciad o'r S. '*train*' (gw. EEW 195), yma'n golygu 'cwrs, hynt'. Neu a ddylid darllen *tre yn* (wedi ei gywasgu i *tre'n* er hyd y ll.) a'i ddeall yn enghraifft o *tref* wedi colli'r *f* olaf (gw. WG 180)?

**crybach** Ffurf ar *crebach*, sef 'crebachlyd', gw. G 173 d.g. *crepach* a GPC 584.

**trwyn gribog—wrneidr** Gall fod hwn yn cyfeirio at drwyn trumiog neu uchel, neu gall fod yn ddisgrifiad o dyfiant cennog fel sydd ar neidr, cf. T 23.25–26 *Neidyr vreith griba6c* a gw. GPC 596.

18 **cachreeidr beleidr** Mae'r cyd-drawiad *peleidr reeidr* yn un cyffredin yng nghanu'r Gogynfeirdd mewn cyd-destun milwrol am waywffyn yn achosi rhaeadrau o waed, gw. GSRh 4.17n (Rhisierdyn).

**llyngerog** Amrywiad ar *llyngyrog*, a'r enghraifft gynharaf o'r gair a nodir yn GPC 2269.

19 **cyrpus** Gall fod naill ai yn e. neu yn a., gw. G 265. Dyma'r enghraifft gynharaf o'r gair hwn yn GPC 809.

**sallodr** Yr unig enghraifft a nodir ar slip yng nghasgliad Geiriadur Prifysgol Cymru. Cynigir yn betrus ei fod yn gyfuniad o fôn y gair *sallwyr* a'r terfyniad gweithredol *–awdr*.

20 **Carplodr coes gallodr ci asgellog** Cf. R 1274.18–19 *G6rach gallawdyr groenlla6dyr grauellin hora6c* (Madog Dwygraig).

**asgellog** Cyfeiriad naill ai at flew neu wallt blêr, neu at asennau yn dangos trwy'r croen, cf. ll. 110 a gw. G 44.

21 **chwydail** Dilynir awgrym G 282 d.g *chwŷt* a GPC 860 mai ll. *chwydalen* 'pothell' yw'r gair hwn.

**o'r crefydd** Nid yw ystyr y ll. yn eglur o gwbl, ac yn betrus cymerir mai *Caeth yw'r ail … o'r crefydd* yw'r frawddeg a'i bod yn golygu 'Caeth yw'r ail [ŵr] … o'r [neu o bosibl 'i'r'] urdd eglwysig'. Ymddengys fod y ll. wedi achosi penbleth i Lloyd-Jones yntau oherwydd yn G 171 cydir yr ymadrodd *o'r crefydd* ganddo wrth yr a. *chwydog*, ond *ib*. 282 cysylltir *chwydog* wrth *chwydail*.

22 **cynnydd** Gall hefyd mai ffurf 3 un.pres.myn. y f. *cynyddu* sydd yma. Awgryma orgraff y gair yn llsgr. B, *cynyd*, y gall mai e. *cynydd* sydd yma, sef 'cynydd, ceidwad y cŵn'; ond yn ôl G 259 a 263, gall *cynnydd* a *cynydd* gynrychioli'r naill air neu'r llall.

23 **Ceidwad cabl ddyad cwbl ddiog—wersyll** Gall mai sangiad rhwng *ceidwad* a'r e. *gwersyll* sy'n ddibynnol arno sy'n achosi'r treiglad meddal i *gwersyll* yma. Ond trwy dderbyn yr ystyr 'gwarchodlu, llu, byddin' ar ei gyfer (gw. GPC 1646), gellid cymryd ei fod yn treiglo ar ôl a.: 'llu cwbl ddiog'. Y 'gwersyll' yn yr achos hwn fyddai Madog a'i osgordd.

24 **rhyngog** Ymddengys mai yn y ll. hon ac yn llau. 99, 103, 111 a 131 yn unig y cadwyd pob enghraifft o'r gair hwn ar wahân i R 1030.36 *bit rynga6c cleirch*. Anodd yw cael ystyr foddhaol o'i gysylltu â bôn y f. *rhyngu* (*bodd*), felly cynigir yn betrus mai bôn y ffurf hon yw'r arddodiad *rhwng*. Posibilrwydd arall fyddai ei ddeall yn ffurf ar *rhengog* 'rhesog, streipiog' neu hyd yn oed yn gywasgiad o *rhygyngog* 'llamsachus', &c.

25 **swyddog—traeanau** Cymerir mai dyma oddrych y ll. hon. Yr oedd *traean* yn uned bwysig yng Nghyfraith Hywel Dda, gw. GMWL 279 d.g. *trayan*.

27 **lle y bo** Cywesgir er mwyn hyd y ll.

29 **daddleuau** Ceir rhychwant eang o ystyron i'r gair hwn mewn Cym.C., megis 'cyfarfod, cyngor … damwain, trefn, cwrs, cyngaws, cyfraith, ymryson, achos, achos cyngaws, plaid, ple', gw. G 285.

30 **Cwynau mineuau, cafn maneuog** Tywyll iawn yw'r ffurfiau *mineuau* (llsgr. B *mineueu*) a *maneuog* (llsgr. B *maneva6c*)—ni restrir hwy yn GPC ac ni chafwyd yr un enghraifft arall ohonynt. Nid yw hi ychwaith yn glir ai *mineuau* a *maneuog* ynteu *minefau* a *manefog* yw'r ynganiad. O dderbyn y cyntaf, a'u hystyried yn eiriau cyfansawdd, ceid *min*, sef 'ceg' neu 'ochr', ac *eueu* neu *euau*, ffurf l. *au* 'yr afu', gw. GPC 237. Gellid hefyd ei ddeall, o bosibl, yn ll. *gau* 'anwiredd', er mai'r ffurf *geuon* yn unig a nodir yn GPC 1385. Ceir amryw o bosibiliadau o ddadansoddi *maneuog* hefyd. Gall *man* fod yn *mân* 'bychan', *man* 'lle'

neu *man* ‘brycheuyn’, gw. GPC 2336–7. Ymddengys mai’r ail elfen yw *euog* ‘beius’. Fodd bynnag, gellid hefyd ei chysylltu â’r gair *au* a grybwyllwyd eisoes, ac â’r geiriau *euad*, *euod* ac *euon* a restrir yn GPC 1256. Math ar glefyd neu lyngyr a geir ar afu defaid yw pob un o’r rhain, a byddai cyfeiriadau o’r fath yn cyd-fynd â llau. 18, 80 a 123. Ymhellach, ceir *euan* yn G 495 fel eg. ac iddo’r ystyr ‘ysgrech, gwaedd’, cf. yr elfen *au* a welir yn *cyfrau* ll. 45 (ond gw. CLlH 212). Nid yw unrhyw un o’r awgrymiadau uchod, fodd bynnag, yn foddhaol iawn. Cf. hefyd y disgrifiad o’r *Madawc corunawc* gan yr Ustus Llwyd fel un *minllym manllaes*, gw. Dafydd H. Evans, YB xvii (1990), 70 (ll. 4).

31 **Cynwrig** Y trydydd aelod o osgordd Madog. Mae’n debyg mai’r un ydyw â thad Cadwgawn, gw. llau. 35–6.

**goddeulam** Dyma’r unig enghraifft o’r gair hwn. Dilynir G 544 a’i ddeall yn gyfansoddair o *goddau* ‘perwyl, amcan’ a *llam* ‘naid, ffawd’.

35 **Cadwgawn** Mab Cynwrig, gw. ll. 36, a’r pedwerydd aelod o osgordd Madog, gw. ymhellach y nodyn cefndir uchod.

**rhefog** Sef ‘rhwymyn plethedig, rhaff, cordyn’. Byddai darllen *rhenog* ‘urddasol, bonheddig’ yn well ar gyfer y gynghanedd, ond nid felly ar gyfer yr ystyr.

36 **terrig** Naill ai a. yn golygu ‘garw, gwyllt, ffyrnig’ neu e. yn golygu ‘baw’, gw. EANC 197.

**torrog** Efallai y dylid rhoi iddo’r ystyr ‘beichiog’ o ystyried ll. 40.

37 **Ceimiad cain dyfiad, cyndifiog grefydd** Llsgr. B *keimyat kayn dyuyat kyndinya6c creuyd*. Ymddengys fod gwall ar gynghanedd y ll. hon fel y saif yn y llsgr., ac y dylid dilyn awgrym G 244 d.g. *kyndiuyawc* a darllen un ai *dyuyat kyndiuya6c* neu *dynyat kyndinyawc*. Os y cyntaf sy’n gywir, yna fe geir yr unig enghraifft o *cyndifiog*. Awgryma G 244 yn betrus yr ystyr ‘ffyrnig’ iddo gan ei gysylltu â *difiog* ‘gwancus, rheibus’, cf. ll. 41; ychwanegir yr ystyr ‘creulon’ yn GPC 982. Os yr ail sy’n gywir, ceir *cyndiniog*, sef, mae’n debyg, ffurf ar *cyndyniog* ‘cadarn, cyndyn, ystyfnig’, gw. G 245. Yr awgrym cyntaf a dderbynnir yma, ond o ddewis yr ail, gellid aralleirio, ‘Arwr o dyniad gwych, ystyfnig ei grefydd’.

38 **meddydd feiddiog** Yng Nghyfreithiau Hywel Dda y *meddydd* oedd y swyddog a oedd yn gyfrifol am wirodydd y llys; ond cymerir mai ‘meddwyn’ yw ystyr y gair yma (gw. GPC 2400). Gall *feiddiog* fod yn ffurf dreigledig *beiddiog* neu *meiddiog*; rhoddir yr ystyr ‘beiddiol, heriol, eofn’ i’r cyntaf yn G 54, gan nodi’r enghraifft hon. Nid yw *meiddiog* yn cael ei restru yn GPC 2408, ond o’i gysylltu â *maidd* ‘*whey*’ ceid yr ystyr ‘yfwr maidd’ a fyddai’n addas iawn yma. Yr oedd

dilorni yr hyn a yfid gan eu gwrthrychau yn gyffredin ymysg y beirdd a ganai gerddi dychan, cf. GDG[3] 62 (21.57) *Gwirawd o waddawd a weddai—i'r pryf.*

39 **corfau** Ar *corf*, naill ai eb. 'bwa cyfrwy' neu eg. 'colofn, post, cynheiliad', gw. G 164 d.g. *kor*(*y*)*f*. Yn yr ail ystyr yr oedd ganddo le amlwg yn nisgrifiad Cyfraith Hywel o drefn y llys, gw. GMWL 77 d.g. *corof*.

**tew** Ystyr *tew* yn y cyswllt hwn yw 'niferus, amrywiol' neu efallai 'yn peri braster'.

**tafodiog—ieithwleb** Yn ôl Cyfraith Hywel Dda, cynrychiolydd cyfreithiol oedd y tafodiog. Un rheswm dros ddefnyddio tafodiog fyddai fod nam lleferydd ar un o'r pledwyr, gw. WLW 217–18. Felly, dichon fod cyhuddo tafodiog o fod yn lafoeriog yn sarhad arbennig gan ei fod yn tanseilio un o'r rhesymau am ei fodolaeth.

41 **troednoeth** Defnyddir *troednoeth* yn ffigurol am Frawd Llwyd o'r Urdd Ffransisgaidd, cf. GIG 153 (XXXIV.17) *Llwdn troednoeth* mewn dychan i'r Brawd Llwyd. Yr oedd tai'r brodyr Ffransisgaidd yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Llan-faes ym Môn yn y cyfnod hwn, gw. David Knowles a R. Neville Hadcock, *Medieval Religious Houses, England and Wales* (second ed., London, 1971), 222, 224, 226. Gw. hefyd y nodyn cefndir uchod.

42 **annoeth** Mae'n bosibl mai *anoeth*, sef 'rhyfedd, anodd', yw hwn, gw. G 30, 31.

**corunog** Gall mai cyfeiriad at siâp y pen sydd yma, ond gwell fyddai ystyr G 167 a GPC 567, sef 'â'i gorun wedi eillio' oherwydd aelodaeth o urdd grefyddol, yn enwedig o'i gymharu â 'troednoeth' uchod. Cf. *Madawc corunawc* yn Dafydd H. Evans, YB xvii (1990), 70 (ll. 1).

43 **pymed** Ffurf Cym.C. ar 'pumed', gw. GMW 47.

44 **Maredudd** Y pumed aelod o osgordd Madog a'r olaf i gael ei enwi. Ni wyddys dim amdano.

**safngloch** Un ai 'a cheg ar ffurf cloch', neu 'a sŵn fel cloch yn dod o'i enau'.

**cleirch** Benthyciad yw *cleirch* o'r Wydd. *cléireach*, sef H.Wydd. *clérech* 'clerigwr', ond nid oes ystyr grefyddol iddo yn y Gymraeg, gw. GPC 496. Cymerir mai treiglad meddal mewn cyfosodiad a geir yma.

45 **Cyfrau gwrddolau garwddoliog—wacson** Rhestrir *garwddoliog* yn betrus gan G 523 d.g. *garw*, ond ni chynigir ystyr. Yn hytrach, ar sail y gair *carw* yn ll. 47, awgrymir y dylid darllen *kyfreu / gwr doleu garw dolyawc wacson* neu *k. gwrδoleu g. δolyawc w*. O dderbyn yr ail, ymddengys mai bôn y gair *doliog* yw'r *dôl* 'tro, dolen' a geir yn elfen gyntaf *dolystain* 'cryniad neu grychiad llais', gw. GPC 1075, ac felly cynigir yn betrus mai ystyr *garwddoliog* yw 'garw a chrychleisiol'.

46 **un o ddisgyblon** O ystyried y cyfeiriadau at farddoniaeth yn y gerdd hon, dichon fod y ll. hon yn awgrymu bod Madog yn athro barddol. Byddai pencerdd yn aml yn teithio ynghyd â gosgordd o'i ddisgyblion neu gyn-ddisgyblion, gw. Dafydd Jenkins yn YB xiv (1988), 36–7. Ond efallai y dylid deall *disgyblon* yn y cyswllt hwn yn gyfeiriad sarhaus at gymdeithion Madog mewn cywair tebyg i'r defnydd difrïol o'r S. '*disciples*'.

48 **Llanhuadain** Llsgr. B *llann y hadein*, sef Llawhaden yng nghantref Daugleddau yn ne sir Benfro. Ar yr enw, gw. B.G. Charles, *The Place-Names of Pembrokeshire* (Aberystwyth, 1992), 420. Yr oedd y castell yno yn gartref i esgobion Tyddewi, gw. GLGC 212 (93.39), 568. Dyma le arall, o bosibl, yr ymwelodd Madog a'i osgordd ag ef.

50 **hualog** Dyry GPC 1905 yr ystyron 'a hual(au), llyffethair neu droedog arno, llyffetheiriog, wedi ei gadwyno, gefynedig; ?torchog', ac mae'n debyg mai'r ystyr ddifrïol iddo sydd yn y ll. hon, ond cf. GIG 195–6.

51 **pwy'r** Sef 'pwy yw'r' neu 'beth yw'r'. Gw. WG 289, GMW 74–5n1, a cf. llau. 57, 64.

52 **clawr** Ceir trafodaeth ar y ll. hon a ll. 87 gan Nicolas Jacobs yn *Hispano-Gallo-Brittonica*, ed. J. Eska (Cardiff, 1995), 71–2. Awgrymir yno y gall *clawr* olygu 'gwahanglwyfus'—cf. uchod 13.6n—er mai gwell yma fyddai ystyr gyffredin y gair.

53 **crwth** Hen offeryn a genid â bwa, a defnyddir y gair yn ffigurol am unrhyw beth tebyg ei ffurf i'r offeryn, sef crwn a boliog. Ond efallai mai'r ystyr lythrennol iddo sydd yma, gw. G 181 a GPC 616.

**talmithr** Dilynir DGG[2] sy'n rhoddi iddo'r ystyr 'creulon, gerwin', cf.GLlLl 11.52, ac *ib.n* lle ceir trafodaeth ar y ffurf a'i hystyron; gellid hefyd iddi'r ystyron 'parod, ebrwydd, disyfyd' neu 'ryfeddol, syfrdanol' yma, cf. GDG[3] 484–5 a GBF 24.49n (Llygad Gŵr)

54 **teimlwydd** Fe'i rhestrir yn G 732 d.g. *gwŷδ*, sef 'pren, coeden, coed'. Yr elfen gyntaf yw bôn y f. *teimlaf* a ddefnyddid yn yr ystyr 'trin', gw. GGl[2] 183 (LXIX.26), 347. Felly deellir *teimlwydd* yn a. 'yn trin pren'.

**gwaedog** Mae'n debyg mai'r a. 'gwaedlyd, llawn gwaed' yw hwn, ond dylid hefyd ystyried yr e. yn golygu 'coluddyn, monochen, selsigen', G 600.

57 **mapglaf** Yn ôl traddodiad, yr oedd gan Lywarch Hen fab o'r e. *Mapclaf*, gw. CLlH 173–4 a gall mai e.pers. ydyw yma hefyd.

60 Mae'n debyg mai ystyr rywiol sydd i'r ll. hon.

61 **odidog** Ffurf gysefin yr a.; datblygiad diweddarach yw *godidog*, gw. GPC 1421 d.g. *godidog*, GIG 289, a Treigladau 459.

62 **cyrbwyll** Y ffurf gynharaf ar y gair; datblygiad diweddarach yw *crybwyll*, gw. G 263 a GPC 618.

63 **nid oedd deg** Am y treiglad meddal ar ôl *nid oedd*, gw. Treigladau 304.

65 **cyfarthfws** Fe'i rhestrir yn betrus yn G 203 fel cyfuniad o *cyfarth* a *mws*, a. yn golygu 'heb fod yn ffres, drewllyd' a gw. GPC 2512 d.g. *mws*[1] am enghreifftiau pellach o'r gair am gi neu lwynog. Cf. hefyd isod ll. 94n.

**madws** Hon yw'r unig enghraifft yn GPC 2302 d.g. *madws*[3] 'llwynog, cadno'. Awgrymir yno y dylid ei chysylltu â'r e.p. *Madws*, gw. W Surnames 158, ac os felly, diau fod yma chwarae ar enw Madog.

67 **gwlaeth** Rhestrir *gwlaeth* yn betrus yn G 608 d.g. *gwalaeth* '?tristaodd, pruddhaodd, gwnaeth yn drist', ond diau mai GPC 1760 sy'n gywir wrth ddeall y ffurf yn amrywiad ar *gwylaeth* 'letys', er na restrir yr enghraifft hon yno.

**eisingrug** Yn llythrennol 'tomen o eisin', ond yn ffigurol 'gweniaith ddisylwedd, sothach', gw. GPC 1199.

68 **beiriog** Nis rhestrir yn GPC 270 a'r enghraifft hon yw'r unig un yn G 54. Rhoddir yno yr ystyr '?milain, ffyrnig, cas', ond awgrymir hefyd y gellid cysylltu'r gair â *barrus* neu *barr* 'pen, blaen, brig' a'r Wydd. *barrach* '*bushy*, *hairy*'.

69 **muded** Cymerir mai ffurf 3 un.grch. y f. *mudo* sydd yma. Yr ystyr fwyaf tebygol yw 'peri symud o un lle i'r llall', gw. GPC 2499 d.g. *mudaf*[1]. Ceir ystyr arall bosibl, sef 'gwneud yn fud', yn GGH 11 (3.47) *Astudiaist*, *mudaist min*, gw. GPC 2500 d.g. *mudaf*[2]. Byddai hwn hefyd yn gweddu yn y fan hon, yn enwedig o ystyried ll. 46.

71 **cywhynnent** Amrywiad deheuol, mae'n debyg, ar *cychwynnent*, sef ffurf 3 ll.grch. y f. *cychwynnaf*, gw. G 195.

72 **glan Aeron** Cf. uchod 1.14n.

**ceinion** Rhestrir yr enghraifft hon yn G 124 d.g. *cein*, a'i deall i olygu 'dillynion, pobl a phethau heirdd, tlysau'. Rhoddir yno ystyr arall bosibl, sef 'y ddiod gyntaf a ddygid i'r neuadd', ac a oedd yn arwydd o barch at y sawl a'i derbyniai.

75 **cyrdd** Fe'i ceir yn ffurf l. gan G 133 d.g. *cerdd*, ond nodir yno hefyd y posibilrwydd ei fod yn ll. ar *cordd*, sef 'mintai, torf, teulu'. Ceir y ffurf *cerddau* yn ll. *cerdd* yn ll. 97, ond dichon fod y ddwy ffurf yn cael eu harfer gan yr un bardd. Mae'r dehongliad yn dibynnu ar *argae*, sydd hefyd yn amwys ei ystyr, gw. isod.

**argae** Gair ac iddo nifer o ystyron cysylltiedig, e.e. 'caeadle', 'amddiffyn', 'nawdd', 'noddwr', gw. G 39 a GPC 196.

**lle y mae** Cywesgir er mwyn hyd y ll., cf. uchod ll. 27n.

**mynog** Gwell deall *mynog* yn a. yn hytrach nag yn eg. yn golygu ‘arglwydd’, gw. GPC 2538.

76 **Cymyrredd a medd a meirch dosog** Cf. GCBM i, 21.8 *Kymyrret a met a meirch crychraỽn*.

**dosog** Cyfeiriad naill ai at yr ewyn o amgylch cegau’r ceffylau neu at y chwys ar eu crwyn, gw. G 388 a GPC 1079.

77 **rhygedog—naint** Ceir yr un cyfuniad yn R. Wallis Evans, ‘Caniadau Rhys Fardd neu’r Bardd Bach o Ystum Llwynarth’, LlCy viii (1964–5), 77 (ll. 122). Deellir *rhygedog* yn gyfuniad o *rhyged* (‘rhodd fawr’ neu ‘hael’) a’r terfyniad ansoddeiriol *-og*. Am *rhyged*, cf. GBF Atodiad i gerdd 40, (‘helaethiad a llurguniad’ cynnar o un o gerddi Gruffudd ab yr Ynad Coch), ll. 19 *Gwir wared iôr rhyged rhwydd*.

79 **cythrudd neud rhybudd** Ar y gystrawen goddrych + *neud* + dibeniad, gw. J.E.C. Williams, ‘MLW *neu*, *neut* as Copula’, *Celtica*, xi (1976), 281.

**am bawr** Darllenir *ambawr* ‘porfa’ yn G 21 a GPC 81, ond fe’i deellir yma fel dau air ar wahân ‘ynglŷn â phorfa’.

80 **llawr** Gall hwn hefyd olygu ‘mynwent, bedd’, neu ‘ceimiad, arwr’, gw. GPC 2118.

82 **nenbren** Darn o bren a gysylltai drawstiau’r neuadd, gw. Iorwerth C. Peate, *The Welsh House*: *A Study in Folk Culture* (Liverpool, 1944), 51. Nid yw’n gwbl glir beth yw ergyd y gair hwn yma, ond ymddengys fod y bardd yn y ll. hon a’r ll. nesaf yn cymharu ystumiau Madog â gwahanol elfennau o bensaernïaeth neuadd. Ceir *nenbren*, *colofn* a *caerog* oll mewn cyd-destun negyddol, er mai fel trosiadau am gynheiliaid neu arglwyddi y digwyddant yn gyffredin yng ngwaith y Gogynfeirdd, gw. T.J. Morgan, ‘Trosiad y Golofn’, YB x (1977), 94–105.

83 **rhag gorofn** Llsgr. B *rac corofyn*. Dilynir awgrym G 571 d.g. *gorof*(*y*)*n* fod y llsgr. yn dangos calediad (*rac c*. < *rac g*.).

**caerog** Sef ‘*ribbed*, *brocaded*’ neu, yn ôl awgrym petrus G 96, ‘caerog, yn berchen caerau’. Cf. GO 331 (LXIV.9) *Howel lais vchel*, *â’i sachav kaerog* (cerdd ddychan). Derbynnir cynnig G *l.c.* yma, a’i ddeall yn golygu ‘amddiffynedig fel caer’. Mae’r ll. felly yn bwrw sen ar Fadog am ei fod yn ofni colli llond sach o ogfaen, gw. y nodyn cefndir uchod. Ond dichon fod *caerog* yn air mwys bwriadol.

84 **grwn** Sef ‘cefn neu drum o dir, tir (neu nifer o gwysi) rhwng dau rych’, gw. G 594 a GPC 1538. Awgryma G yn betrus y gall mai ffurf dreigledig ar *crwn* sydd yma, ond gwell yw derbyn yr ystyr amaethyddol, yn enwedig o ystyried y cyfeiriadau at *talar* yn ll. 10 a’r *aratgordd* yn ll.70.

87 **corod** Rhoddir yn betrus yr ystyr 'alaethus, trychinebus, afrywiog' i'r gair hwn yn G 166. Awgryma GPC 564, hefyd yn betrus, a chan ddyfynnu'r ll. hon a ll. 89 isod yn unig, y dylid priodoli'r ystyr 'anghymharus, anghymesur' iddo, ac yn sicr mae hynny'n gweddu o ran cyd-destun.

89 **ffysgiad** Gellir hefyd ei ddeall yn eg. 'rhuthrwr, ymosodwr; rhuthr ymosod' yn ogystal ag yn a., gw. G 517 a cf. uchod 18.5.

91 **gair** Cymerir mai 'gair o glod' yw'r ystyr yma.

93 **cyrrwm** Gall hefyd fod yn a. ac iddo'r ystyr 'cam, crwm'.

94 **traetur** Benthyciad o'r S. *traitor*, gw. EEW 166.

**mesur mysog** Derbynnir awgrym petrus GPC 2543 mai a. o'r bôn *mws* yw *mysog*, cf. uchod ll. 65n. Cf. hefyd R 1355.34–5 *y darre uyssa6c vessur lunya6* (y Prydydd Breuan).

97 Cf. ll. 2n uchod.

98 **fy amodau** Sef 'cytundeb, cynghrair, cyfamod' neu 'teler, ymrwymiad, addewid', gw. G 24 a GPC 97. Yr oedd ystyr benodol gyfreithiol iddo hefyd, gw. WLW 190. Dichon mai cyfeiriad ydyw hwn at asgwrn y gynnen rhwng Llywelyn Ddu a Madog. Gellid cywasgu'n *f'amodau* er hyd y ll.

100 **Pedr** Yr apostol Pedr, deiliad allweddau'r nef, neu'n ffigurol am y Pab, ei ddilynydd, cf. GIG 170 (XXXVIII.13), 374.

101 **cledr** 'Ffon, llath, post; ffyn, clwyd, dellt, rhwyll; cynheiliad (ffigurol)' yn ôl G 144. (Ni cheir enghraifft o *cledr* yn yr ystyr 'cledr y llaw' tan yr 16g. yn ôl tystiolaeth GPC 493.)

103 **ni medr** Nid oedd rheidrwydd i ffurfiau berfol ag *m* gysefin dreiglo'n feddal ar ôl *ni*, gw. Treigladau 355–7 a J. Morris-Jones: CD 229. Gw. hefyd uchod 4.62n.

105 **heb lin tëyrn** Oherwydd pwysigrwydd perthyn i deulu o fri yng Nghymru'r Oesoedd Canol, yr oedd dilorni llinach yn ffordd gyffredin o sarhau dyn, cf. *gwaed isel* ll. 136.

107 **ŵyll** 'Drychiolaeth, ysbryd, tylluan', gw. I. Williams, 'Lexicographical Notes', B i (1921–3), 228–34.

**erddyrn—caletgrin** Ffurf l. ar *arddwrn* yw *erddyrn*, gw. G 37 a GPC 189. Cf. hefyd GLGC 467 (215.31) *i wŷdd ac i grydd*, *i grach—eu herddyrn* mewn dychan i wŷr Caer.

108 **tân llewyrn** Sef 'tân llwynog' neu *ignis fatuus*, gw. YEPWC 169 (38.18), 291.

112 **sothachled** Naill ai amrywiad ar *sothachlyd* (gw. GPC 593 d.g. *creulyd* ar ddatblygiad ffurfiau yn diweddu â -*led* a -*lyd*) neu gyfuniad o *sothach* a *lled*.

113 **hefr** Ffurf ar *hyfr*, benthyciad o'r H.S. *hæfr*, neu'r H. Norwyeg *hafr*, gw. GPC 1960, 'bwch gafr (yn enwedig un wedi ei ysbaddu)'.

114 **creudwyll** Derbynnir awgrym G 174 d.g. *creu*[2] mai 'twyll gwaedlyd' yw'r ystyr, ond awgrymir yno hefyd y gellid cydio'r ffurf wrth *creu*[1] 'cwt, cut, twlc' neu *creu*[3] 'crau (nodwydd, bwyall, ac yml.)'.

**o gred** Awgrymir yn G 170 d.g. *cret*[1] y dylid cydio *o gred* wrth *hwnt hyntied* y ll. flaenorol, ond cymerir yma ei fod yn ddibynnol ar *creudwyll*.

115 **rhyglfab** Llsgr. B *Regyluab* sy'n ymddangos yn gyfuniad o *rhegl* a *mab*. Yr unig enghraifft arall o'r elfen gyntaf a ganfuwyd yw R 1360.19–20 *regylwern y g6m uffern geu* (Dafydd y Coed). Yn ACDC 304, 596, rhoddir i *rhegyl* yr ystyr '*accursed*, *condemned*' o'i gysylltu â'r f. *rhegi*. Ond rhaid gwrthod hynny, ac yn niffyg unrhyw beth gwell, awgrymir bod yma ffurf amrywiol (?orgraffyddol) ar *rhyglfab*, a chysylltir *rhygl* â'r f. *rhyglyddu* 'haeddu', &c. Fodd bynnag, tywyll yw tarddiad *rhyglyddu*, a dylid, o bosibl, gysylltu'r ferf honno o ran tarddiad â'r f. gyfystyr *derllyddu*.

117 **tynewyn** Ffurf ar *tenewyn* 'ystlys'.

119 **tir daered** Sef 'tir a dyled gyfreithiol arno', gw. GPC 878 a WLW 198. Cf. *dyledog* ll. 73.

120 **llugenydd** Llsgr. B *llu genyd*. Awgryma G 131 yn betrus d.g. *kenyδ* y dylid darllen *llugenyδ* yma, sef 'gwneuthurwr a gwerthwr arfwisgoedd'. (Ni restrir yr enghraifft hon yn GPC 2221, lle daw'r enghraifft gynharaf o'r 15g.) Efallai fod ystyr ddifrïol iddo, cf. *eurych* 'gof meteloedd gwerthfawr' neu 'tincer', gw. GPC 1261. Posibilrwydd arall yw mai e. lle ydyw yma a byddai hynny'n addas yn y cyd-destun. Yng Nghasgliad Llysnewydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, cyfeirir ar ddiwedd y 18g. a dechrau'r 19g. at *Trefilan*, *Betws Leiky and Llygenidd*, gw. D. Ifans, 'A Preliminary Schedule of the Llysnewydd Deeds and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1974), 67.

121 **tywyll** Diweddiad lleddf sydd i'r gair hwn i odli â *rhwyll* a *gorffwyll*, gw. J. Morris-Jones: CD 241, 242.

125 **lletffed** Llsgr. B *lletued* sy'n awgrymu'r ynganiad 'lledfed', ond mae'r ffurf amrywiol *lletffed* yma'n well o ran y gynghanedd. Am amryfal ffurfiau'r gair, gw. GPC 2163.

127 **cilged** Unig enghraifft. Dilynir G 140 a GPC 480 a'i ddeall yn e. 'rhodd gil dwrn'.

133 **rhain** Sef 'syth, marwsyth', gw. CLlH 133–4.

136 **gwaed isel** Cf. uchod ll. 105n.

**gwawd eisin** Cf. uchod ll. 67n.

138 **ysgothsestr** Cyfuniad o *ysgoth* 'ysgarthiad' a *sestr* 'llestr', benthyciad o'r S. *sester* 'llestr ar gyfer hylif neu ddiod', gw. OED[2] d.g. Nis nodir yn EEW.

**blinglestr** Derbynnir awgrym petrus G 58 mai 'blingwr, crafwr' yw'r ystyr a'i fod yn gyfuniad o *bling*, bôn y f. *blingo* 'digroeni', a *llestr* (gw. GPC 2159 d.g. *llestr*[1]).

139 **cablfais** Cyfuniad o *cabl* a *bais*, ond nid yw'n glir beth yn union yw ergyd yr ail elfen, gw. GPC 250.

**cwblfin** Naill ai e. 'llonaid safn', a. 'yn llenwi genau', neu a. 'llwyr finiog', gw. G 189.

**rhyfaw** Cyfuniad o'r geiryn cryfhaol *rhy-* a'r a. *baw* 'bawlyd'.

141 **cysgadur** Nid yw'n e. yma, yn hytrach, a. 'ynghwsg, yn cysgu, cysglyd', gw. G 266.

**gefel melin** Ni wyddys yn union beth yw ergyd y ll. hon.

143 **hygur gegin** Llsgr. B *hygur gegir*. Nid yw'r ffurf a geir yn y llsgr. yn cynnal odl yr englyn, felly diwygiwyd yn *hygur gegin*. Y gair cyntaf yw *hygur* 'poenus, gofidus; yn curo, yn taro', gw. GPC 1966. Yr ail yw *cegin*, a'r ystyron mwyaf addas a geir yn GPC 449 yw *cegin*[2] 'cnocell y coed, sgrech y coed' a *cegin*[3] 'cefn, trum'. Awgryma G 122 yn betrus yr ystyr 'blew', ond ymddengys mai enghreifftiau o *cegin*[3] sy'n sail i'r awgrym hwn. Yr ystyr 'cefn, trum' a dderbynnir yma, ond byddai 'cnocell y coed' hefyd yn addas, yn enwedig o'i gymharu â ll. 67.

150 **coes ceiliog** Cf. GDG[3] 61 (21.28) *Coes gwylan craig* mewn dychan i Rys Meigen.

# *Mynegai*


**a: a'i** 18.25n
**adeiliad** 18.8n
**am** 19.79n
**amod: amodau** 19.98n
**anddiferiog** 19.81
**anffodiog** 19.70
**annoeth** 19.42n
**any** 19.14n
**ar** 18.3n
**aratgordd** 19.70
**arddwrn: erddyrn** 19.107n
**argae** 19.75n
**arial** 19.11
**aros** 18.31n
**asgellog** 19.20n
**awenydd** 19.92
**baniar** 19.9
**beiriog** 19.68n
**blinglestr** 19.138n
**bod: ydiw** 19.9 **mae** 19.75n **bydd** 18.40n **oedd** 19.63n **bo** 19.27n
**boly** 19.18
**brad** 18.37
**bradog** 19.7, 96
**breuol** 18.34
**brysiad** 18.7n
**bwyd: bwydau** 19.39
**cabl** 18.19, 19.5, 23n
**cablbryn** 19.13
**cablfais** 19.139n
**cachraeadr: cachreeidr** 19.18n
**cadwgi** 19.56
**cadwynog** 19.40
**caddug** 19.68
**caentach** 19.8
**caerog** 19.83n
**cafn** 19.15, 30n
**cain** 19.37n **ceinion** 19.72n
**caletgrin** 19.107n
**callodr** 19.20n
**car** 19.16n
**carplodr** 19.20n
**casgabl** 19.142
**cedolblas** 18.25
**cefnbant** 19.41
**cefnrhwd** 19.15
**cegin** 19.143n
**cenglad** 19.59
**ceidwad** 19.23n
**ceiliog** 19.67, 150n
**ceillboeth** 19.42
**ceimiad** 19.37n **ceimiaid** 19.12
**cên** 18.9
**ceneddl** 18.15n
**ceniad** 19.4
**cerdin** gw. **pren cerdin**
**cerdd: cerddau** 19.97 **cyrdd** 19.75n
**cerddawr** 18.35
**cerddwriaeth** 19.67
**ci** 19.20n, 146
**cilged** 19.127n
**cinhynnog** 19.19
**cinnin** 19.146
**ciwed** 18.2, 32
**clawr** 19.52n, 87
**cledr** 19.101n
**cleirch** 19.44n
**cnawtgraf** 19.58
**cnoi: cny** 18.6n
**coes** 19.20n, 146, 150n
**coliog** 19.22
**corf: corfau** 19.39n
**corod** 19.87n

**corunog** 19.42n
**corwg** 19.87
**cramennog** 19.16
**cred** 19.114n
**crefydd** 19.21n, 37n
**creinionog** 19.84
**creudwyll** 19.114n
**cribog** 19.17n
**croesgoliog** 19.150
**crwth** 19.53n
**crybach** 19.17n
**cuchiog** 19.91
**cularch** 19.85
**culgarw** 19.127
**cuniad** 18.15
**curdost** 19.137
**cwbl** 18.19, 19.23n
**cwblfin** 19.139n
**cwyn: cwynau** 19.30n
**cychwyn: cywhynnent** 19.71n
**cydeced** 18.31n
**cyfarch: cyfarchaf** 19.1n
**cyfarthfws** 19.65n
**cyfeb** 19.40
**cyfrau** 19.45n
**cyfrtur** 19.93
**cyngladur** 19.94, 128
**cyllestrig** 19.35
**cymrefial** 19.11n
**cymurth** 19.132
**cymyrredd** 19.76n
**cyndifiog** 19.37n
**cynired** 19.49
**cynnal:cynnail** 18.38
**cynnydd** 19.2, 22n, 77
**cyrbwyll** 19.62n
**cyriog** 19.6
**cyrpus** 19.19n
**cyrrwm** 19.93n
**cysellt** 19.149
**cysgadur** 19.141n
**cysteg** 19.63
**cyswyn** 19.147
**cythraul** 19.32 **cythreulaid** 19.11
**cythrudd** 19.79n
**chweddl** 18.15n
**chwrychiog** 19.51
**chwydalen: chwydail** 19.21n
**daddl: daddleuau** 19.29n
**daered** 19.119n
**dead** 18.10n **dyad** 19.23n
**defnydd** 19.2n, 97
**dehir** 18.10n
**deifnog** 19.2n, 97
**dibrid** 19.105
**dieithr** 18.18
**difiog** 19.41
**difonedd** 19.134
**digog** 19.63
**dilwyth** 19.10n
**diog** 19.23n
**disgybl: disgyblon** 19.46n
**dosog** 19.76n
**dyad** gw. **dead**
**Dyddbrawd** 19.96
**dygiad** 18.16
**edn: ednaint** 19.78
**egfaenbwn** 19.83
**egfaenfwrdd** 19.13n
**eisin** 19.136n
**eisingrug** 19.67n
**etewyn** 19.13
**eurllestr: eurllestri** 18.24
**fy** 19.98n
**fflodiadwisg** 19.129
**ffrystiad** 18.17
**ffysgiad** 18.5, 19.89n
**gadael: gadent** 19.71
**gagog** 19.32, 56, 109
**gagogledr** 19.102
**gair** 19.91n
**garwddoliog** 19.45n
**garwfron** 19.125
**gefel** 19.66, 141n
**geirior** 18.22n
**gelfin** 19.131

**girad** 18.35
**glehed** 19.63, 128
**gleisiad** 18.12
**gochwith** 19.91
**godineb** 19.40
**goddeulam** 19.31n
**gogoeglestr** 19.102
**goleuad** 18.1n
**golidiog** 19.85
**gorddyfnu: gorddyfnais** 18.11
**gorofn** 19.83n
**goruthr** 18.35
**grwn** 19.84n
**gwacffrost** 19.122
**gwacson** 19.45n
**gwaed** 18.16, 19.136n
**gwaedog** 19.54n
**gwaethwaeth** 18.8n
**gwanafog** 19.60
**gwastad** 18.24n
**gwawd** 18.6n, 19.136n
**gwedy** 18.36n
**gweithffon** 19.149
**gweled: gwelai** 18.25n **gwelas** 18.25n
**gwenllys** 18.21n
**gwenwlad** 18.39
**gwenwynlorp: gwenwynlyrp** 19.104
**gwerinog** 19.74
**gwerog** 19.28
**gwersyll** 19.23n
**gwesti** 18.24n
**gwinllad** 18.21
**gwlaeth** 19.67n
**gwledd** 18.23n
**gwrddolau** 19.45n
**gwrneidr** 19.17n
**gwŷd** 18.20, 19.54
**gwythiënnog** 19.58
**haearn: hëyrn** 19.104
**hael** 18.40n
**hagrgogail** 19.143
**halog** 19.53
**heb** 19.105n
**heddiw** 19.9
**hefr** 19.113n
**hercyn** 19.59
**horog** 19.52
**hoywbarch** 19.86
**hualog** 19.50n
**hudol** 18.34
**hudoliaeth** 18.8
**huddyglyd** 19.53
**hwntan** 18.3n
**hydomog** 19.12n
**hyddewog** 19.9n
**hyfrwnt** 19.113
**hygur** 19.143n
**hyntio: hyntied** 19.113
**'i** 18.8n (yn cyfuno ag **o**), 18.25n (yn cyfuno ag **a**)
**i: i'm** 19.1n
**ieithwleb** 19.39n
**isel** 19.136n
**llawr** 19.80n
**lle** 18.40n, 19.27n, 75n
**lled** 19.43
**lletffed** 19.125n
**llewyrn** 19.108n
**llin** 19.105n
**llugenydd** 19.120n
**llwydiwd** 19.15n
**llwytffon** 19.125
**llwytgrwth** 19.108
**llwyth** 18.11n
**llyngerog** 19.18n, 80
**llywydd** 18.40n
**madws** 19.65n
**magiad** 18.11n
**maneuog** 19.30n
**mapglaf** 19.57n
**march: meirch** 19.76n
**medru: medr** 19.99, 103n, 111, 131
**medd** 18.23n, 19.76n

**meddydd** 19.38n
**meiddiog** 19.38n
**melin** 19.141n
**mesur:** 19.94n
**mineuau** 19.30n
**mudo: muded** 19.69n
**murnferw** 19.51
**murnffrwyn** 19.55
**murniad** 19.90
**mygu: mygais** 18.11n
**mynfaedd** 19.16n
**mynog** 19.3, 75n
**mynychffug** 19.68
**mysog** 19.94n
**na: nad** 18.36n
**Naf** 19.1n
**nant: naint** 19.77n
**nefoldad** 19.3
**neirthiad** 18.13
**nenbren** 19.82n
**neu: neud** 19.79n **neur** 19.100, 116, 124
**newynwaedd** 19.15
**ni** 19.103n **nid** 19.63n
**niferog** 19.1
**o** 19.70 **o'i** 18.8n **o'r** 19.21n
**odidog** 19.61n
**ongyr** 19.28
**paladr: peleidr** 19.18n
**parabl** 19.5
**pawr** 19.79n
**pensel** 18.16n
**piw** 19.22
**poerog** 19.5, 64
**porthiad** 18.33
**prelad** 18.38n
**pren cerdin** 19.137
**present** 18.7
**purawr** 19.80
**pwy: pwy'r** 19.51n, 57, 64
**pymed** 19.43n
**rhag** 19.83n
**rhain** 19.133n
**rhefog** 19.35n
**rhefr** 19.113
**rheibiog** 19.79
**rheiniad** 18.9
**rhên** 18.9
**rhent** 18.7
**rhewdwyll** 19.126
**rhiain: rhianedd** 19.75
**rhieni** 18.30n
**rhingyll** 19.24
**rhisg** 19.129, 145
**rhoddiad** 18.26
**rhost** 19.122, 137
**rhuad** 18.27
**rhugl** 19.115
**rhwygnerth** 19.33
**rhwyll** 19.62
**rhwystrbwyll** 19.114
**rhybudd** 19.79
**rhyfaw** 19.139n
**rhygedog** 19.77n
**rhyglfab** 19.115n
**rhygnog** 19.33
**rhyngog** 19.24n, 99, 103, 111, 131
**rhyleuog** 19.62
**rhynewynog** 19.92
**safngloch** 19.44n
**sallodr** 19.19n
**sawdd** 19.25
**seithradd** 18.38n
**soddi: sodded** 19.116
**sothachled** 19.112n
**swyddog** 19.25n
**swyf** 19.52
**sythfodog** 19.57
**tadwys** 19.61
**taeog** 19.13
**tafarn: tefyrn** 19.103
**tafodiog** 19.39n
**tafotfflam** 19.32
**talar** 19.10n
**talmithr** 19.53n
**tân** 19.108n

**tariandan** 18.28
**teg** 19.63n
**teimlwydd** 19.54n
**terrig** 19.36n
**tew** 19.39n
**tëyrn** 19.105n
**tir** 19.119n
**tiriondad** 18.28
**torrog** 19.36n
**traean: traeanau** 19.25n
**traetur** 19.94n
**trefad** 18.31
**tremig** 19.31
**treyn** 19.17n
**tristgorn** 19.129
**troad** 18.4
**troednoeth** 19.41n
**troedog** 19.29
**trostan** 19.127
**trumog** 19.31, 93
**trwyn** 19.17n
**tulluan** 19.5n
**tuthiog** 19.8
**twthach** 19.8n
**tyfiad** 19.37n
**tyllwan** 19.60
**tynewyn** 19.117n
**tywyll** 19.121n
**un** 19.14, 46n
**ungair** 19.28
**ŵyll** 19.107n
**wyth** 19.10n
**y** 19.27n, 75n
**ymdro** 19.27
**ymodwrdd** 19.14n
**ysgaw** 19.33
**ysgothsestr** 19.138n
**ysgyfarnog** 19.90

*Enwau personol*


**Cadfor** 18.11n
**Cadwgawn … cythreulfab Cynwrig** 19.35–6
**Cynwrig** 19.31n (a gw. **Cadwgawn**)
**Dofydd** 19.1
**Duw** 19.4
**Gruffudd … Fychan** 18.27–8n
**Gwilym** 18.14n
**Hywel**[1] 18.16n
**Hywel**[2] 19.115, 135
**Iosedd Grach** 19.8n
**Llywelyn** 18.13n
**Madog** 19.14n, 46, 69, 98, 99, 103, 111, 131, 142 **Madog fab Hywel** 19.65
**Maredudd** 19.44n
**Pedr** 19.100n


*Enwau lleoedd*


**Aeron** 19.72n
**Cilgerran** 19.6n
**Llanhuadain** 19.48n
**Trefynor** 18.22n

# *Llawysgrifau*

*Mae nifer o'r llawysgrifau isod yn cynnwys sawl llaw; ni nodir ond y llaw(iau) a fu'n gyfrifol am godi'r cerddi sydd yn y gyfrol hon.*

*Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain*

**BL Add 14869 [= BM 19]**: John Davies, Mallwyd, 1617, gw. RWM ii, 957–70.

**BL Add 14891**: William Rowland, *c*. 1694 (*ex inf*. Mr Daniel Huws): gw. CAMBM 1844, 24–5.

**BL Add 15001**: John Walters, *a*. 1792: gw. *ib*. 61–2.

**BL Add 15046**: Roger Morris, 1593, gw. GP xiv; R.I.D. Jones, 'Astudiaeth feirniadol o Peniarth 168B (tt. $41^{a}$–$126^{b}$)' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1954), xxxvi–xxxvii.

**BL Add 31055 [= BM 32]**: Thomas Wiliems, *c*. 1594–6: gw. RWM ii, 1053–65.

*Llawysgrif yn Llyfrgell Sir De Morgannwg, Caerdydd*

**Card 2.634 [= Hafod 24]**: John Jones, Gellilyfdy, 1605, gw. RWM ii, 334–5; GP xiv.

*Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**CM 14**: Lewis Morris, 1726, RWM ii, 903–8.

*Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen*

**J 111, 'Llyfr Coch Hergest' [= RWM 1]**: Hywel Fychan a 'Peniarth 32', c. 1400: gw. RWM ii, 1–29; G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', Cylchg LlGC xxi (1979–80), 246–56.

*Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**LlGC 1981B [= Pant 12]**: Evan Evans 'Ieuan Fardd', 1758, gw. RWM ii, 816; A. Lewis, 'Ieuan Fardd a'r Gwaith o Gyhoeddi Hen Lenyddiaeth Cymru', JWBS viii (1954–7), 130–1.

**LlGC 2691D 'Llyfr Pant Phillip'**: William Phylip, 17g. (*ex inf.* Mr Daniel Huws), gw. HMNLW i, 232–3.

**LlGC 3029B [= Mos 110]**: llaw gynnar Robert Vaughan (*ex inf.* Mr Daniel Huws), gw. RWM i, 23–6; GP xiv.

**LlGC 4973B**: John Davies o Fallwyd, c. 1631: gw. HMNLW ii, 59.

**LlGC 5274D [= Dingestow 1]**: llaw anh., 17g., gw. *ib*. 83.

**LlGC 6680B 'Llawysgrif Hendregadredd'**: amrywiol lawiau o haen III, *c*. 1325–50.

**LlGC 13132A**: Edward Williams 'Iolo Morganwg', 18/19g., gw. HMNLW iv, 421–2.

**LlGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1]**: Evan Evans 'Ieuan Fardd', gw. Rh.F. Roberts, 'A List of Manuscripts from the collection of Iolo Morganwg among the Family Papers presented by Mr. Iolo Aneurin Williams and Miss H. Ursula Williams, London, 1953–4' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1978).

*Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Llst 3**: llaw anh., 15g.: gw. RWM ii, 422–4; GP xiii.

**Llst 31**: William Maurice, 1662: gw. RWM ii, 473.

**Llst 122**: Wiliam Bodwrda, *c*. 1648, gw. RWM ii, 609–20; D. Ifans, 'Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1974), 384–98.

**Llst 147**: David Parry, *c*. 1700, gw. RWM ii, 726.

*Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Pen 117**: Siôn Cain, 17g.: gw. RWM i, 710–17.

**Pen 118**: Siôn Dafydd Rhys a'i gylch, *c*. 1600: gw. *ib*. 718–25.

**Pen 119**: William Jones, *c*. 1700: gw. *ib*. 726–30.

*Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Balliol, Rhydychen*

**Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LlGC 9048E]**: Siôn Prys o Aberhonddu, ail chwarter yr 16g.: gw. GP cx–cxi; E.D. Jones, 'Llyfr Amrywiaeth Syr Siôn Prys', *Brycheiniog*, viii (1962), 97–104; R.A.B. Mynors, *Catalogue of the Manuscripts of Balliol College Oxford* (Oxford, 1963), 349–51.

# *Mynegai i'r llinellau cyntaf*

*Td.*


Ban ymhoffwyf, nwyf nifer ....................152
C a U yn selu seilym ....................154
Cadarn wyd, ysgwyd esgudfrys—brwydrdwrdd ....................134
Can aethost, aerbost eurbar drafod,—hwnt....................160
Cleddfuan Ieuan, ieuang dirion—hael ....................105
Costes cun barddles, beirddlith ....................104
Cryf aberth yw nerth, nid yn aer—treiswyr ....................55
Cyfaillt grym ysym a sawdd—ei alon ....................26
Cyfaillt grym ysym, nis amheuir ....................23
Cyfarchaf i'm Naf, niferog—Ddofydd ....................178
Gwae fi, Arglwydd rhwydd, Rhwyf goleuad ....................175
Gwir, gwir, gwir meddir, gwir meddan'—y byd ....................158
Llyw gwrol breinol brenineiddaf ....................28
Mae ym gyfaillt grym, grymus mal Cai ....................101
Mefeddus mau ufyddoed ....................149
Nid gloywach caen dyfrflaen dôl ....................144
O arffed myged mygr fawrgrair—y daw ....................141
Tri maib taer yn aer, yn erfai—cymynynt....................138
Tomas fab Rhotbert, rhwyd pâr—gwersyllig ....................123

# *Mynegai i'r beirdd*

*Cerdd*

Dafydd ap Gwilym........................................................................4
Dienw.....................................................................8–14, 16, 17
Hillyn ....................................................................................5–7
Llywelyn Brydydd Hoddnant ....................................................1–3
Llywelyn Ddu ab y Pastard.....................................................18, 19
Owain.......................................................................................15

# *Mynegai i'r noddwyr a'r gwrthrychau*

*Cerdd*


Angharad.....15
Ellylw ferch Maredudd o Drefynor.....3
Gweirfyl.....12
Gwenllïan.....12
Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron.....1, 2
Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron.....5–7, 16
Lleucu Llwyd.....15
Madog ap Hywel a'i osgordd.....19
Mair.....11
Mefeddus.....13
Rhys ap Gruffudd.....9
Tomas ap Rhotbert.....8